# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 11/11/2015

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol
1. Questions to the Minister for Natural Resources

2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
2. Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

3. Datganiad: Cyfarfodydd i Drafod y Diwydiant Dur
3. Statement: Steel Industry Meetings

4. Cynnig i Gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2016-17
4. Motion to Approve the Assembly Commission's Budget 2016-17

5. Dadl Ceidwadwyr Cymru: Pobl Hŷn
5. Welsh Conservatives Debate: Older People

6. Dadl Ceidwadwyr Cymru: Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog
6. Welsh Conservatives Debate: Armed Forces Veterans

7. Dadl Plaid Cymru: Costau Gofal Plant
4. Plaid Cymru Debate: Childcare Costs

8. Cyfnod Pleidleisio
8. Voting Time

9. Dadl Fer: Heintiau sy'n Cael eu Dal mewn Ysbytai: yr Heriau a'r Atebion
9. Short Debate: Hospital-acquired Infections: the Challenges and Solutions


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:29 gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:29 with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

13:29

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Order, order. The National Assembly is in session.

Trefn, trefn. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

## 1. Questions to the Minister for Natural Resources

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

13:29

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 1, questions to the Minister for Natural Resources. Question 1, Mohammad Asghar.

Eitem 1, cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol. Cwestiwn 1, Mohammad Asghar.

#### Lles Anifeiliaid

#### Animal Welfare

13:29

### Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Thank you, Deputy Presiding Officer, and good afternoon, Minister.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, a phrynhawn da, Weinidog.

*1. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella lles anifeiliaid yng Nghymru cyn etholiad nesaf y Cynulliad? OAQ(4)0365(NR)*

*1. What action will the Welsh Government take to improve animal welfare in Wales before the next Assembly elections? OAQ(4)0365(NR)*

13:29 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

The Wales animal health and welfare framework, 'Achieving High Standards Together', sets out the approach we are taking to achieve continued and lasting improvements in standards of animal health and welfare.

Mae fframwaith iechyd a lles anifeiliaid Cymru, 'Cyrraedd Safonau Uchel gyda'n Gilydd', yn nodi'r dull rydym yn ei weithredu i sicrhau gwelliannau parhaus a pharhaol yn safonau iechyd a lles anifeiliaid.

13:30 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Thank you for that reply, Minister. The Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals' community animal welfare footprint scheme is the only award scheme across England and Wales that rewards good practice from local authorities, and other organisations, in relation to animal welfare, with the aim of achieving higher standards. Will the Minister join me in congratulating the RSPCA on this scheme, and will she encourage all local authorities to adopt the measures taken by award winners, to improve animal welfare standards in Wales, please?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Cynllun ôl troed lles anifeiliaid cymunedol y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid yw'r unig gynllun gwobrwyo yng Nghymru a Lloegr sy'n gwobrwyo arfer da gan awdurdodau lleol, a sefydliadau eraill, mewn perthynas â lles anifeiliaid, gyda'r nod o gyflawni safonau uwch. A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i longyfarch yr RSPCA ar y cynllun hwn, ac a wnaiff hi annog pob awdurdod lleol i fabwysiadu'r camau a gymerwyd gan enillwyr y gwobrau i wella safonau lles anifeiliaid yng Nghymru, os gwelwch yn dda?

13:30 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I'd be more than happy to join you, both in recognising the work that the RSPCA does, but, particularly, the work it does in conjunction with local authorities in Wales as well. And, obviously, I'd like to encourage all local authorities to replicate the kind of good work that we celebrated very recently here in the Assembly, in the awards ceremony that the RSPCA hosted, and to congratulate the winners of those awards as well. Thank you.

Gwnaf, byddai'n bleser gennyf gydnabod y gwaith y mae'r RSPCA yn ei wneud, ac yn arbennig y gwaith y mae'n ei wneud ar y cyd ag awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd. Ac yn amlwg, hoffwn annog pob awdurdod lleol i ailadrodd y math o waith da rydym wedi'i ddathlu'n ddiweddar iawn yma yn y Cynulliad, yn y seremoni wobrwyo a gynhaliwyd gan yr RSPCA, ac i longyfarch enillwyr y gwobrau hynny hefyd. Diolch.

13:31 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's very pleasing that the Government will introduce the compulsory microchipping of dogs from April 2016, which I think is great progress and is very important for the welfare of dogs. Does the Minister think that the improved traceability of dogs will deter irresponsible dog ownership?

Mae'n dda iawn fod y Llywodraeth yn cyflwyno proses orfodol ar gyfer microsglodynnu cŵn o fis Ebrill 2016 ymlaen, ac rwy'n credu ei fod yn ddatblygiad gwych ac yn bwysig iawn er lles cŵn. A yw'r Gweinidog yn credu y bydd gwella'r gallu i olrhain cŵn yn atal perchnogaeth anghyfrifol ar gŵn?

13:31 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I certainly hope that that will be one of the benefits of the new microchipping regulations, which will be coming into force on 1 April of next year, and I'm very grateful for the cross-party support that the microchipping regulations have achieved. That's just one part of a suite of measures that we're undertaking in order to improve dog welfare in Wales. Of course, we had the dog breeding regulations last year, and I've asked the RSPCA to undertake a piece of work for me, looking at, specifically, responsible dog ownership, and I'm looking forward to receiving that report shortly and considering any recommendations that might come from it.

Rwy'n sicr yn gobeithio mai dyna fydd un o fanteision y rheoliadau microsglodynnu newydd a ddaw i rym ar 1 Ebrill y flwyddyn nesaf, ac rwy'n ddiolchgar iawn am y gefnogaeth drawsbleidiol i'r rheoliadau microsglodynnu. Un rhan yn unig yw honno o gyfres o gamau sydd gennym ar y gweill i wella lles cŵn yng Nghymru. Wrth gwrs, cawsom y rheoliadau bridio cŵn y llynedd, ac rwyf wedi gofyn i'r RSPCA wneud gwaith ar fy rhan i edrych yn benodol ar berchnogaeth gyfrifol ar gŵn ac rwy'n edrych ymlaen at dderbyn yr adroddiad hwnnw cyn bo hir ac ystyried unrhyw argymhellion a allai ddeillio ohono.

13:32 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I very much welcomed your statement to the RSPCA event last week, that you would consider bringing forward legislation to ban the use of wild animals in circuses in Wales. I think that is very welcome. However, as an interim measure, in England, whilst they are considering the options, they've tightened up the licensing and regulation regimes. And I wonder whether you would consider doing that, in advance of any work you're doing on bringing forward legislation, which will, obviously, take a period of time.

Weinidog, rwy'n croesawu eich datganiad i'r digwyddiad RSPCA yr wythnos diwethaf yn dweud y byddech yn ystyried cyflwyno deddfwriaeth i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru. Credaf fod hynny'n rhywbeth i'w groesawu'n fawr. Fodd bynnag, yn Lloegr, fel mesur dros dro tra'u bod yn ystyried y dewisiadau, maent wedi tynhau'r trefniadau trwyddedu a rheoleiddio. Tybed a fyddech chi'n ystyried gwneud hynny cyn y gwaith rydych yn ei wneud ar gyflwyno deddfwriaeth, a fydd, yn amlwg, yn cymryd cyfnod o amser.

13:32 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, our priority had originally been to take forward primary legislation in partnership with the UK Government, because they have promised that they would legislate on an England-and-Wales basis for many years now, and I received again those reassurances at the Royal Welsh Show from the Secretary of State. But, unfortunately, there appears that there's no appetite for action on the part of England, which is why I've decided to take forward a piece of work looking at the evidence upon which we could bring forward legislation, were that to be possible.

Wel, ein blaenoriaeth yn wreiddiol oedd cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU, am eu bod wedi addo ers nifer o flynyddoedd bellach y byddent yn deddfu ar sail Cymru a Lloegr, a chefais sicrwydd unwaith eto ynglŷn â hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn y Sioe Frenhinol. Ond yn anffodus, mae'n ymddangos nad oes unrhyw awydd i weithredu ar ran Lloegr, a dyna pam y penderfynais symud ymlaen â gwaith i edrych ar y dystiolaeth y gallem ei defnyddio i gyflwyno deddfwriaeth, pe bai hynny'n bosibl.

The reason that we haven't previously taken action on the specific issue of licensing and regulation in Wales is because, although circuses do visit Wales occasionally, there are none actually based in Wales. There are three based in England, which is why they have a larger suite of measures in relation to this there.

Ni roddwyd camau ar waith ar fater penodol trwyddedu a rheoleiddio yng Nghymru o'r blaen am nad oes syrcas wedi'i lleoli yma mewn gwirionedd, er bod syrcasau'n ymweld â Chymru o bryd i'w gilydd. Mae tair syrcas wedi'u lleoli yn Lloegr, a dyna pam y mae ganddynt gyfres ehangach o fesurau mewn perthynas â hyn yno.

13:33 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, following on from the last supplementary question, I, of course, have written to you about the circus with performing live animals in Tir-y-berth in my constituency, which left just a few days ago. Many of my constituents are, of course, very angry that their area is being used for performance by live wild animals in the twenty-first century. I've informed them of my support for the measures that you're planning to take. So, could you clarify exactly what measures the Welsh Government is considering and how they will publicise these to people in Wales?

Ddirprwy Weinidog, yn dilyn y cwestiwn atodol diwethaf, rwyf wedi ysgrifennu atoch ynglŷn â'r syrcas sy'n cynnwys anifeiliaid byw yn perfformio yn Nhir-y-berth yn fy etholaeth, a adawodd ychydig ddyddiau'n ôl. Mae llawer o fy etholwyr, wrth gwrs, yn ddig iawn fod eu hardal yn cael ei defnyddio i ddangos anifeiliaid gwyllt byw yn perfformio yn yr unfed ganrif ar hugain. Rwyf wedi sôn wrthynt am fy nghefnogaeth i'r camau rydych yn bwriadu eu cymryd. Felly, a allech chi egluro'n union pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a sut y byddant yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhain i bobl yng Nghymru?

13:33 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Certainly. I, personally, and the Welsh Government, share your concerns and those of your constituents regarding the use of wild animals in circuses because we believe there is no place for the use of wild animals in circuses. As I say, I've asked for a piece of work to be commissioned, which looks at the available evidence base upon which we could consider introducing legislation, and that will help us determine the way forward and consider the kind of shape that that legislation might take. But it's also worth noting as well that we're in discussion with the Welsh Local Government Association, the Animal and Plant Health Agency, the police and local authorities individually to map out a cohesive, Wales-wide approach to monitoring public safety and animal health and welfare standards in travelling circuses.

Yn sicr. Rwyf fi, yn bersonol, a Llywodraeth Cymru, yn rhannu eich pryderon a phryderon eich etholwyr ynghylch y defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau gan ein bod yn credu nad oes lle i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau. Fel y dywedais, rwyf wedi gofyn i waith gael ei gomisiynu er mwyn edrych ar y sylfaen dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer ystyried cyflwyno deddfwriaeth, a bydd hynny'n ein helpu i benderfynu ar y ffordd ymlaen ac ystyried y math o ffurf a allai fod i'r ddeddfwriaeth honno. Ond mae hefyd yn werth nodi ein bod yn trafod gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, yr heddlu ac awdurdodau lleol yn unigol i lunio dull cydlynol drwy Gymru gyfan o fonitro diogelwch y cyhoedd a safonau iechyd a lles anifeiliaid mewn syrcasau teithiol.

## Ffermydd sydd wedi'u Heintio â TB

## Farms Infected with TB

13:34 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am newidiadau i'r gyfundrefn o gyhoeddi gwybodaeth am ffermydd sydd wedi'u heintio â TB? OAQ(4)0380(NR)[W]*

*2. Will the Minister make a statement on changes to the process of publishing information about farms infected with TB? OAQ(4)0380(NR)[W]*

13:34 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Earlier this year, I consulted on a change to our legislation to enable us to publish information on herds affected with TB. The majority of respondents agreed with the proposal, and, as a consequence, my officials are making arrangements for TB information to be available on a website from next year.

Yn gynharach eleni, ymgynghorais ar newid i'n deddfwriaeth er mwyn ein galluogi i gyhoeddi gwybodaeth am fuchesi a effeithwyd gan TB. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, ac o ganlyniad, mae fy swyddogion yn gwneud trefniadau i sicrhau bod gwybodaeth TB ar gael ar wefan o'r flwyddyn nesaf ymlaen.

13:35 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r rheolau, wrth gwrs, wedi newid ers 2 Tachwedd. Roedd eich datganiad ysgrifenedig chi ar 18 Medi yn dweud y byddai datganiad llawn yn cael ei wneud yn ystod mis Tachwedd. A ydych chi felly yn gallu cadarnhau y prynhawn yma a fydd yna ddatganiad llawn cyn diwedd y mis ynglŷn â beth yn union fydd yn cael ei gyhoeddi ar y gwefannau, os ydych chi'n dweud eich bod chi'n mynd i weithredu'r cynllun newydd yma o flwyddyn nesaf ymlaen?

The rules, of course, have changed since 2 November. Your written statement on 18 September said that there would be a full statement made during November. Can you therefore confirm this afternoon that there will be a full statement before the end of the month on exactly what will be published on these websites, if you are saying that the new scheme will be implemented from next year onwards?

13:35 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I'm happy to make that information available to you, but the information that will be provided on the website will include the location of the herd on a map, the date the herd lost its officially TB free status, and the date that the herd regained its OTF status if applicable. So, names, addresses, county parish holding numbers, for example, won't be available on that map, and it won't be possible to zoom in on that map to a street-level view. The website that it will be published on will be at www.ibtb.co.uk, which is the map that is being currently used by the Department for Environment, Food and Rural Affairs and has been used since July of this year.

Ydw, rwy'n hapus i sicrhau y bydd y wybodaeth honno ar gael i chi, ond bydd y wybodaeth a gaiff ei darparu ar y wefan yn cynnwys lleoliad y fuches ar fap, y dyddiad y collodd y fuches ei statws heb TB swyddogol, a'r dyddiad yr adferwyd ei statws heb TB swyddogol os yn berthnasol. Felly, ni fydd enwau, cyfeiriadau, rhifau daliadau, er enghraifft, ar gael ar y map hwnnw, ac ni fydd yn bosibl chwyddo'r map i lefel stryd. Enw'r wefan y cyhoeddir y wybodaeth hon arni yw www.ibtb.co.uk, sef y map sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac a ddefnyddiwyd ers mis Gorffennaf eleni.

13:36 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, the TB dashboard is clearly to be welcomed, but, certainly in my view, there is a need for more regular information rather than just annual reviews. If there is a perception that the information is outdated and historic in any way, the value of the dashboard may be brought into question. Can you confirm today that the information that is published will be regularly updated?

Ddirprwy Weinidog, mae'r dangosfwrdd TB yn amlwg i'w groesawu, ond, yn sicr yn fy marn i, mae angen gwybodaeth yn fwy rheolaidd yn hytrach nag adolygiadau blynyddol yn unig. Os ceir canfyddiad fod y wybodaeth wedi dyddio ac nad yw'n gyfredol mewn unrhyw ffordd, efallai y bydd cwestiynau'n codi ynglŷn â gwerth y dangosfwrdd. A allwch chi gadarnhau heddiw y bydd y wybodaeth a gyhoeddir yn cael ei diweddaru'n rheolaidd?

13:36 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. The TB dashboard is an exciting new development in terms of our ability to communicate with farmers, but not only farmers; with hauliers, vets, the people who work in the auction business and so on. So, it's a really important piece of information that people can use, and the TB dashboard will be updated quarterly with new information.

Gallaf. Mae'r dangosfwrdd TB yn ddatblygiad newydd cyffrous o ran ein gallu i gyfathrebu â ffermwyr, ond nid ffermwyr yn unig; gyda chludwyr, milfeddygon, y bobl sy'n gweithio yn y busnes arwerthu ac yn y blaen. Felly, mae'n wybodaeth bwysig iawn y gall pobl ei defnyddio, a bydd y dangosfwrdd TB yn cael ei ddiweddaru i gynnwys gwybodaeth newydd bob chwarter.

13:37 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is no doubt, of course, that when a farm goes down with TB, then the family involved are, very often, emotionally and economically vulnerable. And there will be people who will look to take advantage of their situation. We know, as well, in England, that there are reports of intimidation and harassment by certain groups of individuals that have experienced TB on their farms. Do you not recognise that there is a risk that publishing even maps in the form that you've outlined does carry a risk that certain individuals could be targeted by some people who might be less scrupulous?

Nid oes amheuaeth, wrth gwrs, pan fydd fferm yn dioddef o ganlyniad i achos o TB, mae'r teulu dan sylw yn aml iawn yn fregus yn emosiynol ac yn economaidd. A bydd rhai pobl yn ceisio manteisio ar eu sefyllfa. Rydym hefyd yn gwybod bod grwpiau penodol o unigolion yn Lloegr sydd wedi cael profiad o TB ar eu ffermydd yn adrodd am fygythiadau ac aflonyddwch. Onid ydych yn cydnabod y risg y bydd cyhoeddi mapiau hyd yn oed, yn y modd a amlinellwyd gennych, yn creu risg y gallai rhai unigolion gael eu targedu gan rai pobl lai cydwybodol o bosibl?

13:37 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have explored this particular issue with DEFRA, and they've informed us that, since their website went live in July of this year, feedback from stakeholders has been very positive. There have been no reports to DEFRA via authorities that the information on that website has been used to intimidate or harass people. I can tell you also that DEFRA's security team are regularly monitoring animal activist websites and farming websites to see if there are any reports of intimidation for cull-related activities over the border as a result of the information available on the map, and again, they've not highlighted any issues. But I am aware of the concerns raised by some stakeholders. For example, I met with the Farmers Union of Wales recently on this issue, and I will be raising the issue of a password-protected website with George Eustice when I meet him at the beginning of December.

Rydym wedi ymchwilio i'r mater penodol hwn gyda DEFRA, ac wedi cael ar ddeall ganddynt, ers cyhoeddi eu gwefan ym mis Gorffennaf eleni, fod yr adborth gan randdeiliaid wedi bod yn gadarnhaol iawn. Ni chyflwynwyd unrhyw adroddiadau i DEFRA drwy'r awdurdodau fod y wybodaeth ar y wefan honno wedi'i defnyddio i fygwth neu i aflonyddu ar bobl. Gallaf ddweud wrthych hefyd fod tîm diogelwch DEFRA yn monitro gwefannau ar actifyddion iechyd anifeiliaid a gwefannau ffermio yn rheolaidd i weld a oes unrhyw adroddiadau o fygwth mewn perthynas â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â difa dros y ffin o ganlyniad i'r wybodaeth sydd ar gael ar y map, ac unwaith eto, nid ydynt wedi tynnu sylw at unrhyw broblemau. Ond rwy'n ymwybodol o'r pryderon a grybwyllodd rhai rhanddeiliaid. Er enghraifft, cyfarfûm ag Undeb Amaethwyr Cymru yn ddiweddar i drafod y mater hwn, a byddaf yn trafod mater gwefan wedi'i diogelu â chyfrinair gyda George Eustice pan fyddaf yn ei gyfarfod ddechrau mis Rhagfyr.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:38 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call the party spokespeople to question the Minister, starting this week with the Welsh Conservatives. Janet Haworth.

Galwaf yn awr ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog, gan ddechrau yr wythnos hon gyda'r Ceidwadwyr Cymreig. Janet Haworth.

13:38 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Minister, we are entering a time of year when heavy rainfall is increasingly likely, and only this week we have seen flooding in the Conwy valley, again. What assurances can you provide that your Government has comprehensive plans in place to continue to improve the flood resilience in north Wales?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, rydym wedi cyrraedd adeg o'r flwyddyn pan fo glaw trwm yn fwyfwy tebygol, a'r wythnos hon rydym wedi gweld llifogydd yn nyffryn Conwy unwaith eto. Pa sicrwydd y gallwch ei roi fod gan eich Llywodraeth gynlluniau cynhwysfawr ar waith i barhau i wella'r gallu i wrthsefyll llifogydd yng ngogledd Cymru?

13:39 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

I thank the Member for her question. She may have seen in the news yesterday just one example of the investments we're making across Wales, particularly in north Wales, in Rhyl, in Ann Jones's constituency. It is a £15 million investment on flood defences, protecting 2,700 vulnerable properties in Rhyl, and we continue to do that across the whole of Wales and base that on a risk assessment basis.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Efallai ei bod wedi gweld, yn y newyddion ddoe, un enghraifft o'r buddsoddiadau rydym yn eu gwneud ledled Cymru, yn enwedig yn y gogledd, yn y Rhyl, yn etholaeth Ann Jones. Mae'n fuddsoddiad o £15 miliwn ar amddiffynfeydd rhag llifogydd, sy'n amddiffyn 2,700 o eiddo agored i niwed yn y Rhyl, ac rydym yn parhau i wneud hynny ar draws Cymru gyfan ac yn seilio hynny ar sail asesiadau risg.

13:39 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. I'd like to ask you what measures you are putting in place, along with local authorities, to ensure that drainage systems throughout north Wales are properly maintained and fit for purpose?

Diolch yn fawr, Weinidog. Hoffwn ofyn i chi pa fesurau rydych yn eu rhoi ar waith, gyda'r awdurdodau lleol, i sicrhau bod systemau draenio ledled gogledd Cymru yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol ac yn addas at y diben?

13:39 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is a suite of information that is shared across local authorities, Natural Resources Wales and Welsh Government in terms of managing flood defences, including seaward flood defences and those inland. We have seen some areas that have been victim to flash flooding because of blockages in drains from trees or other aspects. They are regularly monitored, and I am confident that NRW's flood-risk assessment plans are competent and able to meet the demand as we move forward.

Rhennir llawer o wybodaeth ar draws awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru o ran rheoli amddiffynfeydd rhag llifogydd, gan gynnwys amddiffynfeydd rhag llifogydd tua'r môr a'r rhai mewndirol. Rydym wedi gweld rhai ardaloedd sydd wedi dioddef llifogydd sydyn yn sgil coed yn blocio draeniau neu agweddau eraill. Maent yn cael eu monitro'n rheolaidd, ac rwy'n hyderus bod cynlluniau asesu risg llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gymwys ac yn gallu ateb y galw wrth i ni symud ymlaen.

13:40 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your concern, Minister. Over the last few years, I have seen evidence in towns in north Wales of drains blocked with plants and leaves and some even with trees starting to grow out of them. This debris can lead to local flooding as the excess water has nowhere to go, and that would include sewage as well. Would you agree that there is a role for your Government to ensure that local authorities and other relevant bodies have maintenance schedules that ensure that there are ongoing repairs and improvements to such an important part of our national infrastructure?

Diolch i chi am eich gofal, Weinidog. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rwyf wedi gweld tystiolaeth mewn trefi yng ngogledd Cymru o ddraeniau wedi'u blocio gan blanhigion a dail ac mae coed yn dechrau tyfu o rai ohonynt hyd yn oed. Gall y gweddillion deiliach hyn arwain at lifogydd lleol gan nad oes gan y dŵr ychwanegol unman i fynd, a byddai hynny'n cynnwys carthion hefyd. A fyddech chi'n cytuno bod gan eich Llywodraeth rôl i sicrhau bod trefniadau cynnal a chadw ar waith gan awdurdodau lleol a chyrff perthnasol eraill i wneud yn siŵr fod gwaith atgyweirio a gwella parhaus yn digwydd ar ran mor bwysig o'n seilwaith cenedlaethol?

13:41 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Local authorities do have a maintenance programme and so do NRW. I'm not sure that it's for Government to intervene at that level of operation. But if the Member would wish to write to me about where she has concerns about a particular local authority, I would be happy to look at that.

Mae gan awdurdodau lleol raglen gynnal a chadw ac yn y blaen, a Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd. Nid wyf yn siŵr mai lle'r Llywodraeth yw ymyrryd ar y lefel honno o weithredu. Ond os hoffai'r Aelod ysgrifennu ataf ynglŷn â'i phryderon ynghylch awdurdod lleol penodol, byddwn yn fodlon edrych ar hynny.

13:41 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that, Minister.

Diolch am hynny, Weinidog.

13:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Now the Plaid Cymru spokesperson, Llyr Gruffydd.

Yn awr, llefarydd Plaid Cymru, Llyr Gruffydd.

13:41 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Minister, I understand you'll be attending the climate conference in Paris at the end of this month and at the beginning of next month. In a written answer to me recently, you said that you were going there to try and secure the achievement of an ambitious global agreement on climate change, which I'm sure we would all subscribe to, but could you tell us what level of carbon reduction, in your view, would represent success?

Diolch. Weinidog, rwy'n deall y byddwch yn mynychu'r gynhadledd hinsawdd ym Mharis ddiwedd y mis hwn a dechrau'r mis nesaf. Mewn ateb ysgrifenedig i mi yn ddiweddar, fe ddywedoch eich bod yn mynd yno i geisio sicrhau cytundeb byd-eang uchelgeisiol ar y newid yn yr hinsawdd, ac rwy'n siŵr y byddem i gyd yn cymeradwyo hynny, ond a allech chi ddweud wrthym pa lefel o leihad carbon, yn eich barn chi, a fyddai'n arwydd o lwyddiant?

13:41

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think there's local success in terms of what we see in Wales presenting the Environment (Wales) Bill, in terms of the legislation that we're bringing forward. But there is also a collective responsibility. As you are aware, climate change doesn't respect political boundaries, and it's important that we get a collective global responsibility and commitment to making sure that we can continue with the changes, moving forward.

Rwy'n credu bod yna lwyddiant lleol yn sgil y ffaith fod Cymru wedi cyflwyno Bil yr Amgylchedd (Cymru), o ran y ddeddfwriaeth a gyflwynir gennym. Ond mae yna gydgyfrifoldeb hefyd. Fel y gwyddoch, nid yw'r newid yn yr hinsawdd yn parchu ffiniau gwleidyddol, ac mae'n bwysig fod gennym gydgyfrifoldeb a chydymrwymiad byd-eang i sicrhau y gallwn barhau â'r newidiadau wrth symud ymlaen.

I'm looking forward to working with my counterparts across the UK, and also across the rest of the globe, to secure climate change targets that we can all sign up to collectively to take us on the right trajectory, moving forward.

Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda fy nghymheiriaid ledled y DU, a gweddill y byd hefyd, i sicrhau targedau newid yn yr hinsawdd y gall pob un ohonom gytuno arnynt ar y cyd i'n harwain ar y trywydd cywir wrth symud ymlaen.

13:42

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Although you're not telling us what that target is. No doubt, you'll tell the 40,000 delegates— of which you'll be one—what it is when you get there, I imagine.

Er hynny, nid ydych yn dweud wrthym beth yw'r targed hwnnw. Heb amheuaeth, byddwch yn dweud wrth y 40,000 o gynadleddwyr—y byddwch chi'n un ohonynt—beth yw'r targed pan fyddwch yn cyrraedd yno, rwy'n dychmygu.

Wales, of course, saw a 5 per cent increase in all emissions in 2012 and we missed the annual target to cut emissions by 3 per cent. In fact, there was an increase of 3.3 per cent between 2011 and 2012. So, could you tell us what Wales is doing to practice what you will be preaching in Paris?

Yng Nghymru, wrth gwrs, gwelwyd cynnydd o 5 y cant yn yr holl allyriadau yn 2012 ac rydym wedi methu'r targed blynyddol i leihau allyriadau o 3 y cant. Yn wir, bu cynnydd o 3.3 y cant rhwng 2011 a 2012. Felly, a wnewch chi ddweud wrthym beth y mae Cymru yn ei wneud yn ymarferol i ategu eich pregeth ym Mharis?

13:42

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You'll be very aware of the ambitious pieces of legislation that we've taking forward: the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, and now the Environment (Wales) Bill, which you are heavily involved in. The drafting of that is part of the scrutiny process moving forward. I'm grateful to all parties that are investing a lot of time to make sure that we can create the right document for the future for Wales and make sure that our impact is limited in terms of having a negative effect on the environment.

Fe fyddwch yn ymwybodol iawn o'r ddeddfwriaeth uchelgeisiol rydym wedi'i chyflwyno: mae gennym Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Bil yr Amgylchedd (Cymru) bellach, y buoch yn ymwneud yn helaeth ag ef. Mae'r gwaith o ddrafftio hwnnw'n rhan o'r broses graffu wrth i ni symud ymlaen. Rwy'n ddiolchgar i bawb sy'n rhoi llawer o'u hamser i wneud yn siŵr y gallwn greu'r ddogfen gywir ar gyfer dyfodol yng Nghymru a sicrhau bod ein heffaith yn gyfyngedig o ran effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd.

I believe that, through the shaping of that Bill, we are bringing forward criteria that the Welsh Government will be subject to in terms of carbon budgeting, which is a very modern, progressive way of dealing with issues right at the heart and soul of Government.

Credaf ein bod, drwy lunio'r Bil hwnnw, yn cyflwyno meini prawf y bydd Llywodraeth Cymru yn ddarostyngedig iddynt o ran cyllidebu carbon, sy'n ffordd fodern a blaengar iawn o ymdrin â materion yn ganolog yn y Llywodraeth.

13:43 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your answer. It's clear to me that the level of response that's needed to meet the challenge that we face is not enough. I'm sure that we would all wish to do more. You've mentioned the targets that have been set in the Environment (Wales) Bill, which we welcome, but, of course, my question was about how we meet those targets. We know, for example, that we need an emissions reduction of 5.6 million tonnes of carbon dioxide equivalent by 2020 in the residential sector to meet our target, yet the much-lauded Nest and Arbed schemes, since 2007, have achieved just a 0.17 million tonnes of carbon dioxide equivalent reduction. So, could you tell us, Minister, what transformational action or initiative you will now be pursuing to ensure that we do actually meet those targets?

Diolch i chi am eich ateb. Mae'n amlwg i mi nad yw lefel yr ymateb sydd ei angen i ateb yr her sy'n ein hwynebu yn ddigon. Rwy'n siŵr y byddem i gyd yn dymuno gwneud mwy. Rydych wedi sôn am y targedau a bennwyd ym Mil yr Amgylchedd (Cymru), ac rydym yn croesawu hynny, ond wrth gwrs, roedd fy nghwestiwn yn ymwneud â sut rydym yn cyrraedd y targedau hynny. Rydym yn gwybod, er enghraifft, ein bod angen gostyngiad o 5.6 miliwn tunnell yn lefelau allyriadau carbon deuocsid erbyn 2020 yn y sector preswyl i gyrraedd ein targed, ac eto, ers 2007, nid yw cynlluniau Nyth ac Arbed, a ganmolwyd yn helaeth, ond wedi cyflawni 0.17 miliwn tunnell o ostyngiad yn lefelau carbon deuocsid. Felly, a allech ddweud wrthym, Weinidog, pa gamau neu fenter drawsnewidiol y byddwch yn mynd ar eu trywydd yn awr er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd y targedau hynny?

13:44 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Tackling the issue of climate change is just not one for Government—it has to be a partnership approach across the public and private sectors. I certainly believe that our Nest and Arbed programmes are very successful programmes in terms of turning communities and households around. So, I certainly don't look at those schemes as failing in their operation.

Nid mater ar gyfer y Llywodraeth yn unig yw mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd—mae'n rhaid iddo fod yn ddull partneriaeth ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat. Rwy'n sicr yn credu bod ein rhaglenni Nyth ac Arbed yn rhaglenni llwyddiannus iawn o ran gwella cymunedau a chartrefi. Felly, yn sicr nid wyf yn ystyried bod gweithrediad y cynlluniau hynny yn fethiant.

For me, the issue is in making sure that, collectively, we can bring together an approach to reduce carbon emissions. Part of the Environment (Wales) Bill that we're taking forward will be around an innovative procedure around carbon budgeting across Government, which will have an impact on our finances and on the public sector at large. We all have a responsibility to deal with this.

I mi, mae'n ymwneud â sicrhau ein bod, gyda'n gilydd, yn gallu creu dull o leihau allyriadau carbon. Bydd rhan o Fil yr Amgylchedd (Cymru) a gyflwynwn yn ymwneud â gweithdrefn arloesol ar gyfer cyllidebu carbon ar draws y Llywodraeth, a fydd yn effeithio ar ein cyllid ac ar y sector cyhoeddus yn gyffredinol. Mae gan bawb ohonom gyfrifoldeb i fynd i'r afael â hyn.

13:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And now the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, William Powell.

Ac yn awr, llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, William Powell.

13:45 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, given the devastating onslaught against the renewable energy sector being undertaken by the Department for Environment, Food and Rural Affairs, including the proposal to sanction the level of feed-in tariffs, particularly on solar, wind and hydro schemes, coupled with the Treasury's recently announced plan to remove tax relief incentives for community energy projects, what discussions have you had with representatives of the Westminster Government, and what assessment have you made of the impact that these will have on community energy schemes here in Wales?

Weinidog, o ystyried yr ymosodiad dinistriol ar y sector ynni adnewyddadwy gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig gan gynnwys y cynnig i sancsiynu lefel tariffau cyflenwi trydan, yn enwedig ar gyfer cynlluniau ynni solar, gwynt a dŵr, ynghyd â'r cynllun a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Trysorlys i gael gwared ar gymhellion gostyngiad treth ar gyfer prosiectau ynni cymunedol, pa drafodaethau a gawsoch gyda chynrychiolwyr Llywodraeth San Steffan, a pha asesiad a wnaethoch o effaith y rhain ar gynlluniau ynni cymunedol yma yng Nghymru?

13:45 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the very important question; I know the Member shares my approach to renewable energy and the positive effects that that can have for Wales. I have met with Ministers in the UK and I've also had lots of correspondence between the two parties to express our concern about the processes that they've taken forward in terms of reducing their feed-in tariffs and their whole approach to renewables, as compared to what we are doing here. I think what I'm trying to frame with the industry is that Wales is still open for business; there are things that we can mitigate regarding what's happening in the UK. There are things that we can do differently, and I'm looking at some more community energy schemes that we can facilitate as part of a programme going forward. But, I think what is of concern to me is that, while we have a small interest in the market in Wales, because of what's happening in England and the effects of the feed-in tariffs, businesses will move away from the UK. I think what we have to do is maintain a home-grown, effective renewable sector that can deliver for the people of Wales.

Diolch am y cwestiwn pwysig hwn; rwy'n gwybod bod yr Aelod yn rhannu fy agwedd tuag at ynni adnewyddadwy a'r effeithiau cadarnhaol y gallai eu sicrhau i Gymru. Rwyf wedi cyfarfod â Gweinidogion yn y DU ac rwyf hefyd wedi cael llawer o ohebiaeth rhwng y ddwy ochr i fynegi ein pryder am y prosesau y maent wedi'u cyflwyno o ran lleihau eu tariffau cyflenwi trydan a'u holl ymagwedd tuag at ynni adnewyddadwy, o'i gymharu â'r hyn a wnawn yma. Rwy'n credu mai'r hyn rwy'n ceisio ei gyfleu i'r diwydiant yw bod Cymru yn dal ar agor i fusnes; mae yna bethau y gallwn eu lliniaru o ran yr hyn sy'n digwydd yn y DU. Mae yna bethau y gallwn eu gwneud yn wahanol, ac rwy'n edrych ar fwy o gynlluniau ynni cymunedol y gallwn eu hyrwyddo fel rhan o raglen at y dyfodol. Ond er bod gennym ychydig o ddiddordeb yn y farchnad yng Nghymru, oherwydd yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr ac effeithiau'r tariffau cyflenwi trydan, rwy'n credu mai'r hyn sy'n peri pryder i mi yw y bydd busnesau yn symud oddi wrth y DU. Rwy'n credu mai'r hyn sydd angen i ni ei wneud yw cynnal sector ynni adnewyddadwy effeithiol yn y wlad hon sy'n gallu cyflawni ar gyfer pobl Cymru.

13:47 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to thank the Minister very much for that detailed response. The Welsh Government's continued commitment to investing in a follow-up scheme to Ynni'r Fro is certainly very welcome, but in order to safeguard the future of community energy, which I think we both hold dear, it seems to me essential to make optimal use of the available European funding, as well as seeking to adopt a more proactive approach to exploiting the community energy generation potential of the public estate. What specific measures are the Welsh Government undertaking to promote this agenda, which is important not only for our energy security, but also, as has been discussed earlier, for the future of the planet?

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r Gweinidog am ei ymateb manwl. Mae ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn cynllun dilynol i gynllun Ynni'r Fro yn sicr yn un i'w groesawu'n fawr, ond er mwyn diogelu dyfodol ynni cymunedol, ac rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn i'r ddau ohonom, mae'n ymddangos i mi ei bod yn hanfodol i ni wneud y defnydd gorau posibl o'r cyllid Ewropeaidd sydd ar gael, yn ogystal â cheisio mabwysiadu dull mwy rhagweithiol o ymelwa ar botensial cynhyrchu ynni cymunedol yr ystad gyhoeddus. Pa gamau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith i hyrwyddo'r agenda hon, sy'n bwysig, nid yn unig o ran ein diogelwch ynni, ond hefyd, fel y trafodwyd yn gynharach, o ran dyfodol y blaned?

13:47 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are many positives that we can take from—. Actually, the actions of the UK Government have prompted us to think more carefully about what options we have in Wales, and how we can deliver a better service. Also, alongside that, I've been talking to the finance Minister about the importance of what Europe brings to Wales and the opportunities that the finances bring alongside of that. I think that some of the projects that we are limited to, regarding the devolved nature of energy, are challenging, but I think some of the areas where we lack progress, such as on grid connection because of the grid profile, we can resolve with community energy schemes. That's why I'm in touch with the industry, with my officials, with other departments, to see if there is a Welsh solution to renewables.

Mae yna lawer o bethau cadarnhaol y gallwn eu cael o—. Mewn gwirionedd, mae camau gweithredu Llywodraeth y DU wedi ein hysgogi i feddwl yn fwy gofalus ynglŷn â pha ddewisiadau sydd gennym yng Nghymru, a sut y gallwn ddarparu gwasanaeth gwell. Hefyd, ochr yn ochr â hynny, rwyf wedi bod yn siarad â'r Gweinidog cyllid am bwysigrwydd yr hyn y mae Ewrop yn ei gynnig i Gymru a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil y cyllid ochr yn ochr â hynny. Credaf fod rhai o'r prosiectau rydym wedi ein cyfyngu iddynt oherwydd natur ddatganoledig ynni, yn heriol, ond rwy'n credu bod modd datrys rhai o'r meysydd lle nad ydym wedi gwneud llawer o gynnydd, megis cysylltiad grid oherwydd proffil y grid, drwy gynlluniau ynni cymunedol. Dyna pam rwy'n cysylltu â'r diwydiant, gyda fy swyddogion, gydag adrannau eraill, i weld a oes yna ateb Cymreig i ynni adnewyddadwy.

13:48 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you again, Minister, for that response. A further challenge that's faced by community energy developers here in Wales and, indeed, further afield, is that under current Ofgem rules it's not possible for community groups to sell the electricity that they produce to the local communities where they're located. Clearly, this is a very major hindrance to the development of community energy here in Wales. In order to make a more positive impact on energy security and fuel poverty at a local level, we need to address this. Minister, in what ways can the Welsh Government work to promote a more rational approach from Ofgem, thus securing for community energy schemes the right to sell electricity to their own communities?

Diolch i chi unwaith eto am eich ymateb, Weinidog. Her arall sy'n wynebu datblygwyr ynni cymunedol yma yng Nghymru, ac ymhellach i ffwrdd yn wir, yw nad yw'n bosibl, o dan y rheolau Ofgem presennol, i grwpiau cymunedol werthu'r trydan a gynhyrchant i'r cymunedau lleol lle y maent wedi'u lleoli. Yn amlwg, mae hyn yn rhwystr mawr iawn i'r gwaith o ddatblygu ynni cymunedol yma yng Nghymru. Er mwyn sicrhau effaith fwy cadarnhaol ar ddiogelu ffynonellau ynni a thlodi tanwydd ar lefel leol, mae angen i ni fynd i'r afael â hyn. Weinidog, ym mha ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru weithio i hyrwyddo agwedd fwy rhesymegol ar ran Ofgem, gan sicrhau'r hawl i gynlluniau ynni cymunedol werthu trydan i'w cymunedau eu hunain?

13:49 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think the Member is right to raise that issue. I think the Wales Bill provides us with an opportunity to look at regulating our issues in Wales for Wales, and I think energy should feature high up on that agenda. We shouldn't just walk away from the fact that the UK Government are pressing the levers that are making it more difficult for businesses and communities to operate. We can continue to move forward on this. It is something that I will take up with Jane Hutt in terms of the Treasury rules around community ability to sell back to the grid.

Rwy'n credu bod yr Aelod yn iawn i grybwyll y mater hwn. Mae Bil Cymru yn rhoi cyfle i ni ystyried rheoleiddio ein materion yng Nghymru ar gyfer Cymru, ac rwy'n credu y dylid cynnwys egni yn uchel ar yr agenda. Ni ddylem droi ein cefnau ar y ffaith fod Llywodraeth y DU yn pwyso ar y liferi sy'n ei gwneud yn anos i fusnesau a chymunedau weithredu. Gallwn barhau i symud ymlaen â hyn. Byddaf yn trafod y mater gyda Jane Hutt o ran rheolau'r Trysorlys ynglŷn â gallu cymunedau i werthu'n ôl i'r grid.

## Cefnogi Ffermwyr

## Support for Farmers

13:50 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau Llywodraeth Cymru i gefnogi ffermwyr? OAQ(4)0378(NR)*

*3. Will the Minister provide an update on Welsh Government policies to support farmers? OAQ(4)0378(NR)*

13:50 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The strategic framework for agriculture, which we're developing in partnership with NFU Cymru, the FUW and other partners, alongside our ambitious plans under the Welsh Government Rural Communities—Rural Development programme, including the sustainable production grant and Farming Connect, will help to put farmers on the best possible footing.

Bydd y fframwaith strategol ar gyfer amaethyddiaeth a ddatblygir gennym mewn partneriaeth ag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru a phartneriaid eraill, ochr yn ochr â'n cynlluniau uchelgeisiol dan raglen Cymunedau Gwledig—Rhaglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y grant cynhyrchu cynaliadwy a Cyswllt Ffermio, yn helpu i ddarparu'r sylfaen orau sy'n bosibl ar gyfer ffermwyr.

13:50 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Deputy Minister for that? I was going to ask you when you're going to make your statement on eradicating bovine TB, but I notice Aled Roberts beat me to that question earlier. Nonetheless, it is probably the No. 1 priority for farmers in my constituency and indeed across Wales.

A gaf fi ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am yr ymateb hwnnw? Roeddwn am ofyn i chi pryd y byddwch yn gwneud eich datganiad ar ddileu TB mewn gwartheg, ond sylwaf fod Aled Roberts wedi achub y blaen arnaf gyda'i gwestiwn yn gynharach. Serch hynny, mae'n debyg mai dyna yw prif flaenoriaeth ffermwyr yn fy etholaeth ac, yn wir, ledled Cymru.

I recently had discussions with farmers who were concerned that the current bovine TB eradication policy simply wasn't hitting the spot, with some badgers being vaccinated multiple times and others escaping vaccination altogether. Can we have that statement from you—that update from you—as soon as possible as to how you're dealing with this, and if the policy is not working effectively, will you undertake to review it?

Yn ddiweddar, cefais drafodaethau gyda ffermwyr a oedd yn pryderu nad oedd y polisi cyfredol ar gyfer dileu TB mewn gwartheg yn cyrraedd y nod, gyda rhai moch daear yn cael eu brechu sawl gwaith ac eraill yn dianc rhag brechiad yn gyfan gwbl. A gawn ni'r datganiad hwnnw gennych—y diweddariad hwnnw—cyn gynted ag y bo modd ynglŷn â sut rydych yn ymdrin â hyn, ac os nad yw'r polisi'n gweithio'n effeithiol, a fyddwch chi'n mynd ati i'w adolygu?

13:51

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I thank you for that question, but we do have a comprehensive programme in terms of dealing with TB in Wales, and the figures speak for themselves. The overall trend in new incidents and animal slaughter due to TB is broadly downwards. Between 2008 and 2014, there was a 29 per cent decrease in new incidents and a 44 per cent decrease in animals slaughtered. There was also a 51 per cent fall in the number of herds under restriction between 2008 and 2014. As of June of this year, close to 95 per cent of herds in Wales are TB free. So, it does go to show that our approach is actually working in Wales.

Diolch i chi am y cwestiwn, ond mae gennym raglen gynhwysfawr ar gyfer ymdrin â TB yng Nghymru, ac mae'r ffigurau'n siarad drostynt eu hunain. Mae'r duedd gyffredinol o ran achosion newydd a difa anifeiliaid o ganlyniad i TB yn gostwng yn gyffredinol. Rhwng 2008 a 2014, bu gostyngiad o 29 y cant yn nifer yr achosion newydd a gostyngiad o 44 y cant yn nifer yr anifeiliaid a laddwyd. Cafwyd gostyngiad o 51 y cant hefyd yn nifer y buchesi dan gyfyngiadau symud TB rhwng 2008 a 2014. Ers mis Mehefin eleni, mae statws heb TB gan bron i 95 y cant o fuchesi Cymru. Mae'r cyfan yn dangos bod ein dull o weithredu yn gweithio yng Nghymru mewn gwirionedd.

13:51

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, may I start by congratulating you and the Welsh Labour Government on the announcement of a 6 per cent wage increase for agricultural workers, a measure that was opposed by the Conservatives—fought tooth and nail by the Conservatives who always prefer the interests of wealthy landowners against the interests of agricultural workers? Minister, what difference will that announcement make to agricultural workers— some 13,000 of them in Wales—and what are the other benefits of the Act in respect of education and training? Do you agree with me that it is only the Welsh Labour Government that is actually standing up for the interests of rural workers?

Weinidog, a gaf fi ddechrau drwy eich llongyfarch chi a Llywodraeth Lafur Cymru ar gyhoeddi cynnydd o 6 y cant i gyflogau weithwyr amaethyddol, cam a wrthwynebwyd gan y Ceidwadwyr—fe'i gwrthwynebwyd i'r eithaf gan y Ceidwadwyr, sydd bob amser yn ffafrio lles tirfeddianwyr cyfoethog ar draul lles gweithwyr amaethyddol? Weinidog, pa wahaniaeth y bydd y cyhoeddiad yn ei wneud i weithwyr amaethyddol—ceir tua 13,000 ohonynt yng Nghymru—a beth yw manteision eraill y Ddeddf o ran addysg a hyfforddiant? A ydych yn cytuno mai Llywodraeth Lafur Cymru yn unig sy'n sefyll dros les gweithwyr gwledig?

13:52

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Absolutely. I thank you very much for that question. I was very pleased indeed to be able to make that announcement of a pay rise for low-paid farm workers in Wales today. That just goes to show that the Welsh Labour Government is on the side of working people, whatever field you're working in in Wales and regardless of whether you work in rural Wales or urban Wales.

Yn sicr. Rwy'n ddiolchgar iawn am y cwestiwn. Roeddwn yn falch iawn o allu gwneud y cyhoeddiad heddiw ar godiad cyflog i weithwyr fferm ar gyflogau isel yng Nghymru. Mae'n dangos bod Llywodraeth Lafur Cymru ar ochr y bobl sy'n gweithio, pa faes bynnag rydych yn gweithio ynddo yng Nghymru a pha un a ydych yn gweithio yng nghefn gwlad Cymru neu yn y Gymru drefol.

You're very right to draw attention to the different approach that we've adopted here in Wales, and there are good reasons why we've done so. A recent 'Farmers Guardian' survey found that 70 per cent of respondents in England regret the dissolution of the Agricultural Wages Board there, and that 30 per cent have seen their pay fall and that 30 per cent are considering leaving the industry. So, I think that just shows the different approach that we've taken here.

Rydych yn iawn i dynnu sylw at yr agwedd wahanol rydym wedi'i mabwysiadu yma yng Nghymru, ac mae rhesymau da pam ein bod wedi gwneud hynny. Canfu arolwg diweddar gan y 'Farmers Guardian' fod 70 y cant o'r ymatebwyr yn Lloegr yn gresynu at ddiddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yno, fod 30 y cant wedi gweld gostyngiad yn eu cyflog a bod 30 y cant yn ystyried gadael y diwydiant. Credaf fod hynny'n dangos yr agwedd wahanol a fabwysiadwyd gennym yma.

The announcement I made earlier equates to a 2 per cent year-on-year rise since the AWB made its last wages order. From 2016, the agricultural advisory panel for Wales, which I'm recruiting to at the moment, will be in place to provide Welsh Ministers with recommendations on wage setting in future, as well as encouraging new entrants into the sector and promoting opportunities for skills and training.

Mae'r cyhoeddiad a wneuthum yn gynharach yn cyfateb i gynnydd o 2 y cant o un flwyddyn i'r llall ers i'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol gyflwyno ei orchymyn cyflogau diwethaf. O 2016 ymlaen, bydd y panel cynghori amaethyddol dros Gymru rwy'n recriwtio ar ei gyfer ar hyn o bryd yn ei le ar gyfer darparu argymhellion i Weinidogion Cymru ar osod cyflogau yn y dyfodol, yn ogystal ag annog newydd-ddyfodiaid i'r sector a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer sgiliau a hyfforddiant.

13:53

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mi oeddwn i efo grŵp o ffermwyr ar fferm ym Mhont-rhydbont yn Ynys Môn yr wythnos ddiwethaf. Maen nhw'n dal, yn amlwg, yn siomedig iawn efo penderfyniad y Llywodraeth i dynnu 15 y cant llawn allan o'r taliadau uniongyrchol i ffermwyr, ond mae eu hamynedd nhw yn cael ei brofi mwy a mwy gan yr ansicrwydd ynglŷn â beth, rŵan, fydd yn digwydd i'r arian hwnnw, a sut y gallan nhw geisio elwa i'w busnesau nhw ar gyfer y diwydiant amaethyddol yng Nghymru o'r arian hwnnw. Pa bryd y cawn ni'r manylion? Pa bryd y cawn ni fanylion rhaglen nesaf yr RDP?

I was with a group of farmers on a farm in Pont-rhydbont on Anglesey last week. They are still clearly very disappointed with the Government's decision to withdraw the full 15 per cent from the direct payments to farmers, but their patience is being tested increasingly by the uncertainty as to what now will happen to that funding, and how they can ensure that their businesses benefit in terms of the agricultural industry in Wales from that funding. When will we get those details? When will we get the details of the next RDP programme?

13:54

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, only farmers are able to apply for around 70 per cent of the rural development programme anyway—well, farmers, foresters and food businesses are able to apply for 70 per cent of the rural development programme, and they can actually apply for almost everything else in the rural development programme as well. Even the basic appreciation of maths will show that that's far more than the 15 per cent that was transferred from pillar 1 to pillar 2. Many of the programmes are already open. We've got expressions of interest already closed, now, for the sustainable production grant, for the food business grant. Glastir has been ongoing throughout the programme as well. So, all of the details are available on the Welsh Government's website in terms of the programmes that are currently open.

Wel, ffermwyr yn unig a all gyflwyno cais am oddeutu 70 y cant o'r rhaglen datblygu gwledig, beth bynnag—wel, gall ffermwyr, coedwigwyr a busnesau bwyd wneud cais am 70 y cant o'r rhaglen datblygu gwledig, a gallant wneud cais am bron bopeth arall yn y rhaglen datblygu gwledig hefyd. Bydd hyd yn oed dealltwriaeth sylfaenol o fathemateg yn dangos bod hynny'n llawer uwch na'r 15 y cant a drosglwyddwyd o golofn 1 i golofn 2. Mae llawer o'r rhaglenni ar agor yn barod. Mae'r cyfnod ar gyfer datgan diddordeb yn y grant cynhyrchu cynaliadwy, ar gyfer y grant busnesau bwyd, wedi cau erbyn hyn. Mae Glastir wedi parhau drwy gydol y rhaglen hefyd. Felly, mae'r holl fanylion i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru o ran y rhaglenni sydd ar agor ar hyn o bryd.

I am awaiting, now, the comprehensive spending review, of course, so that I can decide what windows I can open in future, as well, because that clearly is going to have implications for Welsh Government.

Rwy'n aros am yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn awr, wrth gwrs, er mwyn i mi allu penderfynu pa gyfleoedd y gallaf eu cynnig yn y dyfodol hefyd gan y bydd goblygiadau'n deillio o hynny i Lywodraeth Cymru, yn amlwg.

13:55

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Minister, I'm sure you'll be aware that there is considerable cash-flow pressure in the industry at present, with commodity prices, for instance, for both lamb and milk, being so low and costs rising. Many constituents in the farming industry actually rely on working tax credits and child tax credits, and very many of them are very concerned about the potential impact on their family incomes of changes in Westminster. Despite reassurances about the living wage, after all, you can't argue with an auctioneer at the market that you need to have more for your livestock. What representations are you making on behalf of the farming industry and young farming families to the Westminster Government about the impact that child tax credits and working tax credits will have on low-paid people in the farming industry?

Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol fod pwysau llif arian sylweddol ar y diwydiant ar hyn o bryd, gyda phrisiau nwyddau, er enghraifft cig oen a llaeth, mor isel a'r costau'n codi. Mae llawer o etholwyr yn y diwydiant ffermio yn dibynnu ar gredydau treth gwaith a chredydau treth plant mewn gwirionedd, ac mae nifer fawr ohonynt yn bryderus iawn ynghylch yr effaith bosibl ar eu hincwm teuluol o ganlyniad i newidiadau yn San Steffan. Er gwaethaf y sicrwydd a roddwyd ynglŷn â'r cyflog byw, wedi'r cyfan, ni allwch ddadlau ag arwerthwr yn y farchnad fod angen i chi gael mwy am eich da byw. Pa sylwadau rydych yn eu cyflwyno i Lywodraeth San Steffan ar ran y diwydiant ffermio a theuluoedd ifanc sy'n ffermio ynghylch yr effaith y bydd credydau treth plant a chredydau treth gwaith yn ei chael ar bobl ar gyflogau isel yn y diwydiant ffermio?

13:56 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Well, those changes that the Westminster Government will bring in will have an impact not only on farming families, but families right across Wales in all sorts of different sectors. I'm more than aware of the concerns about cash flow in the farming industry, which is why I've made it my personal, No. 1 priority to get basic payments out as fast as we possibly can. So, we expect the majority of part payments to be made during the first month when the window opens—we'll start making payments in December—and then the remaining part payments will be made as early as possible in 2016. So, we're pulling out all the stops to make that happen and that's my No. 1 priority at the moment.

Bydd y newidiadau y bydd Llywodraeth San Steffan yn eu cyflwyno yn effeithio nid yn unig ar deuluoedd sy'n ffermio, ond ar deuluoedd ledled Cymru mewn pob math o wahanol sectorau. Rwy'n dra ymwybodol o'r pryderon ynghylch llif arian yn y diwydiant ffermio, a dyna pam y'i gwneuthum yn brif flaenoriaeth bersonol i dalu'r taliadau sylfaenol cyn gynted ag y gallwn. Felly rydym yn disgwyl talu'r rhan fwyaf o'r rhandaliadau yn ystod y mis cyntaf y bydd y cyfnod talu'n agor—byddwn yn dechrau gwneud taliadau ym mis Rhagfyr—ac yna telir y rhandaliadau sy'n weddill cyn gynted â phosibl yn 2016. Felly rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod hynny'n digwydd a dyna yw fy mhrif flaenoriaeth ar hyn o bryd.

Senedd.tv Fideo Video

### Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru

### Natural Resources Wales's Board

13:56 **Russell George** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am aelodaeth bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru? OAQ(4)0370(NR)*

*4. Will the Minister make a statement on the membership of the Natural Resources Wales board? OAQ(4)0370(NR)*

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I have recently appointed a new chair and five new members to the board of NRW, providing additional strength, skills and diversity.

Yn ddiweddar, penodais gadeirydd newydd a phum aelod newydd i fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn darparu cryfder, sgiliau ac amrywiaeth ychwanegol.

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. My question is about the skills and diversity that you mentioned. Concern has been expressed that individual members of the NRW board are inaccessible to different sectors, such as farming or forestry. So, my question, Minister, is: how can you ensure that the NRW board takes into account the interests of different sectors for which it has responsibility?

Diolch yn fawr, Weinidog. Mae fy nghwestiwn yn ymwneud â'r sgiliau a'r amrywiaeth a grybwyllwyd gennych. Mynegwyd pryder fod gwahanol sectorau, fel ffermio a choedwigaeth, yn ei chael yn anodd ymgysylltu ag aelodau unigol o fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru. Weinidog, fy nghwestiwn yw hwn: sut y gallwch sicrhau bod bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried lles y gwahanol sectorau y mae'n gyfrifol amdanynt?

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I'm confident about NRW's board and capacity to deliver on their actions. They bring forward diverse skills and experiences. I'm grateful to the five new members of the board and the new chair for accepting their responsibilities and the appointments that I duly made last week.

Rwy'n hyderus ynglŷn â bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a'i allu i gyflawni ei weithredoedd. Mae'r aelodau'n cynnig sgiliau a phrofiadau amrywiol. Rwy'n ddiolchgar i bum aelod newydd y bwrdd a'r cadeirydd newydd am dderbyn eu cyfrifoldebau a'r penodiadau a wneuthum fel sy'n briodol yr wythnos diwethaf.

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Minister, following the news that Diane McCrea was recently appointed, as you said, as the new chair of Natural Resources Wales, will you join with me in welcoming the leading role of women in NRW's work and comment on its importance?

Weinidog, yn dilyn y newyddion fod Diane McCrea wedi'i phenodi yn ddiweddar yn gadeirydd newydd Cyfoeth Naturiol Cymru fel y dywedoch, a wnewch chi ategu fy nghroeso i rôl arweiniol menywod yng ngwaith Cyfoeth Naturiol Cymru, a rhoi sylwadau ar bwysigrwydd hynny?

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Christine, for your question. I'm delighted that Diane McCrea accepted my offer of her appointment to the chair of NRW. This means that the board of NRW now has an equal gender split and I think it's an essential part of business in the twenty-first century. It sends out the right messages to NRW's workforce and stakeholders. Rather than the criticism of membership of the board by some Members, we should celebrate the fact that we have brought diversity to an experienced board.

Diolch i chi am eich cwestiwn, Christine. Rwy'n falch iawn fod Diane McCrea wedi derbyn fy nghynnig i'w phenodi'n gadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Golyga hyn fod rhaniad cyfartal rhwng y rhywiau ar fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru bellach, ac rwy'n credu bod hynny'n rhan hanfodol o'r gwaith yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'n cyfleu'r negeseuon cywir i weithlu a rhanddeiliaid Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn hytrach na beirniadu aelodaeth y bwrdd fel y mae rhai o'r Aelodau yn ei wneud, dylem ddathlu'r ffaith ein bod wedi sicrhau amrywiaeth ar fwrdd profiadol.

13:58 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf i groesawu penodiad diweddar y cadeirydd? Rydym yn dymuno'n dda iddi hi a'r is-gadeirydd, wrth gwrs, yn eu gwaith. Yn wyneb y cyhuddiad bod Cyfoeth Naturiol Cymru, fel corff hyd braich o'r Llywodraeth, i'w weld yn rhy agos at y Llywodraeth, pam ichi wrthod cais y pwyllgor cynaliadwyedd i fod yn rhan o wrandawiad cyn penodi i'r swydd bwysig yma?

May I welcome the recent appointment of the chair? We wish her well, along with the deputy chair, in their work. In the face of the accusation that NRW as an arm's-length body of Government seems to be too close to Government, why did you reject a request from the sustainability committee to be part of a pre-appointment hearing for this important role?

13:59 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are clear procedures set out on appointments. We did not breach these on this appointment process, or on any others. If the Member wishes to write to me indicating if he doesn't agree with me on that process, I'd be happy to refer that to the First Minister, or, indeed, myself.

Nodir gweithdrefnau clir ar gyfer penodi. Ni thramgwyddwyd y rhain gennym yn y broses benodi hon, nac unrhyw broses benodi arall. Os yw'r Aelod yn dymuno ysgrifennu ataf i ddweud nad yw'n cytuno â mi ynglŷn â'r broses honno, byddwn yn hapus i gyfeirio hynny at sylw'r Prif Weinidog, neu'n wir, at fy sylw fy hun.

## Ymgyngoreion Statudol

## Statutory Consultees

13:59 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymgyngoreion statudol yn y broses gynllunio? OAQ(4)0372(NR)*

*5. Will the Minister make a statement on statutory consultees in the planning process? OAQ(4)0372(NR)*

13:59 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Clwyd West for his question. Statutory consultees provide a valuable service by ensuring that local planning authorities receive specialist or technical advice to inform the preparation of development plans and determination of planning applications.

Diolch i'r Aelod dros Orllewin Clwyd am ei gwestiwn. Mae ymgyngoreion statudol yn darparu gwasanaeth gwerthfawr drwy sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yn derbyn cyngor arbenigol neu dechnegol i lywio'r gwaith o baratoi cynlluniau datblygu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio.

13:59 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, it's frequently brought to my attention by local residents that utilities companies, and in particular water companies, are not always contacted routinely as part of the planning application process or invited to give their views. This has been leading to significant problems with infrastructure in some parts of my constituency, and flooding is occurring as a direct result of inadequate sewerage and drainage facilities. What action are you taking to make sure that utilities companies, particularly water companies, are always involved where there's a major planning application that is being submitted?

Weinidog, mae trigolion lleol yn aml yn tynnu fy sylw at y ffaith na chysylltir â chwmnïau cyfleustodau, a chwmnïau dŵr yn arbennig, fel mater o drefn bob amser yn rhan o'r broses o gyflwyno cais cynllunio, na'u gwahodd i roi eu barn. Mae hyn wedi arwain at broblemau sylweddol gyda seilwaith mewn rhai rhannau o fy etholaeth, a cheir llifogydd o ganlyniad uniongyrchol i gyfleusterau carthffosiaeth a draenio annigonol. Pa gamau rydych yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod cwmnïau cyfleustodau, yn enwedig cwmnïau dŵr, yn cael eu cynnwys bob amser pan gyflwynir cais cynllunio mawr?

14:00 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

A very important question the Member raises, and I'm grateful to him for the opportunity to respond to him today. The Planning (Wales) Bill that we introduced, now the Planning (Wales) Act 2015, when we introduce Schedule 4 in March 2016, will make water undertakers a statutory consultee, and water and sewerage undertakers added to the list.

Mae'r Aelod yn gofyn cwestiwn pwysig iawn, ac rwy'n ddiolchgar iddo am y cyfle i ymateb heddiw. Bydd Bil Deddf Cynllunio (Cymru) a gyflwynwyd gennym, sef Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 bellach, pan fyddwn yn cyflwyno Atodlen 4 ym mis Mawrth 2016, yn gwneud ymgymerwyr dŵr yn ymgyngoreion statudol, ac ychwanegir ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth at y rhestr.

Senedd.tv Fideo Video

### Rhyddhau Dŵr o Gronfeydd

### Releasing Water from Reservoirs

14:00 **Russell George** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gweithdrefnau ar gyfer rhyddhau dŵr o gronfeydd? OAQ(4)0371(NR)*

*6. Will the Minister make a statement on the procedures for managing releases from reservoirs? OAQ(4)0371(NR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Thank you for the question. The Water Resources Act 1991 sets out the regulatory framework for releasing water from reservoirs. Natural Resources Wales and the Environment Agency issue abstraction licences to water abstractors, and work with water companies and other abstractors to ensure that these are complied with.

Diolch am y cwestiwn. Mae Deddf Adnoddau Dŵr 1991 yn pennu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer rhyddhau dŵr o gronfeydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn darparu trwyddedau tynnu dŵr, ac yn gweithio gyda chwmnïau dŵr ac eraill sy'n tynnu dŵr er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag amodau'r trwyddedau.

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Thank you for your answer, Minister. I am pleased that NRW is putting in place actions to reduce the impact of flooding on landowners downstream of Lake Vyrnwy and Clywedog in my constituency, but I would like to see greater flexibility in the operation of these reservoirs as they currently stand. Certainly, from my involvement and discussions with NRW and others, there do seem to be rigid rules that can't always be accommodating of unseasonal weather patterns. Do you feel that the Welsh Government has a role in amending rules to enable this to occur?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Rwy'n falch fod CNC yn rhoi camau ar waith i leihau effaith llifogydd ar dirfeddianwyr i lawr yr afon o Lyn Efyrnwy a Chlywedog yn fy etholaeth, ond hoffwn weld mwy o hyblygrwydd yng ngweithrediad y cronfeydd hyn fel y maent ar hyn o bryd. Yn sicr, o fy ymwneud â CNC ac o drafod gyda hwy ac eraill, mae'n ymddangos bod yna reolau caeth nad ydynt yn darparu ar gyfer patrymau tywydd anarferol bob amser. A ydych yn teimlo bod gan Lywodraeth Cymru rôl yn y gwaith o ddiwygio rheolau i hyn allu digwydd?

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I'm aware of the Member's involvement in discussions with water companies regarding the reservoirs within his constituency. I'd be interested to understand the views and what those issues are that the Member alludes to. I will ask my team for a further update on this.

Rwy'n ymwybodol o'r rhan y mae'r Aelod wedi'i chwarae mewn trafodaethau gyda chwmnïau dŵr ar y cronfeydd yn ei etholaeth. Byddai gennyf ddiddordeb mewn deall y safbwyntiau a beth yw'r materion y mae'r Aelod yn cyfeirio atynt. Byddaf yn gofyn i fy nhîm am y wybodaeth ddiweddaraf am hyn.

Senedd.tv Fideo Video

### Ffermydd Cymunedol

### Community Farms

14:02 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ffermydd cymunedol yng Nghymru? OAQ(4)0366(NR)*

*7. Will the Minister make a statement on community farms in Wales? OAQ(4)0366(NR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

I welcome the work of community farms in Wales. They undertake a valuable role in reconnecting people of all ages, backgrounds and abilities with animals, food and the environment.

Rwy'n croesawu gwaith ffermydd cymunedol yng Nghymru. Maent yn cyflawni rôl werthfawr yn dod â phobl o bob oed, cefndir a gallu i gysylltiad ag anifeiliaid, bwyd a'r amgylchedd.

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. You will be aware, of course, of the plight of Swansea Community Farm, which e-mailed yesterday to say that, if they don't raise £20,000 by Christmas, they may well be forced to close. This is a particularly good community farm with very good community interaction, particularly with the adjacent school. I understand, of course, that you're not able to use your budget to help them, but are you able to explore other means of trying to make sure that community farm stays open?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Wrth gwrs, fe wyddoch am drafferthion Fferm Gymunedol Abertawe, a anfonodd e-bost ataf ddoe i ddweud, os nad ydynt yn codi £20,000 erbyn y Nadolig, efallai'n wir y byddant yn cael eu gorfodi i gau. Mae hon yn fferm gymunedol arbennig o dda sy'n rhyngweithio'n dda iawn â'r gymuned, yn enwedig gyda'r ysgol gyfagos. Rwy'n deall, wrth gwrs, na allwch ddefnyddio eich cyllideb i'w helpu, ond a allwch archwilio ffyrdd eraill o geisio gwneud yn siŵr fod y fferm gymunedol yn aros ar agor?

14:02 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I was pleased to talk briefly with the community farm at the Gower show in August and then again, more recently, at the launch of a new resource pack for community growing at the Pierhead. I can tell you that there were opportunities recently for community farms to bid for a range of project funding under the natural resources portfolio small-scale project funding 2015-16 application process. But the natural resources Minister is not able to confirm successful applications at present, due to due diligence processes. You're right in terms of what I'm able to do under the RDP; the only geographically targeted elements are the LEADER and rural community development funds, so neither of those would be a consideration for the Swansea Community Farm, but they would be able to access other investment measures and co-operation measures if they meet the scheme criteria, such as Glastir and Farming Connect, for example.

Wel, roeddwn yn falch o siarad yn fyr â'r fferm gymunedol yn sioe Gŵyr ym mis Awst ac eto wedyn, yn fwy diweddar, wrth lansio pecyn adnoddau newydd ar dyfu cymunedol yn y Pierhead. Gallaf ddweud wrthych fod yna gyfleoedd yn ddiweddar i ffermydd cymunedol wneud cais am ystod o arian prosiect yn rhan o broses ymgeisio am gyllid prosiectau bach y portffolio cyfoeth naturiol ar gyfer 2015-16. Ond nid yw'r Gweinidog cyfoeth naturiol yn gallu cadarnhau pa geisiadau sy'n llwyddiannus ar hyn o bryd o ganlyniad i brosesau diwydrwydd dyladwy. Rydych chi'n iawn o ran yr hyn rwy'n gallu ei wneud o dan y Cynllun Datblygu Gwledig; yr unig elfennau a dargedir yn ddaearyddol yw cronfeydd LEADER a chronfeydd datblygu cymunedau gwledig, felly ni fyddai'r naill na'r llall o'r rhain yn ystyriaeth ar gyfer Fferm Gymunedol Abertawe, ond byddent yn gallu manteisio ar fesurau buddsoddi a chydweithredu eraill os ydynt yn bodloni meini prawf y cynllun, megis Glastir a Cyswllt Ffermio, er enghraifft.

14:03 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You can see how important community farms are. I'm talking about the same as what Peter has just said. Minister, community farms help to reconnect people of all ages, backgrounds and abilities with their food, their environment and each other. Swansea Community Farm in my region is an excellent example of the community benefits of community farms, but they are finding it harder to raise the funds needed to continue operating as a free community facility. What help can your Government give to community farms to help them continue to offer community benefits at no cost? Thank you.

Gallwch weld pa mor bwysig yw ffermydd cymunedol. Rwy'n sôn am yr hyn y mae Peter newydd ei ddweud. Weinidog, mae ffermydd cymunedol yn helpu i ddod â phobl o bob oed, cefndir a gallu i gysylltiad â'u bwyd, â'u hamgylchedd ac â'i gilydd. Mae Fferm Gymunedol Abertawe yn fy rhanbarth i yn enghraifft wych o fanteision cymunedol ffermydd cymunedol, ond maent yn ei chael yn fwy anodd i godi'r arian sydd ei angen i barhau i weithredu fel cyfleuster cymunedol rhad ac am ddim. Pa gymorth y gall eich Llywodraeth ei roi i ffermydd cymunedol i'w helpu i ddal ati i gynnig manteision cymunedol am ddim? Diolch.

14:04 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I refer you to my previous answer to Peter Black, but I can say that we have previously been able to provide a range of support and advice to Swansea Community Farm through our Tyfu Pobl programme, which is run by the Federation of City Farms and Community Gardens. That includes advice on development, best practice and funding opportunities, as well as training for staff and volunteers at the Swansea Community Farm. The farm has actually hosted several Tyfu Pobl events, which have been able to generate some income for the farm. They've also organised—or Tyfu Pobl have organised—for Swansea Community Farm to be a recipient in a new health and wellbeing assessment project that aims to gather data about the health and wellbeing benefits of community growing and gardening activities in Wales.

Wel, fe'ch cyfeiriaf at fy ateb blaenorol i Peter Black, ond gallaf ddweud ein bod wedi gallu darparu amrywiaeth o gefnogaeth a chyngor i Fferm Gymunedol Abertawe o'r blaen drwy ein rhaglen Tyfu Pobl, dan arweiniad y Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol. Mae hynny'n cynnwys cyngor ar ddatblygu, arferion gorau a chyfleoedd cyllido, yn ogystal â hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr yn Fferm Gymunedol Abertawe. Mewn gwirionedd, mae'r fferm wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau Tyfu Pobl, sydd wedi gallu cynhyrchu rhywfaint o incwm ar gyfer y fferm. Maent hefyd wedi trefnu—neu mae Tyfu Pobl wedi trefnu—i Fferm Gymunedol Abertawe fod yn rhan o brosiect asesu iechyd a lles newydd sy'n anelu i gasglu data am fanteision gweithgareddau tyfu a garddio cymunedol i iechyd a lles yng Nghymru.

### Defnydd o'r Amgylchedd Lleol

### Use of the Local Environment

14:05

**Paul Davies** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo'r defnydd o'r amgylchedd lleol yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0367(NR)*

*8. Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to promote the use of the local environment in west Wales? OAQ(4)0367(NR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:05

**Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for his question. The Welsh Government directly or indirectly promotes the use of the local environment in west Wales via a range of activities that focus on the world-first, country-length coast path. Our EU standard designated bathing waters and Pembrokeshire's national park are amongst other things we do.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i hyrwyddo'r defnydd o'r amgylchedd lleol yng ngorllewin Cymru drwy ystod o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar y llwybr arfordirol cyntaf yn y byd ar hyd holl arfordir gwlad. Mae ein dyfroedd ymdrochi dynodedig safon yr UE a pharc cenedlaethol Sir Benfro ymhlith y pethau eraill a wnawn.

Senedd.tv Fideo Video

14:05

**Paul Davies** Bywgraffiad Biography

I'm grateful to the Minister for that answer. I'm sure the Minister will also be aware of plans by Welsh Water to transform Llys y Frân reservoir in my constituency into a 'Great Welsh Water Park' by using the reservoir as a key tourism project in the region to attract visitors to the area. What additional support can the Welsh Government offer projects like this that, of course, showcase our natural environment and bring benefits to our rural areas?

Diolch i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog hefyd yn ymwybodol o gynlluniau Dŵr Cymru i drawsnewid cronfa ddŵr Llys y Frân yn fy etholaeth yn barc dŵr o bwys drwy ddefnyddio'r gronfa fel prosiect twristiaeth allweddol yn y rhanbarth i ddenu ymwelwyr i'r ardal. Pa gymorth ychwanegol y gall Llywodraeth Cymru ei gynnig i brosiectau fel hyn sydd, wrth gwrs, yn arddangos ein hamgylchedd naturiol ac yn creu manteision ar gyfer ein hardaloedd gwledig?

Senedd.tv Fideo Video

14:06

**Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Without being site-specific, as I don't know if there's any planning involvement in that process, the general principle of the question is an important one. I think we have to ensure that we enhance the opportunity for people to use the wonderful outdoor space that we have across Wales and, in particular, in the Member's constituency. It's something that I am keen to look at taking forward, along with my other ministerial colleagues—Ken Skates in particular—next year being the Year of Adventure. Therefore, we should be using our landscapes much better.

Heb sôn am safleoedd penodol, gan nad wyf yn gwybod a oes unrhyw ymwneud cynllunio yn y broses honno, mae egwyddor gyffredinol y cwestiwn yn un pwysig. Rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni sicrhau ein bod yn gwella'r cyfle i bobl ddefnyddio'r gofod awyr agored gwych sydd gennym ledled Cymru, ac yn arbennig yn etholaeth yr Aelod. Mae'n rhywbeth rwy'n awyddus i ystyried ei symud ymlaen, gyda fy nghyd-Weinidogion eraill—Ken Skates yn enwedig—gan fod y flwyddyn nesaf yn Flwyddyn Antur. Felly, dylem ddefnyddio ein tirweddau'n llawer gwell.

Senedd.tv Fideo Video

14:06

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Question 9, Rick—. Nick Ramsay.

Cwestiwn 9, Rick—. Nick Ramsay.

Senedd.tv Fideo Video

## Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

## Areas of Outstanding Natural Beauty

14:06

**Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Rick Namsay? [Laughter.]

Rick Namsay? [Chwerthin.]

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol? OAQ(4)0376(NR)*

*9. Will the Minister make a statement on Welsh Government support for areas of outstanding natural beauty? OAQ(4)0376(NR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. The five areas of outstanding natural beauty in Wales receive technical and financial assistance via Natural Resources Wales. I've recently announced that a working group will consider recommendations on changes to their purpose and governance looking at the wider role of designated landscapes in Wales.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae pum ardal o harddwch naturiol eithriadol yng Nghymru yn cael cymorth technegol ac ariannol drwy Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ddiweddar cyhoeddais y bydd gweithgor yn ystyried argymhellion ynghylch newidiadau i'w diben a'r dull o'u rheoli er mwyn edrych ar rôl ehangach tirweddau dynodedig yng Nghymru.

14:07 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. You touched on this in your answer to Paul Davies. Your appointment of Lord Dafydd Elis-Thomas to the head of the new future landscape working group is clearly a shrewd move, and I look forward to working with him in the Wye valley and elsewhere. Whilst the recent review that you mentioned has said that national parks and areas of outstanding natural beauty should be kept separate, can the new working group look at ways that AONB designation can be beefed up so that some of our most beautiful landscapes in Wales, such as the Wye valley in my area, get the protection, recognition and the job opportunities that local people and tourists alike are asking for?

Diolch yn fawr, Weinidog. Fe gyffyrddoch â hyn yn eich ateb i Paul Davies. Mae penodi Arglwydd Dafydd Elis-Thomas gennych i arwain y gweithgor newydd ar dirweddau'r dyfodol yn amlwg yn benderfyniad hirben, ac edrychaf ymlaen at weithio gydag ef yn nyffryn Gwy ac mewn mannau eraill. Er bod yr adolygiad diweddar a grybwylloch wedi dweud y dylai parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol gael eu cadw ar wahân, a all y gweithgor newydd edrych ar ffyrdd o gryfhau dynodiad AHNE fel bod rhai o'n tirweddau mwyaf prydferth yng Nghymru, megis dyffryn Gwy yn fy ardal i, yn cael y warchodaeth, y gydnabyddiaeth a'r cyfleoedd gwaith y mae'r bobl leol a thwristiaid fel ei gilydd yn gofyn amdanynt?

14:07 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, I wouldn't want to pre-empt the working group's operation. Therefore, it will be a matter for them to consider that and the 69 recommendations in the report. I would also like to welcome Lord Dafydd Elis-Thomas into the working group environment and thank him for taking that approach positively.

Wrth gwrs, ni fyddwn am achub y blaen ar waith y gweithgor. Felly, mater iddynt hwy fydd ystyried hynny a'r 69 o argymhellion yn yr adroddiad. Hoffwn hefyd groesawu Arglwydd Dafydd Elis-Thomas i'r gweithgor a diolch iddo am ymateb yn gadarnhaol i'r gwahoddiad.

### Cynlluniau Datblygu Lleol

### Local Development Plans

14:08 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i awdurdodau lleol wrth lunio eu Cynlluniau Datblygu Lleol? OAQ(4)0373(NR)*

*10. What guidance does the Welsh Government give to local authorities when putting together their respective Local Development Plans? OAQ(4)0373(NR)*

14:08 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The procedure to prepare a local development plan is set out in regulations that specify continuous engagement and consultation with the local community and stakeholders, including two specific stages of statutory consultation. The LDP manual provides detailed advice on the scope and content of the LDP, supported by 'Planning Policy Wales'.

Mae'r weithdrefn ar gyfer paratoi cynllun datblygu lleol wedi'i nodi mewn rheoliadau sy'n pennu y dylid ymgysylltu ac ymgynghori'n barhaus â'r gymuned a rhanddeiliaid lleol, gan gynnwys dau gyfnod penodol o ymgynghori statudol. Mae llawlyfr y cynllun datblygu lleol yn rhoi cyngor manwl ar gwmpas a chynnwys y CDLl, wedi'i gefnogi gan 'Polisi Cynllunio Cymru'.

14:08 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. One of the major reasons that I support the south Wales metro is that it will help to make house building on brownfield sites in the Heads of the Valleys region more attractive to private developers, thereby reducing the constant and ever-growing pressure to build new housing estates on greenfield sites in areas such as the Caerphilly basin and other places that are close to Cardiff and the M4 belt. Minister, would you agree with me that it is important that local authorities use their local development plans to work with house builders in order to ensure a balanced spread of development across the localities, which will lead to more sustainable growth of our communities in future years?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Un o'r prif resymau rwy'n cefnogi metro de Cymru yw y bydd yn helpu i wneud adeiladu tai ar safleoedd tir llwyd yn rhanbarth Blaenau'r Cymoedd yn fwy deniadol i ddatblygwyr preifat, gan leihau'r pwysau cyson a chynyddol i adeiladu ystadau tai newydd ar safleoedd maes glas mewn ardaloedd fel basn Caerffili a lleoedd eraill sy'n agos at Gaerdydd a llain yr M4. Weinidog, a fyddech yn cytuno ei bod yn bwysig i awdurdodau lleol ddefnyddio'u cynlluniau datblygu lleol i weithio gydag adeiladwyr tai er mwyn sicrhau gwasgariad cytbwys o ddatblygiad ar draws yr ardaloedd, a fydd yn arwain at dwf mwy cynaliadwy ein cymunedau yn y dyfodol ?

14:09 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A very important question. I agree that having an up-to-date, adopted plan is essential in order to secure the jobs, homes and infrastructure that communities need, like the Member refers to. Of course, the housing sector has an important part to play around the viability of land, and also the capacity to develop in areas across all constituencies. I would say, though, that we should use more, and I have spoken to the housing Minister in detail about the opportunity for small and medium-sized enterprises in Wales to use their innovation of bringing new products to the market. I don't think we should just rely on the big house builders to dictate where they want to build. Actually, there are opportunities for other builders in Wales to have creative Welsh solutions to communities.

Cwestiwn pwysig iawn. Rwy'n cytuno bod mabwysiadu cynllun cyfredol yn hanfodol er mwyn sicrhau'r swyddi, y cartrefi a'r seilwaith sydd eu hangen ar gymunedau, fel y soniodd yr Aelod. Wrth gwrs, mae gan y sector tai ran bwysig i'w chwarae o ran dichonoldeb tir, a hefyd y gallu i ddatblygu mewn ardaloedd ar draws pob etholaeth. Byddwn yn dweud, fodd bynnag, y dylem ddefnyddio mwy ar y sector, ac rwyf wedi siarad yn fanwl â'r Gweinidog tai ynglŷn â'r cyfle i fentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru ddefnyddio eu blaengaredd i ddod â chynnyrch newydd i'r farchnad. Nid wyf yn credu y dylem ddibynnu'n unig ar y cwmnïau adeiladu tai mawr i bennu lle y maent yn awyddus i adeiladu. A dweud y gwir, ceir cyfleoedd i adeiladwyr eraill yng Nghymru ddod o hyd i atebion creadigol Cymreig ar gyfer cymunedau.

14:10 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, quite a large number of my constituents have concerns over the practice of developers seeking planning permission and then land banking, and actually not developing within the relevant timescales for residential development. But, at the same time, in order to fulfil building requirements and the allocations required, applications are now being put forward in my constituency for greenfield land, even sites of special scientific interest, and new sites that have not been designated in the LDP. How are you working with local authorities against this practice, and how can you ensure that designated LDP sites that have already received planning permission will actually be developed first before our greenfield sites?

Weinidog, mae nifer go fawr o fy etholwyr yn pryderu ynghylch arfer datblygwyr o geisio caniatâd cynllunio a bancio tir wedyn, heb fynd ati mewn gwirionedd i ddatblygu o fewn yr amserlenni perthnasol ar gyfer datblygiadau preswyl. Ond, ar yr un pryd, er mwyn cyflawni gofynion adeiladu a'r dyraniadau gofynnol, bellach cyflwynir ceisiadau yn fy etholaeth am dir maes glas, hyd yn oed safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, a safleoedd newydd sydd heb eu dynodi yn y Cynllun Datblygu Lleol. Sut rydych yn gweithio gydag awdurdodau lleol i wrthsefyll yr arfer hwn, a sut y gallwch sicrhau y bydd safleoedd CDLl dynodedig sydd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio yn cael eu datblygu yn gyntaf, cyn ein safleoedd maes glas?

14:10 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I can't comment on the particular LDP the Member refers to, as I have a statutory role in that process, but I think the Member is right to raise the issue around land supply, and I have issued a letter to local authorities about making sure they have a five-year land supply in their programme. There's a difference between normal land supply and land supply that's never going to be developed, and what I'm trying to ensure is that local authorities can make sure we don't include the pieces of land that are just there for land banking or profit. It's a really important process in terms of the development of the economy, making sure we have a sustainable land supply.

Ni allaf roi sylwadau ar y CDLl penodol y mae'r Aelod yn cyfeirio ato, gan fod gennyf rôl statudol yn y broses honno, ond rwy'n meddwl bod yr Aelod yn iawn i grybwyll y mater ynghylch y cyflenwad tir, ac rwyf wedi anfon llythyr at yr awdurdodau lleol ynghylch gwneud yn siwr fod ganddynt bum mlynedd o gyflenwad tir yn eu rhaglen. Mae yna wahaniaeth rhwng cyflenwad tir arferol a chyflenwad tir nad yw byth yn mynd i gael ei ddatblygu, a'r hyn rwy'n ceisio ei sicrhau yw bod awdurdodau lleol yn gallu sicrhau nad ydym yn cynnwys y darnau o dir sydd yno'n unig er mwyn bancio tir neu wneud elw. Mae sicrhau bod gennym gyflenwad tir cynaliadwy yn broses wirioneddol bwysig o ran datblygu'r economi.

14:11 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Minister, I wanted to ask about flood defence, but you've answered that, so I'd now like to ask you, please, could you clarify the situation with regard to the naming of new housing developments, and what guidance you issue on this matter, outlining please whether you agree that new housing developments should have at least some connection with the area in which they are built. If you do not agree, why not, please?

Weinidog, roeddwn am ofyn ynglŷn â threfniadau amddiffyn rhag llifogydd, ond rydych wedi ateb hynny, felly hoffwn ofyn i chi egluro'r sefyllfa o ran enwi datblygiadau tai newydd, a pha ganllawiau rydych yn eu cyhoeddi ar y mater, gan nodi a ydych yn cytuno y dylai datblygiadau tai newydd fod ag o leiaf rywfaint o gysylltiad â'r ardal lle y cânt eu hadeiladu. Os nad ydych yn cytuno, pam felly?

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I'll have to write to the Member with the details of the policy objectives around this, and I'd be happy to do that. But I think, as always, it is a matter for local authorities to devise what their local community naming of developments is in general, and I would hope that communities are keen to continue to look at their local heritage and how they can involve that in any development they take forward.

Bydd yn rhaid i mi ysgrifennu at yr Aelod gyda manylion yr amcanion polisi ynglŷn â hyn, a byddwn yn hapus i wneud hynny. Ond fel bob amser, rwy'n credu mai mater i awdurdodau lleol yw dyfeisio sut i enwi datblygiadau cymunedau lleol yn gyffredinol, a byddwn yn gobeithio bod cymunedau yn awyddus i barhau i edrych ar eu treftadaeth leol a sut y gallant gynnwys hynny mewn datblygiadau y byddant yn bwrw ymlaen â hwy.

Senedd.tv Fideo Video

## Awdurdodau Cynllunio

## Planning Authorities

14:12 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

*11. Pa feini prawf y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu defnyddio i ddynodi awdurdod cynllunio fel un sy'n perfformio'n wael? OAQ(4)0374(NR)[W]*

*11. What criteria will the Minister use to single out a planning authority as one which is underperforming? OAQ(4)0374(NR)[W]*

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

The Planning Authority (Wales) Act 2015 contains powers to address any planning authority that performs poorly. I have published the planning performance framework and will consult on the designation criteria when bringing forward the relevant secondary legislation.

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn cynnwys pwerau i ymdrin ag unrhyw awdurdod cynllunio sy'n perfformio'n wael. Rwyf wedi cyhoeddi fframwaith perfformiad cynllunio a byddaf yn ymgynghori ar y meini prawf ar gyfer dynodi wrth gyflwyno'r is-ddeddfwriaeth berthnasol.

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Wel, diolch, Weinidog. Rwy'n edrych ymlaen at glywed beth yn union yr ydych yn ei fwriadu fanna. Byddwch yn gwybod, achos fy mod i wedi ysgrifennu atoch chi sawl gwaith ynglŷn â methiant gan rai awdurdodau lleol i ddod i benderfyniad ar brosiectau ynni adnewyddol, yn enwedig rhai gwynt—. Mae yna nifer yn fy rhanbarth i sydd wedi bod yn aros am flynyddoedd am benderfyniad. Felly, a fedrwch chi ddweud mwy heddiw am beth fydd y trothwy i ddyfarnu yn lleol neu yn genedlaethol pan fyddwch chi'n cael y pwerau dros ynni gwynt? A fydd yn 25 MW, 10 MW, neu beth bynnag? Ym mha ffordd rydych chi'n disgwyl i awdurdodau lleol ddod i benderfyniad o fewn amser rhesymol i gefnogi'r diwydiant pwysig yma?

Well, thank you, Minister. I look forward to hearing exactly what you have in mind there. You will know, because I've written to you on a number of occasions about the failure of some local authorities to come to decisions on renewable energy projects, particularly wind energy—. There are number in my region that have been waiting for years for a decision. So, can you tell us more today on what the threshold will be to come to a decision locally or nationally when you have powers over wind energy? Will it be 25 MW, 10 MW, or whatever? How do you expect local authorities to come to a decision within a reasonable timescale to support this important industry?

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I think there are two points to your question. First of all, badly performing planning authorities—I can tell you I have my eye on two planning authorities in Wales now that aren't performing to what they should be. I will be looking at them very closely. My view is, if they cannot plan effectively, then they shouldn't be planning organisations, and I will consider what action we take on that.

Rwy'n meddwl bod yna ddau bwynt i'ch cwestiwn. Yn gyntaf oll, mae awdurdodau cynllunio sy'n perfformio'n wael—gallaf ddweud wrthych fod gennyf fy llygaid ar ddau awdurdod cynllunio yng Nghymru yn awr nad ydynt yn perfformio fel y dylent. Byddaf yn edrych arnynt yn ofalus iawn. Yn fy marn i, os na allant gynllunio'n effeithiol, yna ni ddylent fod yn sefydliadau cynllunio, a byddaf yn ystyried pa gamau y byddwn yn eu rhoi ar waith ynglŷn â hynny.

Senedd.tv Fideo Video

On the other point around determination of specifically windfarm technology, I haven't come to a determination on the threshold level, although I do believe that it will be appropriate in some circumstances, where they will be part of the developments of national significance process and come into Welsh Government to make the determinations. Either way, whether they're with local government or with the planning authority, they should make that determination in a timely and appropriate manner.

Ar y pwynt arall sy'n ymwneud â phenderfyniadau ynghylch technoleg ffermydd gwynt yn benodol, nid wyf wedi penderfynu ar lefel y trothwy, er fy mod yn credu y bydd yn briodol mewn rhai amgylchiadau, lle y byddant yn rhan o brosesau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol ac yn dod at Lywodraeth Cymru i wneud y penderfyniadau. Y naill ffordd neu'r llall, pa un a ydynt yn benderfyniadau llywodraeth leol neu'r awdurdod cynllunio, dylent wneud y penderfyniad hwnnw mewn modd amserol a phriodol.

### Adar y Môr

### Sea Birds

14:14 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

*12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ardaloedd gwarchodaeth arbennig ar gyfer adar y môr yng Nghymru? OAQ(4)0377(NR)*

*12. Will the Minister make a statement on special protection areas for sea birds in Wales? OAQ(4)0377(NR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for her question. There are six special protection areas and three special protection area colony extensions classified for seabirds in Wales, thus covering approximately 1,800 sq km of sea, and these areas provide protection for some of the most iconic species, such as puffins, shearwaters, guillemots and little terns.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Dosbarthwyd chwe ardal gwarchodaeth arbennig a thri estyniad nythfa i ardal gwarchodaeth arbennig ar gyfer adar môr yng Nghymru, sy'n cynnwys tua 1,800 cilomedr sgwâr o fôr, ac mae'r ardaloedd hyn yn darparu gwarchodaeth ar gyfer rhai o'r rhywogaethau mwyaf eiconig, megis palod, adar drycin, gwylogod a môr-wenoliaid.

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. You will be very well aware of the many bird species that live, migrate and nest along the Dee estuary, and that ensuring they're adequately protected is vital to preserving this unique wildlife habitat. At this time of the year, we're fortunate to see the return of species such as hen harriers. I understand the Welsh Government is working with the UK Government to develop plans regarding areas of special protection, so can you provide an update on the progress and how this work will impact on the Dee estuary?

Diolch yn fawr, Weinidog. Fe fyddwch yn ymwybodol iawn fod nifer o rywogaethau o adar sy'n byw, yn mudo ac yn nythu ar hyd aber afon Dyfrdwy, a bod sicrhau eu bod yn cael eu gwarchod yn ddigonol yn hanfodol i ddiogelu'r cynefin bywyd gwyllt unigryw hwn. Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, rydym yn ffodus i weld rhywogaethau fel y boda tinwyn yn dychwelyd. Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu cynlluniau ar gyfer ardaloedd gwarchodaeth arbennig, felly a wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a sut y bydd y gwaith hwn yn effeithio ar aber afon Dyfrdwy?

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for her question. My officials are working closely with colleagues in Natural Resources Wales and other statutory nature conservation bodies, devolved administrations and the Joint Nature Conservation Committee to finalise the results of the review of the European special protection areas across the UK. No decisions as yet have been made on this issue, but I will write specifically to the Member on the Dee estuary; I know that she has an important view on this, and I will keep her informed.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff cadwraeth natur statudol eraill, y gweinyddiaethau datganoledig a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ar gwblhau canlyniadau'r adolygiad o'r ardaloedd gwarchodaeth arbennig Ewropeaidd ar draws y DU. Ni wnaed unrhyw benderfyniadau hyd yma ar y mater hwn, ond byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod ynglŷn ag aber Afon Dyfrdwy yn benodol; gwn fod ganddi farn bwysig ar hyn, a byddaf yn rhoi gwybod iddi am unrhyw ddatblygiadau.

Senedd.tv Fideo Video

### Y Gyfundrefn Gynllunio

### The Planning System

14:15 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

*13. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru am eu cymryd er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn gynllunio yn addas ar gyfer ardaloedd gwledig? OAQ(4)0375(NR)[W]*

*13. What steps will the Welsh Government be taking to ensure that the planning system is suitable for rural areas? OAQ(4)0375(NR)[W]*

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

The positive planning programme has identified a series of reforms to ensure that the planning system delivers for the whole of Wales.

Nododd y rhaglen cynllunio cadarnhaol gyfres o ddiwygiadau i sicrhau bod y system gynllunio yn cyflawni ar gyfer Cymru gyfan.

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Weinidog, mae canllawiau cynllunio cenedlaethol yn gallu bod yn gwbl rwystredig i gyngor sir fel Ceredigion, gan eu bod nhw'n aml iawn yn methu â chydnabod blaenoriaethau a realiti gwahanol ardaloedd gwledig, yn enwedig yng nghyd-destun cynllunio ar gyfer darpariaeth tai. A ydych chi'n credu bod yna achos y dylid darparu canllawiau cynllunio cenedlaethol gwahanol i gefn gwlad i'r canllawiau a fyddai'n fwy perthnasol ar gyfer ardaloedd trefol?

Minister, national planning guidance can be very frustrating for councils such as Ceredigion, because very often, they can't recognise the different priorities and realities of rural areas, particularly in the context of planning for the provision of housing. Do you believe that there is a case that national planning guidance should be separately available for rural areas, which would be different to the guidance that is more relevant to urban areas?

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

We also have technical advice note 6, which I know the Member is acutely aware of, in terms of details around that; I think it's an effective document. I don't share her view that some authorities can't recognise this; I think it's their effectiveness of operation, and that's one of the concerns I have with some authorities, about their capacity to deal with regulations we have in place, in order for them to determine the right and appropriate level of development within those areas. It will be something that I will ask my team to look at in more detail, but I don't think it's the lack of detail that they have—it's the ability to deal with the detail that some of the authorities are struggling with.

Mae gennym hefyd nodyn cyngor technegol 6, a gwn fod yr Aelod yn ymwybodol iawn o'r manylion ynglŷn â hwnnw; rwy'n credu ei bod yn ddogfen effeithiol. Nid wyf yn rhannu ei barn nad yw rhai awdurdodau yn cydnabod hyn; rwy'n credu ei fod yn fater sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd eu gwaith, a dyna un o'r pryderon sydd gennyf ynghylch rhai awdurdodau, ynglŷn â'u gallu i ymdrin â'r rheoliadau sydd gennym ar waith, er mwyn iddynt benderfynu ar yr hawl a'r lefel briodol o ddatblygiad yn yr ardaloedd hynny. Bydd yn rhywbeth y byddaf yn gofyn i fy nhîm edrych arno'n fanylach, ond nid wyf yn credu ei fod yn ymwneud â diffyg manylion—mae'n ymwneud â'r ffaith fod rhai awdurdodau yn cael trafferth i ymdrin â'r manylion.

Senedd.tv Fideo Video

14:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

Senedd.tv Fideo Video

## 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## 2. Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

14:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 2 is questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty. Question 1, Sandy Mewies.

Eitem 2 yw cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Cwestiwn 1, Sandy Mewies.

Senedd.tv Fideo Video

### Targed ar Dai Fforddiadwy

### Affordable Homes Target

14:17 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

*1. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Llywodraeth Cymru o ran cyrraedd ei tharged ar dai fforddiadwy? OAQ(4)0387(CTP)*

*1. Will the Minister provide an update on the Welsh Government's progress towards meeting its affordable homes target? OAQ(4)0387(CTP)*

Senedd.tv Fideo Video

14:17 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I am pleased to report we have delivered 9,108 additional affordable homes within the first four years of this administration, against our target of 10,000. This is excellent progress and means we have achieved 91 per cent of our affordable homes target.

Diolch. Rwy'n falch o adrodd ein bod wedi darparu 9,108 o dai fforddiadwy ychwanegol dros bedair blynedd gyntaf y weinyddiaeth hon, yn erbyn ein targed o 10,000. Mae'n gynnydd ardderchog ac yn golygu ein bod wedi cyflawni 91 y cant o'n targed ar gyfer cartrefi fforddiadwy.

14:17 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Labour Government is to be applauded for its policy and delivery on affordable homes. Nevertheless, it's very concerning that the last homelessness figures show that there are 170 households in bed-and-breakfast accommodation, including 15 families that have children. There's no doubt that some of this situation was created in part by the invidious UK policy of the bedroom tax, so how are we going to sustain delivery of affordable homes to ensure that more families are not forced to live in bed-and-breakfast accommodation?

Mae Llywodraeth Lafur Cymru i'w chanmol am ei pholisi a'i chyflawniad mewn perthynas â thai fforddiadwy. Serch hynny, testun pryder mawr yw bod y ffigurau digartrefedd diwethaf yn dangos bod 170 o deuluoedd mewn llety gwely a brecwast, gan gynnwys 15 o deuluoedd â phlant. Nid oes unrhyw amheuaeth fod peth o'r sefyllfa hon wedi'i chreu yn rhannol gan bolisi annymunol y DU ar y dreth ystafell wely, felly sut rydym yn mynd i barhau i ddarparu tai fforddiadwy er mwyn sicrhau nad oes rhagor o deuluoedd yn cael eu gorfodi i fyw mewn llety gwely a brecwast?

14:18 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I very much share the Member's concern regarding the use of bed-and-breakfast accommodation. The figures were down significantly with the last figures that we'd received, but we have seen a slight increase this year, which is obviously of concern. I don't want to see bed-and-breakfast accommodation used at all. I think the prevention focus of our new legislation will help. It should only absolutely be used as a last resort, particularly where children are involved.

Rwy'n bendant yn rhannu pryder yr Aelod ynghylch y defnydd o lety gwely a brecwast. Roedd y ffigurau diwethaf a gawsom wedi gostwng yn sylweddol, ond rydym wedi gweld ychydig o gynnydd eleni, sy'n amlwg yn peri pryder. Nid wyf am weld llety gwely a brecwast yn cael ei ddefnyddio o gwbl. Rwy'n credu y bydd y ffocws ar atal yn ein deddfwriaeth newydd yn helpu. Fel dewis olaf un yn unig y dylid ei ddefnyddio, yn enwedig ar gyfer plant.

I think you're quite right in pointing out that the UK Government's welfare reform programme is inevitably placing us under pressure. The supply of affordable housing is critical to us to help us achieve our wider objectives of tackling poverty. I have been very clear: increasing the supply of housing, including affordable housing, is a priority for me. We gave £400 million of funding in this term of Government through the social housing grant, and that increases the supply of affordable housing. There is still much more, I think, that we can do to meet housing demand. I'm very keen to continue to work very closely with the sector to further increase the supply of that housing.

Rwy'n meddwl eich bod yn hollol iawn i dynnu sylw at y ffaith fod rhaglen ddiwygio lles Llywodraeth y DU yn anochel yn ein rhoi o dan bwysau. Mae'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn hanfodol i'n helpu i gyflawni ein hamcanion ehangach i drechu tlodi. Rwyf wedi bod yn glir iawn: mae cynyddu'r cyflenwad o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy, yn flaenoriaeth i mi. Rhoesom £400 miliwn o arian dros dymor y Llywodraeth hon drwy'r grant tai cymdeithasol, ac mae hynny'n cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Rwy'n credu bod llawer mwy y gallwn ei wneud o hyd i ateb y galw am dai. Rwy'n awyddus iawn i barhau i weithio'n agos iawn gyda'r sector i gynyddu'r cyflenwad o dai ymhellach.

14:19 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, the Labour Welsh Government cut the supply of new affordable housing by over 70 per cent—not after 2010, but from 1999. Given that the Chartered Institute of Housing has said that we need to be building 15,000 homes a year if we're to stand a chance of ending the housing crisis in a generation, and the Bevan Foundation says that the biggest shortfall is in social housing and we need 5,100 non-market homes annually, which somewhat dwarfs your arbitrary target, which is not based on numbers on housing waiting lists, how are you defining affordable housing? Presumably, you're not just including social housing; if you are, we need clarity on that—

Wrth gwrs, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi torri'r cyflenwad o dai fforddiadwy newydd dros 70 y cant—nid ar ôl 2010, ond o 1999 ymlaen. O ystyried bod y Sefydliad Tai Siartredig wedi dweud bod angen i ni adeiladu 15,000 o gartrefi y flwyddyn os ydym i gael unrhyw obaith o roi diwedd ar yr argyfwng tai o fewn cenhedlaeth, a bod Sefydliad Bevan yn dweud mai ym maes tai cymdeithasol y mae'r prinder mwyaf a bod angen 5,100 o gartrefi heb fod ar gyfer y farchnad bob blwyddyn, sy'n bwrw eich targed mympwyol i'r cysgod rywfaint, targed nad yw wedi'i seilio ar y niferoedd sydd ar y rhestrau aros am dai, sut rydych chi'n diffinio tai fforddiadwy? Yn ôl pob tebyg, nid tai cymdeithasol yn unig a gynhwyswch; os felly, mae angen i ni gael eglurder ar hynny—

14:20 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Quickly.

Yn gyflym.

14:20 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

How do you propose to address the level of need being identified by these august bodies?

Sut y bwriadwch fynd i'r afael â lefel yr angen a nodwyd gan y cyrff blaenllaw hyn?

14:20 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sorry Mark Isherwood doesn't join us in celebrating the figures that were recently released regarding meeting 91 per cent of our affordable homes target. I think it's very important that all parts of the housing sector come together to make sure that we do deliver affordable housing. As I said in my answer to Sandy Mewies, there is a lot more that we can do, and I think the Welsh Government is putting its money where its mouth is and making sure that we do invest in that affordable housing.

Mae'n ddrwg gennyf nad yw Mark Isherwood yn ymuno â ni i ddathlu'r ffigurau a ryddhawyd yn ddiweddar ynglŷn â chyrraedd 91 y cant o'n targed cartrefi fforddiadwy. Credaf ei bod yn bwysig iawn i bob rhan o'r sector tai ddod at ei gilydd er mwyn sicrhau ein bod yn darparu tai fforddiadwy. Fel y dywedais yn fy ateb i Sandy Mewies, mae llawer mwy y gallwn ei wneud, ac rwy'n meddwl bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ei harian ar ei gair ac yn gwneud yn siŵr ein bod yn buddsoddi mewn tai fforddiadwy.

14:20 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you previously agreed that you would write to local authorities about the supply of affordable housing for the disabled in local authorities. I wonder if you could update us on the response to that, and whether or not you have considered setting a target for affordable lifetime homes to be built.

Weinidog, rydych wedi cytuno eisoes y byddech yn ysgrifennu at awdurdodau lleol ynglŷn â'r cyflenwad o dai fforddiadwy ar gyfer pobl anabl mewn awdurdodau lleol. Tybed a allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am yr ymateb i hynny, ac a ydych wedi ystyried gosod targed ar gyfer adeiladu cartrefi gydol oes fforddiadwy.

14:20 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will have to write to the Member. I don't remember seeing a response in relation to that, but I will check and write to the Member about it. It's certainly something that we can consider having a look at as we develop policy.

Bydd yn rhaid i mi ysgrifennu at yr Aelod. Nid wyf yn cofio gweld ymateb mewn perthynas â hynny, ond byddaf yn edrych ar hyn ac yn ysgrifennu at yr Aelod ynglŷn â'r mater. Mae'n sicr yn rhywbeth y gallwn ystyried edrych arno wrth i ni ddatblygu polisi.

### Cymunedau Mwy Cydlynus

### Cohesive Communities

14:21 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i greu cymunedau mwy cydlynus yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0381(CTP)*

*2. What is the Welsh Government doing to create more cohesive communities in west Wales? OAQ(4)0381(CTP)*

14:21 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. The Welsh Government launched a national community cohesion delivery plan in June 2014. I published an update on progress in June this year. Delivery is supported by eight regional community cohesion co-ordinators, including a specific post for mid and west Wales.

Diolch. Lansiodd Llywodraeth Cymru gynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer cydlyniant cymunedol ym mis Mehefin 2014. Cyhoeddais ddiweddariad ar y cynnydd ym mis Mehefin eleni. Mae wyth cydgysylltydd cydlyniant cymunedol rhanbarthol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun, gan gynnwys swydd benodol ar gyfer canolbarth a gorllewin Cymru.

14:21 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, a recent digital exclusion heat map by Go ON UK has identified Pembrokeshire as one of the Welsh counties where digital exclusion is high, showing that 18.8 per cent of households do not receive broadband speeds of at least 2 Mbps and almost 23 per cent of adults in the county, according to the study, have never been online. What specific work is the Welsh Government doing to tackle these figures and make Pembrokeshire more digitally inclusive in the future, which will, of course, then create more cohesive communities?

Weinidog, mae map gwres allgáu digidol diweddar gan Go ON UK wedi nodi bod Sir Benfro yn un o siroedd Cymru lle y mae lefelau allgáu digidol yn uchel, ac mae'n dangos nad yw 18.8 y cant o aelwydydd yn derbyn band eang ar gyflymder o 2 Mbps fan lleiaf ac nad yw bron 23 y cant o oedolion y sir, yn ôl yr astudiaeth, erioed wedi bod ar-lein. Pa waith penodol y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r ffigurau hyn ac i wneud Sir Benfro yn fwy cynhwysol yn ddigidol yn y dyfodol, a fydd wedyn yn creu cymunedau mwy cydlynol, wrth gwrs?

14:22 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think it's very important that we get as many people as possible digitally included. I recently spoke at a conference in north Wales, where the housing association absolutely had that focus with their own tenants of having as many people as possible digitally included. You'll be aware of the programmes that we've had. I'm continuing to fund the programmes to make sure that we do reach as many people as possible. Clearly, broadband sits within another Minister's portfolio, but again, we have those discussions across Government.

Credaf ei bod yn bwysig iawn i ni sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl wedi'u cynnwys yn ddigidol. Yn ddiweddar, bûm yn siarad mewn cynhadledd yng ngogledd Cymru, lle roedd y gymdeithas dai wedi canolbwyntio'n llwyr ar sicrhau bod cymaint â phosibl o'u tenantiaid eu hunain wedi'u cynnwys yn ddigidol. Fe fyddwch yn ymwybodol o'r rhaglenni rydym wedi'u cael. Rwy'n parhau i ariannu'r rhaglenni er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl. Yn amlwg, mae band eang yn rhan o bortffolio Gweinidog arall, ond unwaith eto, rydym yn cael y trafodaethau hynny ar draws y Llywodraeth.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:22 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call the party spokespeople to question the Minister, starting this week with the Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.

Galwaf yn awr ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog, gan ddechrau yr wythnos hon gyda llefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.

14:22 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae gennych chi gynllun adfywio—'Vibrant and Viable Places'—ac o fewn y cynllun hwnnw, rydych yn sôn am fenthyciadau o £10 miliwn sydd wedi eu rhoi i 11 safle yng Nghymru er mwyn adfywio canol trefi. A allwch chi ddweud wrthym beth sydd wedi ei gyflawni gyda'r arian yma?

Minister, you have a regeneration plan called 'Vibrant and Viable Places' and within that plan you talk about loans of £10 million that have been given to 11 sites in Wales in order to regenerate town centres. Can you tell us what has been achieved with that funding?

14:23 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have visited some of the towns where this funding has been spent. It's been very good to see a focus particularly on housing, I think. Some town centres have ensured that previous sites and offices, for instance, have been turned back into residential housing. Because of the demand we have on our housing, it's very good to see that some of the funding has been used in that way. Other funding has been used to help the regeneration of the high street, for instance. So, it's been very good to see the innovation right across the VVP programme.

Rwyf wedi ymweld â rhai o'r trefi lle y gwariwyd y cyllid hwn. Mae wedi bod yn braf iawn gweld ffocws arbennig ar dai, rwy'n meddwl. Mae rhai canol trefi wedi sicrhau bod safleoedd a swyddfeydd blaenorol, er enghraifft, wedi cael eu troi'n ôl yn dai preswyl. Oherwydd y galw ar ein sector tai, mae'n dda iawn gweld bod rhywfaint o'r cyllid wedi'i ddefnyddio yn y ffordd honno. Defnyddiwyd arian arall i helpu i adfywio'r stryd fawr, er enghraifft. Felly, mae wedi bod yn dda iawn gweld arloesi o'r fath ar draws y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

14:23 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, mae £10 miliwn yn swm sylweddol o arian, Weinidog, a byddwn i'n disgwyl y byddai yna ganlyniadau llawer iawn mwy penodol na rhyw gyfeiriadau cyffredinol at adnewyddu tai ac adnewyddu canol trefi. Onid ydych chi'n disgwyl gweld y trefi yma, yn eich geiriau chi, yn drefi sydd yn llawer iawn mwy 'vibrant and viable'? A oes yna unrhyw dystiolaeth o gwbl fod y £10 miliwn yma wedi gwneud gwahaniaeth?

Well, £10 million is a significant amount of money, Minister, and I would expect much more specific outcomes than some general references to regeneration of houses and town centres. Do you not expect to see these towns, in your words, as very much more vibrant and viable places? Is there any evidence whatsoever that this £10 million has made any difference?

14:24 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. It's £1 million x 10, so you have to appreciate, on the scale of things, it's not a huge amount of money, but the whole of the VVP programme is bringing in a lot of private sector funding as well. So, for every £1 that we're spending through VVP, we are bringing in further funding. I do expect to see more outcomes. It's early days. For the VVP programme itself, the three-year programme, we're halfway through, and we are seeing significant progress. With the specific £1 million pots of money, again, I mentioned houses and I think, in a previous piece of information I read, there were 18 houses—I think it might have been in Llanelli, actually—that had been brought into residential use, which is a significant number.

Oes. Mae'n £1 miliwn x 10, felly rhaid i chi werthfawrogi, ar y raddfa hon, nad yw'n swm enfawr o arian, ond mae'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus gyfan yn denu llawer o gyllid sector preifat yn ogystal. Felly, am bob £1 a wariwn drwy Lleoedd Llewyrchus, rydym yn denu cyllid pellach. Rwy'n disgwyl gweld rhagor o ganlyniadau. Mae'n ddyddiau cynnar. O ran y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ei hun, y rhaglen dair blynedd, rydym hanner ffordd drwyddi ac rydym yn gweld cynnydd sylweddol. Gyda'r dyraniadau penodol o £1 miliwn o arian, unwaith eto, soniais am dai ac rwy'n meddwl, mewn gwybodaeth flaenorol a ddarllenais, fod 18 o dai—yn Llanelli, rwy'n credu—wedi'u troi'n ôl at ddefnydd preswyl, sy'n nifer sylweddol.

14:24 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, nid ydym ni ddim agosach at geisio canfod sut mae hyn yn mynd i adfywio canol trefi Cymru. Mae'r cynllun yma, yn eich llenyddiaeth chi, yn sôn am arian—swm o £100 miliwn dros dair blynedd. Pa fwriadau sydd gyda chi i edrych yn fanwl ar ganlyniadau'r buddsoddiadau yma? Mae'n ymddangos o'ch atebion chi i gwestiynau y prynhawn yma nad oes yna ddim tystiolaeth wedi dod i law hyd yn hyn.

Well, we're no closer to finding out how this is going to regenerate the town centres of Wales. This scheme, in your literature, alludes to funding—a sum of £100 million over three years. What intentions do you have to look in detail at the outcomes of these investments? It appears from your responses to questions this afternoon that no evidence has come to hand to date.

14:25 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, in relation to the entire VVP scheme, which is the £100 million over three years, I've recently received a report from my ministerial advisory group which shows that the scheme has delivered in several ways. I will be bringing forward a statement to Members to show how that funding has benefitted our areas and how it has regenerated some of our towns across Wales.

Wel, o ran y cynllun Lleoedd Llewyrchus cyfan, sef y £100 miliwn dros dair blynedd, cefais adroddiad gan fy ngrŵp cynghori gweinidogol yn ddiweddar sy'n dangos bod y cynllun wedi cyflawni mewn sawl ffordd. Byddaf yn cyflwyno datganiad i'r Aelodau i ddangos sut y mae'r cyllid wedi sicrhau budd i'n hardaloedd a sut y mae wedi adfywio rhai o'n trefi ledled Cymru.

14:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Now, the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Peter Black.

Yn awr, llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

14:25 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Minister, I'm delighted to see the many positive references to the work of credit unions in combating financial exclusion in Wales contained in the consultation document for the financial inclusion strategy for Wales in 2016. Do you agree with me that the best time to introduce prisoners to the benefits of joining a credit union is as part of the initial needs assessment carried out by resettlement officers upon admittance, but that information advice should be continued throughout the sentence? If so, are you as concerned as I am that the task of promoting credit union membership has been removed from prison officers who are in daily contact with prisoners and will you seek to have this bizarre decision reversed?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, rwy'n falch iawn o weld y nifer o gyfeiriadau cadarnhaol at waith undebau credyd yn mynd i'r afael ag allgáu ariannol yng Nghymru wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori ar y strategaeth cynhwysiant ariannol i Gymru yn 2016. A ydych yn cytuno mai'r amser gorau i gyflwyno manteision ymuno ag undeb credyd i garcharorion yw fel rhan o'r asesiad cychwynnol o anghenion a gynhelir gan swyddogion adsefydlu wrth eu derbyn i'r carchar, ac y dylai'r cyngor gwybodaeth barhau drwy gydol y ddedfryd? Os felly, a ydych yr un mor bryderus â minnau nad yw swyddogion carchar sydd mewn cysylltiad dyddiol â charcharorion bellach yn hyrwyddo aelodaeth o undebau credyd fel rhan o'u gwaith ac a fyddwch yn ceisio newid y penderfyniad rhyfedd hwn?

14:26 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, it is a matter of concern. I have visited Swansea prison where they had introduced a credit union scheme and I spoke to one prisoner who had, unfortunately, been in prison several times. He was absolutely adamant this was his last time and he felt that the way that he'd been encouraged to save through a credit union would really help him on his release to have that sum of money to go out with. So, yes it would be something that I would be seeking to have reversed.

Ydy, mae'n fater sy'n peri pryder. Rwyf wedi ymweld â charchar Abertawe lle roeddent wedi cyflwyno cynllun undeb credyd a siaradais ag un carcharor a oedd, yn anffodus, wedi bod yn y carchar sawl gwaith. Roedd yn hollol benderfynol mai hwn fyddai'r tro olaf a theimlai y byddai'r ffordd y cafodd ei annog i gynilo drwy undeb credyd o gymorth mawr iddo ar ôl ei ryddhau i gael y swm hwnnw o arian ar gyfer mynd allan. Felly, byddai'n rhywbeth y byddwn yn ceisio ei newid.

14:26 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, thank you for that, Minister. The scheme in Swansea prison has had many rave reviews and I think we are all regretting the way it has been effectively scaled back. The financial inclusion strategy for Wales document mentions the public and private sectors in the context of Welsh Government doing its best to persuade employers to promote membership among their staff, but makes no mention of third sector organisations. Is that omission deliberate and, if not, how will you rectify it?

Wel, diolch i chi am hynny, Weinidog. Cafwyd nifer o adolygiadau brwd o'r cynllun yng ngharchar Abertawe ac rwy'n meddwl ein bod i gyd yn gresynu at y ffordd y cafodd ei dynnu'n ôl i bob pwrpas. Mae dogfen y strategaeth cynhwysiant ariannol ar gyfer Cymru yn sôn am y sector cyhoeddus a'r sector preifat yng nghyd-destun Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gorau i berswadio cyflogwyr i hybu aelodaeth ymhlith eu staff, ond nid yw'n sôn dim am sefydliadau trydydd sector. A yw hynny wedi'i hepgor yn fwriadol ac os nad yw, sut y byddwch yn mynd ati i unioni'r sefyllfa?

14:27 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will certainly have a look at that, because I think that it is really important that the third sector works with the private sector. We are seeing some private sector organisations now very keen to promote credit unions. Certainly, Airbus, in my colleague Carl Sargeant's constituency, was the first large private sector company. I am also very keen to pursue it with colleagues in the Chamber. You may have received a letter from me asking you to encourage everyone you know to join a credit union. I never miss a chance in whatever meeting I'm in to see how many of those people are in credit unions and then embarrass them to join.

Byddaf yn sicr yn edrych ar hynny, oherwydd credaf ei bod yn bwysig iawn i'r trydydd sector weithio gyda'r sector preifat. Rydym yn gweld rhai sefydliadau yn y sector preifat bellach yn awyddus iawn i hyrwyddo undebau credyd. Yn sicr, Airbus, yn etholaeth fy nghyd-Aelod Carl Sargeant, oedd y cwmni sector preifat mawr cyntaf. Rwyf hefyd yn awyddus iawn i fynd ar drywydd y mater gyda chyd-Aelodau yn y Siambr. Efallai eich bod wedi cael llythyr oddi wrthyf yn gofyn i chi annog pawb rydych yn ei adnabod i ymuno ag undeb credyd. Ni fyddaf byth yn colli cyfle, ym mha bynnag gyfarfod y byddaf ynddo, i weld faint o'r bobl sy'n aelodau o undebau credyd a pheri embaras i wneud iddynt ymuno.

14:27 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that, Minister. I'm also delighted to see from the final paragraph of your letter to Assembly Members, dated 10 November, that the Welsh Government is going to actively promote credit union membership to local health boards, local health trusts, local authorities and the private sector. What form is that promotion to take, who is delivering it and what time frame do you expect it to be delivered in?

Diolch am hynny, Weinidog. Rwy'n falch iawn o weld hefyd ym mharagraff olaf eich llythyr at Aelodau'r Cynulliad, dyddiedig 10 Tachwedd, fod Llywodraeth Cymru yn mynd i fynd ati i hyrwyddo aelodaeth o undebau credyd i fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau iechyd lleol, awdurdodau lleol a'r sector preifat. Pa ffurf fydd ar yr ymgyrch hyrwyddo honno, pwy sy'n ei chyflawni a beth yw'r amserlen ar gyfer ei chyflwyno?

14:28 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

What we've been doing within Welsh Government is getting the credit unions to come into our offices and talk to staff, and that's something that I would like to see happening with other members of the public and organisations in the public sector. I think it's really important that people understand the benefits of a credit union. If they have the payroll deduction it's much easier for a lot of people and, certainly, that's what I've been encouraging Welsh Government employees to do. So, I would like to see the same work being undertaken within our health boards and our local authorities also.

Yr hyn rydym wedi bod yn ei wneud yn Llywodraeth Cymru yw cael yr undebau credyd i ddod i mewn i'n swyddfeydd i siarad â staff, ac mae hynny'n rhywbeth yr hoffwn ei weld yn digwydd gydag aelodau eraill o'r cyhoedd a sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i bobl ddeall manteision undebau credyd. Os caiff yr arian ei dynnu o'r gyflogres mae'n llawer haws i lawer o bobl ac yn sicr, dyna rwyf wedi bod yn annog gweithwyr Llywodraeth Cymru i'w wneud. Felly, hoffwn weld yr un gwaith yn cael ei wneud yn ein byrddau iechyd ac yn ein hawdurdodau lleol hefyd.

14:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And the Welsh Conservatives' spokesperson, Mohammad Asghar.

A llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Mohammad Asghar.

14:28 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. Minister, figures released by the Home Office reveal that hate crimes in England and Wales rose by 18 per cent last year. One of the likely factors for this increase includes improved recording of hate crimes. Will the Minister join me in welcoming news that, for the first time, anti-Muslim hate crimes will be recorded as a separate category, bringing them into line with anti-Semitic attacks?

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, mae ffigurau a ryddhawyd gan y Swyddfa Gartref yn dangos bod troseddau casineb yng Nghymru a Lloegr wedi codi 18 y cant y llynedd. Mae'r ffactorau tebygol am y cynnydd yn cynnwys gwella lefelau adrodd am droseddau casineb. A wnaiff y Gweinidog ategu fy nghroeso i'r newyddion y bydd troseddau casineb yn erbyn Mwslimiaid yn cael eu cofnodi fel categori ar wahân am y tro cyntaf gan roi'r un sylw iddynt ag i ymosodiadau gwrth-semitig?

14:29 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, absolutely. I was very pleased to see the increase in hate crime reporting and I think it absolutely is down to the work that's being undertaken, not just by Welsh Government, but by other parts of our community to ensure that people realise that when hate crime is reported it will be dealt with in the most appropriate way. I had the hate crime forum last week where we had a member of Gwent Police who chairs a board and who came along and reassured our stakeholders that when hate crime is reported it is taken seriously, it is dealt with in the most appropriate manner. I think the more we can evidence that people are going to court and being prosecuted now—we are seeing more prosecutions—it will encourage people to report also.

Gwnaf, yn bendant. Roeddwn yn falch iawn o weld y cynnydd yn y lefelau adrodd am droseddau casineb ac rwy'n credu ei fod yn sicr yn deillio o'r gwaith a wneir, nid gan Lywodraeth Cymru yn unig, ond gan rannau eraill o'n cymuned i sicrhau bod pobl yn sylweddoli, pan adroddir am drosedd casineb, yr ymdrinnir â hi yn y ffordd fwyaf priodol. Cefais y fforwm troseddau casineb yr wythnos diwethaf lle y cawsom aelod o Heddlu Gwent sy'n cadeirio bwrdd ac a ddaeth draw i sicrhau ein rhanddeiliaid, pan adroddir am droseddau casineb, y rhoddir ystyriaeth ddifrifol iddi, ac yr ymdrinnir â hi yn y modd mwyaf priodol. Po fwyaf o dystiolaeth y gallwn ei dangos bod pobl yn mynd i'r llys ac yn cael eu herlyn yn awr—rydym yn gweld mwy o erlyniadau—rwy'n meddwl y bydd yn annog pobl i adrodd amdanynt hefyd.

14:30 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Other likely factors for the increase are a greater awareness of hate crime, and an improved willingness of victims to come forward. Does the Minister agree that events such as the All-Wales Hate Crime Awareness Week play a vital role in raising awareness, and reassuring victims that incidents will be taken seriously, and thoroughly investigated?

Diolch yn fawr, Weinidog. Ffactorau tebygol eraill dros y cynnydd yw mwy o ymwybyddiaeth o droseddau casineb, a mwy o barodrwydd ymhlith dioddefwyr i adrodd amdanynt. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod digwyddiadau fel Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb Cymru Gyfan yn chwarae rhan hanfodol yn codi ymwybyddiaeth, a thawelu meddyliau dioddefwyr y caiff digwyddiadau eu hystyried o ddifrif, a'u hymchwilio'n drylwyr?

14:30 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, absolutely. I think I mentioned that in my previous answer to you. Hate Crime Awareness Week was very successful again this year. That's the second time now we've held it. We had a conference on the Thursday, in Neath Port Talbot, where we brought all sections of the public sector and private sector together. We had some excellent speakers. And our focus this year for Hate Crime Awareness Week was on cyber bullying, because that's an aspect of hate crime that I think we need to do more around.

Ydw, yn bendant. Rwy'n credu fy mod wedi dweud hynny yn fy ateb blaenorol i chi. Roedd yr Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn llwyddiannus iawn eto eleni. Dyna'r ail waith i ni ei chynnal bellach. Cawsom gynhadledd ar y dydd Iau, yng Nghastell-nedd Port Talbot, lle y daethom â phob rhan o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat at ei gilydd. Roedd gennym siaradwyr ardderchog. Ac roedd ffocws ein Hwythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb eleni ar seiberfwlio am fod honno'n agwedd ar droseddau casineb y credaf fod angen i ni wneud mwy yn ei chylch.

14:31 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Wales has a proud tradition of welcoming and resettling refugees, and will shortly play its part in supporting refugees from Syria. The Welsh Local Government Association has called for a national taskforce to ensure all partners are involved in delivering and co-ordinating an effective response. Will the Minister update the Assembly on what measures are being taken in preparation for the arrival of Syrian refugees in Wales?

Diolch yn fawr, Weinidog. Mae gan Gymru draddodiad balch o groesawu ac adsefydlu ffoaduriaid, a bydd yn chwarae ei rhan cyn bo hir yn cynorthwyo ffoaduriaid o Syria. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi galw am dasglu cenedlaethol i sicrhau bod yr holl bartneriaid yn rhan o'r gwaith o gyflwyno a chydlynu ymateb effeithiol. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad ynglŷn â pha gamau a roddir ar waith i baratoi ar gyfer dyfodiad ffoaduriaid Syria i Gymru?

14:31 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, there is a great deal of work being undertaken, particularly by our local authorities and local health boards, to prepare the ground for when we do welcome more Syrian refugees, under the UK Government's vulnerable persons relocation scheme. We had a summit, which was chaired by the First Minister, back in September. From that, we have a taskforce, which I chair. There will be a meeting on 19 November. I am in London on Monday, where I will be meeting the UK Syrian refugee Minister, Richard Harrington, because I think it's really important that we work very closely to see what funding will be coming forward and what support will be coming forward. And I know the WLGA are working closely with the Local Government Association to ensure that they have all the information that they need to be able to prepare the ground.

Wel, mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud, yn enwedig gan ein hawdurdodau lleol a'n byrddau iechyd lleol, ar baratoi'r tir ar gyfer croesawu rhagor o ffoaduriaid Syria, o dan gynllun adleoli pobl sy'n agored i niwed Llywodraeth y DU. Cawsom uwchgynhadledd a gadeiriwyd gan Brif Weinidog Cymru yn ôl ym mis Medi. O hynny, mae gennym dasglu o dan fy nghadeiryddiaeth i. Bydd cyfarfod ar 19 Tachwedd. Rwyf yn Llundain ddydd Llun, lle y byddaf yn cyfarfod â Gweinidog ffoaduriaid Syria y DU, Richard Harrington, am fy mod yn credu ei bod hi'n bwysig i ni weithio'n agos iawn i weld pa gyllid a ddaw a pha gymorth a gawn. Ac rwy'n gwybod bod CLlLC yn gweithio'n agos â'r Gymdeithas Llywodraeth Leol er mwyn sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i allu paratoi'r tir.

14:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cwestiwn 3, Dafydd Elis-Thomas.

Question 3, Dafydd Elis-Thomas.

## Tai Fforddiadwy

## Affordable Housing

14:32 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, barchus Ddirprwy Lywydd.

Thank you very much, esteemed Deputy Presiding Officer.

*3. Pa anogaeth mae'r Gweinidog yn ei rhoi i'r sector tai cymunedol er mwyn darparu tai fforddiadwy yn ôl yr angen? OAQ(4)0396(CTP)[W]*

*3. What encouragement is the Minister giving to the community housing sector to provide affordable housing in line with demand? OAQ(4)0396(CTP)[W]*

14:32

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. I have been clear that increasing the supply of housing, including affordable housing, is a priority for me. My commitment to this is demonstrated by the social housing grant programme, investing £400 million in this term of Government to increase the supply of affordable housing in communities across Wales.

Diolch. Rwyf wedi dweud yn glir fod cynyddu'r cyflenwad o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy, yn flaenoriaeth i mi. Dangosir fy ymrwymiad i hyn gan y rhaglen grant tai cymdeithasol, sy'n buddsoddi £400 miliwn dros dymor y Llywodraeth hon i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy mewn cymunedau ledled Cymru.

14:32

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ond beth am y dyfodol, Weinidog? Mae fy nghydweithwyr i yng Nghartrefi Cymunedol Gwynedd yn pwysleisio'r pwysigrwydd o gyfuno cyllid o grant tai llai â grant tai cymdeithasol, er mwyn creu cyflenwad sylweddol o dai fforddiadwy. A gaf i ofyn beth yw rhagolwg y grant tai cymdeithasol ar gyfer y blynyddoedd nesaf, yn wyneb y trafodaethau anodd ynglŷn â gwariant cyhoeddus rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a chan gofio'r toriad mewn codiad rhent tai cymdeithasol a ddigwyddodd yn Lloegr dros y pedair blynedd ddiwethaf?

But what of the future, Minister? My colleagues in Cartrefi Cymunedol Gwynedd are emphasising the importance of combining the funding for social housing with smaller housing grants in order to create a substantial supply of affordable housing. May I ask you what the forecast is for the social housing grant for the next few years, in light of the difficult negotiations on public expenditure between the Welsh Government and the UK Government, and bearing in mind the cuts in the uplifts in social housing rents that have happened in England over the past four years?

14:33

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is obviously a very difficult financial time, and those discussions are taking place, I think, with all Ministers, across all our portfolios. Certainly, this morning I had a meeting on finance, and you'll be aware we're having to await—I can't believe they can call it an 'autumn' statement, the winter statement, on 25 November, and then our draft budget. But I'm very positive about the funding that we've given to local authorities to support affordable housing. In 2014-15, we allocated over £70 million, in 2015-16, we made available £62 million, and, certainly, I would want to see that being taken forward over the next few years.

Mae'n amlwg yn adeg anodd iawn yn ariannol, ac mae'r trafodaethau hynny ar y gweill, rwy'n meddwl, gyda'r holl Weinidogion, ar draws ein holl bortffolios. Yn sicr, y bore yma cefais gyfarfod ynglŷn â chyllid, ac fe fyddwch yn ymwybodol ein bod yn gorfod aros—ni allaf gredu y gallant ei alw'n ddatganiad 'hydref', am ddatganiad y gaeaf, ar 25 Tachwedd, a'n cyllideb ddrafft wedyn. Ond rwy'n gadarnhaol iawn ynglŷn â'r cyllid rydym wedi'i roi i awdurdodau lleol i gefnogi tai fforddiadwy. Yn 2014-15, dyrannwyd dros £70 miliwn gennym, a £62 miliwn yn 2015-16, ac yn sicr, byddwn eisiau gweld hynny'n cael ei ddatblygu dros y blynyddoedd nesaf.

14:34

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is increasing clamour from people saying that the quickest route out of the housing crisis is to build a lot more council housing, which has now fallen to a rate below anything we've seen since 1997. Given that the autumn statement is unlikely to produce any sort of additional funding for council or housing associations—it's more likely that hell will freeze over—I just wondered what the alternatives are for us.

Ceir galw cynyddol gan bobl sy'n dweud mai'r llwybr cyflymaf allan o'r argyfwng tai yw adeiladu llawer mwy o dai cyngor, sydd bellach wedi gostwng i gyfradd is nag unrhyw beth a welsom ers 1997. O ystyried bod datganiad yr hydref yn annhebygol o gynhyrchu unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer cynghorau neu gymdeithasu tai—mae'n fwy tebygol y bydd tatws newydd ar bren afalau—roeddwn i'n meddwl tybed pa ddewisiadau eraill sydd gennym.

14:34

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Quickly now, please.

Yn gyflym yn awr, os gwelwch yn dda.

14:34

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Have you explored either funding through the European Investment Bank, or, indeed, some sort of crowd funding, bearing in mind that savers are getting almost nothing in return for their savings at the movement in the bank—

A ydych chi wedi archwilio naill ai arian drwy Fanc Buddsoddi Ewrop, neu'n wir, rhyw fath o gyllido torfol, gan gofio nad yw pobl sy'n cynilo yn cael bron ddim yn gyfnewid am eu cynilion ar hyn o bryd yn y Banc—

14:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Quickly.

Yn gyflym.

14:34 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—and they might well be wanting to invest in social housing?

[Yn parhau.]—ac efallai'n wir eu bod yn awyddus i fuddsoddi mewn tai cymdeithasol?

14:35 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have been exploring innovative housing funding initiatives for some time, and we are delivering models such as the housing finance grant to reduce public spending, whilst continuing to supply new affordable housing in Wales. Last Wednesday I attended the British-Irish Council housing ministerial meeting in Edinburgh, and the focus of that meeting was on innovative financing. It was very good to hear what other countries and islands are doing to have a look at—as you say, with a reduced public spending purse—how else we can finance these.

Rydym wedi bod yn archwilio mentrau cyllid tai arloesol ers peth amser, ac rydym yn cyflwyno modelau megis y grant cyllid tai i leihau gwariant cyhoeddus, gan barhau i ddarparu tai newydd fforddiadwy yng Nghymru. Ddydd Mercher diwethaf, mynychais gyfarfod o'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig i weinidogion tai yng Nghaeredin, ac roedd ffocws y cyfarfod ar ariannu arloesol. Roedd hi'n dda iawn clywed am yr hyn y mae gwledydd ac ynysoedd eraill yn ei wneud i weld—fel y dywedwch, gyda phwrs gwariant cyhoeddus sy'n wacach—sut arall y gallwn ariannu'r rhain.

We're also continuing to explore using financial transactions capital funding to accelerate housing supply, and our land for housing scheme will help tackle the problem of limited supply of housing by increasing funding options to housing associations to acquire land, both affordable and market housing.

Rydym hefyd yn parhau i archwilio'r defnydd o gyllid cyfalaf trafodion ariannol i gyflymu'r cyflenwad o dai, a bydd ein cynllun tir ar gyfer tai yn helpu i fynd i'r afael â'r broblem o gyflenwad cyfyngedig o dai drwy gynyddu opsiynau ariannu i gymdeithasau tai allu prynu tir, tai fforddiadwy a thai ar gyfer y farchnad.

14:35 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I recently met with Cartrefi Conwy, which, as you will know, does a fantastic job in terms of supplying social housing in my own constituency and elsewhere in north Wales. They're responsible for managing the list that is now being shared between Conwy, and hopefully Denbighshire in the future, and Flintshire, for their social housing needs. One of the things that they've identified as a result of merging the various social housing lists is that there's been a huge reduction in the number of people on those lists, by about two thirds—

Weinidog, cyfarfûm yn ddiweddar â Cartrefi Conwy, sydd, fel y gwyddoch, yn gwneud gwaith gwych yn darparu tai cymdeithasol yn fy etholaeth i ac mewn mannau eraill yng ngogledd Cymru. Hwy sy'n gyfrifol am reoli'r rhestr sydd bellach yn cael ei rhannu rhwng Conwy, a Sir Ddinbych yn y dyfodol, a Sir y Fflint, o ran eu hangen am dai cymdeithasol. Un o'r pethau y maent wedi'i nodi o ganlyniad i uno'r gwahanol restrau tai cymdeithasol yw'r gostyngiad enfawr a fu yn nifer y bobl ar y rhestrau hynny, sydd oddeutu dwy ran o dair—

14:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can you ask a question, please?

A allwch chi ofyn cwestiwn, os gwelwch yn dda?

14:36 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Given that there has been a big reduction in the needs, do you think there's a need for local authorities to revisit their local housing market assessments to reflect this lower level of demand for social housing than has been the case in the past?

O gofio y bu gostyngiad mawr yn yr anghenion, a ydych yn credu bod angen i awdurdodau lleol ailedrych ar eu hasesiadau o'r farchnad dai leol er mwyn adlewyrchu'r lefel is yn y galw am dai cymdeithasol nag a fu yn y gorffennol?

14:36 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That's not something that's been raised with me. I seem to get a lot of letters telling me that people are still waiting a considerable time, and it's really important that local authorities, and housing associations, address the people who are on those housing lists.

Nid yw hwn yn fater a dynnwyd i fy sylw. Mae'n ymddangos fy mod yn cael llawer o lythyrau yn dweud wrthyf fod pobl yn dal i aros cryn dipyn o amser, ac mae'n bwysig iawn fod awdurdodau lleol, a chymdeithasau tai, yn ymdrin â'r bobl sydd ar y rhestrau tai hynny.

14:36 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Minister, critical to the delivery of affordable housing is, of course, land supply. In the previous session, your colleague the Minister for Natural Resources referred to the problem of land banking. Would it be possible to address this jointly with your colleague in terms of considering the implementation of a kind of sunset clause on long-consented sites that fall derelict in our communities, very often providing a home for urban foxes, which might not be so bad in itself, but actually creating a very difficult climate for the local environment and residents who have to live with that kind of dereliction?

Weinidog, mae cyflenwad tir yn hanfodol ar gyfer darparu tai fforddiadwy, wrth gwrs. Yn y sesiwn flaenorol, cyfeiriodd eich cyd-Aelod, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol at broblem bancio tir. A fyddai'n bosibl i chi fynd i'r afael â hyn gyda'ch cyd-Aelod o ran ystyried gweithredu'r math o gymal machlud ar safleoedd y cafwyd cydsyniad yn eu cylch ers amser hir, safleoedd sy'n segur yn ein cymunedau, ac sy'n aml iawn yn darparu cartrefi ar gyfer llwynogod trefol, na fyddai fod mor ddrwg ynddo'i hun, ond sydd, mewn gwirionedd, yn creu hinsawdd anodd iawn i'r amgylchedd lleol a thrigolion sy'n gorfod byw gyda'r math hwnnw o ddiffeithdra?

Senedd.tv Fideo Video

14:37 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

It's something I'm working very closely with my colleague the Minister for Natural Resources on. We both recently met with housing developers. I don't think that particular issue was discussed, but it is something that's been discussed in previous meetings. I think it is very important that we look at getting land available as quickly as possible.

Mae'n rhywbeth rwy'n gweithio agos iawn arno gyda fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol. Cyfarfu'r ddau ohonom â datblygwyr tai yn ddiweddar. Nid wyf yn credu bod y mater penodol hwnnw wedi'i drafod, ond mae'n rhywbeth a drafodwyd mewn cyfarfodydd blaenorol. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i ni sicrhau bod tir ar gael cyn gynted ag y bo modd.

Senedd.tv Fideo Video

### Cynllun Troi Tai'n Gartrefi

### The Houses into Homes Scheme

14:38 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd y cynllun Troi Tai'n Gartrefi? OAQ(4)0386(CTP)*

*4. Will the Minister make a statement on the progress of the Houses into Homes Scheme? OAQ(4)0386(CTP)*

Senedd.tv Fideo Video

14:38 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Thank you. The Houses into Home scheme grows from strength to strength: 7,560 homes have been brought back into use during this term of Government, exceeding our target of 5,000. The final evaluation report on Houses into Homes was published recently and highlights the importance of the scheme in breaking this target.

Diolch. Mae'r cynllun Troi Tai'n Gartref yn tyfu o nerth i nerth: mae 7,560 o gartrefi wedi cael eu dwyn yn ôl i ddefnydd yn ystod tymor y Llywodraeth hon, sy'n rhagori ar ein targed o 5,000. Cyhoeddwyd yr adroddiad gwerthuso terfynol ar Troi Tai'n Gartrefi yn ddiweddar ac mae'n tynnu sylw at ba mor bwysig yw hi i'r cynllun ragori ar y targed hwn.

Senedd.tv Fideo Video

14:38 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Minister, it is indeed something to be applauded—the amount of homes that have been brought into use over the four-year period. And you've mentioned the evaluation report. That report does, however, recommend that the continued success of the scheme depends upon local authorities dedicating the necessary staffing resources to administer that scheme. Given the difficulties that local authorities face after cuts from the UK Government, what support can the Welsh Government give to local authorities to ensure that they are able to continue dedicating resources for this very excellent scheme?

Weinidog, mae'n sicr yn rhywbeth i'w ganmol—nifer y cartrefi a gafodd eu dwyn yn ôl i ddefnydd dros y cyfnod o bedair blynedd. Ac rydych wedi crybwyll yr adroddiad gwerthuso. Mae'r adroddiad hwnnw, fodd bynnag, yn awgrymu bod llwyddiant parhaus y cynllun yn dibynnu ar awdurdodau lleol yn neilltuo'r adnoddau staffio angenrheidiol ar gyfer gweinyddu'r cynllun. O ystyried yr anawsterau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu ar ôl toriadau Llywodraeth y DU, pa gefnogaeth y gall Llywodraeth Cymru ei rhoi i awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn gallu parhau i neilltuo adnoddau ar gyfer y cynllun ardderchog hwn?

Senedd.tv Fideo Video

14:39 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Thank you. I think Houses into Homes has been a real success story. It's another tool which local authorities can use in their fight against the wasted resource of empty homes. As I mentioned, we've achieved 150 per cent of our target, which I think was ambitious anyway. So, after just four years of this Government, it is a real success story.

Diolch. Rwy'n credu bod Troi Tai'n Gartrefi wedi bod yn llwyddiant go iawn. Mae'n arf arall y gall awdurdodau lleol ei ddefnyddio yn eu brwydr yn erbyn gwastraff adnoddau cartrefi gwag. Fel y soniais, rydym wedi cyflawni 150 y cant o'n targed, a oedd yn darged uchelgeisiol beth bynnag yn fy marn i. Felly, ar ôl pedair blynedd yn unig o'r Llywodraeth hon, mae'n stori lwyddiant go iawn.

Senedd.tv Fideo Video

From the very beginning, Houses into Homes was never accompanied by revenue support to local authorities in order for them to administer the scheme. It was, though, accompanied by a strong commitment from all authorities that existing resources would be directed towards Houses into Homes, and, indeed, empty homes in general. I think that's why the scheme has been so successful. I do hope the commitment stays in place. I think, so long as there are empty homes, there will always be a need for local authority intervention. The sheer number of homes that have been returned to use shows that it's a battle we can win, so I really do hope to see that commitment, and I'm very happy to have discussions with local authorities around that.

O'r cychwyn cyntaf, nid roddwyd unrhyw gymorth refeniw i awdurdodau lleol tuag at Troi Tai'n Gartrefi a'u galluogai i weinyddu'r cynllun. Fodd bynnag, fe'i cefnogwyd gan ymrwymiad cryf gan bob awdurdod y câi adnoddau presennol eu cyfeirio tuag at Troi Tai'n Gartrefi, a thai gwag yn gyffredinol, yn wir. Rwy'n meddwl mai dyna pam y bu'r cynllun mor llwyddiannus. Rwy'n gobeithio y bydd yr ymrwymiad yn parhau. Cyn belled â bod yna gartrefi gwag, rwy'n credu y bydd angen bob amser am ymyrraeth awdurdod lleol. Mae nifer fawr y cartrefi a adferwyd i'w defnyddio yn dangos ei bod yn frwydr y gallwn ei hennill, felly rwy'n gobeithio'n fawr y gwelwn yr ymrwymiad hwnnw, ac rwy'n hapus iawn i gael trafodaethau gydag awdurdodau lleol ynghylch hynny.

14:40

## Janet Haworth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It's good to hear all about these Houses into Homes projects and I'm pleased to see that it is exceeding its targets across Wales. In Essex I witnessed the local council working with private landlords to renovate and rent out properties above retail outlets on high streets to people before the properties were returned to the landlords after three years. This contributed to town-centre regeneration and added to the night-time security. What assurances can you provide that the Houses into Homes scheme will be sustained, at least at its current level, and that further innovative schemes will be considered, going forward?

Mae'n dda clywed am y prosiectau Troi Tai'n Gartrefi hyn ac rwy'n falch o weld ei fod yn rhagori ar ei dargedau ar draws Cymru. Yn Essex gwelais y cyngor lleol yn gweithio gyda landlordiaid preifat i adnewyddu a rhentu eiddo uwchben siopau ar y stryd fawr i bobl cyn i'r eiddo gael ei ddychwelyd i'r landlordiaid ar ôl tair blynedd. Cyfranndd hyn at adfywio canol trefi ac ychwanegodd at ddiogelwch dros nos. Pa sicrwydd y gallwch ei roi y bydd y cynllun Troi Tai'n Gartrefi yn cael ei gynnal, ar ei lefel bresennol fan lleiaf, ac y bydd cynlluniau arloesol pellach yn cael eu hystyried, wrth symud ymlaen?

14:40

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As I said, I do hope to see that commitment going forward —the commitment of the 5,000 houses into homes was for this term of Government, of which we've got six months left, but after the four years, as I say, we've achieved 150 per cent. So, certainly, that commitment is there for the whole of the five years, but I would like to see it continue after May next year.

Fel y dywedais, rwy'n gobeithio gweld yr ymrwymiad hwnnw yn y dyfodol—roedd yr ymrwymiad i droi 5,000 o dai yn gartrefi ar gyfer tymor y Llywodraeth hon, ac mae gennym chwe mis ar ôl ohoni, ond ar ôl y pedair blynedd, fel y dywedais, rydym wedi cyflawni 150 y cant o hynny. Felly, yn sicr, mae'r ymrwymiad hwnnw yno ar gyfer y pum mlynedd yn gyfan, ond hoffwn ei weld yn parhau ar ôl mis Mai y flwyddyn nesaf.

14:41

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As a housing manager in this city for 25 years, Minister, when it comes to housing, every little helps, and I welcome the news on converting empty homes. But given the scale of the crisis that we have at the moment, we need to think bigger and better. So, could you please tell us to what extent has Houses into Homes been really effective in solving the social housing crisis in Wales, with 90,000 on the waiting list? With respect, I really don't think you can.

Fel rheolwr tai yn y ddinas hon am 25 mlynedd, Weinidog, o ran tai, mae pob dim yn help, a chroesawaf y newyddion ar addasu tai gwag. Ond o ystyried maint yr argyfwng sydd gennym ar hyn o bryd, mae angen i ni feddwl yn fwy ac yn well. Felly, a wnewch chi ddweud wrthym i ba raddau y bu Troi Tai'n Gartrefi yn effeithiol am ddatrys yr argyfwng tai cymdeithasol yng Nghymru, gyda 90,000 ar y rhestr aros? Gyda phob parch, nid wyf yn meddwl y gallwch wneud hynny.

14:41

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, this is just one tool that I mentioned that helps local authorities with their housing shortage. The focus was just on bringing those houses into homes. I know there's still a great deal of work to be done in relation to bringing houses into homes. There are a lot of empty houses, unfortunately, in Wales. I hate to see houses boarded up at any time, but certainly I think we have been very successful. This is just one scheme in a whole suite of schemes and initiatives to make sure we get those people off those waiting lists as quickly as possible.

Wel, un arf yn unig y soniais amdano yw hwn, sy'n helpu awdurdodau lleol gyda'u prinder tai. Roedd y ffocws yn unig ar droi'r tai hynny yn ôl yn gartrefi. Rwy'n gwybod bod llawer iawn o waith i'w wneud o hyd o ran troi tai'n gartrefi. Yn anffodus, mae yna lawer o dai gwag yng Nghymru. Mae'n gas gennyf weld tai wedi'u bordio ar unrhyw adeg, ond yn sicr rwy'n meddwl ein bod wedi bod yn llwyddiannus iawn. Un cynllun yn unig yw hwn mewn cyfres o gynlluniau a mentrau i wneud yn siŵr ein bod yn cael y bobl hyn oddi ar y rhestrau aros cyn gynted ag y bo modd.

## Gwirfoddoli yng Ngogledd Cymru

## Volunteering in North Wales

14:42

### Janet Haworth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog gwirfoddoli yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0391(CTP)*

*5. Will the Minister outline what the Welsh Government is doing to encourage volunteering in North Wales? OAQ(4)0391(CTP)*

14:42

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Volunteers make a vital contribution to communities across Wales. Welsh Government continues to support voluntarism through core funding of £6.68 million to Welsh third sector infrastructure organisations, and with £1.4 million from national volunteering grant programmes. County voluntary councils across north Wales receive £1.7 million of the core funding.

Diolch. Mae gwirfoddolwyr yn gwneud cyfraniad hanfodol i gymunedau ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi gwirfoddoli drwy gyllid craidd o £6.68 miliwn i sefydliadau seilwaith trydydd sector yng Nghymru, a £1.4 miliwn o raglenni grantiau gwirfoddoli cenedlaethol. Mae cynghorau gwirfoddol sirol ar draws gogledd Cymru yn cael £1.7 miliwn o'r cyllid craidd.

14:42

### Janet Haworth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. I spent an afternoon volunteering at the Rabbit Hole cafe in Llandudno. It is a wellbeing centre, operated by Mind. It is a social enterprise, set up by Aberconwy Mind to provide real work experience and training for people who have experienced, or are experiencing, mental health issues. Minister, will you join with me in celebrating the success of this venture and set out what support is being offered to charities across Wales to help set up and establish forward-thinking social enterprises such as this?

Diolch yn fawr, Weinidog. Treuliais brynhawn yn gwirfoddoli yng nghaffi Rabbit Hole yn Llandudno. Canolfan les yw hi a weithredir gan Mind. Mae'n fenter gymdeithasol a sefydlwyd gan Mind Aberconwy i ddarparu profiad gwaith a hyfforddiant go iawn i bobl sydd wedi dioddef, neu sy'n dioddef, o broblemau iechyd meddwl. Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i ddathlu llwyddiant y fenter hon a nodi pa gymorth sy'n cael ei gynnig i elusennau ledled Cymru i helpu i sefydlu mentrau cymdeithasol blaengar o'r fath?

14:43

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I'm certainly very happy to join in in those sentiments with the Member. I am aware of that cafe myself in Llandudno. The Government can't do everything on its own; we do rely so much on volunteers and we know that in Wales, we're very blessed—one in three people volunteer, so that is a million people. They don't just do it once, but many times over the years. I mentioned the funding that we give to our voluntary sector and I'm very keen to do all I can to support the third sector, going forward.

Gwnaf, rwy'n sicr yn hapus iawn i ategu teimladau'r Aelod. Rwy'n gyfarwydd â'r caffi hwnnw yn Llandudno. Ni all y Llywodraeth wneud popeth ar ei phen ei hun; rydym yn dibynnu cymaint ar wirfoddolwyr a gwyddom ein bod wedi ein bendithio yng Nghymru—mae un o bob tri o bobl yn gwirfoddoli, felly mae'n filiwn o bobl. Nid unwaith yn unig y maent yn ei wneud, ond sawl gwaith dros y blynyddoedd. Soniais am y cyllid rydym yn ei roi i'n sector gwirfoddol ac rwy'n awyddus iawn i wneud popeth yn fy ngallu i gefnogi'r trydydd sector, wrth symud ymlaen.

14:43

### Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's been drawn to my attention that some organisations find it difficult to attract volunteers because of the cost of parking at volunteering venues. In June 2014, I asked the then communities Minister if help with parking passes for volunteers could be investigated. The Minister said he would discuss it with the then local government Minister. That was you. Now that you are Minister for Communities and Tackling Poverty, can you tell me what discussions took place, whether indeed you had discussions with yourself, and what updates you're able to give us on that?

Cefais ar ddeall fod rhai sefydliadau yn ei chael hi'n anodd denu gwirfoddolwyr oherwydd y gost o barcio mewn lleoliadau gwirfoddoli. Ym mis Mehefin 2014, gofynnais i'r Gweinidog cymunedau ar y pryd a fyddai modd archwilio'r posibilrwydd o sicrhau help gyda thocynnau parcio ar gyfer gwirfoddolwyr. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n trafod hyn gyda'r Gweinidog llywodraeth leol ar y pryd, sef chi. Nawr eich bod yn Weinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, a allwch ddweud wrthyf pa drafodaethau a gafwyd ac a fuoch yn trafod â chi eich hun, yn wir, a beth yw'r newyddion diweddaraf y gallwch ei roi i ni ar hynny?

14:44 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I certainly didn't have discussions with myself; I did have discussions with my predecessor, Jeff Cuthbert. Parking costs are a matter for local authorities. I know of some organisations that do give parking permits to volunteers. I know of some organisations that help with transport costs, for instance. It is down, really, to the individual organisation.

Yn sicr, ni chefais drafodaethau â mi fy hun; fe gefais drafodaethau gyda fy rhagflaenydd, Jeff Cuthbert. Mater i awdurdodau lleol yw taliadau parcio. Gwn am rai cyrff sy'n rhoi caniatâd parcio i wirfoddolwyr. Gwn am rai sefydliadau sy'n helpu gyda chostau trafnidiaeth, er enghraifft. Mae'n fater i'r sefydliad unigol mewn gwirionedd.

### Y Gronfa Cymorth Dewisol

### The Discretionary Assistance Fund

14:44 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Gronfa Cymorth Dewisol Cymru? OAQ(4)0390(CTP)[W]*

*6. Will the Minister make a statement on the Discretionary Assistance Fund for Wales? OAQ(4)0390(CTP)[W]*

14:45 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Since April 2013, the discretionary assistance fund has supported more than 71,000 people, with nearly £18 million being awarded in cash grants and support in kind. The fund supports the most vulnerable people in Wales, including care leavers, prison leavers, those fleeing domestic abuse and individuals facing emergency situations.

Diolch. Ers mis Ebrill 2013, mae'r gronfa cymorth dewisol wedi cynorthwyo dros 71,000 o bobl, gyda bron i £18 miliwn yn cael ei ddyfarnu mewn grantiau arian parod a chymorth mewn nwyddau. Mae'r gronfa'n cynorthwyo'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru, gan gynnwys rhai sy'n gadael gofal, pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar, rhai sy'n ffoi rhag cam-drin domestig ac unigolion sy'n wynebu sefyllfaoedd argyfyngus.

14:45 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, ac mae'n gronfa werth chweil. Ond mae nifer o gyrff, fel cymdeithasau tai, yn fy ardal i yn rhwystredig iawn am na allan nhw gyfeirio cleientiaid at gyrff yn y trydydd sector sy'n gwerthu, er enghraifft, dodrefn wedi eu hailgylchu, oherwydd y cytundeb cenedlaethol sydd wedi ei wneud gyda siopau fel Argos. O ran achredu'r busnesau yma, gallai cynghorau lleol ei wneud wrth gwrs. Pam nad ydy'r Llywodraeth Lafur yma yn hyrwyddo busnesau yn y trydydd sector ac yn cylchdroi arian o fewn yr economi Gymreig, yr union beth rydych chi newydd fod yn brolio eich bod chi yn ei wneud yn y cwestiwn diwethaf?

Thank you very much, and it's a worthwhile fund. But a number of organisations in my area, such as housing associations, are very frustrated because they can't refer clients to third sector organisations that sell, for example, recycled furniture, because of the national agreement with stores such as Argos. In terms of accrediting these businesses, local councils could do that of course. Why won't the Labour Government here promote businesses in the third sector and circulate funds within the Welsh economy, which is the exact thing that, in response to the previous question, you have just been boasting that you are doing?

14:46 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are links with recycling initiatives from the discretionary assistance fund. You mentioned Argos; furniture and white goods are currently provided through Argos and Euronics respectively. These were arrangements that were included in Northgate Public Services and the Family Fund's response to the tender when the contract was initially awarded, and I think what this mechanism does is ensure consistency of availability and services across Wales.

Ceir cysylltiadau â mentrau ailgylchu o'r gronfa cymorth dewisol. Fe sonioch chi am Argos; mae dodrefn a nwyddau gwynion yn cael eu darparu ar hyn o bryd drwy Argos a Euronics. Roedd y rhain yn drefniadau a gynhwyswyd yn ymateb Northgate Public Services ac ymateb Cronfa'r Teulu i'r tendr pan ddyfarnwyd y contract ar y cychwyn, ac rwy'n meddwl mai'r hyn y mae'r mecanwaith hwn yn ei wneud yw sicrhau cysondeb o ran argaeledd a gwasanaethau ar draws Cymru.

14:46 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, last year, Members raised concerns regarding the administration of the fund and the costs of it. Some 16 per cent of the scheme's funding went towards administration. I've looked at this year's figures and they are slightly better, but not a lot. And I wonder, Minister, if you can explain to us what procurement processes did you go through before you placed the contract with the outsourced company that I understand administers this scheme on behalf of Welsh Government, because 16 or even 15 per cent is still an enormous slice of the money that you've put into it?

Weinidog, y llynedd, mynegodd yr Aelodau bryderon ynglŷn â gweinyddiaeth y gronfa a'i chostau. Aeth tua 16 y cant o gyllid y cynllun ar weinyddu. Rwyf wedi edrych ar ffigurau eleni ac maent ychydig yn well, ond nid o lawer. Weinidog, tybed a allwch egluro wrthym pa brosesau caffael yr aethoch chi drwyddynt cyn rhoi'r contract yn allanol i'r cwmni sy'n gweinyddu'r cynllun hwn ar ran Llywodraeth Cymru, yn ôl yr hyn a ddeallaf, gan fod 16 neu hyd yn oed 15 y cant yn dal i fod yn dafell enfawr o'r arian rydych wedi'i roi tuag at hyn?

14:47 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The contract for the discretionary assistance fund was awarded to Northgate Public Services, as you mentioned, in 2013 for two years. That ended in March this year, and there was an option for extending for a further two years. In January this year, I made the decision to extend the contract for one year up until March. It is something that I asked them to look very closely at. I have visited the centre where the phone calls come in; I've listened in on phone calls, and I think they're doing some amazing work. I do think we have to look at the bureaucracy, but I also think we need to look at the excellent preventative work that that fund does. And when I was there, there was a call from a woman who had to take her child from north Wales to Alder Hey Children's Hospital in Liverpool for a scan the following day, and whilst we give them a few days to make these decisions, a decision was taken very quickly to enable that woman to access funding to take her child for that scan. I remember thinking that if that child couldn't go for that scan, there is a cost to the NHS as well as a cost to the family. So, the fund does some fantastic work; it's a demand-led service and, as I say, I took the decision to extend the contract for one year. It was made very clear to them that they had to reduce the bureaucracy and, obviously, the decision on an extension of a further year would have to be taken in due course.

Dyfarnwyd y contract ar gyfer y gronfa cymorth dewisol i Northgate Public Services yn 2013, fel y sonioch, am ddwy flynedd. Daeth i ben ym mis Mawrth eleni, ac roedd yna opsiwn i'w ymestyn am ddwy flynedd arall. Ym mis Ionawr eleni, penderfynais ymestyn y contract am flwyddyn hyd at fis Mawrth. Mae'n rhywbeth y gofynnais iddynt edrych yn ofalus iawn arno. Rwyf wedi ymweld â'r ganolfan lle y daw'r galwadau ffôn i mewn; rwyf wedi gwrando ar alwadau ffôn, ac rwy'n meddwl eu bod yn gwneud gwaith anhygoel. Rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni edrych ar y fiwrocratiaeth, ond rwyf hefyd yn credu bod angen i ni edrych ar y gwaith ataliol ardderchog y mae'r gronfa honno'n ei wneud. A phan oeddwn yno, cafwyd galwad gan fenyw a oedd yn gorfod mynd â'i phlentyn o ogledd Cymru i Ysbyty Plant Alder Hey yn Lerpwl am sgan y diwrnod canlynol, ac er ein bod yn rhoi ychydig ddyddiau iddynt wneud y penderfyniadau hyn, penderfynwyd yn gyflym iawn y dylid galluogi'r fenyw i gael arian iddi allu mynd â'i phlentyn am y sgan. Rwy'n cofio meddwl, os na fyddai modd i'r plentyn fynd am y sgan, byddai cost i'r GIG yn ogystal â chost i'r teulu. Felly, mae'r gronfa yn gwneud gwaith gwych; mae'n wasanaeth wedi'i arwain gan y galw ac fel y dywedais, penderfynais ymestyn y cytundeb am flwyddyn. Fe'i gwnaed yn glir iawn iddynt fod yn rhaid iddynt leihau'r fiwrocratiaeth ac yn amlwg, byddai'n rhaid gwneud y penderfyniad ynghylch ymestyn y cynllun am flwyddyn arall maes o law.

### Hawliau Plant a Phobl Ifanc

### Children and Young People's Rights and Entitlements

14:48 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hawliau plant a phobl ifanc? OAQ(4)0384(CTP)*

*7. Will the Minister make a statement on children and young people's rights and entitlements? OAQ(4)0384(CTP)*

14:48 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. This Government's vision for children and young people is clear. We want a Wales where children's rights are a reality for each and every child. The incorporation of the United Nations Convention on the Rights of the Child into law and our decision making is making a positive difference to the lives of children and young people.

Diolch. Mae gweledigaeth y Llywodraeth hon ar gyfer plant a phobl ifanc yn glir. Rydym am weld Cymru lle y mae hawliau plant yn realiti i bob plentyn. Mae ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn cyfraith a'n prosesau penderfynu ein hunain yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc.

14:48 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister, I'm pleased to hear that. I have been contacted by a year 10 pupil at Caereinion High School, who has expressed concerns that opinions are not being adequately reflected during the course of consultation taking place as regards secondary school reorganisation. Beyond the merits of any debate taking place, I would be grateful if you could set out how the Welsh Government is ensuring that children have the right to have their voices heard on issues such as education, which, of course, directly affect them?

Diolch i chi, Weinidog, rwy'n falch o glywed hynny. Cysylltodd disgybl blwyddyn 10 yn Ysgol Uwchradd Caereinion â mi i fynegi pryderon nad yw safbwyntiau'n cael eu hadlewyrchu'n ddigonol mewn ymgynghoriad sydd ar y gweill ar ad-drefnu ysgolion uwchradd. Y tu hwnt i rinweddau unrhyw drafodaeth sy'n digwydd, byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gan blant yr hawl i leisio barn ar faterion megis addysg, sydd, wrth gwrs, yn effeithio arnynt yn uniongyrchol?

Senedd.tv Fideo Video

14:49 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

The intention of the Rights of Children and Young Persons Wales (Measure) 2011 was to make children's rights a reality by ensuring we have well-thought-through and effective policies—and that obviously includes education—to provide the very best services for our children. The Measure places a duty on all Welsh Ministers to have due regard to children's rights when exercising any of their functions, and, as a result, children's rights are reflected in legislation, in policies, in statutory guidance and also in governmental decisions.

Bwriad Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 oedd gwneud hawliau plant yn realiti drwy sicrhau bod gennym bolisïau effeithiol wedi'u hystyried yn dda—ac mae hynny'n amlwg yn cynnwys addysg—ar gyfer darparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n plant. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ddyletswydd ar holl Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i hawliau plant wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau, ac o ganlyniad, mae hawliau plant yn cael eu hadlewyrchu mewn deddfwriaeth, mewn polisïau, mewn canllawiau statudol a hefyd ym mhenderfyniadau'r llywodraeth.

Senedd.tv Fideo Video

14:49 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

I'm sure the Minister is aware that, this afternoon, the final stages of the Children First Bill have passed into law in the Irish Republic, and these include an amendment that abolishes the defence of reasonable chastisement, so is giving children equal protection as adults from physical punishment. I think this is a huge achievement for a country that is such a close neighbour to us. Would she agree that this is a great step forward for the Irish Republic, and does she agree that it's a good omen for Wales?

Rwy'n siŵr fod y Gweinidog yn ymwybodol, y prynhawn yma, fod camau terfynol y Bil Plant yn Gyntaf wedi dod i rym yn gyfreithiol yng Ngweriniaeth Iwerddon a bod y rhain yn cynnwys gwelliant sy'n diddymu cosb resymol fel amddiffyniad, felly mae'n rhoi amddiffyniad cyfartal i blant ac oedolion rhag cosb gorfforol. Rwy'n credu bod hwn yn gyflawniad enfawr mewn gwlad sy'n gymydog mor agos. A fyddai'n cytuno bod hwn yn gam mawr ymlaen i Weriniaeth Iwerddon, ac a yw'n cytuno ei fod yn rhagoeli'n dda ar gyfer Cymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:50 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I am aware of it, but, as we've discussed many times before in the Chamber, here in Wales the matter of legislation will be for individual party manifestos for our elections in May.

Rwy'n ymwybodol o hyn, ond fel rydym wedi'i drafod sawl gwaith o'r blaen yn y Siambr, yma yng Nghymru, mater i faniffestos y pleidiau unigol ar gyfer ein hetholiadau ym mis Mai fydd deddfwriaeth.

Our commitment to positive parenting is unequivocal, and I'm really delighted that I'm going to shortly be launching our parenting Give it Time campaign to support parents to adopt positive approaches to raising children, building on the significant work we've done around positive parenting over the past few years.

Mae ein hymrwymiad i rianta cadarnhaol yn bendant, ac rwy'n falch iawn yn wir y byddwn yn lansio ein hymgyrch i rieni, Rhowch amser iddo, yn fuan er mwyn cynorthwyo rhieni i fabwysiadu ymagweddau cadarnhaol tuag at fagu plant, gan adeiladu ar y gwaith sylweddol rydym wedi'i wneud ar rianta cadarnhaol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Senedd.tv Fideo Video

14:51 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Mae adroddiad blynyddol y comisiynydd plant wedi gofyn ar i Lywodraeth Prydain gynnwys meysydd sydd ddim wedi cael eu datganoli o fewn ei chyfrifoldebau hi. A ydy Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw fath o drafodaethau efo Llywodraeth Prydain er mwyn cynnwys y fath fesurau, os nad ym Mil drafft Cymru, yn fuan iawn yng nghyfnod Llywodraeth newydd Cymru o fis Mai ymlaen?

The annual report of the children's commissioner has asked the UK Government to include non-devolved areas within her responsibilities. Has the Welsh Government had any kind of discussions with the United Kingdom Government in order to include such measures, if not in the draft Wales Bill, very early on in the term of office of the new Welsh Government from May onwards?

Senedd.tv Fideo Video

14:51 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I'm going to have that discussion on Monday; I have a meeting with the Secretary of State for Wales.

Ie, rwy'n mynd i gael y drafodaeth honno ddydd Llun; mae gennyf gyfarfod gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

## Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal sydd mewn Perygl o Ddigartrefedd

## Young Care Leavers at Risk of Homelessness

14:51 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth a ddarperir i bobl ifanc sy'n gadael gofal sydd mewn perygl o ddigartrefedd? OAQ(4)0380(CTP)*

*8. Will the Minister make a statement on the provision of support for young care leavers at risk of homelessness? OAQ(4)0380(CTP)*

14:51 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Our legislation and guidance pay particular attention to the needs of care leavers. Joint working between organisations to identify needs and to plan housing solutions is required as well as appropriate support to prevent homelessness. I am always looking to consider what more might be done to further improve the support for this group.

Diolch. Mae ein deddfwriaeth a'n canllawiau yn rhoi sylw arbennig i anghenion rhai sy'n gadael gofal. Mae angen cydweithio rhwng sefydliadau i nodi anghenion a chynllunio atebion ym maes tai yn ogystal â chymorth priodol i atal digartrefedd. Rwyf bob amser yn ceisio ystyried beth arall y gellid ei wneud i wella'r gefnogaeth i'r grŵp hwn.

14:52 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that, Minister. I'm sure you'll agree, as I do, with the children's commissioner when she says that authorities must care and support young people leaving care, just as any of us would our own in order to prevent them from becoming homeless. In her words,

'It is their right and our duty',

and, indeed, it is all our business. Children supported by social services are, in most cases, the very same young people who are most at risk of homelessness. With that in mind, could you, Minister, comment on the effectiveness of the When I am Ready scheme in preventing homelessness, and will you discuss with the Minister for Health and Social Services the possible benefits, from a homelessness prevention perspective, of extending the scheme to young people in residential care?

Diolch am hynny, Weinidog. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno, fel minnau, â'r comisiynydd plant pan fo'n dweud bod rhaid i awdurdodau gynorthwyo a gofalu am bobl ifanc sy'n gadael gofal, yn union fel y byddai unrhyw un ohonom yn gofalu am ein plant ein hunain i'w hatal rhag mynd yn ddigartref. Yn ei geiriau hi,

'It is their right and our duty',

ac yn wir, mae'n fater i bawb ohonom. Y plant a gynhelir gan y gwasanaethau cymdeithasol, yn y rhan fwyaf o achosion, yw'r union bobl ifanc sy'n wynebu'r perygl mwyaf o fod yn ddigartref. Gyda hynny mewn golwg, a wnewch chi, Weinidog, roi sylwadau ar effeithiolrwydd y cynllun, Pan fydda i'n Barod, yn atal digartrefedd, ac a wnewch chi drafod manteision posibl ymestyn y cynllun i gynnwys pobl ifanc mewn gofal preswyl, o safbwynt atal digartrefedd, gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol?

14:53 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Gwenda Thomas, for that question. I absolutely echo your views on the need to ensure support is available to young people leaving the care system. I think that's something I've reiterated. Local authorities know who these young people are, particularly if they've been in their care. When they reach adulthood, it's very important that there's that very smooth transition to ensure they have the most appropriate housing.

Under children's legislation, they absolutely should receive the support to which they're entitled, but I do think it is very important there's good joint working between social service teams and homelessness teams, and I have been working very closely with my colleague, the Minister for Health and Social Services, with the aim of developing more integrated services.

Diolch am y cwestiwn hwnnw, Gwenda Thomas. Rwy'n adleisio eich barn yn llwyr ar yr angen i sicrhau bod cymorth ar gael i bobl ifanc sy'n gadael y system ofal. Rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth rwyf wedi'i ailadrodd. Mae awdurdodau lleol yn gwybod pwy yw'r bobl ifanc hyn, yn enwedig os ydynt wedi bod yn eu gofal. Pan fyddant yn dod yn oedolion, mae'n bwysig iawn fod yna bontio llyfn iawn yn digwydd er mwyn sicrhau bod y tai mwyaf priodol yn cael eu darparu ar eu cyfer.

O dan ddeddfwriaeth plant, yn bendant dylent gael y cymorth y mae ganddynt hawl iddo, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn fod cydweithio da yn digwydd rhwng timau gwasanaethau cymdeithasol a thimau digartrefedd, ac rwyf wedi bod yn cydweithio'n agos iawn gyda fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda'r nod o ddatblygu gwasanaethau mwy integredig.

I know that Mark Drakeford has made a commitment to the children's commissioner to explore the scope for extending the scheme to young people in residential care as well as those in foster care, and I believe that the When I am Ready monitoring group is considering this and will be reporting back to the Minister, but I'm very keen to have a look at the report also to see what more joint working can be done between those services.

Gwn fod Mark Drakeford wedi gwneud ymrwymiad i'r comisiynydd plant y bydd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ymestyn y cynllun i gynnwys pobl ifanc mewn gofal preswyl yn ogystal â rhai mewn gofal maeth, a chredaf fod grŵp monitro Pan fydda i'n Barod yn ystyried hyn ac y bydd yn adrodd yn ôl i'r Gweinidog, ond rwy'n awyddus iawn i gael golwg ar yr adroddiad hefyd er mwyn gweld pa gydweithio pellach y gellir ei wneud rhwng y gwasanaethau hyn.

14:54 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you and I took part in a short debate a few weeks ago tabled by Lynne Neagle on the use of bed and breakfasts for homeless 16 to 17-year-olds, and I've picked through your responses to that debate, for which I was very grateful. However, one of the issues that we raised was the fact that 16 to 17-year-olds were going into bed-and-breakfast accommodation that is highly inappropriate, and you pointed out the Welsh Government guidance that says it should not be used if at all possible. But, England, actually, have banned it and said that, even in an emergency situation, it is not okay to put a 16 or a 17-year old child into bed-and-breakfast accommodation. I wonder, Minister, if you would actually give consideration to making your guidance that strict, because there are alternatives out there, and these young people are being put in harm's way from time to time.

Weinidog, fe gymeroch chi a minnau ran mewn dadl fer a gyflwynwyd rai wythnosau'n ôl gan Lynne Neagle ar y defnydd o lety gwely a brecwast i bobl ddigartref 16 ac 17 mlwydd oed, ac rwyf wedi bod drwy eich ymatebion i'r ddadl bwysig honno. Fodd bynnag, un o'r materion a nodwyd gennym oedd y ffaith fod rhai 16 ac 17 oed yn mynd i lety gwely a brecwast sy'n hynod o amhriodol, ac fe nodoch chi fod canllawiau Llywodraeth Cymru yn dweud na ddylid ei ddefnyddio os oedd unrhyw fodd peidio â gwneud hynny. Ond mae Lloegr, mewn gwirionedd, wedi'i wahardd ac wedi dweud nad yw'n iawn rhoi rhai 16 ac 17 oed mewn llety gwely a brecwast hyd yn oed mewn argyfwng. Weinidog, tybed a wnewch chi ystyried gwneud eich canllawiau yr un mor llym â hynny, oherwydd mae yna ddewisiadau eraill i'w cael, ac mae'r bobl ifanc hyn yn cael eu rhoi mewn perygl o bryd i'w gilydd.

14:55 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. It is certainly something that I'm very happy to consider, indeed, since we had that short debate brought to the Chamber from Lynne Neagle. Also, Lynne Neagle highlighted a couple of areas that were particularly keen, shall we say, to use bed and breakfasts. If you remember, during the debate, the statistics that I gave for the local authorities using bed- and-breakfast accommodation for 16 and 17-year-olds were hugely wide—I think it was 60-plus per cent in one and in single figures in several of the others. So, it's something that I am considering following that short debate, and I'll be very happy to update Members in due course.

Gwnaf. Mae'n sicr yn rhywbeth rwy'n hapus iawn i'w ystyried, yn wir, ers i ni gael y ddadl fer honno yn y Siambr gan Lynne Neagle. Hefyd, nododd Lynne Neagle un neu ddau o ardaloedd a oedd yn arbennig o awyddus, gawn ni ddweud, i ddefnyddio llety gwely a brecwast. Os cofiwch, yn ystod y ddadl, roedd yr ystadegau a roddais ynghylch awdurdodau lleol sy'n defnyddio llety gwely a brecwast ar gyfer rhai 16 a 17 oed yn hynod o eang—rwy'n credu ei fod dros 60 y cant yn un ac mewn ffigurau sengl yn sawl un o'r lleill. Felly, mae'n rhywbeth rwy'n ei ystyried yn dilyn y ddadl fer honno, a byddaf yn hapus iawn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau maes o law.

14:55 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies. No? Question 9, Gwyn Price.

Jocelyn Davies. Na? Cwestiwn 9, Gwyn Price.

**Tlodi mewn Gwaith**

**In-work Poverty**

14:55 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau tlodi mewn gwaith? OAQ(4)0389(CTP)*

*9. Will the Minister make a statement on the levels of in work poverty? OAQ(4)0389(CTP)*

14:55 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I recognise in-work poverty is a significant problem, which is why I set out new commitments in this year's tackling poverty action plan annual report, which seek to address this issue. However, I do believe employment is the most sustainable route out of poverty.

Diolch. Rwy'n cydnabod bod tlodi mewn gwaith yn broblem sylweddol, a dyna pam y nodais ymrwymiadau newydd i drechu tlodi mewn gwaith yn yr adroddiad blynyddol ar y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi eleni, er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd bynnag, rwy'n credu mai cyflogaeth yw'r ffordd fwyaf cynaliadwy allan o dlodi.

14:56 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer. Minister, will you join me in opposing the UK Government's decision to set the definition of the living wage at a sum below the figure recognised as appropriate by the Living Wage Foundation?

Diolch i chi am eich ateb. Weinidog, a wnewch chi ategu fy ngwrthwynebiad i benderfyniad Llywodraeth y DU i osod y diffiniad o'r cyflog byw ar lefel is na'r ffigur y mae'r Sefydliad Cyflog Byw yn ei ystyried yn briodol?

Senedd.tv Fideo Video

14:56 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Yes, I absolutely agree. The rate proposed by the UK Government is not the living wage, and referring it to it as a 'national living wage' is, I think, potentially confusing. I think it's also misleading and, to quote another Conservative Member yesterday, it may even be 'mischievous'. I have a number of concerns about the UK Government's proposals and I have responded to the Low Pay Commission's consultations on these changes. Our commitment to the true living wage, I think, is very clear, and I was very pleased to see my colleague, the Minister for Public Services, officially accept the Welsh Government's living wage accreditation at the Welsh Living Wage Week launch on 2 November.

Gwnaf, rwy'n cytuno'n llwyr. Nid yw'r gyfradd a gynigir gan Lywodraeth y DU yn gyflog byw, a gallai cyfeirio ato fel 'cyflog byw cenedlaethol' fod yn ddryslyd o bosibl. Rwy'n credu ei fod hefyd yn gamarweiniol ac, i ddyfynnu Aelod Ceidwadol arall ddoe, gallai hyd yn oed fod yn 'ddrygionus'. Mae gennyf nifer o bryderon ynghylch cynigion Llywodraeth y DU ac rwyf wedi ymateb i ymgynghoriadau'r Comisiwn Cyflogau Isel ar y newidiadau hyn. Mae ein hymrwymiad i'r cyflog byw go iawn yn glir iawn, rwy'n credu, ac roeddwn yn falch iawn o weld fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, yn derbyn achrediad cyflog byw Llywodraeth Cymru yn swyddogol wrth lansio Wythnos Cyflog Byw Cymru ar 2 Tachwedd.

Senedd.tv Fideo Video

14:57 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Minister, the personal tax allowance will rise to £10,800 next year and £11,000 the year after. This means that the typical working taxpayer will be over £900 a year better off, and many of the lowest paid workers will be taken out of tax altogether. Taken with the introduction of the national living wage, does the Minister agree that these measures will go a long way in tackling poverty in work in Wales?

Weinidog, bydd y lwfans treth personol yn codi i £10,800 y flwyddyn nesaf ac i £11,000 y flwyddyn wedyn. Mae hyn yn golygu y bydd trethdalwyr cyffredin sy'n gweithio dros £900 y flwyddyn yn well eu byd, a bydd modd i lawer o'r gweithwyr sy'n gweithio am y cyflogau isaf roi'r gorau i dalu treth yn gyfan gwbl. Gyda chyflwyno cyflog byw cenedlaethol, a yw'r Gweinidog yn cytuno y bydd y mesurau hyn yn mynd ran bell o'r ffordd tuag at drechu tlodi mewn gwaith yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:57 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

No.

Nac ydw.

Senedd.tv Fideo Video

14:57 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Weinidog, mae'r Pwyllgor Gwaith a Phensiynau yn Nhŷ'r Cyffredin wedi cyhoeddi'r gair olaf o ran tystiolaeth ar fater credydau mewn gwaith, ac yn dweud yn glir fod dros dri chwarter y teuluoedd yng Nghymru yn mynd i golli £1,500 os yw credydau treth yn cael eu tynnu'n ôl. Nawr yw'r cyfle, efallai, i ofyn am o leiaf oediad yn y broses yma gan George Osborne. A ydych chi'n dymuno gweld hynny ac a ydych chi'n gweithio fel Llywodraeth i wthio hynny?

Minister the House of Commons Work and Pensions Committee has published the last word in terms of evidence on the issue of in-work tax credits and has stated clearly that over three quarters of families in Wales will lose £1,500 if tax credits are withdrawn. There is now an opportunity, perhaps, to ask George Osborne for at least a deferral in this process. Do you want to see a deferral and are you working as a Government to push for that?

Senedd.tv Fideo Video

14:58 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Well, certainly, again, it's something I mentioned in my answer to Aled Roberts—I'm meeting with the Secretary of State for Wales on Monday and we're going to cover a range of issues and I think it is something—. In-work poverty does concern me, because you don't want to take people out of out-of-work poverty and put them in in-work poverty; that completely goes against everything that we're trying to do. So, I think it is really important that we have a look at everything we can do and, certainly, if we can put some pressure on the UK Government, then we certainly will do so.

Wel, yn sicr, unwaith eto, mae'n rhywbeth y crybwyllais yn fy ateb i Aled Roberts—rwy'n cyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ddydd Llun ac rydym yn mynd i drafod ystod o faterion ac rwy'n credu ei fod yn rhywbeth—. Mae tlodi mewn gwaith yn peri pryder i mi, gan nad ydych am dynnu pobl o dlodi yn sgil bod heb waith a'u gosod mewn tlodi mewn gwaith; mae hynny'n mynd yn gwbl groes i bopeth rydym yn ceisio ei wneud. Felly, rwy'n credu ei bod yn wirioneddol bwysig i ni edrych ar bopeth y gallwn ei wneud ac yn sicr, os gallwn roi rhywfaint o bwysau ar Lywodraeth y DU, yna byddwn yn sicr yn gwneud hynny.

Senedd.tv Fideo Video

### Dechrau'n Deg

### Flying Start

14:58 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

*10. Pa waith monitro y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod Dechrau'n Deg yn gweithio i'r rhai y mae ei angen arnynt fwyaf? OAQ(4)0394(CTP)*

*10. What monitoring does the Welsh Government do to ensure that Flying Start works for those who need it most? OAQ(4)0394(CTP)*

Senedd.tv Fideo Video

14:58 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Thank you. Data are collected on a termly basis from local authorities to ensure high levels of delivery in our most disadvantaged target areas across Wales. Our annual Flying Start statistical release provides key official statistics from the programme for each of the 22 local authorities.

Diolch. Cesglir data tymhorol gan awdurdodau lleol i sicrhau lefelau uchel o ddarpariaeth yn ein hardaloedd targed mwyaf difreintiedig ledled Cymru. Mae ein datganiad ystadegol blynyddol ar Dechrau'n Deg yn darparu ystadegau swyddogol allweddol o'r rhaglen ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol.

Senedd.tv Fideo Video

14:59 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. I recently visited Llanedeyrn health centre with Mark Drakeford and we were impressed by the co-ordination of work going on between midwives, health visitors and school nurses. I wonder if you could just enlighten us a little bit more on how we ensure that those who have a PhD in task avoidance by public authorities are actually getting reached, because it takes, in my experience, at least two or three visits to ensure that people engage.

Diolch yn fawr, Weinidog. Yn ddiweddar, ymwelais â chanolfan iechyd Llanedeyrn gyda Mark Drakeford, a gwnaeth y cydlynu gwaith sy'n digwydd rhwng bydwragedd, ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol argraff arnom. Tybed a allech chi ein goleuo ychydig yn fwy o ran sut y gallwn sicrhau bod y rhai sydd â PhD ar awdurdodau cyhoeddus yn osgoi tasgau yn cael eu cyrraedd, oherwydd yn fy mhrofiad i, mae'n cymryd o leiaf ddau neu dri ymweliad i sicrhau bod pobl yn dod yn rhan o hyn.

Senedd.tv Fideo Video

14:59 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Yes, I think it's really important that we do work very closely with generic health visitors and midwives. You'll be aware that we have a midwife within each of our Flying Start local authority areas. It's something that I've been very keen to see since I came into portfolio. I think it's very important to have those staff there. What the Flying Start health programme does is build on the support and interventions that are offered by the generic services, and, as you say, they know their population and they know the people whom they need to reach. I think, you know, for that to happen, it's absolutely necessary that all elements of the programme work very closely together.

Ie, rwy'n credu ei bod hi'n bwysig iawn ein bod yn gweithio'n agos iawn gydag ymwelwyr iechyd generig a bydwragedd. Fe fyddwch yn ymwybodol fod gennym fydwraig ym mhob un o'n hardaloedd awdurdodau lleol Dechrau'n Deg. Mae'n rhywbeth rwyf wedi bod yn awyddus iawn i'w weld ers i mi gael y portffolio. Credaf ei bod yn bwysig iawn cael yr aelodau staff hyn yno. Yr hyn y mae rhaglen iechyd Dechrau'n Deg yn ei wneud yw adeiladu ar y cymorth a'r ymyriadau sy'n cael eu cynnig gan y gwasanaethau generig, ac fel y dywedwch, maent yn adnabod eu poblogaeth ac yn adnabod y bobl y mae angen iddynt eu cyrraedd. Er mwyn i hynny ddigwydd, wyddoch chi, rwy'n meddwl ei bod yn hollol angenrheidiol i bob elfen o'r rhaglen gydweithio'n agos iawn.

Senedd.tv Fideo Video

### Asedau Cymunedol

### Community Assets

15:00 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am asedau cymunedol? OAQ(4)0393(CTP)*

*11. Will the Minister make a statement on community assets? OAQ(4)0393(CTP)*

Senedd.tv Fideo Video

15:00 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Thank you. We recently consulted on plans to give communities more power over the ownership of community assets. I will make a further statement over the next few weeks as we develop our approach, learning lessons from the strengths and weaknesses in the English system, while focusing on the specific needs of Welsh communities.

Diolch. Buom yn ymgynghori'n ddiweddar ar gynlluniau i roi mwy o rym i gymunedau fod yn berchen ar asedau cymunedol. Byddaf yn gwneud datganiad pellach yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf wrth i ni ddatblygu ein dull, gan ddysgu gwersi o'r cryfderau a'r gwendidau yn y system yn Lloegr wrth ganolbwyntio ar anghenion penodol cymunedau Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

15:00 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister. With an average of one pub closing, and our shops and community centres in north Wales, the implementation of a community asset register within every local authority and giving communities in Wales a right to bid are very much long overdue. Following your recent public consultation, when can we expect your forthcoming statement on assets of community value, and what assurances can you give that communities in Wales will see the same rights as those in England?

Diolch yn fawr, Weinidog. Gyda chyfartaledd o un dafarn yn cau, a'n siopau a'n canolfannau cymunedol yng ngogledd Cymru, mae'n hen bryd gweithredu cofrestr o asedau cymunedol ym mhob awdurdod lleol a rhoi hawl i gymunedau yng Nghymru gyflwyno cynnig. Yn dilyn eich ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddar, pa bryd y gallwn ddisgwyl eich datganiad sydd i ddod ar asedau o werth cymunedol, a pha sicrwydd y gallwch ei roi y bydd cymunedau yng Nghymru yn cael yr un hawliau â rhai Lloegr?

15:01 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, as I mentioned in my original answer to you, certainly within the next few weeks, so, within the next month, I would hope to be making a statement to Members. But what I've been very clear about is, you know, we would take the necessary time to get it right. I mentioned the strengths and weaknesses of the English system. I think even England would say there have been some mistakes made in relation to their strategy, so I do want to learn, you know, the lessons from it. It's not going to be possible to legislate in relation to this before May, but I do think it is important we do all we can to support our communities that want to take those assets forward.

Wel, fel y soniais yn fy ateb gwreiddiol i chi, o fewn yr ychydig wythnosau nesaf yn bendant, felly, o fewn y mis nesaf, rwy'n gobeithio gwneud datganiad i'r Aelodau. Ond yr hyn rwyf wedi bod yn glir iawn yn ei gylch, wyddoch chi, yw y byddem yn rhoi'r amser angenrheidiol i'w gael yn iawn. Soniais am gryfderau a gwendidau'r system yn Lloegr. Rwy'n credu y byddai hyd yn oed Lloegr yn dweud bod rhai camgymeriadau wedi'u gwneud mewn perthynas â'u strategaeth, felly rwyf eisiau dysgu'r gwersi o hynny, wyddoch chi. Nid yw'n mynd i fod yn bosibl deddfu mewn perthynas â hyn cyn mis Mai, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni wneud popeth yn ein gallu i gefnogi ein cymunedau sy'n dymuno bwrw rhagddynt gyda'r asedau hynny.

### Dechrau'n Deg yn Nhaf Elái

### Flying Start in Taff Ely

15:01 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith Dechrau'n Deg yn ardal Taf-Elái? OAQ(4)0383(CTP)*

*12. Will the Minister make a statement on the impact of Flying Start within the Taff Ely area? OAQ(4)0383(CTP)*

15:01 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Flying Start continues to improve outcomes for children and families living in some of our most disadvantaged communities in Rhondda Cynon Taf. This year, the local authority will benefit from over £6.8 million of funding, enabling them to deliver early years interventions to an estimated 3,271 children and their families.

Mae Dechrau'n Deg yn parhau i wella canlyniadau i blant a theuluoedd sy'n byw yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig yn Rhondda Cynon Taf. Eleni, bydd yr awdurdod lleol yn cael budd o dros £6.8 miliwn o gyllid, gan eu galluogi i ddarparu ymyriadau blynyddoedd cynnar i 3,271 o blant a'u teuluoedd yn ôl yr amcangyfrif.

15:02 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, it was great to see you, not so long ago, in Rhydyfelin at the Little Inspirations Flying Start nursery, in one of the most socially deprived parts of my constituency, serving Rhydyfelin and parts of Hawthorn. Do you agree with me that, from what you've seen, the actual provision that's being made to some of the families is a provision of excellence in support to those families and support to the children? Will you also have another look at the issue of the boundaries that are drawn with Flying Start, because, of course, there are areas that overlap that don't benefit from that form of excellent provision?

Weinidog, roedd yn wych eich gweld heb fod mor bell yn ôl â hynny, ym meithrinfa Little Inspirations Dechrau'n Deg yn Rhydyfelin, yn un o'r rhannau mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol o fy etholaeth, ac sy'n gwasanaethu Rhydyfelin a rhannau o'r Ddraenen Wen. O'r hyn a weloch, a ydych yn cytuno bod y ddarpariaeth i'r teuluoedd hyn mewn gwirionedd yn ddarpariaeth ragorol ar gyfer cefnogi teuluoedd a rhoi cymorth i'r plant? A wnewch chi hefyd edrych eto ar fater y ffiniau a grewyd ar gyfer Dechrau'n Deg, oherwydd, wrth gwrs, ceir ardaloedd sy'n gorgyffwrdd nad ydynt yn cael budd o ddarpariaeth ragorol o'r fath?

15:02 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was delighted to visit Little Inspirations nursery recently with you and to see, first hand, the high-quality childcare provision that was being delivered. It was absolutely excellent and it was so good to see all the different parts of the building coming together to support those children. Positive outcomes for a child are an absolutely fundamental principle of Flying Start and, you know, we know that will provide them with the best start in life. So, it was really good to visit that with you. It is a geographical programme, and you're always going to get the issues to which you alluded. Flying Start reaches 25 per cent of our children in Wales and it would be great to expand that and extend that, but, obviously, we have to look at budgets, unfortunately. But, certainly, I think everybody in this Chamber would agree that Flying Start has been such a positive scheme.

Roeddwn wrth fy modd yn ymweld â meithrinfa Little Inspirations gyda chi yn ddiweddar ac yn gweld, â'm llygad fy hun, y ddarpariaeth gofal plant o safon uchel a gyflwynir. Roedd yn hollol wych ac felly, roedd hi'n dda gweld yr holl wahanol rannau o'r adeilad yn dod at ei gilydd i gefnogi'r plant hynny. Mae canlyniadau cadarnhaol i blentyn yn un o egwyddorion cwbl sylfaenol Dechrau'n Deg, ac rydym yn gwybod y bydd yn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd iddynt. Felly, roedd hi'n dda iawn edrych ar hynny gyda chi. Mae'n rhaglen ddaearyddol, ac mae'r materion y cyfeirioch chi atynt bob amser yn mynd i godi. Mae Dechrau'n Deg yn cyrraedd 25 y cant o'n plant yng Nghymru a byddai'n wych ehangu hynny a'i ymestyn, ond yn amlwg, mae'n rhaid i ni edrych ar gyllidebau, yn anffodus. Ond yn sicr, rwy'n meddwl y byddai pawb yn y Siambr yn cytuno bod Dechrau'n Deg wedi bod yn gynllun cadarnhaol iawn.

15:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

15:03

## 3. Datganiad: Cyfarfodydd i Drafod y Diwydiant Dur

## 3. Statement: Steel Industry Meetings

Senedd.tv Fideo Video

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 3 is a statement by the Minister for Economy, Science and Transport on the steel industry meetings. I call on the Minister, Edwina Hart.

Eitem 3 yw datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar gyfarfodydd y diwydiant dur. Galwaf ar Edwina Hart, y Gweinidog.

15:03 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Thank you, Deputy Presiding Officer. Recent industry announcements clearly show that the steel industry has reached a critical point. Given the importance of the sector to our economy, it is essential that we can take swift action.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae cyhoeddiadau diweddar gan y diwydiant yn dangos yn glir fod y diwydiant dur wedi cyrraedd pwynt tyngedfennol. O ystyried pwysigrwydd y sector i'n heconomi, mae'n hanfodol ein bod yn gallu rhoi camau ar waith ar unwaith.

On 20 October, I updated Members on the outcomes from the UK Government steel summit. Since then, we have been engaging with the UK Government on the three steel working groups to identify what else can be done in respect of procurement, international comparisons, competitiveness and productivity.

Ar 20 Hydref, rhoddais y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch canlyniadau uwchgynhadledd dur Llywodraeth y DU. Ers hynny, rydym wedi bod yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU yn y tri gweithgor dur i nodi beth arall y gellir ei wneud o ran caffael, cymariaethau rhyngwladol, cystadleurwydd a chynhyrchiant.

To ensure a fuller appreciation of the issues facing the industry in Wales, I have been visiting steel companies this week and last week, and I convened an urgent round-table meeting with representatives of the steel sector in Wales, including both businesses and trade unions. At the meeting, the current situation in Wales was described as being a 'perfect storm' with multiple factors affecting the sector from imported steel, high energy costs, price pressures, the exchange rate and a range of other issues affecting the entire supply.

Er mwyn sicrhau gwerthfawrogiad llawnach o'r materion sy'n wynebu'r diwydiant yng Nghymru, rwyf wedi bod yn ymweld â chwmnïau dur yr wythnos hon a'r wythnos diwethaf, a gelwais gyfarfod brys wrth fwrdd crwn gyda chynrychiolwyr o'r sector dur yng Nghymru, gan gynnwys busnesau ac undebau llafur. Yn y cyfarfod, disgrifiwyd y sefyllfa bresennol yng Nghymru fel 'storm berffaith' gyda ffactorau lluosog yn effeithio ar y sector, yn cynnwys dur wedi'i fewnforio, costau ynni uchel, pwysau o ran prisiau, y gyfradd gyfnewid ac ystod o faterion eraill sy'n effeithio ar y cyflenwad cyfan.

We concluded that a two-stage approach is needed, with immediate actions to stem the worst effects of the crisis, in parallel with the development of a longer term strategy—a clear industrial policy at a UK level. In terms of immediate actions, procurement was considered to have considerable potential. I've seen the recent UK Government guidance on steel procurement, and our initial view is that it mirrors the existing practice in Wales—one that has been warmly welcomed. It seems clear, however, that this needs to be extended further than just direct public procurement, to publicly enabled procurement such as major infrastructure projects, as well as encouraging private sector procurement to operate to similar standards. I've asked that examples of good practice be identified and shared with the UK Government.

Daethom i'r casgliad fod angen dull dau gam, gan weithredu camau ar unwaith er mwyn atal effeithiau gwaethaf yr argyfwng, ochr yn ochr â datblygu strategaeth yn y tymor hwy—polisi diwydiannol clir ar lefel y DU. O ran camau i'w gweithredu ar unwaith, ystyriwyd bod potensial sylweddol i gaffael. Rwyf wedi gweld canllawiau diweddar Llywodraeth y DU ar gaffael dur, a'n barn gychwynnol yw eu bod yn adlewyrchu'r arfer presennol yng Nghymru—un a gafodd groeso cynnes. Mae'n ymddangos yn glir, fodd bynnag, fod angen ei ymestyn ymhellach na chaffael cyhoeddus uniongyrchol yn unig, i gynnwys caffael wedi'i alluogi'n gyhoeddus megis prosiectau seilwaith mawr, yn ogystal ag annog caffael y sector preifat i weithredu yn ôl safonau tebyg. Rwyf wedi gofyn i enghreifftiau o arfer da gael eu nodi a'u rhannu gyda Llywodraeth y DU.

The meeting welcomed the recent announcement about the energy-intensive industry compensation package, but would like to see delivery of this as early as possible. I'm also keen to see what can be done to support the steel sector through business rates. We are examining ways to exempt new plant and machinery from business rate increases and so encourage greater levels of investment. I will be looking at environmental improvements.

Roedd y cyfarfod yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar am y pecyn iawndal diwydiannau ynni-ddwys, ond hoffwn ei weld yn cael ei ddarparu cyn gynted â phosibl. Rwy'n awyddus i weld hefyd beth y gellir ei wneud i gefnogi'r sector dur drwy ardrethi busnes. Rydym yn chwilio am ffyrdd i eithrio offer a pheiriannau newydd o godiadau mewn ardrethi busnes, a thrwy hynny annog lefelau uwch o fuddsoddiad. Byddaf yn edrych ar welliannau amgylcheddol.

Clearly, any actions we undertake will be subject to state aid rules. There is no doubt that the situation today is very different from the time when the state aid rules were introduced for the steel sector. A strong UK voice seeking reform is needed as there is a strong case for change. Comments have been made about actions in other European countries when industries face difficulties. I've asked those attending to highlight any international examples that they are aware of where the public sector has stepped in to support the steel sector.

Yn amlwg, bydd unrhyw gamau gweithredu a roddwn ar waith yn ddarostyngedig i reolau cymorth gwladwriaethol. Nid oes amheuaeth fod y sefyllfa heddiw yn wahanol iawn i'r adeg pan gyflwynwyd y rheolau cymorth gwladwriaethol ar gyfer y sector dur. Mae angen llais cryf yn y DU i alw am ddiwygio gan fod yna achos cryf dros newid. Gwnaed sylwadau ynglŷn â chamau gweithredu mewn gwledydd Ewropeaidd eraill pan fo diwydiannau'n wynebu anawsterau. Gofynnais i'r rhai a oedd yn bresennol dynnu sylw at enghreifftiau rhyngwladol y gwyddent amdanynt o'r sector cyhoeddus yn camu i mewn i gefnogi'r sector dur.

Training and development opportunities within the sector were raised as being an important factor as the workforce generally has a higher age profile than other sectors, and it is important to attract new entrants to the workforce. I'm therefore arranging for the Deputy Minister for Skills and Technology to meet with steel sector representatives to discuss possibilities.

Nodwyd bod cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn y sector yn ffactor bwysig gan fod y proffil oedran yn y sector yn gyffredinol yn hŷn na sectorau eraill, ac mae'n bwysig denu pobl newydd i'r gweithlu. Felly rwy'n trefnu i'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg gyfarfod â chynrychiolwyr y sector dur i drafod posibiliadau.

As a result of the meeting, I'm setting up an industry-led task group to gather examples of good procurement practices, to consider how rate relief might work, and to identify the support that other EU countries have provided to their steel industries.

O ganlyniad i'r cyfarfod, rwy'n sefydlu grŵp gorchwyl wedi'i arwain gan y diwydiant i gasglu enghreifftiau o arferion caffael da, i ystyried sut y gallai rhyddhad ardrethi weithio, ac i nodi'r cymorth y mae gwledydd eraill yr UE wedi'i ddarparu i'w diwydiannau dur.

Following the meeting, I have written to the Secretary of State for Business, Innovation and Skills to set out the issues raised. Given the geographically dispersed nature of the sector and its supply chains, it would be better if a UK-wide approach were adopted on a number of these issues. I've also asked for strengthened working between our respective officials to ensure that the Welsh perspective is fully reflected at the UK and European levels going forward. I've also written to the Scottish Minister for Business, Energy and Tourism, to update him on the outcome of the meeting. Given the similar pressures that we face, there may be opportunities to work together to ensure that our respective positions are robustly represented in pressing the case for action at the UK level.

Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau i nodi'r materion a godwyd. O ystyried natur wasgaredig y sector a'i gadwyni cyflenwi yn ddaearyddol, byddai'n well pe bai ymagwedd ar gyfer y DU gyfan yn cael ei mabwysiadu ar nifer o'r materion hyn. Rwyf wedi gofyn hefyd am gryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth rhwng ein swyddogion i sicrhau bod y safbwynt Cymreig wedi'i adlewyrchu'n llawn ar lefel y DU ac Ewrop yn y dyfodol. Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Weinidog Busnes, Ynni a Thwristiaeth yr Alban, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am ganlyniad y cyfarfod. O ystyried y pwysau tebyg sy'n ein hwynebu, efallai y ceir cyfleoedd i weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ein safbwyntiau yn cael eu cynrychioli'n drwyadl wrth bwysleisio'r achos dros weithredu ar lefel y DU.

On Monday of this week, the EU's Competitiveness Council met to discuss the European steel industry, and officials from the Welsh Government were present. I welcome the Competitiveness Council's recognition of the gravity of the situation and the need to take concrete actions to ensure the long-term viability of a modern European steel sector. The council's actions with regard to EU trade policy are particularly welcome to ensure a level playing field and to address restrictive measures in third countries. This is particularly so in terms of the modernisation of trade defence instruments and increasing their transparency, effectiveness and enforcement. I endorse the need for a revision of the EU's steel action plan and making full use of the investment plan for Europe.

Ddydd Llun yr wythnos hon, cyfarfu Cyngor Cystadleurwydd yr UE i drafod y diwydiant dur yn Ewrop, ac roedd swyddogion o Lywodraeth Cymru yn bresennol. Rwy'n croesawu'r ffaith fod y Cyngor Cystadleurwydd yn cydnabod difrifoldeb y sefyllfa a'r angen i roi camau pendant ar waith i sicrhau hyfywedd hirdymor y sector dur modern yn Ewrop. Mae camau gweithredu'r cyngor mewn perthynas â pholisi masnach yr UE i'w croesawu'n arbennig er mwyn sicrhau chwarae teg ac i fynd i'r afael â mesurau cyfyngol mewn trydydd gwledydd. Mae hyn yn arbennig o wir o ran y broses o foderneiddio offerynnau diogelu masnach a chynyddu eu tryloywder, eu heffeithiolrwydd a chamau i'w gorfodi. Rwy'n ategu'r angen i adolygu cynllun gweithredu yr UE ar ddur ac yn gwneud defnydd llawn o'r cynllun buddsoddi ar gyfer Ewrop.

We are interested in exploring any opportunities to upgrade and modernise the steel sector through the use of the European investment advisory hub and the European fund for strategic investments—a meeting about which is taking place in Cardiff on 19 November.

Mae gennym ddiddordeb mewn archwilio unrhyw gyfleoedd i wella a moderneiddio'r sector dur drwy ddefnyddio'r awdurdod cynghori ar fuddsoddiadau Ewropeaidd a'r gronfa Ewropeaidd ar gyfer buddsoddiadau strategol—y cynhelir cyfarfod yn ei chylch yng Nghaerdydd ar 19 Tachwedd.

A commitment was made at the Competitiveness Council to support energy-intensive industries under the revised state aid rules. However, I'm disappointed that the council stopped short of an agreement to review the regulations, which I consider are well past their use-by date. I am committed to maintaining our engagement in discussions at UK and European levels to ensure that the Welsh position is fully represented. I will certainly keep Members up to date on developments.

Gwnaed ymrwymiad yn y Cyngor Cystadleurwydd i gefnogi diwydiannau ynni-ddwys o dan y rheolau cymorth gwladwriaethol diwygiedig. Fodd bynnag, rwy'n siomedig na chafwyd cytundeb yn y cyngor i adolygu'r rheoliadau, gan fy mod o'r farn eu bod wedi hen basio'u dyddiad defnyddio. Rwyf wedi ymrwymo i gynnal ein hymwneud mewn trafodaethau ar lefel y DU ac Ewrop i sicrhau bod safbwynt Cymru yn cael ei gynrychioli'n llawn. Byddaf yn sicr yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau i'r Aelodau.

15:09

## William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

May I thank the Minister for her timely statement today? Clearly, the recent UK Government guidance on steel procurement matches very much what the Minister has been trying to achieve, and we feel that this joint approach will make the whole case stronger. Also, I welcome the recent announcement about the energy-intensive industry compensation package. As the Minister rightly remarked, we would all like to see this delivered at an earlier date. Could the Minister give some idea—if not today, in a later statement—what she really can do in terms of helping the steel sector through business rates? Clearly, this is vitally important. We note the amount about state aid, but I think that if you had the money, Minister, you could at least offer some £15 million on an annual basis.

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad amserol heddiw? Yn amlwg, mae'r canllawiau diweddar gan Lywodraeth y DU ar gaffael dur yn cyfateb i raddau helaeth i'r hyn y mae'r Gweinidog wedi bod yn ceisio ei gyflawni, ac rydym yn teimlo y bydd y dull hwn o fynd ati ar y cyd yn cryfhau'r achos yn ei gyfanrwydd. Hefyd, rwy'n croesawu'r cyhoeddiad diweddar am y pecyn iawndal diwydiannau ynni-ddwys. Fel roedd y Gweinidog yn gywir i ddweud, byddem i gyd yn hoffi gweld hyn yn cael ei gyflawni'n gynharach. A allai'r Gweinidog roi rhyw syniad—os nad heddiw, mewn datganiad yn nes ymlaen—beth y gall ei wneud mewn gwirionedd i helpu'r sector dur drwy ardrethi busnes? Yn amlwg, mae hyn yn hanfodol bwysig. Nodwn y swm o gymorth gwladwriaethol, ond rwy'n credu, pe bai gennych yr arian, Weinidog, gallech o leiaf gynnig tua £15 miliwn yn flynyddol.

We welcome, certainly, training and development opportunities. As the Minister remarks, the industry has a much higher age profile, and it is very important that there will be a future for young people to enter in the future, so we'd welcome, perhaps at a later date, a statement from the Deputy Minister for Skills and Technology on her success on that particular issue.

Yn bendant, rydym yn croesawu cyfleoedd hyfforddi a datblygu. Fel y nododd y Gweinidog, mae proffil oedran y diwydiant yn llawer hŷn, ac mae'n bwysig iawn sicrhau dyfodol i bobl ifanc allu anelu tuag ato, felly byddem yn croesawu datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, ar ddyddiad yn nes ymlaen efallai, ar ei llwyddiant mewn perthynas â'r mater hwnnw'n benodol.

We feel it's essential, given the geographically dispersed nature of the sector and its supply chains, that there has to be a United Kingdom-wide approach. We greatly welcome also the strengthened working between our respective officials. Again, that makes for a more comprehensive case. The EU Competitiveness Council met at the insistence of the United Kingdom Government, and I would comment on that if I may, Minister. One of the members who attended said, and I quote—in the face of imminent and irreparable damage to the European steel industry—it was,

O ystyried natur wasgaredig y sector a'i gadwyni cyflenwi yn ddaearyddol, teimlwn fod yn rhaid cael ymagwedd gyffredin ar draws y Deyrnas Unedig. Rydym yn croesawu'n fawr hefyd y modd y cryfhawyd trefniadau gwaith partneriaeth rhwng ein swyddogion. Unwaith eto, mae'n cyfrannu at achos mwy cynhwysfawr. Cyfarfu Cyngor Cystadleurwydd yr UE wedi i Lywodraeth y Deyrnas Unedig fynnu, a hoffwn wneud sylwadau ar hynny os caf fi, Weinidog. Dywedodd un o'r aelodau a oedd yn bresennol, yn wyneb y difrod anadferadwy sydd ar fin digwydd i ddiwydiant dur Ewrop, yr hyn ydoedd oedd,

'a talking shop but it could have achieved so much more... It's a missed opportunity'.

'a talking shop but it could have achieved so much more... It's a missed opportunity'.

No doubt the Minister would echo that, but I would ask her, when she comes to make her next statement, how much progress can be made within that, because it is very necessary that there is a combined approach right across Europe.

Mae'n siŵr y byddai'r Gweinidog yn adleisio hynny, ond hoffwn ofyn iddi, pan ddaw i wneud ei datganiad nesaf, faint o gynnydd y gellir ei wneud o'i fewn, oherwydd mae gwir angen sicrhau ymagwedd gyfunol ar draws Ewrop.

It's not all gloom, Minister. You will know that, already, sterling has slipped to the lowest level since April, so not only in terms of purchasing raw materials, but with exports also, our materials can be slightly more competitive than they were even a few weeks ago. I strongly endorse the need for revision of the European Union steel action plan, and we must make further use of the investment plan for Europe. I welcome the Minister's further information on that in due course. I'm most grateful to the Minister for giving the undertaking to keep Members updated on this very essential point.

Nid yw popeth yn anobeithiol, Weinidog. Fe fyddwch yn gwybod eisoes fod sterling wedi disgyn i'r lefel isaf ers mis Ebrill, felly, nid yn unig o ran prynu deunyddiau crai, ond gydag allforion hefyd, gall ein deunyddiau fod ychydig yn fwy cystadleuol na'r hyn a oeddent ychydig wythnosau yn ôl hyd yn oed. Rwy'n ategu'n gryf yr angen i adolygu cynllun gweithredu yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer dur, ac mae'n rhaid i ni wneud defnydd pellach o'r cynllun buddsoddi ar gyfer Ewrop. Rwy'n croesawu mwy o wybodaeth gan y Gweinidog ar hynny maes o law. Rwy'n hynod o ddiolchgar i'r Gweinidog am ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y pwynt hanfodol hwn.

15:11

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I say I'll obviously be pleased to update Members as we go along on some of these issues? One of the areas is procurement, and I think it is important that we ensure that procurement isn't just about the public sector but those contracts that we influence elsewhere. We've only got to look at the example of Wylfa ourselves in north Wales. We want to ensure that Welsh steel can go into Wylfa, and we do have plants that are capable of making that type of steel in Wales to go into that project. So, I think that is very important.

A gaf fi ddweud y byddaf yn amlwg yn falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau wrth symud ymlaen ar rai o'r materion hyn? Un o'r meysydd yw caffael, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig i ni sicrhau nad yw caffael yn ymwneud yn unig â'r sector cyhoeddus ond hefyd y contractau hynny rydym yn dylanwadu arnynt mewn mannau eraill. Nid oes ond raid i ni edrych ar achos Wylfa yng ngogledd Cymru. Rydym am sicrhau y gall dur Cymru fynd i'r Wylfa, ac mae gennym safleoedd sy'n gallu gwneud y math hwnnw o ddur yng Nghymru ar gyfer y prosiect. Felly, credaf fod hynny'n bwysig iawn.

Also, in terms of the energy-intensive package, I think everybody's disappointed. They're currently awaiting the clearance from Brussels, I understand, on the package. One would hope that the Chancellor perhaps would be able to make an announcement when he's in front of the house at some time, because it would be a good news announcement, and I think it's very important that we support the fact that this application has been made in this regard.

Hefyd, o ran y pecyn ynni-ddwys, rwy'n meddwl bod pawb yn siomedig. Ar hyn o bryd maent yn aros i Frwsel gymeradwyo'r pecyn, yn ôl yr hyn rwy'n ei ddeall. Byddai rhywun yn gobeithio y bydd y Canghellor efallai yn gallu gwneud cyhoeddiad pan ddaw gerbron y tŷ ar ryw adeg, oherwydd byddai'n gyhoeddiad a fyddai'n newyddion da, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn i ni gefnogi'r ffaith fod y cais hwn wedi'i wneud yn hyn o beth.

Regarding business rates, every time we suggest helping the steel industry, the words 'state aid' come out. I think we have to accept that I think the state-aid rules are out of touch with the modern world of steel across Europe, and it's very important that the Commission realises it's not just a UK matter; this is an issue across Europe in terms of what we need to do. In terms of business rates, as you will recall from the report, there was a suggestion we could look at plants and equipment, but some of the steel manufacturers say 'yes', others say 'no', they'd like me to look at whether I could help with the environmental cost, et cetera. So, that's why I'm getting the group together, so that we can go through a middle road on that.

O ran ardrethi busnes, bob tro yr awgrymwn helpu'r diwydiant dur, clywn y geiriau 'cymorth gwladwriaethol'. Rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni dderbyn bod diffyg cysylltiad rhwng y rheolau cymorth gwladwriaethol a'r byd dur modern ar draws Ewrop, ac mae'n bwysig iawn i'r Comisiwn sylweddoli nad mater ar gyfer y DU yn unig yw hyn; mae'n fater i Ewrop gyfan o ran yr hyn sydd angen i ni ei wneud. O ran ardrethi busnes, fel y cofiwch o'r adroddiad, cafwyd awgrym y gallem edrych ar beiriannau ac offer, ond mae rhai o'r gwneuthurwyr dur yn dweud 'iawn', ac eraill yn dweud 'na', a byddent yn hoffi i mi edrych i weld a allwn i helpu gyda'r gost amgylcheddol, ac yn y blaen. Felly, dyna pam rwy'n dod â'r grŵp at ei gilydd, er mwyn i ni allu dilyn ffordd ganol ar hynny.

In terms of training and development, of course you will recall that we helped out Tata in Port Talbot with a very innovative scheme, and we might have to consider further innovative schemes, which I know they're going to discuss with my colleague Julie James, about what we can do on the training agenda.

O ran hyfforddi a datblygu, wrth gwrs, fe gofiwch ein bod wedi helpu Tata ym Mhort Talbot gyda chynllun arloesol iawn, a gallai fod yn rhaid i ni ystyried cynlluniau arloesol pellach, a gwn eu bod yn mynd i drafod hynny gyda fy nghyd-Aelod Julie James, o ran yr hyn y gallwn ei wneud ar yr agenda hyfforddi.

But you are quite right: this is a UK issue. We may have a lot of steelworks in Wales, but it's an issue for the UK, how the supply chain works and also, as a nation, whether we wish to have a steel industry. Because I think we're at the point now where, you know, is it real? Do we want it? And if we want it, we've got to do something to assist it. I notice when it comes to the banks, nobody hesitates to assist. When it comes to industry, there seems to be a lack of will to assist. In this industry we're talking about the industrial economy and we're talking about what we can produce, and to think that we consider ourselves to be a nation in the first world, and we perhaps might not have a steel industry. So, I think there are important issues on that.

Ond rydych yn llygad eich lle: mater i'r DU yw hwn. Efallai fod gennym lawer o weithfeydd dur yng Nghymru, ond mater ar gyfer y DU yw sut y mae'r gadwyn gyflenwi'n gweithio a hefyd, fel cenedl, a ydym yn dymuno cael diwydiant dur. Oherwydd rwy'n credu ein bod yn awr ar bwynt, wyddoch chi, lle y mae'n rhaid gofyn a yw'n real? A ydym ei eisiau? Ac os ydym, mae'n rhaid i ni wneud rhywbeth i'w gynorthwyo. Mewn perthynas â'r banciau, rwy'n sylwi nad oes neb yn petruso rhag cynorthwyo. Mewn perthynas â diwydiant, mae'n ymddangos bod diffyg ewyllys i gynorthwyo. Yn y diwydiant hwn rydym yn sôn am yr economi ddiwydiannol ac rydym yn sôn am yr hyn y gallwn ei gynhyrchu, ac i feddwl ein bod yn ystyried ein hunain yn wlad ddatblygedig, ac efallai na fydd gennym ddiwydiant dur. Felly, credaf fod cwestiynau pwysig yn codi ynghylch hynny.

The Competitiveness Council, I think, for many has been a disappointment. I think they expected more rapid progress, as I indicated in my statement. I in fact visited Liberty Steel today, and they had their Diwali celebrations, which were very enjoyable. They're looking at what more they want to do, but even they mentioned issues with me about, if they could get things going in other areas, what we could do with them in terms of energy-intensive, and how many more jobs could be brought to that site. So, this is a very important issue, I think, for us in Wales, but it's an important issue for us in the UK. There's no point in trying to point-score politically on any of this, because the workers are very important in this, as is keeping these industries. We must work as well as we can collectively.

Mae'r Cyngor Cystadleurwydd, rwy'n credu, wedi bod yn destun siom i lawer. Rwy'n credu eu bod wedi disgwyl cynnydd cyflymach, fel y dywedais yn fy natganiad. Mewn gwirionedd ymwelais â Liberty Steel heddiw, ac roeddent yn cynnal eu dathliadau Diwali, a oedd yn ddymunol iawn. Maent yn edrych ar beth arall y maent am ei wneud, ond roeddent hwy hyd yn oed yn sôn am bethau wrthyf y gallem eu gwneud gyda hwy o ran gweithgarwch ynni-ddwys, os gallent gael pethau i symud mewn ardaloedd eraill, a faint rhagor o swyddi y gellid eu dwyn i'r safle hwnnw. Felly, rwy'n credu bod hwn yn fater pwysig iawn i ni yng Nghymru, ond mae'n fater pwysig i ni yn y DU hefyd. Nid oes pwynt ceisio sgorio pwyntiau gwleidyddol gydag unrhyw agwedd ar hyn, gan fod y gweithwyr yn bwysig iawn, fel y mae cadw'r diwydiannau hyn. Mae'n rhaid i ni gydweithio cystal ag y gallwn.

15:15

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I welcome the statement that you've made this afternoon and the actions already taken by the Welsh Government to actually work with businesses and the trade unions in the steel industry here in Wales. I've spoken to many steelworkers and businesses in my constituency, and it's clear that the actions are important and they want a steel industry here in the UK, particularly here in Wales.

Weinidog, croesawaf y datganiad a wnaethoch y prynhawn yma a'r camau a gymerodd Llywodraeth Cymru eisoes i weithio gyda busnesau a'r undebau llafur yn y diwydiant dur yma yng Nghymru. Rwyf wedi siarad â llawer o weithwyr dur a busnesau yn fy etholaeth, ac mae'n amlwg fod y camau gweithredu'n bwysig a'u bod am gael diwydiant dur yma yn y DU, yn enwedig yma yng Nghymru.

*Daeth y Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) i'r Gadair.*

*The Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) took the Chair.*

## David Rees Bywgraffiad Biography

I agree that a clear UK Government industrial policy is essential here, and I'm pleased that they're now following Wales in looking to use procurement as a means of actually —being more creative in their approaches to procurement to actually encourage more businesses to take British steel. But I'd best be honest, since I've been elected to this Chamber, successive Ministers of the UK Government actually have dragged their feet on any actions that would support our steel industry, especially actions on high energy costs, despite continued warnings they've received. I'm sorry to say that, in fact, many steelworkers have actually paid the price for that, and I hope we don't see many more, and their families, do the same thing.

Rwy'n cytuno bod polisi diwydiannol clir gan Lywodraeth y DU yn hanfodol yma, ac rwy'n falch eu bod yn awr yn dilyn Cymru o ran ystyried defnyddio caffael fel ffordd o fod yn fwy creadigol mewn gwirionedd yn eu dulliau o gaffael i annog rhagor o fusnesau i brynu dur Prydain. Ond byddai'n well i mi fod yn onest, ers i mi gael fy ethol i'r Siambr hon, mae Gweinidogion olynol yn Llywodraeth y DU wedi llusgo eu traed ar unrhyw gamau gweithredu a fyddai'n cefnogi ein diwydiant dur, yn enwedig camau'n ymwneud â phrisiau uchel ynni, er gwaethaf y rhybuddion parhaus a gawsant. Mae'n ddrwg gennyf ddweud bod llawer o weithwyr dur mewn gwirionedd wedi talu'r pris am hynny, ac rwy'n gobeithio na welwn lawer mwy o weithwyr, a'u teuluoedd, yn wynebu'r un peth.

I'm pleased they've woken up to this, and I'm pleased they actually are trying, now, urgently to do the energy-intensive industry compensation package and trying to push that through quickly, and I'm very pleased they've gone to Europe to actually push that, but it's years late—they should have done it years ago.

Rwy'n falch eu bod wedi dihuno o ran hyn, ac rwy'n falch eu bod mewn gwirionedd yn bwrw iddi ar frys i sicrhau'r pecyn iawndal diwydiannau ynni-ddwys ac yn ceisio'i wthio drwodd yn gyflym, ac rwy'n falch iawn eu bod wedi mynd i Ewrop i wthio hwnnw drwodd mewn gwirionedd, ond mae hi flynyddoedd yn rhy hwyr—dylent fod wedi gwneud hyn flynyddoedd yn ôl.

Minister, I welcome the work being done on business rates support. You mentioned the environmental issues here. Will you actually raise with the UK Government how, perhaps, businesses that are improving efficiency in areas of the environment, particularly in recycling, can actually be supported a bit further? Many industries are now looking at how they recycle some of their waste products, and they're not getting any benefit out of it from support in any way whatsoever. What discussions have officials had with the contractors and the supply-chain sector into this work? I know it's a UK business, but we need to look at those areas as well, because those areas are being impacted upon. So, it's not just the steel industry, it's the other businesses that rely on the steel industry.

Weinidog, rwy'n croesawu'r gwaith sydd ar y gweill ar gymorth ardrethi busnes. Fe sonioch am y materion amgylcheddol yma. A wnewch chi dynnu sylw Llywodraeth y DU yn awr efallai at y busnesau sy'n gwella effeithlonrwydd mewn meysydd amgylcheddol, yn enwedig mewn ailgylchu, y gellid rhoi ychydig bach o gefnogaeth ychwanegol iddynt? Mae llawer o ddiwydiannau yn awr yn edrych ar sut y maent yn ailgylchu rhai o'u cynhyrchion gwastraff, ac nid ydynt yn cael unrhyw fudd ohono drwy gymorth o unrhyw fath o gwbl. Pa drafodaethau y mae swyddogion wedi'u cael gyda'r contractwyr a sector y gadwyn gyflenwi ar y gwaith hwn? Rwy'n gwybod mai mater ar gyfer y DU yw hwn, ond mae angen i ni edrych ar y meysydd hynny hefyd, gan yr effeithir ar y meysydd hynny. Felly, nid yw'n ymwneud â'r diwydiant dur yn unig, mae'n ymwneud â'r busnesau eraill sy'n dibynnu ar y diwydiant dur hefyd.

You mentioned that you've asked the Deputy Minister to look at the apprenticeships and skills training, but can you also look at how we provide some form of guarantee so people moving into that have confidence that they will complete their training and that they will be able to have the possibility of employment beyond that? I think many people want that confidence when they go into a scheme for training and apprenticeships, particularly something that is, as we know in my town, a long-lasting type of opportunity.

Fe sonioch eich bod wedi gofyn i'r Dirprwy Weinidog edrych ar y prentisiaethau a hyfforddiant sgiliau, ond a wnewch chi edrych hefyd ar sut rydym yn darparu rhyw fath o warant fel y gall pobl sy'n gwneud hynny fod yn hyderus y byddant yn cwblhau eu hyfforddiant ac y gallant gael gwaith y tu hwnt i hynny o bosibl? Rwy'n meddwl bod llawer o bobl eisiau'r hyder hwnnw pan fyddant yn dechrau ar gynllun hyfforddi a phrentisiaethau, yn enwedig rhywbeth sydd, fel y gwyddom yn fy nhref i, yn fath o gyfle sy'n mynd i bara'n hir.

Finally, Minister, I do hope that steel is something that is here to stay. My town lives off the steel industry, has survived off the steel industry, and its future is with the steel industry.

Yn olaf, Weinidog, rwy'n gobeithio bod dur yn rhywbeth sydd yma i aros. Mae fy nhref i'n byw oddi ar y diwydiant dur, wedi goroesi yn sgil y diwydiant dur, ac mae ei dyfodol yn y diwydiant dur.

15:17

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

When I was at the steel summit, I had the opportunity of meeting various Members of Parliament who are not Welsh about what happens within their constituency regarding the steel industry and how the lack of hope in those communities came across. We've seen that across Wales; when I was a child, you'd go into Cardiff and you'd go past East Moors steelworks. There was a lot going on; there were more tinplate works in my own constituency, et cetera, and it really takes the heart out of there. Steel could be just as damaging—what's happening to the steel industry has happened to coal mining—in terms of where we're going, and the disillusionment that that's going to give in communities. I think we all feel that very much indeed.

Pan oeddwn yn yr uwchgynhadledd dur, cefais gyfle i gyfarfod â gwahanol Aelodau Seneddol o'r tu allan i Gymru a soniodd am yr hyn sy'n digwydd yn eu hetholaeth mewn perthynas â'r diwydiant dur a sut y cai'r diffyg gobaith yn y cymunedau hynny ei gyfleu. Rydym wedi gweld hynny ledled Cymru; pan oeddwn yn blentyn, byddech yn mynd i mewn i Gaerdydd heibio i waith dur East Moors. Roedd llawer yn digwydd yno; roedd mwy o weithfeydd tunplat yn fy etholaeth, ac yn y blaen, ac mae'n sicr yn tynnu'r galon allan o'r lle. Gallai dur fod yr un mor niweidiol—mae'r hyn sy'n digwydd i'r diwydiant dur wedi digwydd i'r gwaith glo—o ran lle rydym yn mynd, a'r dadrithiad y mae hynny'n mynd i'w achosi mewn cymunedau. Rwy'n meddwl ein bod i gyd yn teimlo hynny'n fawr iawn.

Can I say, on public procurement, it is very important we ensure that the BES 6001 standard is there, because that will help, I think, in terms of utilising the steel? Of course, we have, as a Government, very much welcomed the charter that was originally put together for sustainable British steel and was, of course, launched by the steel industry. So, we've backed that for a long time.

A gaf fi ddweud, o ran caffael cyhoeddus, mae'n bwysig iawn ein bod yn sicrhau bod y safon BES 6001 yno, oherwydd bydd yn helpu, rwy'n meddwl, o ran defnyddio'r dur? Wrth gwrs, fel Llywodraeth, rydym wedi rhoi croeso mawr i'r siarter a roddwyd at ei gilydd yn wreiddiol ar gyfer dur Prydain cynaliadwy ac wrth gwrs, fe'i lansiwyd gan y diwydiant dur. Felly, rydym wedi cefnogi hynny ers amser hir.

You mentioned also the issue around energy costs. The First Minister's been writing, to my knowledge and correspondence I've seen, since 2010-11 about energy-intensive industries. He's been asking the UK Government, because we've not only had representations from steel, but refining and everything, 'What are we going to do about energy costs? We've got to have a fair and transparent market'. Only now, when you have this storm because of job losses, are we actually starting to move around. A very coherent case was made on this some time ago, which was listened to by the Treasury, but it is a long time from when we first raised it. Perhaps if it had been done earlier, it might have helped others in it.

Fe sonioch chi hefyd am gostau ynni. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, a'r ohebiaeth a welais, ers 2010-11, mae'r Prif Weinidog wedi bod yn ysgrifennu am ddiwydiannau ynni-ddwys. Mae wedi bod yn gofyn i Lywodraeth y DU, oherwydd cyflwynwyd sylwadau gan y diwydiant puro a phopeth, yn ogystal â'r diwydiant dur, yn gofyn, 'Beth rydym yn mynd i'w wneud ynglŷn â chostau ynni? Mae'n rhaid i ni gael marchnad deg a thryloyw'. Nid ydym wedi dechrau symud tan yn awr, wrth i'r storm dyfu yn sgil colli swyddi. Cyflwynwyd achos cydlynol iawn ar hyn beth amser yn ôl, a gwrandawodd y Trysorlys arno, ond mae'n amser hir ers i ni ei grybwyll gyntaf. Pe bai wedi cael ei wneud yn gynharach, efallai y gallai fod wedi helpu eraill sy'n rhan ohono.

Can I say, in terms of environmental efficiency, that it's one of the key issues that have been raised by the steel industry? They make all these improvements, they benefit their business and they benefit the environment, but what gain do they get from it? So, that is one of the areas that we're going to be discussing in our working groups with industry, because I think that's quite important. We need to recognise that we've got an electric arc furnace that they've got across the way in Celsa; everything's back into recycling, but there's also a lot more the others can do as well.

A gaf fi ddweud, o ran effeithlonrwydd amgylcheddol, ei fod yn un o'r materion allweddol a grybwyllwyd gan y diwydiant dur? Maent yn gwneud yr holl welliannau hyn, maent o fudd i'w busnes ac maent o fudd i'r amgylchedd, ond beth y maent yn ei ennill o hynny? Felly, dyna un o'r meysydd rydym yn mynd i fod yn eu trafod yn ein gweithgorau gyda'r diwydiant, gan fod hynny'n eithaf pwysig yn fy marn i. Mae angen i ni gydnabod bod gennym y ffwrnais arc trydan sydd ganddynt draw yn Celsa; mae popeth yn mynd yn ôl i mewn i'w ailgylchu, ond mae llawer mwy y gall eraill ei wneud hefyd.

Also as well, in terms of the skills, yes, you don't want to put people in to be trained and find they don't have a job, and my colleague Julie James is listening to this discussion today and I know that this will be high on her particular agenda.

Hefyd, o ran sgiliau, iawn, nid ydych eisiau hyfforddi pobl a darganfod nad oes ganddynt swydd, ac mae fy nghyd-Aelod, Julie James, yn gwrando ar y drafodaeth hon heddiw a gwn y bydd hyn yn uchel ar ei hagenda benodol hi.

The issue now that we are turning to look at is the supply chain agenda, because we've only got to look at the fact that Crown Packaging have gone and what impact that has on Trostre, in terms of tinplate. So, there are a lot of discussions going on about what more we can do about the supply chain, and also to encourage people to use UK production in steel in the supply chain, and how you do that. That means, I think, we've got to get a different approach. If you're French, you want to buy French, if you're German, you want to buy German, and it's about time we started buying what we want to buy in this country and were proud of what manufacturing does.

Y mater y trown i edrych arno yn awr yw agenda'r gadwyn gyflenwi, gan nad oes ond raid i ni edrych ar y ffaith fod Crown Packaging wedi mynd a pha effaith y mae hynny'n ei chael ar Drostre, o ran tunplat. Felly, mae yna lawer o drafodaethau ar y gweill ynghylch beth arall y gallwn ei wneud am y gadwyn gyflenwi, a hefyd i annog pobl i ddefnyddio cynnyrch dur y DU yn y gadwyn gyflenwi, a sut y gwnewch hynny. Mae hynny'n golygu, rwy'n meddwl, fod yn rhaid i ni gael dull gwahanol o weithredu. Os ydych yn Ffrancwr, rydych am brynu cynnyrch o Ffrainc, os ydych yn Almaenwr, rydych am brynu o'r Almaen, ac mae'n hen bryd i ni ddechrau prynu yr hyn rydym am ei brynu yn y wlad hon a bod yn falch o'r hyn y mae gweithgynhyrchu yn ei wneud.

15:20

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Can I welcome today's statement from the Minister? It has, of course, become crystal clear in recent times, the extent of the crisis in the steel industry, though, of course, it is not a storm that has brewed overnight. We have long known of the pressures in terms of energy within the steel industry, and we've long heard from Tata Steel and others of the pressures that come from business rates here as opposed to in other EU states. Some of us, certainly, have long talked about ensuring that procurement processes work in the interests of industry here. I hope the Minister can agree with me that many of the steps being taken now by UK Government, and, indeed, by Welsh Government, are ones that could have been work in progress long before the alarm bells rang at Redcar and subsequently in other parts of the steel industry in the UK, including, of course, here in Wales.

A gaf fi groesawu'r datganiad heddiw gan y Gweinidog? Daeth maint yr argyfwng yn y diwydiant dur yn gwbl amlwg yn y cyfnod diweddar, wrth gwrs, er nad yw'n storm sydd wedi tyfu dros nos. Rydym yn gwybod ers tro am y pwysau mewn perthynas ag ynni yn y diwydiant dur, ac rydym wedi clywed er amser gan Tata Steel ac eraill am y pwysau yn sgil ardrethi busnes yma yn wahanol i wladwriaethau eraill yr UE. Mae rhai ohonom, yn sicr, wedi siarad ers tro am sicrhau bod prosesau caffael yn gweithio er budd diwydiant yma. Rwy'n gobeithio y gall y Gweinidog gytuno bod llawer o'r camau sy'n cael eu cymryd yn awr gan Lywodraeth y DU, ac yn wir, gan Lywodraeth Cymru, yn rhai y gellid bod wedi'u rhoi ar y gweill ymhell cyn i'r clychau larwm ganu yn Redcar ac ar ôl hynny mewn rhannau eraill o ddiwydiant dur y DU, gan gynnwys, wrth gwrs, yma yng Nghymru.

In terms of the steps being announced by the Minister today, I look forward to updates regularly from the Minister on a number of the processes that she is putting in place. I'll ask just three questions. Is there an idea of timescale for us now on reporting back from the task group, the industry-led task group that is being established by the Minister? Also, perhaps, is there some more information about the opportunities being explored in relation to the European investment advisory hub and European fund for strategic investments, and what's going to be discussed there at a meeting in Cardiff later this month? Finally, I appreciate the pledge that officials will be keen to work with partners at all levels in moving forward, and the Minister's commitment to maintaining engagement and discussions at the UK and European levels to make sure that Welsh interests are heard. Can I have an assurance that the Minister will insist that that representation is heard not only at official level, but also at ministerial level?

O ran y camau a gyhoeddwyd gan y Gweinidog heddiw, edrychaf ymlaen at ddiweddariadau rheolaidd ganddi ar nifer o'r prosesau y mae'n eu rhoi ar waith. Gofynnaf dri chwestiwn yn unig. A oes yna syniad beth yw'r amserlen ar ein cyfer yn awr ar adrodd yn ôl gan y grŵp gorchwyl a sefydlir gan y Gweinidog, ac a arweinir gan y diwydiant? Hefyd, efallai, a oes yna ragor o wybodaeth am y cyfleoedd a archwilir mewn perthynas â'r awdurdod cynghori ar fuddsoddiadau Ewropeaidd a'r gronfa Ewropeaidd ar gyfer buddsoddiadau strategol, a beth sy'n mynd i gael ei drafod yno mewn cyfarfod yng Nghaerdydd yn ddiweddarach y mis hwn? Yn olaf, rwy'n gwerthfawrogi'r addewid y bydd swyddogion yn awyddus i weithio gyda phartneriaid ar bob lefel wrth symud ymlaen, ac ymrwymiad y Gweinidog i gynnal ymgysylltiad a thrafodaethau ar lefel Ewrop a'r Deyrnas Unedig er mwyn gwneud yn siŵr fod buddiannau Cymru'n cael eu clywed. A gaf fi sicrwydd y bydd y Gweinidog yn mynnu bod y sylwadau'n cael eu clywed, nid yn unig ar lefel swyddogol, ond hefyd ar lefel weinidogol?

15:22

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I can certainly say to you that Welsh interests will be represented both by officials and Ministers at every opportunity, because when you look at the number of steel plants and jobs that there are in Wales, compared to other parts of the UK, you recognise that south Wales—and north Wales, because we have plant up in Shotton—. Wales could actually be the only area in the UK that could have this type of development still there in a few years' time. So, it's very important, I think, to recognise that.

Wel, gallaf yn sicr ddweud wrthych y bydd buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli gan swyddogion a Gweinidogion ar bob cyfle, oherwydd pan edrychwch ar nifer y gweithfeydd dur a swyddi sydd i'w cael yng Nghymru, o gymharu â rhannau eraill o'r DU, fe welwch fod de Cymru—a gogledd Cymru, gan fod gennym safle yn Shotton—. A dweud y gwir efallai mai Cymru yw'r unig ardal yn y DU a allai fod â'r math hwn o ddatblygiad yn dal yno ymhen ychydig flynyddoedd. Felly, mae'n bwysig iawn cydnabod hynny yn fy marn i.

In terms of what's being discussed in the European meeting in Cardiff, I will write to Members about any information I have on that in particular, and any background papers that might be of interest to Members to have a look at.

O ran yr hyn sy'n cael ei drafod yn y cyfarfod Ewropeaidd yng Nghaerdydd, ysgrifennaf at yr Aelodau am unrhyw wybodaeth a gaf ar hynny yn arbennig, ac unrhyw bapurau cefndir a allai fod o ddiddordeb i aelodau edrych arnynt.

In terms of the timescale, I will be updating you before recess, because I expect to have early reports from the working groups by the first week in December.

O ran yr amserlen, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi cyn y toriad, oherwydd rwy'n disgwyl cael adroddiadau cynnar gan y gweithgorau erbyn wythnos gyntaf mis Rhagfyr.

Can I say, you are absolutely right? It is not a crisis that has come overnight, it is a crisis that we identified back in 2010-11 in terms of energy-intensive industries, and we lobbied hard on it. In terms of business rates, of course, we only had the power to deal with business rates from 1 April. It's a very complex issue, particularly with the state aid issues around, probably, steel, which we are now plotting our way through. Also, of course, I'm well aware that you were very keen on plant and machinery being included as something that we could help with. Well, in terms of the procurement process, I have to say the UK Government is playing catch-up with my colleague Jane Hutt, who'd already taken advantage of changes in procurement to ensure that the things that the steel industry wanted done could be done.

A gaf fi ddweud eich bod yn llygad eich lle? Nid yw'n argyfwng sydd wedi tyfu dros nos, mae'n argyfwng a nodwyd gennym yn ôl yn 2010-11 o ran y diwydiannau ynni-ddwys, ac fe fuom yn lobïo'n galed arno. O ran ardrethi busnes, wrth gwrs, nid oedd gennym bwerau i ymdrin ag ardrethi busnes cyn 1 Ebrill. Mae'n fater cymhleth iawn, yn enwedig gyda'r materion sy'n gysylltiedig â chymorth gwladwriaethol sydd ynghlwm wrth ddur, yn ôl pob tebyg, ac rydym yn cynllunio ein ffordd drwy hynny yn awr. Hefyd, wrth gwrs, rwy'n ymwybodol iawn eich bod yn awyddus i gynnwys offer a pheiriannau fel pethau y gallem helpu gyda hwy. Wel, o ran y broses gaffael, rhaid i mi ddweud bod Llywodraeth y DU yn ceisio dal i fyny â fy nghyd-Aelod, Jane Hutt, a oedd eisoes wedi manteisio ar newidiadau ym maes caffael i sicrhau bod modd gwneud y pethau roedd y diwydiant dur eisiau iddynt gael eu gwneud.

15:24

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, could I thank you for bringing back a statement on the steel industry so promptly after the discussions, because clearly this is an issue of huge importance across the length and breadth of Wales? In Shotton, obviously, there's a very sad situation at Caparo Wire in Wrexham, at Tata and, of course, at Celsa here in Cardiff bay—visible from this very building. But we have to recognise, clearly, that the challenges for different types of steel products are going to be as different as the markets they operate in, and therefore the steps that we have to take to help are going to be subtly different in each case. But what has been consistent across the piece, when I've been speaking to people working in the steel industry, is that need for urgency—urgency as in now, not urgency as in, 'I've set up a working group now'.

Weinidog, a gaf fi ddiolch i chi am ddod â datganiad yn ôl ar y diwydiant dur mor sydyn ar ôl y trafodaethau, oherwydd mae'n amlwg fod hwn yn fater o bwys aruthrol ar hyd a lled Cymru? Yn Shotton, yn amlwg, mae yna sefyllfa drist iawn yn Caparo Wire yn Wrecsam, yn Tata ac wrth gwrs, yn Celsa yma ym Mae Caerdydd—sy'n weladwy o'r adeilad hwn. Ond mae'n rhaid cydnabod, yn amlwg, fod yr heriau ar gyfer gwahanol fathau o gynnyrch dur yn mynd i fod mor wahanol â'r marchnadoedd y maent yn gweithredu ynddynt, ac felly mae'r camau y mae'n rhaid i ni eu cymryd i helpu yn mynd i fod ychydig yn wahanol ym mhob achos. Ond yr hyn a welwyd yn gyson ym mhob man, wrth siarad â'r bobl sy'n gweithio yn y diwydiant dur, yw bod angen mynd ati ar frys—brys yn yr ystyr o 'yn awr', nid brys yn yr ystyr o, 'Rwyf wedi sefydlu gweithgor yn awr'.

I am, as I say, very grateful to the Minister for picking up on two issues that I raised in the last statement, namely business rates and procurement. But, as I say, the steelworkers that I've spoken to want to know what can be done to save their jobs in the immediate term. This two-step approach is absolutely right, but they want to know when those immediate changes you're talking about are going to actually be visible on the ground to them.

Fel y dywedais, rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am fynd ar drywydd dau fater a grybwyllais yn y datganiad diwethaf, sef ardrethi busnes a chaffael. Ond fel y dywedais, mae'r gweithwyr dur y siaradais â hwy eisiau gwybod beth y gellir ei wneud i achub eu swyddi yn y tymor byr. Mae'r dull dau gam hwn yn hollol gywir, ond maent am wybod pryd y bydd y newidiadau uniongyrchol y soniwch amdanynt yn weladwy iddynt ar lawr gwlad mewn gwirionedd.

With regard to business rates therefore, obviously, it's a huge issue particularly for Tata, who are paying tens of millions of pounds a year. We recognise that there needs to be very careful modelling of any changes to make sure that we're not acting rashly, but I wonder if you can give us an idea of what the timescale for any introduction of changes might be, and I wonder if you have explored the potential to use hardship reliefs that are already available to us as an emergency measure to make sure that we can protect those jobs in those industries now. That is something we can do: it's in our power, it doesn't breach state aid, and I'd like you to have a look at it if you would.

O ran ardrethi busnes felly, yn amlwg, mae'n broblem fawr yn enwedig i Tata, sy'n talu degau o filiynau o bunnoedd y flwyddyn. Rydym yn cydnabod bod angen iddo fodelu unrhyw newidiadau yn ofalus iawn er mwyn gwneud yn siŵr nad ydym yn gweithredu'n fyrbwyll, ond tybed a allwch roi syniad i ni o'r amserlen ar gyfer cyflwyno newidiadau, a tybed a ydych wedi edrych ar y potensial i ddefnyddio rhyddhad caledi sydd ar gael i ni eisoes fel mesur brys i wneud yn siŵr ein bod yn gallu diogelu swyddi yn y diwydiannau hyn yn awr. Mae hynny'n rhywbeth y gallwn ei wneud: mae hyn o fewn ein gallu, nid yw'n tramgwyddo amodau cymorth gwladwriaethol, a hoffwn i chi gael golwg arno os gwnewch chi.

Secondly, as I say, with regard to procurement, I very much welcome the intent, and the discussions that you've had are incredibly helpful. But the question is: how can we take action that is effective urgently? Now, sharing best practice across the public sector buyers is going to take a period of time. Policy change is going to take a period of time. We welcome the support of the private sector, but we can't deliver that overnight. I wonder if there's potential for identifying points of differentiation for Welsh steel, and that the Welsh Government could do that so that they could distribute it to public buyers in Wales so that we can make sure that we know how we can prefer Welsh steel within the rules of EU procurement law. But I also wonder if you've actually undertaken a survey of the contracts currently on Sell2Wales to assess whether or not they are already meeting the kind of best practice that you want them to do, and whether they are already talking about higher environmental standards and higher quality standards within those contracts. If they're not, is there any option for you to send them back to think again, to make sure that the things we are buying right now are making the best possible opportunity for Welsh steel?

Yn ail, fel y dywedaf, o ran caffael, rwy'n croesawu'r bwriad yn fawr iawn, ac mae'r trafodaethau rydych wedi'u cael yn hynod ddefnyddiol. Ond y cwestiwn yw: sut y gallwn weithredu camau ar frys? Nawr, mae rhannu arfer gorau ar draws y sector prynwyr cyhoeddus yn mynd i gymryd cyfnod o amser. Mae newid polisi yn mynd i gymryd cyfnod o amser. Rydym yn croesawu cefnogaeth y sector preifat, ond ni allwn gyflawni hynny dros nos. Tybed a oes potensial ar gyfer nodi pwyntiau sy'n wahanol am ddur Cymru, ac y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud er mwyn ei ddosbarthu i brynwyr cyhoeddus yng Nghymru i ni allu sicrhau ein bod yn gwybod sut y gallai fod yn well gennym ddur o Gymru o dan reolau cyfraith caffael yr UE. Ond rwy'n meddwl hefyd tybed a ydych wedi cynnal arolwg o'r contractau sydd ar GwerthwchiGymru ar hyn o bryd i asesu a ydynt eisoes yn cyflawni'r math o ymarfer gorau rydych am iddynt ei wneud, ai peidio, ac a ydynt eisoes yn siarad am safonau amgylcheddol uwch a safonau ansawdd uwch yn y contractau hynny. Os nad ydynt, a oes unrhyw opsiwn i chi eu hanfon yn ôl i feddwl eto, i wneud yn siŵr fod y pethau rydym yn eu prynu ar hyn o bryd yn sicrhau'r cyfle gorau posibl i ddur Cymru?

One thing I think that will be critical, particularly to Celsa here in Cardiff bay, is unfair competition from grey imports that don't necessarily meet British standards. Of course, some of them will; some of them won't. I wonder if you've written to public purchasing authorities—and, if you haven't, if you would undertake to do so—to ask them to confirm what steps they are taking today to ensure that all of the steel that's being used in the contracts that they have let is meeting the required British standards and can be tracked back to the maker to make sure that we are not allowing grey imports to slip into our supply chain here in Wales. If you could do some of those immediate things, Minister, I would be extremely grateful.

Un peth a fydd yn hollbwysig yn fy marn i, yn enwedig i Celsa yma ym mae Caerdydd, yw cystadleuaeth annheg o ganlyniad i fewnforion llwyd nad ydynt o reidrwydd yn bodloni safonau Prydeinig. Wrth gwrs, bydd rhai ohonynt yn eu bodloni; ni fydd eraill yn gwneud hynny. Tybed a ydych wedi ysgrifennu at awdurdodau prynu cyhoeddus—ac os nad ydych, a wnewch chi ymrwymo i wneud hynny—i ofyn iddynt gadarnhau pa gamau y maent yn eu rhoi ar waith heddiw i sicrhau bod yr holl ddur sy'n cael ei ddefnyddio yn y contractau sydd ganddynt yn bodloni'r safonau Prydeinig gofynnol ac y gellir ei olrhain yn ôl i'r sawl sy'n ei gynhyrchu i wneud yn siŵr nad ydym yn caniatáu i fewnforion llwyd lithro i mewn i'n cadwyn gyflenwi yma yng Nghymru. Pe gallech chi wneud rhai o'r pethau uniongyrchol hyn, Weinidog, byddwn yn ddiolchgar iawn.

15:28

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, thank you very much indeed for your comments. Obviously, you, as a regional list Member, are well aware of the issues in Celsa. I was with Celsa earlier this week, actually discussing some of the very issues that you've raised with me about traceability of what's coming in, and Celsa have agreed that they will provide various stuff for us in terms of the evidence-gathering issues around that particular issue. The issue that we have is that we've got to take a whole-industry approach and the industry is very different. So, I do think it would be very helpful for us to consider an online booklet of what everybody produces in steel, what areas the quality is in, where they are, that we could perhaps then issue to businesses to show what's going on in Wales: a simple matter of doing something online to say what they produce, what they do and where you could get something in Wales. That's certainly something that I will give some consideration to. Also as well, in terms of the hardship issues around that, that is something I'm more than prepared to look at. But the issue I do have to look at is modelling of any change to the industry for the future, which I think is going to be a very difficult area to actually look at. So, that's why I'm doing this in partnership. I know you don't all like me having these little working groups and everything but, on this occasion, I need the expertise from both the trade unions and the steel industry to actually wade through some of the stuff, because some of the stuff we've been told about what's happened on the continent when Governments, for environmental reasons, have taken over steel plants, et cetera—. But when this is broached with the UK Government we're told that everything is in perfect place. Well, I want to find out what is the reality of what's going on across the globe.

Wel, diolch yn fawr iawn yn wir am eich sylwadau. Yn amlwg, rydych chi, fel Aelod ar y rhestr ranbarthol, yn ymwybodol iawn o'r materion sy'n codi yn Celsa. Roeddwn i gyda Celsa yn gynharach yr wythnos hon mewn gwirionedd yn trafod rhai o'r union faterion rydych wedi'u crybwyll ynglŷn â gallu i olrhain yr hyn sy'n dod i mewn, ac mae Celsa wedi cytuno y byddant yn darparu amryw o bethau i ni ar y materion sy'n codi o ran casglu tystiolaeth ynglŷn â hynny. Y broblem sydd gennym yw bod yn rhaid i ni fabwysiadu agwedd tuag at y diwydiant cyfan ac mae'r diwydiant yn wahanol iawn. Felly, rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol iawn i ni ystyried llyfryn ar-lein o'r hyn y mae pawb yn ei gynhyrchu mewn dur, ym mha feysydd y ceir ansawdd, lle y maent, a gallem ei roi i fusnesau wedyn efallai i ddangos beth sy'n digwydd yng Nghymru: mater syml o wneud rhywbeth ar-lein i ddweud beth y maent yn ei gynhyrchu, yr hyn y maent yn ei wneud a ble y gallech ddod o hyd i bethau yng Nghymru. Mae hynny'n sicr yn rhywbeth y byddaf yn ei ystyried. Hefyd, o ran y materion caledi mewn perthynas â hynny, mae'n rhywbeth rwy'n fwy na pharod i edrych arno. Ond yr hyn sy'n rhaid i mi edrych arno yw modelu unrhyw newid i'r diwydiant ar gyfer y dyfodol, a chredaf y bydd yn faes anodd iawn i edrych arno mewn gwirionedd. Felly, dyna pam rwy'n gwneud hyn mewn partneriaeth. Rwy'n gwybod nad yw pawb ohonoch yn hoffi fy ngweld yn cael y gweithgorau hyn a phopeth, ond y tro hwn, mae arnaf angen arbenigedd yr undebau llafur a'r diwydiant dur er mwyn mynd drwy rai o'r pethau, oherwydd bod rhai o'r pethau y clywsom eu bod yn digwydd ar y cyfandir pan fo Llywodraethau, am resymau amgylcheddol, wedi cymryd meddiant ar weithfeydd dur, ac yn y blaen—. Ond pan grybwyllir hyn wrth Lywodraeth y DU dywedir wrthym fod popeth fel y dylai fod. Wel, rwy'n awyddus i gael gwybod beth sy'n digwydd go iawn ym mhob rhan o'r byd.

Also as well, I think it's important—you mentioned Caparo and I'm visiting Caparo actually in Wrexham this week, and that has been a body blow in those areas because we tend to forget, when we talk about steel—. Unless you're actively involved in your constituency or politics, most people think of steel as those huge works in Port Talbot and Llanwern. They do not realise all the other businesses that are associated with it. I think we've got to get a better map of all of this, in terms of the work we're doing, to see who produces what where, and how we can advise the supply chain, to actually promote to other companies what they should be using, bearing in mind I give grants to other companies to do machinery so they can go into other supply chains. But perhaps I should be saying, 'Should your first port of call be looking at where the steel's coming from, when you're producing?'

Hefyd, rwy'n credu ei bod yn bwysig—fe sonioch am Caparo ac rwy'n ymweld â Caparo yn Wrecsam yr wythnos hon, mewn gwirionedd, ac mae hynny wedi bod yn ergyd yn yr ardaloedd hyn am ein bod yn tueddu i anghofio, wrth sôn am ddur—. Oni bai eich bod yn cymryd rhan weithredol yn eich etholaeth chi neu mewn gwleidyddiaeth, mae'r rhan fwyaf o bobl yn meddwl am ddur fel gweithfeydd enfawr Port Talbot a Llanwern. Nid ydynt yn sylweddoli cymaint o fusnesau eraill sy'n gysylltiedig â dur. Rwy'n credu bod yn rhaid i ni gael map gwell o hyn oll, o ran y gwaith rydym yn ei wneud, i weld pwy sy'n cynhyrchu beth ac ymhle, a sut y gallwn gynghori'r gadwyn gyflenwi i hyrwyddo i gwmnïau eraill yr hyn y dylent ei ddefnyddio, gan gofio fy mod yn rhoi grantiau i gwmnïau eraill wneud peiriannau er mwyn iddynt allu bod yn rhan o gadwyni cyflenwi eraill. Ond efallai y dylwn ddweud, 'Oni ddylech edrych i ddechrau i weld o ble y daw'r dur, pan fyddwch yn cynhyrchu?'

So, I think this is all up for discussion now. But, of course, there'll be lawyers breathing over my back on all of this. But, you are right—send some things back, send them back again. I thought you were about to go into 'Flower of Scotland'—'Proud Edward's army'—but you didn't. I will take on board all the points.

Felly, rwy'n credu bod hyn i gyd i'w drafod yn awr. Ond wrth gwrs, fe fydd yna gyfreithwyr yn gwylio pob cam a wnaf mewn perthynas â hyn oll. Ond rydych yn iawn—anfonwch bethau yn ôl, anfonwch hwy yn ôl eto. Roeddwn yn meddwl eich bod ar fin dechrau canu 'Flower of Scotland'— 'Proud Edward's army'—ond ni wnaethoch. Byddaf yn ystyried yr holl bwyntiau.

15:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

15:30

# 4. Cynnig i Gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2016-17

# 4. Motion to Approve the Assembly Commission's Budget 2016-17

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 4, which is a motion to approve the Assembly Commission's budget for 2014-15, and I call on the Deputy Presiding Officer, David Melding, to move the motion on behalf of the Commission. David Melding.

Symudwn yn awr at eitem 4, sef cynnig i gymeradwyo cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2014-15, a galwaf ar y Dirprwy Lywydd, David Melding, i gynnig y cynnig ar ran y Comisiwn. David Melding.

Cynnig NDM5868 David Melding

Motion NDM5868 David Melding

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.16:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 20.16:

Yn cytuno ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2016-17, fel y nodir yn nhabl 1, 'Cyllideb Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2016-17', a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 4 Tachwedd 2015 ac sydd i'w hymgorffori yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26(ii).

Agrees the budget of the Assembly Commission for 2016-17, as specified in table 1 of the 'National Assembly for Wales Assembly Commission Budget 2016-17', laid before the Assembly on 4 November 2015 and that it be incorporated in the Annual Budget Motion under Standing Order 20.26(ii).

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:31

## David Melding Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I move the Commission's budget for 2016-17, and ask that it be incorporated into the annual budget motion.

Diolch i chi, Lywydd. Cynigiaf gyllideb y Comisiwn ar gyfer 2016-17, a gofynnaf am iddi gael ei hymgorffori yn y cynnig cyllideb blynyddol.

This budget is for the first year of the fifth Assembly, and seeks to provide stability during a period of transition, whilst allowing the new Commissioners the financial flexibility to set their own priorities for the new Assembly term.

Mae'r gyllideb ar gyfer blwyddyn gyntaf y pumed Cynulliad, ac mae'n ceisio darparu sefydlogrwydd dros gyfnod o drawsnewid, gan ganiatáu hyblygrwydd ariannol i'r Comisiynwyr newydd allu pennu eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer tymor newydd y Cynulliad.

It is the Commission's role to provide excellent services to you as Members. The budget will provide sufficient resources to deliver the standard of support that is required, as well as ensuring a smooth transition to the new Assembly, including support and induction for new Members following the election. The budget builds on the Commission's progress and achievements over the last five years. Throughout the fourth Assembly, the Commission has focused investment and effort in the delivery of its strategic goals, and, in so doing, the effective performance of Welsh democracy has been promoted. Continuing with that approach will be essential if the Assembly is to meet the challenge of increased responsibilities within the capacity constraints that are a feature of being the UK's smallest legislature; and I think that point deserves to be emphasised.

Rôl y Comisiwn yw darparu gwasanaethau rhagorol i chi fel Aelodau. Bydd y gyllideb yn darparu digon o adnoddau ar gyfer cyflawni cymorth o'r safon sydd ei hangen, yn ogystal â sicrhau trosglwyddiad llyfn i'r Cynulliad newydd, gan gynnwys cymorth a threfniadau cynefino ar gyfer Aelodau newydd yn dilyn yr etholiad. Mae'r gyllideb yn adeiladu ar gynnydd a chyflawniadau'r Comisiwn dros y pum mlynedd diwethaf. Trwy gydol y Pedwerydd Cynulliad, canolbwyntiodd y Comisiwn fuddsoddiad ac ymdrech tuag at gyflwyno ei nodau strategol, ac wrth wneud hynny, hyrwyddwyd perfformiad effeithiol democratiaeth Cymru. Bydd parhau â'r dull hwnnw'n hanfodol os yw'r Cynulliad i ymateb i her cyfrifoldebau cynyddol o fewn y cyfyngiadau capasiti sy'n nodwedd o fod yn ddeddfwrfa leiaf y DU; a chredaf fod y pwynt hwnnw'n haeddu cael ei bwysleisio.

The budget is in two parts. There is £36.5 million to fund Commission services—this amount represents a 1.5 per cent real-terms cut, compared to the 2015-16 budget—and £15.5 million to fund the remuneration board's determination for Assembly Members' pay and allowances. I want to make a couple of points in relation to the element of the budget that relates to the remuneration board's determination for Assembly Members' pay and allowances.

Mae'r gyllideb mewn dwy ran. Mae yna £36.5 miliwn i ariannu gwasanaethau'r Comisiwn—mae'r swm yn cynrychioli toriad o 1.5 cant mewn termau real, o'i gymharu â chyllideb 2015-16—a £15.5 miliwn i ariannu penderfyniad y bwrdd taliadau ynglŷn â chyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad. Rwyf am wneud un neu ddau o bwyntiau mewn perthynas â'r elfen yn y gyllideb sy'n ymwneud â phenderfyniad y bwrdd taliadau ynglŷn â chyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad.

As Members know, decisions over the pay, and other costs, of Assembly Members are the responsibility of the independent remuneration board, which was established by Assembly legislation in 2010. The board's decisions are published in its determination, and, by statute, it is the Commission's responsibility to secure the funding necessary to meet the costs arising from that determination. When this Assembly debated and established this legislation in 2009, we led the way in the UK in ensuring this clear independence, and by removing Members from playing any part in setting the remuneration we receive. I make this point because, although the Commission's budget is required by statute to include the funds to cover the remuneration board's determination, Members should be clear that we, rightly, have no discretion over the amounts involved.

Fel y gŵyr yr Aelodau, cyfrifoldeb y bwrdd taliadau annibynnol yw penderfyniadau ynglŷn â chyflogau a chostau eraill Aelodau'r Cynulliad. Sefydlwyd y bwrdd taliadau drwy ddeddfwriaeth y Cynulliad yn 2010. Caiff penderfyniadau'r bwrdd eu cyhoeddi yn ei ddyfarniad, ac yn ôl statud, cyfrifoldeb y Comisiwn yw sicrhau'r cyllid angenrheidiol ar gyfer talu'r costau sy'n deillio o'r penderfyniad hwnnw. Pan drafododd y Cynulliad y ddeddfwriaeth hon a'i sefydlu yn 2009, roeddem yn arwain y ffordd yn y DU o ran sicrhau'r annibyniaeth eglur hon, a thrwy wahardd Aelodau rhag chwarae unrhyw ran yn y broses o bennu'r cyflog a gawn. Gwnaf y pwynt hwn oherwydd, er bod angen i gyllideb y Comisiwn yn ôl statud gynnwys yr arian ar gyfer talu am benderfyniad y bwrdd taliadau, dylai'r Aelodau ddeall yn glir nad oes gennym unrhyw ddisgresiwn, fel sy'n briodol, dros y symiau dan sylw.

Returning to the budget as a whole, I would like to thank the Finance Committee for their scrutiny of this budget. They have produced a rigorous, thorough and most useful report, and we are, indeed, very grateful. We have formally responded to each of the six recommendations, accepting all of them. They have pressed us to make improvements to our website, and we are taking steps to do so. They have also urged us to prioritise the work to deliver the challenging sustainability targets, and that accords well with our agreed strategy, which we hope will continue to put us among the leaders on sustainability in the public sector. We also share their wish that any changes we make to the Record of Proceedings maintain or enhance the quality of the service, as well as delivering greater efficiency.

Gan ddychwelyd at y gyllideb yn ei chyfanrwydd, hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am eu gwaith yn craffu ar y gyllideb hon. Maent wedi cynhyrchu adroddiad trylwyr, manwl a defnyddiol tu hwnt, ac rydym yn ddiolchgar iawn. Rydym wedi ymateb yn ffurfiol i bob un o'r chwe argymhelliad, gan dderbyn pob un ohonynt. Maent wedi gwasgu arnom i wneud gwelliannau i'n gwefan, ac rydym yn rhoi camau ar waith i wneud hynny. Maent hefyd wedi ein hannog i flaenoriaethu'r gwaith ar gyflawni'r targedau cynaliadwyedd heriol, ac mae hynny'n cyd-fynd yn dda â'r strategaeth a gytunwyd gennym, a gobeithiwn y bydd yn parhau i'n gosod ymhlith yr arweinwyr ar gynaliadwyedd yn y sector cyhoeddus. Rydym hefyd yn rhannu eu dymuniad i weld unrhyw newidiadau a wnawn i Gofnod y Trafodion yn cynnal neu'n gwella ansawdd y gwasanaeth, yn ogystal â sicrhau mwy o effeithlonrwydd.

The Committee's other recommendations call for further information to be made available on the work undertaken to support the Assembly whilst we adapt to a change in our powers, on the use of funding that is not drawn down by Members in relation to the remuneration board's determination for Members' pay and allowances, and on how the election-related budget is spent. The Commission is committed to operating in an open and transparent manner, and we are happy to provide this information and, indeed, any other information that the Finance Committee or other committees would find useful. Finally, I want to assure Members that we will continue to work in a way which delivers value for money, and to strive to be as efficient as possible, whilst meeting the needs of Members through high-quality services, both in this Assembly and the next. I commend the motion.

Mae argymhellion eraill y Pwyllgor yn galw am sicrhau bod rhagor o wybodaeth ar gael ar y gwaith a wneir i gynorthwyo'r Cynulliad wrth i ni addasu i newid yn ein pwerau, ar y defnydd o gyllid nad yw'n cael ei dynnu i lawr gan yr Aelodau mewn perthynas â phenderfyniad y bwrdd taliadau ar gyflogau a lwfansau Aelodau, a sut y gwerir y gyllideb sy'n gysylltiedig â'r etholiad. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i weithredu mewn modd agored a thryloyw, ac rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon ac unrhyw wybodaeth arall yn wir y byddai'r Pwyllgor Cyllid neu'r pwyllgorau eraill yn ei hystyried yn ddefnyddiol. Yn olaf, rwyf am sicrhau'r Aelodau y byddwn yn parhau i weithio mewn ffordd sy'n cynnig gwerth am arian, ac i ymdrechu i fod mor effeithlon â phosibl, gan ddiwallu anghenion yr Aelodau drwy wasanaethau o ansawdd uchel, yn y Cynulliad hwn a'r nesaf. Cymeradwyaf y cynnig.

15:35

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Those who were listening carefully will have heard me say 'budget for 2014-15'. Of course, it should be the budget for 2016-17. I now call on the Chair of the Finance Committee, Jocelyn Davies.

Diolch. Bydd y rhai a oedd yn gwrando'n ofalus wedi fy nghlywed yn dweud 'y gyllideb ar gyfer 2014-15'. Wrth gwrs, y gyllideb ar gyfer 2016-17 ddylai hynny fod. Galwaf yn awr ar Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies.

15:35

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I'd like to thank the Deputy Presiding Officer and the Assembly officials for attending the Finance Committee to discuss the Commission budget. I'm very grateful for the frank and constructive manner in which you answered our questions, as you have in the past, Presiding Officer, and Commissioner Angela Burns in the past also. We made six recommendations to the Commission, which stressed the importance of clarity, transparency and accessibility. I was pleased to receive the Commission's response to our report, and I'm delighted that all our recommendations have been accepted.

Diolch i chi, Lywydd. Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Lywydd a swyddogion y Cynulliad am fynychu'r Pwyllgor Cyllid i drafod cyllideb y Comisiwn. Rwy'n ddiolchgar iawn am y modd agored ac adeiladol y bu i chi ateb ein cwestiynau, fel rydych wedi'i wneud yn y gorffennol, Lywydd, a'r Comisiynydd Angela Burns yn y gorffennol hefyd. Rydym wedi gwneud chwe argymhelliad i'r Comisiwn, argymhellion a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd eglurder, tryloywder a hygyrchedd. Roeddwn yn falch o gael ymateb y Comisiwn i'n hadroddiad, ac rwyf wrth fy modd fod ein holl argymhellion wedi'u derbyn.

Our first recommendation was to request an update from the Commission on the preparation for the Assembly's new fiscal and legislative powers. The constitutional changes represent a significant period for us, and we need to ensure that we're on track to deal with our new responsibilities. The draft budget identified additional posts in the Assembly business and legal services directorates to increase capacity and expertise in legal and financial scrutiny. In our first report on budget best practices, we recommended that the Assembly Commission look at the capacity available to undertake work in relation to the devolution of fiscal powers, so I'm pleased to see that this has happened. As a committee, we feel this work is vital and that investment in financial capacity should continue.

Ein hargymhelliad cyntaf oedd y dylid gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Comisiwn ar baratoi ar gyfer pwerau ariannol a deddfwriaethol newydd y Cynulliad. Mae'r newidiadau cyfansoddiadol yn dynodi cyfnod arwyddocaol i ni, ac mae angen i ni sicrhau bod ein bod ar y trywydd iawn i ymdrin â'n cyfrifoldebau newydd. Nododd y gyllideb ddrafft swyddi ychwanegol yng nghyfarwyddiaethau busnes a gwasanaethau cyfreithiol y Cynulliad er mwyn cynyddu gallu ac arbenigedd mewn gwaith craffu cyfreithiol ac ariannol. Yn ein hadroddiad cyntaf ar arferion gorau ar gyfer y gyllideb, rydym yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn edrych ar y gallu sydd ar gael i ymgymryd â gwaith mewn perthynas â datganoli pwerau cyllidol, felly rwy'n falch o weld bod hyn wedi digwydd. Fel pwyllgor, rydym yn teimlo bod y gwaith hwn yn hanfodol a dylai'r buddsoddiad hwnnw yn y gallu ariannol barhau.

The committee accepted the Commission's calculation of the costs associated with the remuneration board's determination for the fifth Assembly, and that is based on the worst-case scenario—

Derbyniodd y pwyllgor gyfrifiad y Comisiwn o'r costau sy'n gysylltiedig â phenderfyniad y bwrdd taliadau ar gyfer y pumed Cynulliad, ac mae'n seiliedig ar y senario waethaf—

15:37 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

At this point in your deliberations as a committee, when you were scrutinising the Commission budget, and the decision taken by the independent remuneration board, who was representing the Liberal Democrats on your committee?

Ar y pwynt hwn yn eich trafodaethau fel pwyllgor, pan oeddech yn craffu ar gyllideb y Comisiwn, a'r penderfyniad a wnaethpwyd gan y bwrdd taliadau annibynnol, pwy oedd yn cynrychioli'r Democratiaid Rhyddfrydol ar eich pwyllgor?

15:37 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ah, well, of course, Peter Black is a member of the Finance Committee, but he's also a Commissioner, so as not to have a conflict of interest, he doesn't attend whenever we scrutinise anything to do with the Commission. But the Liberal Democrats didn't send a substitute on this occasion.

A, wel, wrth gwrs, mae Peter Black yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid, ond mae hefyd yn Gomisiynydd, felly er mwyn sicrhau na cheir buddiannau sy'n gwrthdaro, nid yw'n mynychu pan fyddwn yn craffu ar unrhyw beth sy'n ymwneud â'r Comisiwn. Ond ni anfonodd y Democratiaid Rhyddfrydol ddirprwy ar yr achlysur hwn.

Following on from what the Deputy Presiding Officer said earlier, I think I'd like to make a few comments—if that's okay, Presiding Officer—that do not form part of our report. Did we imagine, as the Deputy Presiding Officer mentioned earlier, when we passed the legislation that created the board, that we would always be delighted with their decisions? We gave them this task because it wasn't right that we would decide our own pay and allowances. We accept in our committee that if you give decisions to others to make, you cannot then control them yourself. Presiding Officer, I'm leaving this place next year, so this decision affects me not one jot, so my advice is, whatever the decision of the board is, learn to live with it. Come here and earn the money that is allowed to you, or you have the choice to repeal the legislation and make those decisions for yourself.

Yn dilyn ymlaen o'r hyn a ddywedodd y Dirprwy Lywydd yn gynharach, rwy'n meddwl yr hoffwn wneud ychydig o sylwadau—os yw hynny'n iawn, Lywydd—rhai nad ydynt wedi'u cynnwys yn ein hadroddiad. A wnaethom ddychmygu, fel y soniodd y Dirprwy Lywydd yn gynharach, pan basiwyd y ddeddfwriaeth gennym i greu'r bwrdd, y byddem bob amser yn falch iawn o'u penderfyniadau? Rhoesom y dasg hon iddynt gan nad oedd hi'n iawn i ni benderfynu ar ein cyflogau a'n lwfansau eu hunain. Rydym yn derbyn yn ein pwyllgor, os rhowch benderfyniadau i eraill eu gwneud, ni allwch eu rheoli eich hun wedyn. Lywydd, rwy'n gadael y lle hwn y flwyddyn nesaf, felly nid yw'r penderfyniad hwn yn effeithio dim arnaf mewn unrhyw fodd, felly fy nghyngor yw, beth bynnag yw penderfyniad y bwrdd, dysgwch fyw gydag ef. Dewch yma ac enillwch yr arian sy'n cael ei ganiatáu i chi, neu gallwch ddewis diddymu'r ddeddfwriaeth a gwneud y penderfyniadau hynny drosoch eich hun.

15:39 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for taking the intervention. Did you, like me, believe that, when we had that put before us, it was the unanimous decision of the Commission to put that budget forward?

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. Pan gyflwynwyd hynny i ni, a oeddech chi, fel finnau, yn credu mai penderfyniad unfrydol y Comisiwn oedd cyflwyno'r gyllideb honno?

15:39 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Oh, yes, I'm sure, as it was presented to us. The Commission's job is just to do a calculation on the determination. What we discovered, and accepted, was that the quantum of the determination is outside the control of the Commission and is solely the responsibility of the remuneration board.

O, oeddwn, rwy'n siwr, fel y'i cyflwynwyd i ni. Gwaith y Comisiwn yw gwneud cyfrifiad ar y penderfyniad. Yr hyn a welsom, ac a dderbyniwyd gennym, oedd bod cwantwm y penderfyniad y tu allan i reolaeth y Comisiwn ac yn gyfrifoldeb i'r bwrdd taliadau yn unig.

I will move on to the next part. In our report on the scrutiny of last year's draft budget, the committee called for additional information on the £500,000 pre-election costs for 2015-16. We were a bit disappointed that this year's budget did not include more detail on the specific costs and have asked again for a breakdown of the anticipated election costs incurred as part of the £2.5 million allocation for 2016-17. I am pleased that the estimate of this has been provided in the Commission's response, and that includes redundancy and wind-up costs and so on.

Symudaf ymlaen at y rhan nesaf. Yn ein hadroddiad ar y graffu ar gyllideb ddrafft y llynedd, galwodd y pwyllgor am wybodaeth ychwanegol am £500,000 o gostau cyn etholiad ar gyfer 2015-16. Roeddem ychydig yn siomedig nad oedd cyllideb eleni yn cynnwys mwy o fanylion am y costau penodol ac rydym wedi gofyn unwaith eto am ddadansoddiad o'r costau etholiad disgwyliedig a gafwyd yn rhan o'r dyraniad o £2.5 miliwn ar gyfer 2016-17. Rwy'n falch fod amcangyfrif o hyn wedi'i ddarparu yn ymateb y Comisiwn, ac mae hynny'n cynnwys dileu swyddi a chostau dirwyn i ben ac yn y blaen.

We congratulate the Commission on the success of its ICT transition programme and recognise the improvements made since ICT provision has been brought in-house. However, we did raise concerns regarding the accessibility of the Assembly's website. The Commission has acknowledged the need to improve the website and further detail on the work being undertaken to improve it has since been provided. I am pleased to see this and urge the Commission to prioritise this work. The committee would like to continue to receive progress reports on website improvements before the end of this Assembly.

Rydym yn llongyfarch y Comisiwn ar lwyddiant ei raglen bontio TGCh ac yn cydnabod y gwelliannau a wnaed ers dod â'r ddarpariaeth TGCh yn fewnol. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon gennym ynghylch hygyrchedd gwefan y Cynulliad. Mae'r Comisiwn wedi cydnabod yr angen i wella'r wefan ac ers hynny, darparwyd manylion pellach ynglŷn â'r gwaith sy'n cael ei wneud i'w gwella. Rwy'n falch o weld hyn ac yn annog y Comisiwn i flaenoriaethu'r gwaith. Byddai'r pwyllgor yn hoffi parhau i dderbyn adroddiadau ar gynnydd y gwaith o wella'r wefan cyn diwedd y Cynulliad hwn.

Finally, the committee commended the Commission's achievement of a 35 per cent reduction in emissions and for setting a further challenging target of 30 per cent by the end of the fifth Assembly. In line with this ambition, we recommended that the current and future Commissioners should continue to prioritise and pursue challenging sustainability targets, leading up to 2021. I have no hesitation at all in commending the Commission's budget to this Assembly.

Yn olaf, canmolodd y pwyllgor y Comisiwn am lwyddo i sicrhau gostyngiad o 35 y cant mewn allyriadau ac am osod targed heriol pellach o 30 y cant erbyn diwedd y pumed Cynulliad. Yn unol â'r uchelgais hwn, rydym wedi argymell y dylai'r Comisiynwyr presennol a Chomisiynwyr yn y dyfodol barhau i flaenoriaethu ac i anelu tuag at dargedau cynaliadwyedd heriol, hyd at 2021. Nid wyf yn petruso dim rhag cymeradwyo cyllideb y Comisiwn i'r Cynulliad hwn.

15:41

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Could I begin by thanking the Deputy Presiding Officer for his opening statement? The fourth Assembly has seen a number of new developments and we welcome the recognition of that in the budget before us today. In particular, the increasing volume of legislation, given our newly acquired primary law-making powers, has placed increased pressure on our committees, research, legal and legislative teams, as well as on individual Assembly Members' staff. We welcome very much that the Commission has endeavoured to plan for future capacity, as we continue to develop this body of Welsh law.

A gaf fi ddechrau drwy ddiolch i'r Dirprwy Lywydd am ei ddatganiad agoriadol? Cafwyd nifer o ddatblygiadau newydd yn ystod y pedwerydd Cynulliad ac rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth i hynny yn y gyllideb ger ein bron heddiw. Yn benodol, mae'r ddeddfwriaeth gynyddol, o ystyried ein pwerau deddfu sylfaenol newydd, wedi rhoi mwyfwy o bwysau ar ein pwyllgorau, a'n timau ymchwil, ac ar ein timau cyfreithiol a deddfwriaethol, yn ogystal ag ar aelodau o staff Aelodau Cynulliad unigol. Rydym yn croesawu'n fawr y ffaith fod y Comisiwn wedi ymdrechu i gynllunio ar gyfer capasiti yn y dyfodol, wrth i ni barhau i ddatblygu'r corff hwn o gyfraith Cymru.

The new continued professional development team has been a very welcome initiative, ensuring that we're investing in the training of our staff and Assembly Members, giving us the skills and tools to effectively hold the Welsh Government to account and embrace our new law-making roles.

Mae'r tîm datblygiad proffesiynol parhaus newydd wedi bod yn fenter i'w chroesawu'n fawr, gan sicrhau ein bod yn buddsoddi mewn hyfforddiant i'n staff ac Aelodau'r Cynulliad, gan roi'r sgiliau a'r adnoddau i ni allu dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn effeithiol a chofleidio ein swyddogaethau deddfu newydd.

We welcome the emphasis in the budget on ensuring that this institution has a strong voice in future constitutional changes in the UK and Europe and has the expertise and capacity that we need as more and more powers are devolved to this Assembly. Furthermore, it's vital that, as a democratic body, we continue to make every effort to engage with communities across Wales.

Rydym yn croesawu'r pwyslais yn y gyllideb ar sicrhau bod gan y sefydliad hwn lais cryf mewn newidiadau cyfansoddiadol yn y DU ac Ewrop yn y dyfodol a bod ganddo'r arbenigedd a'r gallu sydd eu hangen arnom wrth i fwy a mwy o bwerau gael eu datganoli i'r Cynulliad hwn. Ar ben hynny, mae'n hanfodol ein bod, fel corff democrataidd, yn parhau i wneud pob ymdrech i ymgysylltu â chymunedau ledled Cymru.

The Assembly has made significant progress in terms of social media as well as its strong programme of appearances at national events, such as the Royal Welsh Show in my own constituency. I hope that this work will continue to go from strength to strength.

Mae'r Cynulliad wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â'i rhaglen gref o ymddangosiadau mewn digwyddiadau cenedlaethol, fel Sioe Frenhinol Cymru yn fy etholaeth i. Rwy'n gobeithio y bydd y gwaith hwn yn parhau i fynd o nerth i nerth.

I would particularly like to commend the work of the education service. Anybody who has seen those people in action know what a fantastic job they do, imparting knowledge about this institution to our youngest citizens and really engaging with them in such a positive way.

Yn benodol, hoffwn ganmol gwaith y gwasanaeth addysg. Bydd unrhyw un sydd wedi gweld y bobl hynny'n gweithio yn gwybod am y gwaith gwych a wnânt, yn trosglwyddo gwybodaeth am y sefydliad hwn i'n dinasyddion ieuengaf ac yn ymgysylltu â hwy go iawn mewn ffordd mor gadarnhaol.

I have listened carefully to the Deputy Presiding Officer and to the Chair of the Finance Committee. They both know that I have the utmost respect for both of them; they have been true friends and wise counsel over the years that we have been in this institution together. However, the Welsh Liberal Democrats cannot support this Commission budget. Today, we are being asked to vote for a budget that includes an increase of £1.1 million to help cover an 18 per cent pay rise in the basic salary of an Assembly Member. I absolutely accept the point that, as Commissioners, they have a statutory responsibility to include that in the budget, and there is nothing that the Commissioners could have done in those circumstances. But whilst other public sector workers continue to have their pay constrained, we believe that a £10,000 increase for AMs is completely unacceptable.

Rwyf wedi gwrando'n astud ar y Dirprwy Lywydd ac ar Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Mae'r ddau'n gwybod fod gennyf y parch mwyaf tuag at y ddau ohonynt; maent wedi bod yn gyfeillion gwir a roddodd gyngor doeth ar hyd y blynyddoedd y buom yn y sefydliad hwn gyda'n gilydd. Fodd bynnag, ni all Democratiaid Rhyddfrydol Cymru gefnogi cyllideb y Comisiwn hwn. Heddiw, mae gofyn i ni bleidleisio dros gyllideb sy'n cynnwys cynnydd o £1.1 miliwn i helpu i dalu am godiad o 18 y cant yng nghyflog sylfaenol Aelod Cynulliad. Rwy'n llwyr dderbyn y pwynt fod ganddynt, fel Comisiynwyr, gyfrifoldeb statudol i gynnwys hynny yn y gyllideb, ac nid oes unrhyw beth y gallai'r Comisiynwyr fod wedi'i wneud yn yr amgylchiadau hynny. Ond tra bo gweithwyr eraill yn y sector cyhoeddus yn parhau i weld eu cyflogau'n cael eu cyfyngu, credwn fod cynnydd o £10,000 i ACau yn gwbl annerbyniol.

15:44

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the leader of the Liberal Democrats give way?

A wnaiff arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol ildio?

15:44

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course.

Wrth gwrs.

15:44

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You will be aware—I may be called to speak later—that I was the Member responsible for bringing in this legislation. The whole point of bringing in this legislation was to avoid the kind of debate we're having today.

Fe fyddwch yn ymwybodol—efallai y gelwir arnaf i siarad yn nes ymlaen—mai fi oedd yr Aelod a oedd yn gyfrifol am gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon. Holl bwynt cyflwyno'r ddeddfwriaeth oedd er mwyn osgoi'r math o ddadl rydym yn ei chael heddiw.

15:44

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As the Member will know, when he brought forward that legislation, as a Member at that time, I supported that legislation.

Fel y bydd yr Aelod yn gwybod, pan gyflwynodd y ddeddfwriaeth hon, fel Aelod ar y pryd, roeddwn yn cefnogi'r ddeddfwriaeth.

The Welsh Liberal Democrats have been consistent in our opposition to a pay rise of this kind, and when I voted for that legislation I can assure you I never believed that a remuneration board could get it so wrong. And I know that my party is not alone in these views. Members from across this Chamber from all political parties have voiced their dissatisfaction and unhappiness with the proposals.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi bod yn gyson yn ein gwrthwynebiad i godiad cyflog o'r math hwn, a phan bleidleisiais o blaid y ddeddfwriaeth gallaf eich sicrhau na chredais erioed y gallai bwrdd taliadau gael pethau mor anghywir. Ac rwy'n gwybod nad safbwynt fy mhlaid fy hun yn unig yw hwn. Mae aelodau o bob rhan o'r Siambr hon o bob plaid wleidyddol wedi mynegi eu hanfodlonrwydd a'u hanhapusrwydd ynglŷn â'r cynigion.

It is such a matter of regret to me that the remuneration board did not listen to the results of their own consultation exercise. In the meeting of February, the remuneration board discussed the two key messages that arose from its consultation on their proposals for this pay increase. That consultation saw the Welsh Liberal Democrats submit a full response. The Labour group submitted a response. Nick Ramsay took the trouble as an individual Member to submit a response. I regret Plaid Cymru did not, Rhodri Glyn. But that consultation said quite clearly to the remuneration board that the salary was too high, but also, more importantly, that in the current economic climate it could not be justified. Yet, in the next paragraph, it chose to ignore the results of its own consultation, and I regret that very much.

Mae'n fater sy'n peri'r fath ofid i mi na wrandawodd y bwrdd taliadau ar ganlyniadau eu hymgynghoriad eu hunain. Yng nghyfarfod mis Chwefror, trafododd y bwrdd taliadau y ddwy neges allweddol a gododd o'i ymgynghoriad ar eu cynigion ar y codiad cyflog hwn. Cyflwynodd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ymateb llawn i'r ymgynghoriad hwnnw. Cyflwynodd y grŵp Llafur ymateb. Aeth Nick Ramsay i'r drafferth fel Aelod unigol i gyflwyno ymateb. Rwy'n gresynu na wnaeth Plaid Cymru, Rhodri Glyn. Ond dywedodd yr ymgynghoriad yn eithaf clir wrth y bwrdd taliadau fod y cyflog yn rhy uchel, ond hefyd, yn bwysicach, na ellid ei gyfiawnhau yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Eto i gyd, yn y paragraff nesaf, dewisodd anwybyddu canlyniadau ei ymgynghoriad ei hun, ac rwy'n gresynu at hynny'n fawr iawn.

So, is there nothing to be done? I do not believe that is to be the case. Whilst the remuneration board usually only makes one determination, there is provision for the remuneration board to make more than one if, and I quote,

Felly, a oes unrhyw beth i'w wneud? Nid wyf yn credu bod hynny'n wir. Er bod y bwrdd taliadau fel arfer ond yn gwneud un penderfyniad yn unig, ceir darpariaeth sy'n caniatáu i'r bwrdd taliadau wneud mwy nag un os oes, a dyfynnaf,

'there are exceptional circumstances which make it just and reasonable'.

'amgylchiadau eithriadol sy'n golygu ei bod yn gyfiawn ac yn rhesymol'.

I believe we are in exceptional circumstances. The length of public pay restraint is unprecedented in my adult lifetime, and I believe in these circumstances it is reasonable to think again.

Rwy'n credu ein bod mewn amgylchiadau eithriadol. Mae hyd y cyfyngu ar gyflogau cyhoeddus yn ddigynsail yn ystod fy oes i fel oedolyn, ac rwy'n credu, yn yr amgylchiadau hyn, ei bod yn rhesymol i ni feddwl eto.

It would, of course, also be exceptional for the Commission budget to be voted down, therefore giving the new remuneration body, a new set of people, an opportunity to bring forward new proposals. This is not the last opportunity to pass this Commission budget, and there are six months before the next Assembly. Therefore, there is time to come forward with new proposals, proposals—

Wrth gwrs, byddai hefyd yn eithriadol i gyllideb y Comisiwn gael ei gwrthod, a fyddai'n rhoi cyfle i'r corff taliadau newydd, set newydd o bobl, gyflwyno cynigion newydd. Nid dyma'r cyfle olaf i basio cyllideb y Comisiwn, ac mae chwe mis cyn y Cynulliad nesaf. Felly, mae yna amser ar gyfer cyflwyno cynigion newydd, cynigion—

15:47

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sorry to have to ask that you accept a further intervention. Is the leader of the Liberal Democrats aware of the implications of voting down the Commission's budget? It does not change the remuneration board's recommendations; what it does is denude the Assembly Commission of resources for all of us.

Mae'n ddrwg gennyf orfod gofyn i chi dderbyn ymyriad pellach. A yw arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ymwybodol o oblygiadau gwrthod cyllideb y Comisiwn? Nid yw'n newid argymhellion y bwrdd taliadau; yr hyn y mae'n ei wneud yw amddifadu Comisiwn y Cynulliad o adnoddau ar ein cyfer i gyd.

15:47

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I had hoped that in bringing forward these proposals today and offering an alternative way forward, we could give powers to the new remuneration board to re-look at these proposals. It is possible for that to happen. New proposals—proposals that are fair to Assembly Members and proposals that sit in the context that recognises what I know everyone in this Chamber recognises, which is that we are public servants and we should be treated the same as other public servants.

Wrth gyflwyno'r cynigion hyn heddiw a chynnig ffordd arall ymlaen, roeddwn wedi gobeithio y gallem roi pwerau i'r bwrdd taliadau newydd ailedrych ar y cynigion hyn. Mae'n bosibl i hynny ddigwydd. Cynigion newydd—cynigion sy'n deg i Aelodau'r Cynulliad a chynigion mewn cyd-destun sy'n cydnabod yr hyn y gwn fod pawb yn y Siambr hon yn ei gydnabod, sef ein bod yn weision cyhoeddus ac y dylem gael ein trin yr un fath â gweision cyhoeddus eraill.

15:48

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In October 2009, a certain Kirsty Williams, leader of the Welsh Liberal Democrats, said

Ym mis Hydref 2009, dywedodd un Kirsty Williams, arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

'it has to be right for this Assembly to change to a system that will remove Assembly Members from any role in setting the pay, conditions and expenses under which we work.'

'wrth gwrs ei bod yn iawn i'r Cynulliad hwn droi at system lle na fydd gan Aelodau Cynulliad rôl o gwbl wrth bennu'r cyflog, yr amodau a'r treuliau am ein gwaith.'

And in 2009, it appears she believed that was right. In 2015, she has completely changed her mind, and seeks to use this debate in order to try and influence a decision taken by the independent remuneration board. As the Deputy Presiding Officer made very clear, the Commission responsibility is to put to this Assembly a sustainable budget, which we have done. We have no role in commenting, nor should we have any role in commenting, on the decisions of an independent remuneration board. If people feel uncomfortable with the suggestions that the remuneration board has made in terms of pay and conditions for Assembly Members, there's a very simple way for you to act: simply instruct the fees office not to include those increases in your particular pay packets. You can do that if you feel uncomfortable with the situation. But let's be very clear about the implications of beginning to interfere with the decisions of an independent remuneration body. As Dafydd Elis-Thomas said quite clearly the other option is that Assembly Members will have to make their own decisions about pay and conditions and expenses. Now, I won't be here—in the same way as Jocelyn Davies won't be here—in the next Assembly, so this is not going to affect me in any way, but, having said that, I would not want to be in a position in the next Assembly where I was being asked to vote and to decide on the pay and conditions and expenses of AMs. That is the implication of what the Liberal Democrats are proposing.

Ac yn 2009, mae'n ymddangos ei bod yn credu bod hynny'n iawn. Yn 2015, mae hi wedi newid ei meddwl yn llwyr, ac mae'n ceisio defnyddio'r ddadl hon er mwyn ceisio dylanwadu ar benderfyniad a wnaed gan y bwrdd taliadau annibynnol. Fel y dywedodd y Dirprwy Lywydd yn glir iawn, cyfrifoldeb y Comisiwn yw cyflwyno cyllideb gynaliadwy i'r Cynulliad hwn, a dyna a wnaethom. Nid oes gennym rôl o gwbl ar gyfer rhoi sylwadau, ac ni ddylai fod gennym rôl o gwbl ar gyfer rhoi sylwadau, ar benderfyniadau bwrdd taliadau annibynnol. Os yw pobl yn teimlo'n anghyfforddus ynghylch yr awgrymiadau y mae'r bwrdd taliadau wedi'u gwneud o ran cyflog ac amodau Aelodau Cynulliad, mae yna ffordd syml iawn i chi weithredu: yn syml, gallwch gyfarwyddo'r swyddfa daliadau i beidio â chynnwys y cynnydd yn eich pecynnau cyflog penodol. Gallwch wneud hynny os ydych yn teimlo'n anghyfforddus ynglŷn â'r sefyllfa. Ond gadewch i ni fod yn glir iawn ynghylch y goblygiadau sy'n deillio o ddechrau ymyrryd â phenderfyniadau corff taliadau annibynnol. Fel y dywedodd Dafydd Elis-Thomas yn gwbl glir, y dewis arall yw y bydd yn rhaid i Aelodau'r Cynulliad wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch cyflogau ac amodau a threuliau. Nawr, ni fyddaf i yma—yn yr un ffordd na fydd Jocelyn Davies yma—yn y Cynulliad nesaf, felly nid yw hyn yn mynd i effeithio arnaf fi mewn unrhyw fodd, ond wedi dweud hynny, ni fyddwn yn dymuno bod mewn sefyllfa yn y Cynulliad nesaf, lle y byddai gofyn i mi bleidleisio a phenderfynu ar gyflog ac amodau a threuliau Aelodau Cynulliad. Dyna yw goblygiad yr hyn y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei gynnig.

The leader of the Liberal Democrats said there's plenty of time—you know, we can have a new budget; we can have a new remuneration board. Who would want to sit on a remuneration board when Assembly Members can say, 'When we disagree with your decisions, we're going to throw out those decisions; we're going to totally ignore those decisions. You are the independent remuneration board, of course, until you bring forward any suggestions that are not acceptable to us.'

Dywedodd arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol fod digon o amser—wyddoch chi, gallwn gael cyllideb newydd; gallwn gael bwrdd taliadau newydd. Pwy fyddai'n dymuno bod yn aelod o fwrdd taliadau pan all Aelodau'r Cynulliad ddweud, 'Pan fyddwn yn anghytuno â'ch penderfyniadau, byddwn yn gwrthod y penderfyniadau hynny; rydym yn mynd i anwybyddu'r penderfyniadau hynny'n llwyr. Bwrdd taliadau annibynnol ydych chi, wrth gwrs, nes y byddwch yn cyflwyno unrhyw awgrymiadau nad ydynt yn dderbyniol i ni.'?

I find it astounding that when the Liberal Democrats had an opportunity to send a substitute to the Finance Committee when they were scrutinising the budget and actually discussing the decision taken by the independent remuneration board, the Liberal Democrats chose not to send anybody to that committee meeting. Perhaps they thought, 'Oh, well, nobody will take any notice of that. We won't get our headline in the paper. We won't get on the BBC and the ITV news to make a big political point about this.'

Pan oedd gan y Democratiaid Rhyddfrydol gyfle i anfon dirprwy i'r Pwyllgor Cyllid pan oeddent yn craffu ar y gyllideb ac yn trafod y penderfyniad a wnaed gan y bwrdd taliadau annibynnol mewn gwirionedd, mae'n syndod i mi fod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi dewis peidio ag anfon unrhyw un i gyfarfod y pwyllgor. Efallai eu bod wedi meddwl, 'O wel, ni fydd neb yn cymryd unrhyw sylw o hynny. Ni chawn ein pennawd yn y papur. Ni chawn sylw gan newyddion y BBC ac ITV i wneud pwynt gwleidyddol mawr ynglŷn â hyn.'

*Peter Black a gododd—*

*Peter Black rose—*

15:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black.

Peter Black.

15:52 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rhodri, you're aware as I am that the Finance Committee's job is to scrutinise the budget, not to actually decide on the budget. So, clearly, whether we sent a substitute or not, that Member could not have influenced the budget in this regard. I think it's quite important to make that distinction.

Rhodri, rydych yn gwybod fel minnau mai gwaith y Pwyllgor Cyllid yw craffu ar y gyllideb, nid penderfynu ar y gyllideb. Felly, yn amlwg, ni allai'r ffaith pa un a fyddem yn anfon Aelod ai peidio fod wedi dylanwadu ar y gyllideb yn hynny o beth. Credaf ei bod yn eithaf pwysig i ni egluro'r gwahaniaeth hwnnw.

15:52 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, the whole point of the scrutiny process is for the committee to comment on the budget and its contents. You chose not to have anybody representing your party there. The only conclusion I can come to is that the Liberal Democrats, you know, are so desperate for political point-scoring and getting headlines, they will do anything to get a story in the press or on the media, and this, unfortunately, is a blatant example of this and I hope that Members of all parties other than the Liberal Democrats will have nothing to do with this political play making.

Wel, holl bwynt y broses graffu yw i'r pwyllgor wneud sylwadau ar y gyllideb a'i chynnwys. Dewisoch beidio â chael unrhyw un i gynrychioli eich plaid yno. Yr unig beth y gallaf ei gasglu yw bod y Democratiaid Rhyddfrydol mor awyddus, wyddoch chi, i sgorio pwyntiau gwleidyddol a chyrraedd y penawdau, fel y byddant yn gwneud unrhyw beth i gael stori yn y wasg neu ar y cyfryngau, ac mae hon, yn anffodus, yn enghraifft amlwg o hynny ac rwy'n gobeithio na fydd gan Aelodau o bob plaid ar wahân i'r Democratiaid Rhyddfrydol ddim oll i'w wneud â chwarae gemau gwleidyddol o'r fath.

15:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Dafydd Elis-Thomas.

Dafydd Elis-Thomas.

15:53 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr, Fonesig Lywydd. Nid yw hi wedi bod yn arfer gen i sefyll ar fy nhraed yn y Cynulliad hwn i amddiffyn penderfyniadau Cynulliadau blaenorol. Ond mae'n drist i mi mor fuan y mae gwleidyddion yng Nghymru yn anghofio beth wnaethom ni pan wnaethom ni sefydlu Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010. Roedd hyn yng nghanol yr holl helynt yn San Steffan, yng nghanol yr helyntion ynglŷn â chamddefnydd o arian cyhoeddus—fe benderfynodd y Cynulliad hwn greu cyfundrefn annibynnol a oedd yn gyfan gwbl safadwy a diogel.

Thank you very much, Dame Presiding Officer. It hasn't been a habit of mine to stand in this Assembly to defend decisions made by previous Assemblies. But it saddens me how soon politicians in Wales forget what we did when we established the National Assembly for Wales (Remuneration) Measure 2010. This was during the troublesome period in Westminster on the abuse of public moneys—this Assembly made a decision to create an independent system that was entirely sustainable and safe.

A dyma ni mor gynnar â hyn heddiw yn ceisio ei ddadwneud o, ond mewn ffordd, i mi, sydd hyd yn oed yn fwy trist, sef bod yna Aelodau Cynulliad yn fodlon cynnig ger bron y Cynulliad hwn y byddan nhw'n tynnu allan 5 y cant o gyllideb Comisiwn y Cynulliad er mwyn rhwystro'r bwrdd taliadau rhag gweithredu eu penderfyniad. Ond, wedi dweud hynny, nid yw e'n bosib yn statudol iddyn nhw wneud hynny. Pe byddai'r Rhyddfrydwyr Democrataidd eisiau mynd yn ôl i'r drefn lle mae Aelodau'r Cynulliad hwn yn penderfynu ar eu cyflogau eu hunain, fe fyddai'n rhaid iddyn nhw symud diddymiad y Mesur—y Mesur a ysgrifennwyd yn ofalus, ar ôl hir drafod, er mwyn ein diogelu ni rhag sefyllfa fel hyn. Felly, a gaf i apelio arnom ni fel Aelodau Cynulliad ein bod ni yn gweithredu yn y modd yr ydym ni wedi ei osod ar ein cyfer ein hunain yn y sefyllfa yma, a'n bod ni yn derbyn bod y bwrdd taliadau annibynnol wedi'i sefydlu i fod heb gyfarwyddyd na rheolaeth y Cynulliad na Chomisiwn y Cynulliad?

Here we are, so soon, trying to undo that, but in a way that, to me, is even sadder, in that there are Assembly Members who are willing to propose before this Assembly that they would withdraw 5 per cent of the Assembly Commission's budget in order to prevent the remuneration board from implementing their decision. But, having said that, it isn't statutorily possible for them to do that. If the Liberal Democrats wanted to return to the previous system, where Members of this Assembly decided their own salaries, then they would have to move to repeal that Measure—a Measure drawn up very carefully, after lengthy debate, in order safeguard us from such a situation. Therefore, may I appeal for us as Assembly Members to act in the way that we have set down for ourselves in this situation, and that we accept that the independent remuneration board has been established to work without the direction or control of this Assembly or the Assembly Commission?

*William Graham a gododd—*

*William Graham rose—*

**Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I give way.

Ildiaf.

15:55 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for taking the intervention. Might I just remind the house that, in previous discussions on our pay—and I was privileged to be a Member in both of those previous ones—each time, the evidence was overwhelming; it wasn't conjured up. It was overwhelming that, on those particular occasions, our pay was below what it should be by comparison with the correct—. And, exactly the same thing—. Do you not agree that the remuneration board has done the same thing this time?

Diolch yn fawr iawn am gymryd yr ymyriad. A gaf fi atgoffa'r tŷ fod y dystiolaeth bob tro yn llethol yn y trafodaethau blaenorol ar ein cyflog—a chefais y fraint o fod yn Aelod yn y ddwy drafodaeth flaenorol; ni chafodd ei chreu o ddim. Cafwyd tystiolaeth lethol fod ein cyflogau ar yr achlysuron hynny, yn is na'r hyn y dylai fod o'i gymharu â'r—. Ac yn union yr un peth—. Onid ydych yn cytuno bod y bwrdd taliadau wedi gwneud yr un peth y tro hwn?

15:55 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful, William, and you were part of these discussions, of course, in those days. The remuneration board has the independence to take judgments on a statutory footing, which we place before them, and that was the whole point of what we did.

Rwy'n ddiolchgar iawn, William, ac roeddech yn rhan o'r trafodaethau hyn, wrth gwrs, yn y dyddiau hynny. Mae'r bwrdd taliadau yn cael annibyniaeth i wrando ar farn ar sail statudol fel y caiff ei chyflwyno iddynt, a dyna oedd holl bwynt yr hyn a wnaethom.

Ein diben ni oedd dangos i bobl Cymru nad oedd ein democratiaeth ni yn ddemocratiaeth a oedd yn cael ei rheoli gan ymdeimladau byrdymor. Fe ddywedaf rywbeth arall wrthych chi na ddylwn ei ddweud, efallai, ond rwyf i, wrth gwrs, wedi bod yn Aelod, ac yn parhau'n Aelod, mewn rhyw dŷ arall y tu draw i Paddington. Rwyf i'n cofio, yn nyddiau anodd San Steffan, cael fy annog i wneud mwy o geisiadau am daliadau ar gyfer costau fel Aelod, oherwydd bod y Llywodraeth ar y pryd—ni ddywedaf pa blaid, ond bydd William yn gwybod, oedd mewn grym—wedi dweud, er mwyn rhesymau gwleidyddol, nad oedden nhw'n mynd i gynyddu cyflogau Aelodau Seneddol. A dyna'r diwrnod y penderfynais i, 'Nid dyma'r gêm i ni'. Yma yn y Gymru ddatganoledig, rŷm ni'n glir, rŷm ni'n annibynnol, ac mae gennym ni statws a diogelwch cyfreithiol. Rwy'n ddiolchgar iawn—ac fe wnaf ei enwi—i Keith Bush, Cwnsler y Frenhines er Anrhydedd am ei wasanaeth i'r lle hwn ac i ddatganoli, am y ffordd yr ysgrifennwyd y Bil hwn, ac i'r prif weithredwr am y gefnogaeth i hyn ddigwydd. Dyma oedd y ffordd ymlaen i'r Cynulliad hwn, ac nid dyma'r ffordd inni fod yn trafod y mater yma heddiw.

Our aim was to demonstrate to the people of Wales that our democracy was not a democracy that was being controlled by short-termism. I will tell you something else that perhaps I shouldn't say, but I, of course, have been a Member of another house, and continue to be a Member of another house, on the other side of Paddington. I recall, in the difficult days for Westminster, being encouraged to make more applications for expenses as a Member, because the Government of the day—I won't tell you which party was in power, but William will know—had said, for political reasons, that they weren't going to increase MPs' salaries. That was the day that I decided, 'This isn't the game for us here'. Here in the devolved Wales, we are clear, we are independent, and we have status and legal safeguards. I am very grateful—and I will name him—to Keith Bush, the Honorary Queen's Counsel, for his service to this place and to devolution, for the way in which this Measure was drafted, and to the chief executive for the support for this to happen. This was the way forward for this Assembly, and this isn't how we should be discussing this issue today.

Fe ddylem ni fod yn siarad am gyllideb Comisiwn y Cynulliad a gwasanaethau'r Comisiwn, nid y bwrdd taliadau, oherwydd mae'r bwrdd taliadau yn gorff cyfreithlon a chyfansoddiadol i ddiogelu Aelodau Cynulliad Cymru rhag y math o beth a ddigwyddodd ar bwys y Tafwys.

We should be discussing the Assembly Commission's budget and the services of the Commission, not the remuneration board, because the remuneration board is a legitimate, constitutionally established body to safeguard Assembly Members from the kinds of things that happened on the banks of the Thames.

15:58 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to thank Lord Dafydd Elis-Thomas for ending on a note I wanted to ask us all to refocus our thoughts on, because today's debate, I fear, will end up being a very, very simple headline. Members, I would like to remind you that 85 per cent of our budget is spent delivering services that help to engage with the people of Wales. We have an excellent staff who work for us and I would like, on behalf of myself, as a Commissioner, and I'm sure I speak for other Commissioners, to thank that staff for the amazing work that they do, led by our Clerk. Ranging from cleaners through to clerks of committees, the work that they provide us in enabling us to do our job in representing the people of Wales here in Cardiff bay is outstanding. Without them, without this building and without the facilities, we wouldn't be able to do what we've all been democratically elected to do. Members' pay, terms and conditions are always a very emotive subject and there may well be a place to revisit that, but now is not the time, now is not the place. I would ask you, please, to remember that the Commission has made an absolute virtue out of being as transparent as we possibly can be. I think that there is very little that we do not publish, that we do not put into the public domain. Each and every one of us is under immense scrutiny and rightly so; we don't want duck houses here, or iPads or any of the other business that causes so much confusion and concern elsewhere. We want people to know exactly what we do, how we do it, when we do it and what we get paid to do it.

Hoffwn ddiolch i 'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas am orffen ar nodyn yr oeddwn am ofyn i ni i gyd ailganolbwyntio arno, oherwydd daw dadl heddiw i ben, rwy'n ofni, fel pennawd syml iawn. Aelodau, hoffwn eich atgoffa bod 85 y cant o'n cyllideb yn cael ei gwario ar ddarparu gwasanaethau sy'n helpu i ymgysylltu â phobl Cymru. Mae gennym staff rhagorol sy'n gweithio ar ein rhan a hoffwn, ar fy rhan fy hun, fel Comisiynydd, ac rwy'n siŵr fy mod yn siarad dros Gomisiynwyr eraill, ddiolch i'r staff am y gwaith anhygoel y maent yn ei wneud, dan arweiniad ein Clerc. Gan amrywio o lanhawyr i glercod pwyllgorau, mae'r gwaith y maent yn ei wneud ar ein rhan yn ein galluogi i wneud ein gwaith yn cynrychioli pobl Cymru yma ym mae Caerdydd yn rhagorol. Hebddynt, heb yr adeilad hwn a heb y cyfleusterau, ni fyddem yn gallu gwneud yr hyn y cawsom oll ein hethol yn ddemocrataidd i'w wneud. Mae cyflogau, telerau ac amodau Aelodau bob amser yn bwnc emosiynol iawn ac mae'n bosibl iawn y bydd cyfle i ailystyried hynny, ond nid nawr yw'r amser, nid nawr yw'r lle. Byddwn yn gofyn i chi gofio bod y Comisiwn wedi ei gwneud yn rhinwedd absoliwt i fod mor dryloyw ag y gall fod. Nid wyf yn meddwl fod llawer iawn nad ydym yn ei gyhoeddi, nad ydym yn ei roi yn y parth cyhoeddus. Mae pob un ohonom yn destun craffu aruthrol a hynny'n briodol; nid ydym eisiau tai hwyaid yma, neu iPads na dim arall sy'n achosi cymaint o ddryswch a phryder mewn mannau eraill. Rydym am i bobl wybod yn union beth rydym yn ei wneud, sut rydym yn ei wneud, pa bryd y byddwn yn ei wneud a faint y cawn ein talu am ei wneud.

So, Members, I would ask you, please, to support this budget and to recognise, by doing so, that we need this money to be able to go forward, because, make no mistake about it, the fifth Assembly is going to be incredibly hard work for the Members who will be here. We will have new legislative powers, but very little additional resource, and the people we will be relying on are the 300 or so staff who work for us in this Commission. For their sake and for the sake of us being able to plan a coherent, consistent and credible handover to whoever is the next Presiding Officer, the next set of Commissioners and the next team running the Assembly on behalf of the people of Wales, then we need to have this budget. It is for one year and it just enables that transition so that the next Commission may be able to make decisions about how the money should be spent and how the services should be provided to Assembly Members. We are answerable, at the end of the day, to the people who elected us. One of the responsibilities they charge us with, and thereby charge the Commission with, is to provide an outstanding level of service, not just to us as Assembly Members, but to them as the people of Wales. We need this organisation here to be an effective fighting force to deliver the parliament that Wales needs tomorrow. Thank you.

Felly, Aelodau, hoffwn ofyn i chi gefnogi'r gyllideb hon ac i gydnabod, drwy wneud hynny, fod angen yr arian hwn arnom er mwyn gallu symud ymlaen, oherwydd, peidiwch â chamgymryd, mae'r pumed Cynulliad yn mynd i fod yn waith hynod galed i'r Aelodau a fydd yn y fan hon. Bydd gennym bwerau deddfwriaethol newydd, a fawr iawn o adnoddau ychwanegol, a'r bobl y byddwn yn dibynnu arnynt yw'r 300 neu fwy o staff sy'n gweithio i ni yn y Comisiwn hwn. Er eu mwyn hwy ac er mwyn i ni allu cynllunio trosglwyddiad cydlynol, cyson a chredadwy i bwy bynnag fydd y Llywydd nesaf, y gyfres nesaf o Gomisiynwyr a'r tîm nesaf a fydd yn cynnal gwaith y Cynulliad ar ran pobl Cymru, rydym angen cael y gyllideb hon. Ar gyfer un flwyddyn y mae, a bydd yn galluogi'r pontio hwnnw er mwyn i'r Comisiwn nesaf allu gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut y dylai'r arian gael ei wario a sut y dylid darparu gwasanaethau i Aelodau'r Cynulliad. Yn y pen draw, rydym yn atebol i'r bobl a'n hetholodd. Un o'r cyfrifoldebau y maent yn disgwyl i ni ei ysgwyddo, a thrwy hynny, un o'r cyfrifoldebau y maent yn disgwyl i'r Comisiwn ei ysgwyddo, yw darparu lefel ragorol o wasanaeth, nid i ni'n unig fel Aelodau'r Cynulliad, ond iddynt hwy fel pobl Cymru. Rydym angen i'r corff hwn yma fod yn rym sy'n ymladd yn effeithiol i ddarparu'r senedd sydd ei hangen ar Gymru yfory. Diolch.

16:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on David Melding to reply to the debate. David Melding.

Galwaf ar David Melding i ymateb i'r ddadl. David Melding.

16:01 **David Melding** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. In reply, can I just start by thanking the Chair of the Finance Committee, once again, Jocelyn Davies, who has been masterful, I think, in leading the Finance Committee? I'm not just saying that because I agree with the report. Actually, there was a little edge in what you said in terms of where we were and the recommendations, and, you know, I do note that. You felt that, last year, there was a heavy hint that we should have included more detail this year on the election costs and their breakdown, but, as you indicated, we have now rectified that, followed it through and made that information available, and I'm sure that in any future years, now, or future cycles, that will happen.

Diolch i chi, Lywydd. Wrth ymateb, a gaf fi ddechrau drwy ddiolch i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid unwaith eto, Jocelyn Davies, sydd wedi arwain y Pwyllgor Cyllid yn feistrolgar yn fy marn i? Nid wyf yn dweud hynny am fy mod yn cytuno â'r adroddiad. A dweud y gwir, roedd ychydig bach o fin ar yr hyn a ddywedoch o ran lle roeddem arni a'r argymhellion, a wyddoch chi, rwy'n nodi hynny. Roeddech yn teimlo, y llynedd, fod yna awgrym cryf y dylem fod wedi cynnwys mwy o fanylion eleni ynghylch costau'r etholiad a'u dadansoddiad, ond fel y dywedoch chi, rydym bellach wedi cywiro hynny, ac wedi mynd ar ei drywydd a sicrhau bod y wybodaeth ar gael, ac rwy'n siŵr, yn y blynyddoedd i ddod, yn awr, neu yng nghylchoedd cyllidebau'r dyfodol, y bydd hynny'n digwydd.

We spent quite a lot of time, as I recall, in Finance Committee—and, indeed, the Public Accounts Committee in their retrospective view, it has to be said, of our accounts—looking at the website as well. It was felt that a modern, efficient website with good search engines—I'm now a bit beyond my own expertise—was something, for effective public engagement, we should prioritise and invest in heavily. It's not easy to do; it's a very complicated task. I do well understand that, but the evidence is quite clear that we need to pay more attention to that in its development in the future, and have an excellent website, not just an adequate one or one that really takes a level of expertise to navigate, because that does not meet the sort of priorities that we want. Also, in commending our record on reducing emissions, challenging us in terms of future targets or, indeed, agreeing that those targets should be challenging, which is something that we'd already thought necessary, I think that commendation also from the Finance Committee that this is the appropriate way is very, very encouraging.

Cofiaf ein bod wedi treulio cryn dipyn o amser yn y Pwyllgor Cyllid—ac yn wir, yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a edrychodd yn ôl-weithredol, mae'n rhaid dweud, ar ein cyfrifon—yn edrych ar y wefan yn ogystal. Teimlwyd bod gwefan fodern, effeithlon gyda pheiriannau chwilio da—rwy'n crwydro y tu hwnt i fy maes arbenigedd fy hun yn awr—yn rhywbeth y dylem roi blaenoriaeth iddo ac y dylem fuddsoddi'n drwm ynddo er mwyn sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd. Nid yw'n hawdd ei wneud; mae'n dasg gymhleth iawn. Rwy'n deall hynny'n iawn, ond mae'r dystiolaeth yn eithaf clir fod angen i ni roi mwy o sylw i hynny wrth ei ddatblygu'r wefan y dyfodol, ac mae ganddynt wefan ardderchog, nid yn unig un sy'n ddigonol neu un sy'n galw am lefel o arbenigedd i'w llywio, gan nad yw hynny'n cyd-fynd â'r math o flaenoriaethau rydym eu heisiau. Hefyd, wrth ganmol ein record ar leihau allyriadau, ein herio o ran targedau yn y dyfodol, neu'n wir, wrth gytuno y dylai'r targedau fod yn heriol, sy'n rhywbeth y byddem yn meddwl ei fod yn angenrheidiol eisoes, credaf fod y ganmoliaeth hefyd gan y Pwyllgor Cyllid mai dyma'r ffordd briodol, yn galonogol tu hwnt.

I suppose I now have to turn to the rest of the debate, which largely did relate to questions of the remuneration board, questions of the determination and the question of independence. I did listen to Kirsty Williams very carefully, and I am grateful that you started in such a positive way in commending the work of the committees, the staff, the level of engagement and the education service, which, of course, in the fourth Assembly, are because we've had an effective budget process, our finances have been very well managed and our record on efficiency and value for money is excellent, and that's the context in which we are introducing this Commission budget.

Mae'n debyg y dylwn droi yn awr at weddill y ddadl, a oedd i raddau helaeth yn ymwneud â mater y bwrdd taliadau, mater y penderfyniad a mater annibyniaeth. Gwrandewais yn ofalus iawn ar Kirsty Williams, ac rwy'n ddiolchgar eich bod wedi dechrau mewn ffordd mor gadarnhaol drwy gymeradwyo gwaith y pwyllgorau, y staff, y lefel o ymgysylltiad a'r gwasanaeth addysg, sydd, wrth gwrs, yn y pedwerydd Cynulliad, yn deillio o'r ffaith ein bod wedi cael proses gyllidebol effeithiol, fod ein trefniadau ariannol wedi cael eu rheoli'n dda iawn a bod ein record o ran effeithlonrwydd a gwerth am arian yn rhagorol, ac yn y cyd-destun hwnnw y cyflwynwn gyllideb y Comisiwn hwn.

But then you did go on to say that we are in exceptional circumstances and, therefore, there should be some form of exceptional procedure, which I take to mean inviting Members to vote down the Commission's budget. The consequence of doing that, as you realise, is that the determination is completely unaffected. If nothing happens, if no other motion is brought forward, we would operate on a 95 per cent budget, which would completely protect the determination. It will be met from that. Even if we brought in a new budget motion, the determination would still have to be part of that budget motion. But, of course, you're motivated by the desire to place pressure on the new remuneration board so that they amend, as you say they have a constitutional right to do, the determination of their predecessors because of exceptional circumstances.

Ond wedyn aethoch ymlaen i ddweud ein bod mewn amgylchiadau eithriadol ac felly, y dylai fod rhyw fath o weithdrefn eithriadol, ac rwy'n cymryd bod hynny'n golygu gwahodd yr Aelodau i bleidleisio dros wrthod cyllideb y Comisiwn. Canlyniad gwneud hynny, fel y byddwch yn sylweddoli, yw nad effeithir ar y penderfyniad o gwbl. Pe na bai unrhyw beth yn digwydd, pe na bai cynnig arall yn cael ei gyflwyno, byddem yn gweithredu ar gyllideb o 95 y cant, a fyddai'n diogelu'r penderfyniad yn llwyr. Bydd yn cael ei dalu o hynny. Hyd yn oed pe baem yn cyflwyno cynnig newydd ar y gyllideb, byddai'n dal i fod yn rhaid i'r penderfyniad fod yn rhan o gynnig y gyllideb. Ond wrth gwrs, fe gewch eich ysgogi gan yr awydd i roi pwysau ar y bwrdd taliadau newydd fel eu bod, gan eich bod yn dweud bod ganddynt hawl cyfansoddiadol i wneud hynny, yn newid penderfyniad eu rhagflaenwyr oherwydd amgylchiadau eithriadol.

Well, I tell you this: this is what independence means. It means that if the remuneration board, the new board, meeting independently, thought they should review the determination and came to that conclusion, then that is a matter for them. If they do it because we've put, through an extraordinary process, pressure on them, they will cease to be independent. That is simply what will happen. It cannot be interpreted any other way. I think, as Rhodri Glyn Thomas said, who would chair such a remuneration board, thinking that anything you said could be devastated simply by a resolution in this Chamber? We voted—most of us, anyway, who were here—in 2010 to make this board rigorous and independent. For the people of Wales, what they need for the long term, is an independent process. We've got to look at this, not just in our immediate reaction to one determination, but to what will happen over the years in several determinations. Presumably, they won't be all, as you may think, as generous as this one. They will act independently. But, you know, you cannot pick and choose in this process because you'd just devastate the principle of independence. I do think that it's been unfortunate, really, that this tactic has been brought before us.

Wel, rwy'n dweud hyn wrthoch chi: dyma y mae annibyniaeth yn ei olygu. Mae'n golygu os yw'r bwrdd taliadau, y bwrdd newydd, a fyddai'n cyfarfod yn annibynnol, yn credu y dylent adolygu'r penderfyniad ac yn dod i'r casgliad hwnnw, yna mater iddynt hwy yw hynny. Os ydynt yn gwneud hynny oherwydd ein bod, drwy broses eithriadol, wedi rhoi pwysau arnynt, byddant yn peidio â bod yn annibynnol. Dyna, yn syml, beth fydd yn digwydd. Ni ellir ei ddehongli mewn unrhyw ffordd arall. Fel y dywedodd Rhodri Glyn Thomas, pwy fyddai'n cadeirio bwrdd taliadau o'r fath, gan feddwl y byddai modd dinistrio unrhyw beth a ddywedech drwy benderfyniad yn y Siambr hon? Fe bleidleisiom—y rhan fwyaf ohonom a oedd yma, beth bynnag—yn 2010 i wneud y bwrdd hwn yn drwyadl ac yn annibynnol. I bobl Cymru, yr hyn sydd ei angen arnynt yn y tymor hir, yw proses annibynnol. Mae'n rhaid i ni edrych ar hyn, nid yn unig yn ein hymateb uniongyrchol i un penderfyniad, ond o ran beth fydd yn digwydd dros y blynyddoedd mewn nifer o benderfyniadau. Yn ôl pob tebyg, ni fyddant i gyd, fel y byddwch yn meddwl o bosibl, mor hael â'r penderfyniad hwn. Byddant yn gweithredu'n annibynnol. Ond wyddoch chi, ni allwch ddewis a dethol yn y broses hon, oherwydd byddech yn dinistrio egwyddor annibyniaeth drwy wneud hynny. Rwy'n meddwl ei bod yn anffodus, mewn gwirionedd, fod y dacteg hon wedi'i chyflwyno i ni.

I thank Dafydd Elis-Thomas for stating this principle, because it was under your leadership, Dafydd, that we did move. We set new standards once again, as we did in 1999, on the whole question of pay amd allowances. Going back on that would be most unfortunate.

Diolch i Dafydd Elis-Thomas am ddatgan yr egwyddor hon, gan mai o dan eich arweiniad chi, Dafydd, y cawsom y newid. Aethom ati i bennu safonau newydd eto, fel y gwnaethom yn 1999, ar holl fater cyflogau a lwfansau. Byddai mynd yn ôl ar hynny yn anffodus.

I thank Rhodri Glyn Thomas who always brings great pungency to our procedures. I think all your views, including, 'If you don't want it, you don't have to take it; that's up to individuals'—and that is definitely so—will stand on the record. But, I think it's appropriate to quote Angela Burns in conclusion. If this budget motion is defeated, it will create enormous uncertainty for the Commission staff. Those staff have served us so well in the fourth Assembly and allowed us to become a primary law-making legislature—the first time in our nation's history; something to be proud of—and I don't think we should recognise their work in such a manner that undermines their sense of confidence for the future. Their future is tied up also in the independence of the remuneration board, and that's not playing political games at this stage of the cycle. So, I do urge Members to support the motion before you.

Diolch i Rhodri Glyn Thomas sydd bob amser yn rhoi cryn dipyn o awch i'n gweithdrefnau. Rwy'n meddwl y bydd eich holl sylwadau, gan gynnwys, 'Os nad ydych ei eisiau, nid oes yn rhaid i chi ei gymryd; mae'n fater i unigolion'—ac mae hynny'n sicr yn wir—wedi'i gofnodi. Ond rwy'n credu ei bod yn briodol i mi ddyfynnu Angela Burns i gloi. Os caiff y cynnig cyllidebol hwn ei drechu, bydd yn creu ansicrwydd enfawr i staff y Comisiwn. Mae'r aelodau hynny o staff wedi ein gwasanaethu mor dda yn y Pedwerydd Cynulliad ac yn ein galluogi i ddod yn ddeddfwrfa ar gyfer creu cyfraith sylfaenol—am y tro cyntaf yn hanes ein cenedl; rhywbeth i fod yn falch ohono—ac nid wyf yn meddwl y dylem gydnabod eu gwaith mewn modd sy'n tanseilio eu hyder ar gyfer y dyfodol. Mae eu dyfodol hwy hefyd ynghlwm wrth annibyniaeth y bwrdd taliadau, ac nid chwarae gemau gwleidyddol yw hynny ar y cam hwn o'r cylch. Felly, rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi'r cynnig ger eich bron.

16:07

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] Object. I defer all voting on this until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Gohiriaf bob pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# 5. Dadl Ceidwadwyr Cymru: Pobl Hŷn

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts, gwelliant 2 yn enw Jane Hutt, a gwelliant 3 yn enw Elin Jones.*

# 5. Welsh Conservatives Debate: Older People

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts, amendment 2 in the name of Jane Hutt, and amendment 3 in the name of Elin Jones.*

16:07

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to item 5, which is the Welsh Conservatives debate on older people. I call on Darren Millar to move the motion. Darren Millar.

Symudwn yn awr at eitem 5, sef dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar bobl hŷn. Galwaf ar Darren Millar i gynnig y cynnig. Darren Millar.

Cynnig NDM5869 Paul Davies

Motion NDM5869 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gwerthfawrogi'r cyfraniad sylweddol y mae pobl hŷn yn ei wneud i fywyd cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru;

1. Values the significant contribution which older people make to social and economic life in Wales;

2. Yn gwrthod pob math o ragfarn tuag at bobl hŷn yng Nghymru;

2. Rejects all forms of ageism towards older people in Wales;

3. Yn gresynu nad yw pobl hŷn sy'n dymuno dychwelyd i'r gweithlu yng Nghymru yn gallu cael mynediad at yr un lefel o gymorth â phobl iau;

3. Regrets that older people who wish to return to the workforce in Wales are not able to access the same level of support as younger people;

4. Yn gresynu y gall diffyg mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus rwystro pobl hŷn rhag cael mynediad at gyfleoedd cymdeithasol ac economaidd; a

4. Regrets that a lack of access to public transport can inhibit the ability of older people to access social and economic opportunities; and

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl hŷn fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt gyfrannu at fywyd cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru.

5. Calls on the Welsh Government to review the support available for older people to maximise opportunities for them to contribute to social and economic life in Wales.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:08

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I move the motion on the order paper in the name of my colleague, Paul Davies, on the issue of older people and recognising their contribution here in Wales.

Diolch i chi, Lywydd. Cynigiaf y cynnig ar y papur trefn yn enw fy nghyd-Aelod, Paul Davies, ar bobl hŷn a chydnabod eu cyfraniad yma yng Nghymru.

Older people make an enormous contribution to the economic and social life of our nation, and it's reckoned that more than one in four people in Wales are aged 60 or over, and forecasts suggest that within the next 20 years this proportion of the population looks set to increase here in Wales to more than 1 million. In fact, we have more people of pensionable age and over 80 in Wales as a proportion of our population than in England, Scotland or Northern Ireland. It's for this reason that I want Wales to lead the way in showing what it means to be an age-friendly nation. I know that this is a vision that has the support of our Commissioner for Older People in Wales, who is playing a key role in promoting age-friendly communities across the country.

Mae pobl hŷn yn cyfrannu'n enfawr at fywyd economaidd a chymdeithasol ein cenedl, ac ystyrir bod mwy nag un o bob pedwar o bobl Cymru yn 60 oed neu'n hŷn, ac mae'r rhagolygon yn awgrymu y bydd y gyfran hon o'r boblogaeth yn cynyddu o fewn y 20 mlynedd nesaf yma yng Nghymru i fwy na 1 filiwn. Yn wir, mae gennym fwy o bobl oedran pensiwn a thros 80 oed yng Nghymru fel cyfran o'n poblogaeth nag yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Am y rheswm hwn rwyf am i Gymru arwain y ffordd a dangos yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn genedl oed-gyfeillgar. Gwn fod hon yn weledigaeth a gefnogir gan ein Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru, sy'n chwarae rhan allweddol yn hyrwyddo cymunedau oed-gyfeillgar ar draws y wlad.

Some have suggested that older people are a growing burden on society, but we must challenge this assertion every time we hear it because the truth is that, far from being a burden, the growth in the number of older people in Wales actually presents us with a wonderful opportunity.

Mae rhai wedi awgrymu bod pobl hŷn yn faich cynyddol ar gymdeithas, ond rhaid i ni herio'r honiad hwn bob tro y byddwn yn ei glywed am mai'r gwir yw bod y cynnydd yn nifer pobl hŷn yng Nghymru ymhell o fod yn faich ac mewn gwirionedd yn cynnig cyfle gwych i ni.

The 'Gold Age Pensioners' report, published by the Royal Voluntary Service back in 2011, suggested that, by 2030, the net economic contribution of older people to the UK economy, after public spending on older people is taken into account, will be a whopping £75 billion per year. The older people's commissioner has suggested that even after taking into account the costs of healthcare, welfare and state pensions, Wales's older people contribute a net £1 billion annually to the Welsh economy—almost £3 million each and every day of the year. We must do all that we can, as Assembly Members, to maximise and grow this contribution, but we can only do this when we value our older people and provide them with appropriate support that creates an environment in which they can all achieve more.

Mae'r adroddiad 'Gold Age Pensioners', a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol yn ôl yn 2011, yn awgrymu, erbyn 2030, y bydd cyfraniad economaidd net pobl hŷn i economi'r DU, ar ôl ystyried gwariant cyhoeddus ar bobl hŷn cymaint â £75 biliwn y flwyddyn. Mae'r comisiynydd pobl hŷn wedi awgrymu bod pobl hŷn Cymru, hyd yn oed ar ôl ystyried costau gofal iechyd, lles a phensiynau'r wladwriaeth, yn cyfrannu £1 biliwn net y flwyddyn i economi Cymru—bron £3 miliwn bob dydd o'r flwyddyn. Rhaid i ni wneud popeth a allwn, fel Aelodau'r Cynulliad, i hybu a chynyddu'r cyfraniad hwn, ond ni allwn wneud hyn heb i ni werthfawrogi ein pobl hŷn a rhoi cymorth priodol iddynt sy'n creu amgylchedd lle y gall pawb ohonynt gyflawni mwy.

One key way to do this, of course, is by helping older people to remain in or access employment. Not only is working good for most older people's physical and mental wellbeing, thereby promoting their independence and health, but the spending power of older workers has been an important spur to the UK's economic recovery. Many of us will have heard the argument that longer working lives prevent younger people from securing jobs and progressing their careers, but nothing could be further from the truth. It was this very argument, of course, that was used by opponents to the UK Government's abolition of the default retirement age when it was discussed by the UK Parliament back in 2011. Known to economists as the 'lump of labour fallacy', the view that older workers stifle employment opportunities for younger people is based on a false assumption that there are a fixed number of jobs in the economy. But there's no evidence to support this view.

Un ffordd allweddol o wneud hyn, wrth gwrs, yw drwy helpu pobl hŷn i barhau i weithio neu i gael gwaith. Nid yn unig y mae gweithio'n dda i les corfforol a meddyliol y rhan fwyaf o bobl hŷn, a thrwy hynny'n hyrwyddo eu hannibyniaeth a'u hiechyd, ond mae grym gwario gweithwyr hŷn wedi bod yn sbardun pwysig i adferiad economaidd y DU. Bydd llawer ohonom wedi clywed y ddadl fod bywyd gwaith hirach yn atal pobl iau rhag cael swyddi a chamu ymlaen yn eu gyrfaoedd, ond ni allai unrhyw beth fod ymhellach o'r gwir. Yr union ddadl hon, wrth gwrs, a ddefnyddiwyd gan y rhai a wrthwynebai'r modd y diddymodd Llywodraeth y DU yr oedran ymddeol awtomatig pan fu Senedd y DU yn ei drafod yn ôl yn 2011. Mae'r hyn y mae economegwyr yn ei alw'n 'lump of labour fallacy', sef y farn fod gweithwyr hŷn yn atal cyfleoedd cyflogaeth i bobl iau, yn seiliedig ar y dybiaeth ffug fod yna nifer penodol o swyddi yn yr economi. Ond ni cheir tystiolaeth i gefnogi'r farn hon.

Saga published a report in June of last year that focused on this very issue. They concluded that instead of pushing younger people out of the workplace, older workers actually helped to create more jobs. The report showed that the over-50s, through their spending power, supported over 5.7 million full-time jobs in the UK, approximately 300,000 of which are in Wales. In addition to this, analysis by the Centre for Economic Business Research shows that spending by older workers is generally more effective at creating jobs than spending by any other age group due to generally higher levels of disposable income, combined with lower levels of personal debt and other expenditure. They also observed that older people tend to spend more of their earnings in sectors that employ younger workers, such as tourism and hospitality industries. So, far from taking the jobs of the young, the reality is that older workers generate greater consumer spending power and economic activity, which creates more jobs in the economy as a whole, especially for our younger people.

Cyhoeddodd Saga adroddiad ym mis Mehefin y llynedd a ganolbwyntiai ar yr union fater hwn. Daeth i'r casgliad fod gweithwyr hŷn, yn hytrach na gwthio pobl iau o'r gweithle, yn helpu i greu mwy o swyddi mewn gwirionedd. Dangosodd yr adroddiad fod pobl dros 50 oed, drwy eu grym gwario, yn cefnogi dros 5.7 miliwn o swyddi amser llawn yn y DU, gydag oddeutu 300,000 ohonynt yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, mae dadansoddiad gan y Ganolfan Economeg ac Ymchwil Busnes yn dangos bod gwariant gweithwyr hŷn yn gyffredinol yn fwy effeithiol o ran creu swyddi na gwariant gan unrhyw grŵp oedran arall o ganlyniad i lefelau uwch o incwm gwario yn gyffredinol, ynghyd â lefelau is o ddyled bersonol a gwariant arall. Gwelsant hefyd fod pobl hŷn yn tueddu i wario mwy o'u henillion mewn sectorau sy'n cyflogi gweithwyr iau, megis diwydiannau twristiaeth a lletygarwch. Felly, ymhell o fod yn atal pobl ifanc rhag cael swyddi, y realiti yw bod gweithwyr hŷn yn cynhyrchu mwy o rym gwario i ddefnyddwyr a gweithgarwch economaidd sy'n creu mwy o swyddi yn yr economi yn ei chyfanrwydd, yn enwedig i bobl ifanc.

In spite of being illegal under the Equality Act 2010, though, age discrimination by employers is still rife, and older workers still face far too many barriers in accessing work and training. Thanks to the Conservative Government, the UK now enjoys record levels of employment, but the sad reality is that the unemployment rate among older people has actually been falling at a much slower rate than for younger people. People over 50 tend to be unemployed for longer than those under 50, with more than four in 10 of current jobseeker's allowance claimants who are over 50 having been out of work for 12 months or more. In fact, of course, the over-50s, as the Liberal Democrat amendment quite rightly points out, are more than three times more likely than the under-25s to not be in employment, education or training.

Er ei fod yn anghyfreithlon o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, fodd bynnag, mae gwahaniaethu ar sail oedran gan gyflogwyr yn dal i fod rhemp, ac mae gweithwyr hŷn yn dal i wynebu llawer gormod o rwystrau rhag cael gwaith a hyfforddiant. Diolch i'r Llywodraeth Geidwadol, mae'r DU yn awr yn gweld y lefelau uchaf erioed o gyflogaeth, ond y gwir trist yw bod y gyfradd ddiweithdra ymysg pobl hŷn mewn gwirionedd wedi bod yn gostwng yn llawer arafach nag ymysg pobl iau. Mae pobl dros 50 oed yn tueddu i fod yn ddi-waith am gyfnod hirach na rhai o dan 50 oed, gyda mwy na phedwar o bob 10 o hawlwyr cyfredol y lwfans ceisio gwaith dros 50 oed ar ôl bod yn ddi-waith am 12 mis neu fwy. Mewn gwirionedd, wrth gwrs, mae pobl dros 50 oed, fel y mae gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol yn ei nodi'n gwbl gywir, yn fwy na thair gwaith yn fwy tebygol na rhai dan 25 oed o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

The reasons for this, of course, can be complex, but the reality is that ageism amongst employers, outdated qualifications, a lack of familiarity with modern IT systems and declining self-confidence are all taking their toll. Whilst older people have a wealth of knowledge and experience that they can bring to the workplace, all too often they face discrimination and prejudice simply because of their age. Research by Age Cymru has found that one in five people aged between 50 and 64 felt that they had experienced discrimination from employers as a result of their age. Unfortunately, this discrimination is not just confined to employers.

Gall y rhesymau am hyn fod yn gymhleth wrth gwrs, ond y realiti yw bod gwahaniaethu ar sail oed ymysg cyflogwyr, cymwysterau sydd wedi dyddio, diffyg cynefindra â systemau TG modern a llai a llai o hunanhyder i gyd yn gadael eu hôl. Er bod gan bobl hŷn gyfoeth o wybodaeth a phrofiad y gallant eu cyflwyno i'r gweithle, yn rhy aml maent yn wynebu gwahaniaethu a rhagfarn yn syml oherwydd eu hoedran. Mae ymchwil gan Age Cymru wedi canfod bod un o bob pump o bobl rhwng 50 a 64 oed yn teimlo eu bod wedi profi gwahaniaethu gan gyflogwyr oherwydd eu hoedran. Yn anffodus, nid yw gwahaniaethu o'r fath wedi'i gyfyngu i gyflogwyr yn unig.

The Welsh Government's Jobs Growth Wales scheme also discriminates against older people, excluding them from accessing the support that they need to get back into the workplace and help to drive the Welsh economy forward. It's for these reasons that we've been calling for a new approach to employment support for older people in Wales, and I urge the Welsh Government to listen very carefully to our calls. We're not suggesting that we turn our backs on trying to address the problem of youth unemployment here in Wales; we're simply asking that the Welsh Government puts an end to the ageism in the current system and does more to support those older people who also want to get back into the workplace.

Mae cynllun Twf Swyddi Cymru Llywodraeth Cymru hefyd yn gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn, drwy eu gwahardd rhag gallu manteisio ar y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i ddychwelyd i'r gweithle a helpu i yrru economi Cymru yn ei blaen. Am y rhesymau hyn, rydym wedi bod yn galw am ymagwedd newydd tuag at gymorth cyflogaeth ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru, ac rwy'n annog Llywodraeth Cymru i wrando'n ofalus iawn ar ein galwadau. Nid ydym yn awgrymu ein bod yn troi cefn ar geisio mynd i'r afael â phroblem diweithdra ymysg pobl ifanc yma yng Nghymru; rydym yn gofyn yn syml i Lywodraeth Cymru roi diwedd ar wahaniaethu ar sail oed yn y system gyfredol a gwneud mwy i gynorthwyo pobl hŷn sydd hefyd yn awyddus i ddychwelyd i'r gweithle.

But, of course, older people's contribution to society is not confined to paid employment alone. Older people also do a great deal of unpaid work, which often goes unrecognised by wider society. Take volunteering, for example. Again, the RVS has suggested that older volunteers are providing a staggering annual average of over 100 hours of informal, and 50 hours of formal, volunteering effort per person aged over 65, per year. The older people's commissioner has suggested that the value of this contribution, coupled with and taken together with their services in childcare for friends and family, can be estimated at around £0.25 billion annually.

Ond wrth gwrs, nid yw cyfraniad pobl hŷn i gymdeithas wedi'i gyfyngu i waith cyflogedig yn unig. Mae pobl hŷn hefyd yn gwneud llawer iawn o waith di-dâl, nad yw, yn aml iawn, yn cael ei gydnabod gan y gymdeithas ehangach. Edrychwch ar wirfoddoli, er enghraifft. Unwaith eto, mae'r RVS wedi awgrymu bod gwirfoddolwyr hŷn yn darparu cyfartaledd blynyddol syfrdanol o dros 100 awr o ymdrech wirfoddol anffurfiol, a 50 awr o waith gwirfoddol ffurfiol y flwyddyn, am bob person dros 65 oed. Mae'r comisiynydd pobl hŷn wedi awgrymu y gellid amcangyfrif bod gwerth y cyfraniad hwn, ynghyd â'u gwasanaethau gofal plant i deulu a ffrindiau, oddeutu £0.25 biliwn y flwyddyn.

Older people who are carers also make a huge contribution to society. Research published by the University of Leeds, which was commissioned by Carers UK back in 2011, stated that the economic value of the contribution made by carers in Wales alone was worth an incredible £5.6 billion per year.

Mae pobl hŷn sy'n ofalwyr hefyd yn cyfrannu'n enfawr at gymdeithas. Nododd ymchwil a gyhoeddwyd gan Brifysgol Leeds, ac a gomisiynwyd gan Carers UK yn ôl yn 2011, fod gwerth economaidd y cyfraniad a wneir gan ofalwyr yng Nghymru yn unig yn werth y ffigur anhygoel o £5.6 biliwn y flwyddyn.

So, in conclusion, far from being a burden on society, Wales's growing older population is something we should all celebrate. Their contribution to the Welsh economy and society is growing, and the silver pound is becoming an ever-important driver for economic growth and job creation, particularly for younger people. It's time we put an end to discrimination in all its forms against older people—put an end to ageism—both in employment circumstances and also in terms of Welsh Government support for people who want to get back into the workplace, and so I encourage Members to support our motion today. We will be rejecting amendment 2, but will be supporting amendments 1 and 3 on the order paper. Thank you.

Felly, i gloi, ymhell o fod yn faich ar gymdeithas, mae poblogaeth gynyddol Cymru o bobl hŷn yn rhywbeth y dylai pawb ohonom ei ddathlu. Mae eu cyfraniad i'r economi a chymdeithas Cymru yn tyfu, ac mae'r bunt hŷn yn dod yn ysgogwr hollbwysig i hybu twf economaidd a chreu swyddi, yn enwedig i bobl ifanc. Mae'n bryd i ni roi diwedd ar wahaniaethu yn ei holl ffurfiau yn erbyn pobl hŷn—rhoi diwedd ar wahaniaethu ar sail oed—mewn sefyllfaoedd gwaith a hefyd o ran cefnogaeth Llywodraeth Cymru i bobl sydd eisiau dychwelyd i'r gweithle, ac felly rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi ein cynnig heddiw. Byddwn yn gwrthod gwelliant 2, ond byddwn yn cefnogi gwelliannau 1 a 3 ar y papur trefn. Diolch.

16:16

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. I have selected three amendments to the motion. I call on Aled Roberts to move amendment 1, which is tabled in his name. Aled Roberts.

Diolch. Rwyf wedi dethol tri gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliant 1, sy'n cael ei gyflwyno yn ei enw. Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 3 and renumber accordingly:*

*Yn gresynu at y ffaith yr amcangyfrifir bod nifer y bobl 50 oed a throsodd nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) tair gwaith cymaint â nifer y bobl NEET o dan 25 oed ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddylunio a gweithredu rhaglen benodol i wella sgiliau a rhagolygon cyflogadwyedd pobl dros 50 nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant.*

*Regrets that the number of people aged 50 and over who are not in employment, education or training (NEET) is estimated to be three times as many as those under 25 and calls on the Welsh Government to design and implement a specific programme to improve the skills and employability prospects of people over 50 who are NEET.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

16:16

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Lywydd. Rwy'n croesawu'r cyfle i drafod y mater hwn heddiw, er bod Eluned Parrott wedi awgrymu y dylwn i ddatgan diddordeb fel rhywun sydd dros 50 oed. Rwyf hefyd yn cynnig gwelliant 1 ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol.

Thank you, Presiding Officer. I welcome the opportunity to discuss this issue today, although Eluned Parrott has suggested that I should declare an interest as somebody who's over 50 years old. I also propose amendment 1 on behalf of the Liberal Democrats.

Mae'n debyg bod nifer ohonom ni, erbyn hyn, yn gwerthfawrogi bod oedran yn rhywbeth i'w ddathlu—rhan fwyaf o'r amser, beth bynnag—ond gall canfyddiadau a chamsyniadau sy'n gysylltiedig â heneiddio fod yn niweidiol ac yn dorcalonnus, ac rwy'n dyfynnu hynny gan Brif Weinidog Rhyddfrydol newydd Canada, Justin Trudeau.

It is likely that many of us, by now, appreciate that age is something to be celebrated—the majority of the time, anyway—but the perceptions and misconceptions related to ageing can be detrimental and heartbreaking, and I quote that from the new Prime Minister of Canada, Justin Trudeau.

Mae'n comisiynydd pobl hŷn ni yma yng Nghymru, Sarah Rochira, wedi sôn, wrth i'r Pwyllgor Menter a Busnes gyhoeddi'u hadroddiad nhw, ei bod yn glir bod pobl hŷn, yn y cyd-destun cyflogaeth yn bennaf, yn grŵp sydd un ai yn cael ei anghofio neu'n ôl-ystyriaeth.

Our older people's commissioner for Wales, Sarah Rochira, has said, in response to the Enterprise and Business Committee's report, that it's clear that older people, in the context of employment mainly, are a group that is either forgotten or an afterthought.

Mae'n rhaid imi ddweud hefyd fy mod i'n cytuno efo'r comisiynydd wrth iddi ddweud ei bod hi'n siomedig nad yw Llywodraeth Cymru yn barod i drafod a datblygu rhaglen benodol ar gyfer pobl ddi-waith dros 50 oed yng Nghymru. Wrth i NIACE Cymru roi tystiolaeth i'r pwyllgor menter, wrth iddynt nodi manteision economaidd a lles o ran dysgu oedolion, roeddent hefyd yn cadarnhau bod tair gwaith cymaint o bobl dros 50 oed yn bobl yn NEET, o gymharu â'r rhai dan 25 oed, a 10 gwaith cymaint na'r rhai dan 19.

I have to say that I also agree with the commissioner when she says that she's disappointed that the Welsh Government isn't willing to discuss and develop a specific programme for unemployed people over the age of 50 in Wales. As NIACE Cymru provided evidence to the enterprise committee, in nothing the economic and wellbeing benefits in terms of adult learning, they also confirmed that three times as many people over 50 years of age were NEET, as compared to those under 25, and ten times as many as those under 19 years of age.

Mae'r adroddiad hefyd yn amcangyfrif bod mwy nag un o bob tri pherson rhwng 50 oed a 65 oed yn ddi-waith ar hyn o bryd. Mae ein gwelliant heddiw, felly, yn galw unwaith eto am raglen benodol i wella sgiliau a rhagolygon cyflogadwyedd i bobl dros 50 oed. Nid oedd y Dirprwy Weinidog yn barod i dderbyn yr alwad yma ym mis Ebrill, felly rwy'n edrych ymlaen at glywed barn y Gweinidog eto heddiw. Rydym ni'n credu bod gwelliant Llywodraeth Cymru heddiw yn annelwig ac yn amwys, felly nid ydym yn mynd i gefnogi gwelliant y Llywodraeth. Mi fyddai'n ddiddorol glywed, os yw'r Gweinidog yn cynnig unrhyw dystiolaeth sy'n gwahaniaethu ar sail pobl sy'n chwilio am waith, sut mae'r fath gynllun yn gweithio. A yw un grŵp o bobl yn haeddu cefnogaeth yn fwy na grŵp arall?

The report also estimates that more than one in every three people between 50 and 65 years of age is unemployed at present. Our amendment today, therefore, calls once more for a specific programme to improve skills and employment prospects for people over 50. The Deputy Minister wasn't willing to accept this call in April, so I look forward to hearing the Minister's view again today. We believe that the Welsh Government amendment today is vague and ambiguous, and therefore we shan't be supporting the Government amendment. It would be interesting to hear, if the Minister were to provide any evidence that differentiates between those people who are seeking employment, how such a programme can work. Does one group of people deserve support more than another?

Rydym yn mynd i gefnogi gwelliant Plaid Cymru. Mae'n glir erbyn hyn bod yna berig bod nifer o'r cynigion gerbron cynghorau lleol yn edrych mwy ar y tymor byr na'r tymor hir. Mae Age Cymru hefyd wedi datgan eu bod nhw'n pryderu, ac rwy'n dyfynnu:

We will be supporting the Plaid Cymru amendment. It is now clear that there is a risk that many of the proposals facing local authorities are looking more at the short term than the longer term. Age Cymru has also declared that they are concerned, and I quote:

'To achieve an age friendly Wales it is important that older people have opportunities to participate in their local community and wider society in a means of their choosing, for example through learning, social activities, paid work or volunteering. Communities flourish where everyone is able to make the most of their skills, knowledge or experience.'

'To achieve an age friendly Wales it is important that older people have opportunities to participate in their local community and wider society in a means of their choosing, for example through learning, social activities, paid work or volunteering. Communities flourish where everyone is able to make the most of their skills, knowledge or experience.'

Mae'r dystiolaeth, felly, yn glir, ond, unwaith eto, mae Llywodraeth Cymru yn dewis ei hanwybyddu.

The evidence, therefore, is clear, but, once again, the Welsh Government chooses to ignore that evidence.

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, hyd yn oed, ar gyfer pobl hŷn yn dweud bod

The Welsh Government strategy for older people, even, states that

'ffocws ar gadw gweithwyr hŷn yn bwysig o ran ffyniant economaidd yng Nghymru.'

'a focus on retaining older workers is important for economic prosperity in Wales.'

Ond mae dysgu oedolion wedi ei daro'n galed gan doriadau Llywodraeth Cymru. Mae'r Dirprwy Weinidog ei hun wedi cydnabod, yn ystod dadl ar addysg ôl-16 ym mis Ebrill, fod addysg bellach rhan amser yn wynebu toriadau o tua 50 y cant, er bod astudiaeth genedlaethol ar sgiliau oedolion yng Nghymru yn 2010 yn dangos mai dim ond 12 y cant o boblogaeth Cymru sydd wedi cyrraedd lefel 1, hyd yn oed, mewn sgiliau llythrennedd sylfaenol; mewn rhifedd, ond hanner o'r rheini yn y grŵp oedran 55 i 65 oed sy'n cyrraedd lefel 1. Nid yw Cymru'n cyfrannu at raglen asesu cymwyseddau oedolion rhyngwladol PIAAC, ac felly nid oes gennym unrhyw syniad o'r lefel sgiliau digidol ymhlith oedolion Cymru.

But adult learning has been hit hard by Welsh Government cuts. The Deputy Minister herself has acknowledged, in a debate on post-16 education in April, that part-time further education is facing cuts of around 50 per cent, although a national study of adult skills in Wales in 2010 demonstrated that only 12 per cent of the Welsh population has reached level 1, even, in basic literacy skills; in numeracy, only half of those in the 55 to 65 age group reached level 1. Wales doesn't contribute to the Program for the International Assessment of Adult Competencies, PIAAC, and therefore we have no idea of the digital skills level among Welsh adults.

Roedd yna ostyngiad o 47 y cant yn y bobl sydd wedi eu cofrestru ar gyfer cyrsiau rhan amser yng Nghymru rhwng 2003 a 2013. Felly, beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud? Mae yna ostyngiad o 90,000 i 48,000 yn nifer y bobl yna sy'n astudio yng Nghymru. A ydy'r Llywodraeth yn cydnabod bod addysg oedolion yn allweddol i gynyddu swyddi a thwf economaidd yng Nghymru, fel mae eu strategaeth nhw yn ei ddweud? Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi ymdrechion y comisiynydd pobl hŷn, Age Cymru a sefydliadau eraill sydd eisiau gweld pobl hŷn yn cyfrannu'n llawn i'n cymdeithas, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynllunio a gweithredu rhaglen benodol i wella sgiliau a rhagolygon cyflogadwyedd pobl dros 50 oed.

There's been a reduction of 47 per cent in the number of people registered for part-time courses in Wales between 2003 and 2013. Therefore, what is the Welsh Government doing? There's been a reduction of 90,000 to 48,000 in the number of people who study in Wales of that group. Does the Government recognise that adult education is crucial to increase employment and economic prosperity in Wales, as their strategy states? The Welsh Liberal Democrats support the efforts of the older people's commissioner, Age Cymru and other organisations who want to see older people making a full contribution to our society, and calls on the Welsh Government to implement a specific programme to improve skills and employment prospects for people over the age of 50.

16:21

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Deputy Minister for Skills and Technology to formally move amendment 2, tabled in the name of Jane Hutt.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt yn ffurfiol.

*Gwelliant 2—Jane Hutt*

*Amendment 2—Jane Hutt*

*Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 3 and replace with:*

*Yn cydnabod bod gan weithwyr iau a gweithwyr hŷn sy'n dymuno dychwelyd i'r gweithlu anghenion gwahanol o ran cymorth cyflogaeth ac y dylai rhaglenni cyflogaeth gael eu cynllunio yn unol â hynny.*

*Recognises that younger workers and older workers who wish to return to the workforce have different employment support needs and that employment programmes should be designed accordingly.*

*Cynigiwyd gwelliant 2.*

*Amendment 2 moved.*

16:21

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

Formally.

Yn ffurfiol.

16:21

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Formally, thank you. I call on Lindsay Whittle now to move amendment 3, which is tabled in the name of Elin Jones—Lindsay Whittle.

Yn ffurfiol, diolch i chi. Galwaf ar Lindsay Whittle yn awr i gynnig gwelliant 3, a gyflwynir yn enw Elin Jones—Lindsay Whittle.

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt 5 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Add as new point 5 and renumber accordingly:*

*Yn gresynu at y ffaith y gallai toriadau i gyllidebau awdurdodau lleol leihau'r lefel o wasanaethau sydd ar gael i helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol.*

*Regrets that cuts to local authority budgets may reduce the level of services available to help older people live independently.*

*Cynigiwyd gwelliant 3.*

*Amendment 3 moved.*

16:21

## Lindsay Whittle [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Diolch, Lywydd. I formally move the amendment in the name of Elin Jones. In doing so, can I tell you that we are supporting the motion and, indeed, all of the amendments, and I remind Members that, whilst we can value contributions and reject ageism, and regret and regret on many issues, not a lot can be achieved without finance, and that is the purpose of our amendment. The purpose of our regret is that we live in a world of financial constraints.

Diolch, Lywydd. Cynigiaf y gwelliant yn enw Elin Jones yn ffurfiol. Wrth wneud hynny, a gaf fi ddweud wrthych ein bod yn cefnogi'r cynnig a phob un o'r gwelliannau yn wir, ac rwy'n atgoffa'r Aelodau, er y gallwn werthfawrogi cyfraniadau a gwrthod gwahaniaethu ar sail oed, a gresynu ac edifarhau, ar lawer o faterion, na ellir cyflawni llawer heb gyllid, a dyna yw pwrpas ein gwelliant. Rydym yn edifar am ein bod yn byw mewn byd o gyfyngiadau ariannol.

When we talk about older people, where the bottom line is people over 50, we're talking about an age range of at least five decades. And, as more and more people are living to a grand old age, it's important not to stereotype so-called 'older people' as frail, senile or a burden on society. Instead of moaning about an ageing population making ever-increasing demands on the health service, we should be celebrating the enormous benefits that people in their 70s, 80s and 90s bring in terms of childcare and voluntary work, which so many undertake. And, of course, here in Wales, we want a strong focus on getting young people into employment and training, but we also need to ensure that people aged 50 and over, which was the usual retirement age, are enabled and in fact encouraged to bring their experience and skills to boost the Welsh economy.

Pan soniwn am bobl hŷn, y llinell sylfaen yw pobl dros 50, ac rydym yn sôn am ystod oedran o bum degawd fan lleiaf. Ac wrth i fwy a mwy o bobl fyw i oedran mawr, mae'n bwysig peidio â stereoteipio yr hyn a elwir yn 'bobl hŷn' fel pobl eiddil, ffwndrus neu faich ar gymdeithas. Yn lle cwyno am boblogaeth sy'n heneiddio'n creu galw cynyddol ar y gwasanaeth iechyd, dylem fod yn dathlu'r manteision enfawr y mae pobl yn eu 70au, 80au a 90au yn eu cynnig o ran gofal plant a'r gwaith gwirfoddol y mae cymaint ohonynt yn ei wneud. Ac wrth gwrs, yma yng Nghymru, rydym eisiau ffocws cryf ar gael gwaith a hyfforddiant i bobl ifanc, ond mae angen i ni hefyd sicrhau bod pobl 50 oed a throsodd, a arferai fod yn oedran ymddeol, yn cael eu galluogi a'u hannog yn wir i gyfrannu eu profiad a'u sgiliau er mwyn hybu economi Cymru.

The older people's commissioner, much quoted in this debate, informs us that there are four times as many people over 50 who are not in education, employment or training, compared with those under 25. Well, that's a waste of valuable human resource. And, just as worrying, the percentage of people aged 50 to 64 who are out of a job has risen to over 33 per cent in Wales—much higher than in the rest of the United Kingdom. There are few enlightened employers who set out to provide employment to men and women over the age of 65—not in my case, as my researcher will vouch—but we need many more to do the same. We need a bit of lateral and creative thinking. We need the Welsh Government to make sure that the promised adult employability programme gets off the ground next year, and that people over 50 have access to learning new skills as well in some cases to increase their employment prospects.

Mae'r comisiynydd pobl hŷn, a ddyfynnwyd yn helaeth yn y ddadl hon, yn ein hysbysu bod yna bedair gwaith yn fwy o bobl dros 50 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, o'i gymharu â rhai dan 25 oed. Wel, mae hynny'n wastraff o adnoddau dynol gwerthfawr. A'r hyn sy'n destun yr un faint o bryder yw'r ffaith fod canran y bobl rhwng 50 a 64 oed sy'n ddi-waith wedi codi i dros 33 y cant yng Nghymru—llawer uwch nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Ceir ychydig o gyflogwyr goleuedig sy'n mynd ati i ddarparu gwaith ar gyfer dynion a menywod dros 65 oed—nid yn fy achos i, fel y bydd fy ymchwilydd yn tystio—ond mae angen llawer mwy o bobl i wneud yr un peth. Mae angen ychydig o feddwl ochrol a chreadigol. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y rhaglen gyflogadwyedd i oedolion a addawyd yn dod yn weithredol y flwyddyn nesaf, a bod darpariaeth ar gael i bobl dros 50 oed allu dysgu sgiliau newydd hefyd mewn rhai achosion i gynyddu eu rhagolygon gwaith.

The irony, of course, with the motion that we have is that it's a Tory UK Government forcing local authorities to work with severe budget cuts that's making it harder and harder for older people to take a full part in society. Perhaps you wish to put clear blue water between yourselves and London, I don't know, but these cutbacks in public transport and leisure services, for example, present a barrier to older people keeping fit, keeping active and able to travel to work. That's why, Llywydd, whilst we support the motion, we also move our amendment that:

Yr eironi, wrth gwrs, gyda'r cynnig sydd gennym yw mai Llywodraeth Doriaidd y DU sy'n gorfodi awdurdodau lleol i weithio gyda thoriadau llym i'w cyllidebau sy'n ei gwneud yn fwyfwy anodd i bobl hŷn chwarae rhan lawn yn y gymdeithas. Efallai eich bod yn dymuno rhoi bwlch eglur rhyngoch a Llundain, nid wyf yn gwybod, ond mae'r toriadau hyn i wasanaethau trafnidiaeth a hamdden cyhoeddus, er enghraifft, yn rhwystr i bobl hŷn gadw'n heini, cadw'n weithgar a gallu teithio i'r gwaith. Dyna pam, Lywydd, er ein bod yn cefnogi'r cynnig, ein bod hefyd yn cynnig ein gwelliant, ein bod:

'Regrets that cuts to local authority budgets may reduce the level of services available to help older people live independently'.

'Yn gresynu at y ffaith y gallai toriadau i gyllidebau awdurdodau lleol leihau'r lefel o wasanaethau sydd ar gael i helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol'.

We must value these people. They belong to us. Thank you.

Mae'n rhaid i ni werthfawrogi'r bobl hyn. Ein pobl ni ydynt. Diolch.

16:25

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Darren Millar for bringing this debate here today. Through work, volunteering, childcare, and paying taxes, our older people are a vital part of our Welsh society. Yet, time and again, we hear our age support groups calling for greater recognition of their contribution and fighting to combat a perceived ageism culture here in Wales. I'm sure Members will have also seen the John Lewis advert. They've linked in with Age Cymru to actually show the isolation that an older person can actually feel, and linking up with younger people is how I want to see us go forward in Wales.

Diolch i Darren Millar am gyflwyno'r ddadl hon yma heddiw. Drwy waith, gwirfoddoli, gofalu am blant, a thalu trethi, mae ein pobl hŷn yn rhan hanfodol o'n cymdeithas yng Nghymru. Eto i gyd, dro ar ôl tro, clywn ein grwpiau cefnogi pobl hŷn yn galw am fwy o gydnabyddiaeth i'w cyfraniad ac yn ymladd i wrthsefyll diwylliant canfyddedig o wahaniaethu ar sail oed yma yng Nghymru. Rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau hefyd wedi gweld hysbyseb John Lewis. Maent wedi cydgysylltu ag Age Cymru i ddangos yr unigedd y gall person hŷn ei deimlo mewn gwirionedd, a chydgysylltu â phobl iau yw'r ffordd yr hoffwn ein gweld yn symud ymlaen yng Nghymru.

The economic and social contribution of older people to Wales is worth over £1 billion and, along with the older people's commissioner for Wales, we too are asking, 'Why is ageism allowed?' and 'Why is discrimination tolerated in what should be a fair society in Wales?' Our debate today aims to highlight this problem and how we would tackle it, and that would be by supporting and encouraging older people into work, training and effective learning opportunities and by ensuring our public services and our infrastructure work well, thereby enabling those slightly mature in years to retain their own dignity, respect and continue in their valuable contribution to our society.

Mae cyfraniad economaidd a chymdeithasol pobl hŷn i Gymru yn werth dros £1 biliwn a gyda'r comisiynydd pobl hŷn i Gymru, rydym ninnau hefyd yn gofyn, 'Pam y caniateir gwahaniaethu ar sail oed?' a 'Pam y mae gwahaniaethu ar sail oed yn cael ei oddef yn yr hyn a ddylai fod yn gymdeithas deg yng Nghymru?' Mae ein dadl heddiw yn ceisio tynnu sylw at y broblem hon a sut y byddem yn mynd i'r afael â hynny, a byddai hynny'n cynnwys cynorthwyo ac annog pobl hŷn i gael gwaith, hyfforddiant a chyfleoedd dysgu effeithiol a sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus a'n seilwaith yn gweithio'n dda, gan alluogi rhai ychydig yn hŷn o ran blynyddoedd i gadw eu hurddas a'u parch eu hunain a pharhau i wneud cyfraniad gwerthfawr i'n cymdeithas.

The Enterprise and Business Committee's recent report found that workers are more productive the older they are. Yet, Prime Cymru states that 21 per cent of those aged 50 to 64 feel they've experienced age discrimination in employment, with some not even managing to get beyond a job application. The older people's commissioner has highlighted that only 22 per cent of older people have left their jobs willingly, with the remaining 78 per cent feeling nudged or pushed out. This is shocking and such discriminatory practice has no place here in Wales. Having found out that there are four times as many people over 50 who are not in education, employment or training as there are those under 25, the commissioner has stated that older people are undervalued and underappreciated by this Welsh Labour Government. Again, Prime Cymru find that Jobs Growth Wales automatically discriminates against someone purely based on their date of birth. This is nothing short of a scandal and shows a blatant lack of respect, tolerance and equality. To combat this, and our skills shortage here in Wales, our Journeys to Work policy, launched last week, would empower our older people to access appropriate workplace learning. The Deputy Minister for skills, by her own admission, states that cuts to adult education in Wales have been 'awful decisions' and it is foreseen that we could pay a high price for such cuts. So, I ask the Minister: why do you implement such cuts? Our priority is and must always be equality for all, irrespective of your age. As well as supporting an older workforce, it is vital that we pull down the barriers facing the many who still have so much to contribute and from whom we could all learn so much.

Gwelodd adroddiad diweddar y Pwyllgor Menter a Busnes fod gweithwyr yn fwy cynhyrchiol po hynaf y bônt. Eto i gyd, mae Prime Cymru yn datgan bod 21 y cant o'r rhai rhwng 50 a 64 oed yn teimlo eu bod wedi profi gwahaniaethu ar sail oedran mewn cyflogaeth, gyda rhai hyd yn oed yn methu â mynd y tu hwnt i gais am swydd. Mae'r comisiynydd pobl hŷn wedi nodi mai 22 y cant o bobl hŷn yn unig sydd wedi gadael eu swyddi yn barod i wneud hynny, gyda'r 78 y cant arall yn teimlo eu bod wedi cael hwb i adael neu wedi'u gwthio allan. Mae hyn yn frawychus ac nid oes lle i arfer gwahaniaethol o'r fath yma yng Nghymru. Ar ôl darganfod bod pedair gwaith cymaint o bobl dros 50 oed nag o bobl o dan 25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, mae'r comisiynydd wedi dweud nad yw pobl hŷn yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi gan y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru. Unwaith eto, mae Prime Cymru yn gweld bod Twf Swyddi Cymru yn gwahaniaethu yn awtomatig yn erbyn rhywun ar sail eu dyddiad geni yn unig. Mae'n sgandal llwyr ac yn amlwg yn dangos diffyg parch, goddefgarwch a chydraddoldeb. I wrthsefyll hyn, a'n prinder sgiliau yma yng Nghymru, byddai ein polisi Journeys to Work, a lansiwyd yr wythnos diwethaf, yn grymuso ein pobl hŷn i fanteisio ar ddysgu priodol yn y gwaith. Mae'r Dirprwy Weinidog Sgiliau, yn ôl ei chyfaddefiad ei hun, yn datgan bod toriadau i addysg oedolion yng Nghymru wedi bod yn 'benderfyniadau ofnadwy' a rhagwelir y gallem dalu pris uchel am doriadau o'r fath. Felly, gofynnaf i'r Gweinidog: pam rydych chi'n gweithredu toriadau o'r fath? Rhaid i ni roi blaenoriaeth bob amser i gydraddoldeb i bawb, waeth beth yw eich oedran. Yn ogystal â chefnogi gweithlu hŷn, mae'n hanfodol ein bod yn chwalu'r rhwystrau sy'n wynebu'r nifer sydd â chymaint i'w gyfrannu o hyd ac a allai ddysgu cymaint i bawb ohonom.

Reliable, quality transport provision is essential in combating isolation, accessing vital services, social interaction and leisure pursuits. We do it and they're entitled to do it also. In Aberconwy, cuts imposed on community transport are already negatively impacting on many, particularly those living in our rural communities, making the isolation so much greater. Sixty-six per cent of single pensioners do not have a car and cuts to bus services across Wales, including a 7 per cent cut in funding in Conwy, undermine the benefits of the older people's bus pass and cut short a lifeline for many. A lack of joined-up services poses major barriers to older people, with 33 per cent finding it difficult to make a GP appointment when required. I see residents in my own constituency who simply cannot access any morning GP appointments because there is no transport available. It's unacceptable.

Mae darparu trafnidiaeth ddibynadwy, o ansawdd da yn hanfodol wrth fynd i'r afael ag unigedd, i gael mynediad at wasanaethau hanfodol, rhyngweithio cymdeithasol a gweithgareddau hamdden. Rydym ni'n gwneud y pethau hyn ac mae ganddynt hwy hawl i'w gwneud hefyd. Yn Aberconwy, mae toriadau i gludiant cymunedol eisoes yn effeithio'n negyddol ar lawer, yn enwedig y rhai sy'n byw yn ein cymunedau gwledig, gan wneud yr unigedd cymaint yn waeth. Nid oes car gan 66 y cant o bensiynwyr sengl ac mae toriadau i wasanaethau bws ledled Cymru, gan gynnwys toriad o 7 y cant yn y cyllid yng Nghonwy, yn tanseilio manteision tocyn bws i bobl hŷn ac yn amddifadu llawer o ddolenni cyswllt o'r fath. Mae diffyg gwasanaethau cydgysylltiedig yn peri rhwystrau mawr i bobl hŷn, gyda 33 y cant yn ei chael yn anodd trefnu apwyntiad gyda meddyg teulu pan fo angen. Rwy'n gweld trigolion yn fy etholaeth i sy'n methu â chael unrhyw apwyntiadau i weld meddyg teulu yn y bore am nad oes trafnidiaeth ar gael. Mae'n annerbyniol.

Finally, isolation and loneliness must be recognised as key public health issues highlighted, as I have mentioned, in this year's John Lewis advert. Recent Royal Voluntary Service statistics show that 11,000 elderly people in Wales will see no-one on Christmas Day, and these are the same people who have served our country so well for so many years, securing it for our future. At the very least, we should ensure that they are seen as the future too and not simply as a relic of the past. I call on the Welsh Government to take these issues raised here today very seriously, lift the barriers, look again at your own Government policies and please halve the culture of ageism that we see too often here in Wales.

Yn olaf, rhaid cydnabod bod arwahanrwydd ac unigrwydd yn faterion iechyd cyhoeddus allweddol a amlygwyd, fel y crybwyllais, yn hysbyseb John Lewis eleni. Mae ystadegau diweddar y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol yn dangos na fydd 11,000 o bobl oedrannus yng Nghymru yn gweld neb ar Ddydd Nadolig, a dyma'r bobl sydd wedi gwasanaethu ein gwlad mor dda am gymaint o flynyddoedd, gan ei diogelu ar gyfer ein dyfodol. Y lleiaf y dylem ei wneud yw sicrhau eu bod yn cael eu gweld yn rhan o'r dyfodol hefyd ac nid fel creiriau o'r gorffennol. Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i fod o ddifrif ynglŷn â'r materion a nodwyd yma heddiw, i chwalu'r rhwystrau, i edrych eto ar bolisïau eich Llywodraeth, ac i dorri'r diwylliant o wahaniaethu ar sail oed a welwn yn rhy aml yma yng Nghymru yn ei hanner.

16:29 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

In some ways it's true that those of us lucky enough to have been born in the years between the 'Chattanooga Choo Choo' and Beatlemania have had it good. Long periods of rising employment, no shortage of new council houses, free university education and, for many, a job for life and a good pension at the end—we've had advantages that young people today would give their eye teeth for. It must be said that this was, in no small part, because of the policies of Clem Atlee's post-war Government. But all that is scant comfort for someone now in their late fifties, made redundant and looking for work, or for someone in employment who must balance their job with the responsibility of caring for elderly parents. Older people do make an enormous contribution to the economy of Wales, but many face substantial barriers in doing so.

Mewn rhai ffyrdd mae'n wir fod y rhai ohonom a oedd yn ddigon ffodus i gael ein geni yn y blynyddoedd rhwng y 'Chattanooga Choo Choo' a Beatlemania wedi ei chael hi'n dda. Cyfnodau hir o lefelau cyflogaeth yn codi, dim prinder o dai cyngor newydd, addysg brifysgol am ddim ac i lawer, swydd am oes a phensiwn da ar ei diwedd—rydym wedi cael manteision y byddai pobl ifanc heddiw yn rhoi eu llaw dde i'w cael. Rhaid dweud bod hyn, i raddau helaeth, wedi deillio o bolisïau Llywodraeth Clem Attlee ar ôl y rhyfel. Ond cysur prin y mae hynny'n ei roi i rywun sydd bellach yn eu pumdegau hwyr, wedi'u diswyddo ac yn chwilio am waith, neu i rywun mewn gwaith sy'n gorfod cydbwyso eu swydd gyda'r cyfrifoldeb o ofalu am rieni oedrannus. Mae pobl hŷn yn gwneud cyfraniad enfawr i economi Cymru, ond mae nifer yn wynebu rhwystrau sylweddol wrth wneud hynny.

This is an issue that the Welsh Government is already tackling. The Age Positive campaign to create age-friendly workplaces is just one example of the work going on in this area. As the Government amendment accurately notes, older people trying to access work have their own specific support needs. I firmly believe the best people to explain to us what those needs are are older people themselves.

Mae hwn yn fater y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn mynd i'r afael ag ef. Mae ymgyrch Age Positive i greu gweithleoedd oed-gyfeillgar yn un enghraifft o'r gwaith sy'n digwydd yn y maes. Fel y mae gwelliant y Llywodraeth yn gywir i'w nodi, mae gan bobl hŷn sy'n ceisio cael mynediad at waith eu hanghenion cymorth penodol eu hunain. Credaf yn gryf mai'r bobl orau i egluro i ni beth yw'r anghenion hynny yw'r bobl hŷn eu hunain.

The average age in this Chamber is approximately 55—well, as best as I could work it out; not all of us reveal our age—but this is rather higher than the average age of 39.7 for the population as a whole. Hopefully, that makes us better attuned to needs of the older population. But it is not enough to have more than the average number of silver heads in this Chamber. It is crucial that older people have a central role in policy development. When I was working on the Social Services and Well-being (Wales) Bill, I set up the citizen's panel which proved to be a brilliant source of information and insight into the situation of senior citizens. This panel still exists, and has helped in the development of regulations and the codes of practice. I see no reason why this, or a similar group, could not be used in the development of economic policies to benefit older workers and, indeed, in policy development generally.

Yr oedran cyfartalog yn y Siambr hon yw 55—wel, cystal ag y gallwn ei gyfrif; nid yw pawb ohonom yn datgelu ei oed—ond mae ychydig yn uwch na'r cyfartaledd oedran o 39.7 ar gyfer y boblogaeth yn ei chyfanrwydd. Gobeithio y bydd hynny'n ein gwneud yn fwy ymwybodol o anghenion y boblogaeth hŷn. Ond nid yw'n ddigon i ni gael mwy na'r nifer cyfartalog o bennau gwynion yn y Siambr hon. Mae'n hanfodol i bobl hŷn gael rôl ganolog wrth ddatblygu polisi. Pan oeddwn yn gweithio ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), sefydlais banel y dinasyddion a brofodd yn ffynhonnell wych o wybodaeth a mewnwelediad i sefyllfa'r henoed. Mae'r panel yn dal i fodoli, ac mae wedi helpu i ddatblygu rheoliadau a'r codau ymarfer. Ni welaf unrhyw reswm pam na ellid defnyddio hwn, neu grŵp tebyg, wrth ddatblygu polisïau economaidd er budd gweithwyr hŷn ac yn wir, wrth ddatblygu polisi yn gyffredinol.

The best way to understand the challenges faced by older people and the best way to find solutions to these challenges, is to ensure that their voice is heard loud and clear in the decisions we make. All of this is embraced in the declaration of rights for older people in Wales. That was originally suggested in a short debate by Darren Millar, was developed under the leadership of the older people's commissioner and gained cross-party support. This declaration sets out the general principles of dignity, the right to be heard and the right to be respected. As it asserts, older people must be able to say, 'My opinion is the most important when decisions are made about me and my life'. I trust this simple statement will be the keystone of Welsh Government's philosophy in their continued efforts to help older people fulfil their economic potential. I apologise for my voice.

Y ffordd orau i ddeall yr heriau sy'n wynebu pobl hŷn a'r ffordd orau i ddod o hyd i atebion i'r heriau hyn, yw sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed yn glir yn y penderfyniadau a wnawn. Caiff hyn i gyd ei gynnwys yn y datganiad o hawliau pobl hŷn yng Nghymru. Awgrymwyd y datganiad yn wreiddiol mewn dadl fer gan Darren Millar, a'i ddatblygu o dan arweiniad y comisiynydd pobl hŷn, gan ddenu cefnogaeth drawsbleidiol. Mae'r datganiad hwn yn nodi egwyddorion cyffredinol urddas, yr hawl i gael eu clywed a'r hawl i gael eu parchu. Fel y mae'n honni, rhaid i bobl hŷn allu dweud, 'Fy marn i yw'r farn bwysicaf pan wneir penderfyniadau amdanaf fi a fy mywyd'. Hyderaf mai'r datganiad syml hwn fydd conglfaen athroniaeth Llywodraeth Cymru yn ei hymdrechion parhaus i helpu pobl hŷn i wireddu eu potensial economaidd. Ymddiheuraf am fy llais.

16:33 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm delighted to take part in today's debate, discussing such an important part of our society. Older people do make a massive contribution today, maybe more than at any point in history, because they are living longer, healthier lives and they're able to do that. That is something we must all celebrate.

Rwy'n falch iawn o gymryd rhan yn y ddadl heddiw, sy'n trafod rhan mor bwysig o'n cymdeithas. Mae pobl hŷn yn gwneud cyfraniad anferth heddiw, cyfraniad sy'n fwy efallai nag ar unrhyw adeg mewn hanes, am eu bod yn byw bywydau hirach ac iachach i'w galluogi i wneud hynny. Mae hynny'n rhywbeth sy'n rhaid i bawb ohonom ei ddathlu.

With people living longer, healthier lives, people can work longer and have greater responsibilities in providing care for both grandchildren and adults, as well as playing a huge role volunteering and leading local organisations, and they do. For too long, older people have been demonised as a burden on society. We need to challenge ageist and pejorative language, as well as stereotypes. This description of older people as a burden is simply not true. Discrimination is a result of prejudice and not a result of fact, and that is something I've always believed. I was a student in the swinging sixties in London when those notices went up in shop windows: 'No blacks, no Irish, no children'. When you unpick that, you find that the facts do not support the prejudice that underlines those statements.

Gyda phobl yn byw bywydau hirach ac iachach, gall pobl weithio am gyfnod hirach a chael mwy o gyfrifoldebau yn darparu gofal ar gyfer wyrion ac oedolion, yn ogystal â chwarae rhan enfawr yn gwirfoddoli ac yn arwain sefydliadau lleol, ac maent yn gwneud hynny. Ers gormod o amser, mae pobl hŷn wedi cael eu pardduo fel baich ar gymdeithas. Mae angen i ni herio iaith ddifrïol sy'n gwahaniaethu ar sail oed, yn ogystal â'r stereoteipiau. Nid yw'r disgrifiad hwn o bobl hŷn fel baich yn wir o gwbl. Mae gwahaniaethu yn deillio o ragfarn ac nid o ffaith, ac mae hynny'n rhywbeth rwyf wedi'i gredu erioed. Roeddwn yn fyfyriwr yn ystod y chwedegau rhydd yn Llundain pan oedd hysbysiadau i'w gweld yn ffenestri siopau: 'Dim duon, dim Gwyddelod, dim plant'. Pan fyddwch yn edrych ar hynny, fe welwch nad yw'r ffeithiau'n cefnogi'r rhagfarn sy'n sail i'r datganiadau hynny.

Let us look at some of the facts about older people. According to the office of the older people's commissioner, the contribution of older people to the Welsh economy is over £1 billion a year. As my colleague has pointed out, that's not only in the enterprises that many of them run, it's also in the taxes they pay. When I took out my first business loan—I won't tell you how old I was, but I was not a youngster—the first thing I said to the bank manager was, 'Well, if you're going to refuse me on the grounds of age, I'll get up and leave now and I won't waste your time'. His response was that the success rate in start-up businesses by older people is in the region of 70 per cent, because they bring to it a bit of money—hopefully, they've got some savings—and they have experience and they have skills.

Gadewch i ni edrych ar rai o'r ffeithiau am bobl hŷn. Yn ôl swyddfa'r comisiynydd pobl hŷn, mae pobl hŷn yn cyfrannu dros £1 biliwn y flwyddyn i economi Cymru. Fel y nododd fy nghyd-Aelod, nid yw hwnnw'n deillio'n unig o'r mentrau y mae llawer ohonynt yn eu harwain, daw hefyd o'r trethi y maent yn eu talu. Pan gefais fy menthyciad busnes cyntaf —ni ddywedaf wrthych faint oedd fy oed, ond nid oeddwn yn fachgen ifanc—y peth cyntaf a ddywedais wrth y rheolwr banc oedd, 'Wel, os ydych yn mynd i fy ngwrthod ar sail oed, fe adawaf yn awr ac ni wastraffaf eich amser'. Ei ymateb oedd bod cyfradd llwyddiant busnesau newydd ymhlith pobl hŷn oddeutu 70 y cant, am eu bod yn rhoi ychydig o arian i mewn—mae ganddynt rywfaint o gynilion, gobeithio—ac mae ganddynt brofiad ac mae ganddynt sgiliau.

Volunteering by older people is estimated to be worth £469 million a year, and the value of childcare £259 million. One in five people aged 65 in Wales provide unpaid care; if that wasn't there we would certainly know about that in our economy. People are living longer and older diseases—the scourges of the past—are being eradicated. People are living fulfilling lives to a much older age.

Amcangyfrifir bod gwirfoddoli gan bobl hyn yn werth £469 miliwn y flwyddyn, a gwerth gofal plant yn £259 miliwn. Mae un o bob pump o bobl 65 oed yng Nghymru yn darparu gofal di-dâl; pe na bai'n digwydd, byddem yn sicr yn gwybod am hynny yn ein heconomi. Mae pobl yn byw'n hirach a chlefydau pobl hŷn—a oedd yn bla y gorffennol—yn cael eu dileu. Mae pobl yn byw bywydau llawn i oedran llawer hŷn.

As we've highlighted, older people are important care givers. Grandparents now help out massively, allowing both parents to work full time, which is good for the economy overall, as well as individual bank accounts.

Fel y nodwyd gennym, mae pobl hŷn yn rhoi gofal pwysig. Mae teidiau a neiniau bellach yn helpu'n aruthrol, gan ganiatáu dau riant i weithio amser llawn, sy'n dda i'r economi yn gyffredinol, yn ogystal â chyfrifon banc unigolion.

Last week my party launched their Journeys to Work policy, which would remove age barriers to work-based learning placements, and I was proud to be associated with this. Figures show that 33 per cent of older people are economically inactive and 3.9 per cent are unemployed. This isn't good enough. If we truly value the older workforce, we need to be encouraging them back into work.

Yr wythnos diwethaf lansiodd fy mhlaid ei pholisi Journeys to Work, a fyddai'n dileu'r rhwystrau oedran i leoliadau dysgu seiliedig ar waith, ac roeddwn yn falch o fod yn gysylltiedig â hyn. Mae ffigurau'n dangos bod 33 y cant o bobl hŷn yn economaidd anweithgar a 3.9 y cant yn ddi-waith. Nid yw hyn yn ddigon da. Os ydym yn gwerthfawrogi'r gweithlu hŷn mewn gwirionedd, mae angen i ni eu hannog yn ôl i waith.

Other valued aspects of an older workforce are many are happy with more flexible hours. It suits them, but it can also suit a developing business, because they're able to provide more flexible work patterns. Small businesses and new start-ups can gain value from this experience of older employees who can fulfil a work-based mentor role. There are companies who pride themselves on taking on older people, such as B&Q and Asda, and these good practices need to be rolled out to other businesses.

Agweddau gwerthfawr eraill ar weithlu hŷn yw bod llawer ohonynt yn hapus gydag oriau mwy hyblyg. Mae gwaith o'r fath yn ateb y diben i bobl hŷn, a gall hefyd ateb y diben i fusnes sy'n datblygu, i'w alluogi i ddarparu patrymau gwaith mwy hyblyg. Gall busnesau bach a busnesau newydd fanteisio ar brofiad gweithwyr hŷn sy'n gallu cyflawni rôl mentoriaid yn y gweithle. Mae yna gwmnïau sy'n ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn cyflogi pobl hŷn, fel B & Q ac Asda, ac mae angen cyflwyno'r arferion da hyn i fusnesau eraill.

Many community groups, organisations and clubs are run with our older people, and without them, such groups would not operate. Before being tempted into politics, I founded a writers' club in Llandudno. I chaired that group for three years and it's continued on. Seven years on, it's flourishing and has a membership of older people who publish regularly.

Mae llawer o grwpiau, sefydliadau a chlybiau cymunedol yn cael eu cynnal gan ein pobl hŷn, a hebddynt, ni fyddai grwpiau o'r fath yn gweithredu. Cyn cael fy nhemtio at wleidyddiaeth, sefydlais glwb i awduron yn Llandudno. Cadeiriais y grŵp hwnnw am dair blynedd ac mae wedi parhau. Saith mlynedd yn ddiweddarach, mae'n ffynnu ac mae ganddo aelodau sy'n bobl hŷn sy'n cyhoeddi'n rheolaidd.

We can all think of organisations in our communities, from history groups to political branches to luncheon clubs, who provide a great service due to the experience, knowledge and free time that is given by older people. I remember listening to a talk given by a police sergeant about a project in Canada where they recruited grandmas to teach illiterate prisoners how to read, and that ran very successfully.

Gall pawb ohonom feddwl am sefydliadau yn ein cymunedau, o grwpiau hanes i ganghennau gwleidyddol i'r Clybiau Cinio, sy'n darparu gwasanaeth gwych oherwydd y profiad, y wybodaeth a'r amser rhydd sy'n cael ei roi gan bobl hŷn. Rwy'n cofio gwrando ar sgwrs a roddwyd gan ringyll yr heddlu am brosiect yng Nghanada lle roeddent yn recriwtio neiniau i addysgu carcharorion anllythrennog sut i ddarllen, ac roedd hwnnw'n llwyddiannus iawn.

So, in conclusion—

Felly, i gloi—

16:38

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm sorry, your time is up. I have other speakers from your party who wish to talk.

Mae'n ddrwg gennyf, mae eich amser ar ben. Mae gennyf siaradwyr eraill o'ch plaid sy'n dymuno siarad.

16:39

## Janet Haworth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much.

Diolch yn fawr iawn.

16:39

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mick Antoniw.

Mick Antoniw.

16:39 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I remember the debate in the early 1970s that there was going to be a major challenge, because of technological change, about what was going to happen when people reached into their fifties when there wasn't such a demand for employment and we would start having to look at how we introduce new skills, new opportunities for those who'd retired, and also in terms of leisure as well. Well, to some extent that debate has become even more complex, because what hadn't been foreseen then was the considerable increase in life expectancy, and that has impacts in many ways, not just in terms of employment, but also in terms of our health and our social care system. I don't want to go over some of the ground that's already been covered by others, because there's considerable unanimity on some of those issues. What I do recall is that, certainly in the 1980s, the issue of pensioner poverty and energy poverty and so on were very acute issues. I will pay very considerable credit, because I think it is sustained by the evidence and facts, that the last Labour Government—the steps that were taken by Gordon Brown in terms of improvements of pensions, support and various forms of assistance took one million older people out of poverty. That was the biggest shift in poverty elimination that we'd actually experienced in the post-war period. I think the credit needs to go there. It transformed the lives, also, of millions of people.

Diolch i chi, Lywydd. Cofiaf y ddadl yn y 1970au cynnar y byddem yn wynebu her fawr oherwydd newid technolegol, o ran yr hyn a oedd yn mynd i ddigwydd pan fyddai pobl yn cyrraedd eu pumdegau pan nad oedd cymaint o alw am gyflogaeth a byddai'n rhaid i ni orfod edrych ar sut rydym yn cyflwyno sgiliau newydd, cyfleoedd newydd i rai a oedd wedi ymddeol, a hefyd o ran hamdden. Wel, i ryw raddau mae'r ddadl honno wedi mynd hyd yn oed yn fwy cymhleth, oherwydd yr hyn na chafodd ei ragweld y pryd hwnnw oedd y cynnydd sylweddol mewn disgwyliad oes, ac mae hynny'n effeithio mewn sawl ffordd, nid yn unig o ran cyflogaeth, ond hefyd o ran ein hiechyd a'n system gofal cymdeithasol. Nid wyf am fynd dros dir sydd eisoes wedi cael sylw gan bobl eraill, gan fod cryn unfrydedd ar rai o'r materion hynny. Yr hyn rwy'n ei gofio yw bod mater tlodi pensiynwyr a thlodi ynni ac yn y blaen yn faterion enbyd iawn, yn sicr yn y 1980au. Gan fod hynny wedi'i gefnogi gan y dystiolaeth a ffeithiau, fe roddaf glod sylweddol iawn i'r Llywodraeth Lafur ddiwethaf—arweiniodd y camau a roddwyd ar waith gan Gordon Brown mewn perthynas â gwella pensiynau, cefnogaeth a gwahanol fathau o gymorth at dynnu un filiwn o bobl hŷn allan o dlodi. Dyna oedd y newid mwyaf o ran dileu tlodi a brofwyd gennym yn y cyfnod ar ôl y rhyfel mewn gwirionedd. Credaf fod angen rhoi clod yn hynny o beth. Llwyddodd hefyd i drawsnewid bywydau miliynau o bobl.

We shouldn't also disregard some of the simple things that have actually been done that are very, very important, some of which may well become controversial over the course of the coming years: whether we take free spectacles and free eye tests, which are very important to older persons, not just in terms of identifying potential disease from the eye tests, but also in the need and affordability of spectacles; free TV licences; and free prescriptions. I was disappointed to hear, a week or two ago, the Tories referring to free prescriptions as Labour's vanity project, because I think a fundamental right is access to medicine, irrespective of your ability to pay. Fuel allowances made a massive difference in eliminating and reducing poverty and enabling a lot of older people to actually stay heated, which is why, again, it was disappointing when the Tories reduced the fuel allowances that Labour had introduced—

Hefyd, ni ddylem ddiystyru rhai o'r pethau syml a wnaed a oedd yn eithriadol o bwysig, a gallai rhai ohonynt dyfu i fod yn ddadleuol yn ystod y blynyddoedd nesaf: pa un a ydym yn ystyried sbectolau am ddim a phrofion llygaid am ddim, sy'n bwysig iawn i bobl hŷn, nid yn unig o ran nodi clefydau posibl o'r profion llygaid, ond hefyd o ran yr angen am sbectol, a sbectolau fforddiadwy; trwydded deledu am ddim; a phresgripsiwn am ddim. Cefais siom o glywed, wythnos neu ddwy yn ôl, y Toriaid yn cyfeirio at bresgripsiynau am ddim fel prosiect porthi balchder Llafur, oherwydd credaf fod mynediad at feddyginiaeth yn hawl sylfaenol, waeth beth fo'ch gallu i dalu. Mae lwfansau tanwydd wedi gwneud gwahaniaeth aruthrol o ran dileu a lleihau tlodi a galluogi llawer o bobl hŷn i aros yn gynnes mewn gwirionedd, a dyna pam mai siomedig, unwaith eto, oedd gweld y Toriaid yn gostwng y lwfansau tanwydd a gyflwynodd Llafur—

16:41 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:41 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I'll take an intervention.

Gwnaf, fe gymeraf ymyriad.

16:41 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I just wanted to deal with this issue of free prescriptions. No-one on these benches is proposing the introduction of charges for prescriptions for pensioners and older people. Why are you suggesting that?

Roeddwn i eisiau ymdrin â mater presgripsiwn am ddim, dyna i gyd. Nid oes neb ar y meinciau hyn yn cynnig y dylid cyflwyno taliadau am bresgripsiynau i bensiynwyr a phobl hŷn. Pam rydych chi'n awgrymu hynny?

16:41

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I suggested it because you were not conditional in any way when you described Labour's free prescription policy as a Labour vanity project. You also promised that you would not abolish child and working tax credits, and then you went on and did it. And, I would have to say, when I attend over-50s meetings, one of the things people say to me is, 'You won't take away our free bus passes or our free pensions, will you?' And, I say, 'Certainly not. This Labour Government won't, but I cannot be confident about anything that the Conservative party will actually do', because I don't have confidence and belief in where you may actually lead.

Awgrymais hynny oherwydd nad oeddech yn amodol mewn unrhyw fodd pan ddisgrifioch chi bolisi presgripsiwn am ddim Llafur fel prosiect porthi balchder Llafur. Fe addawoch hefyd na fyddech yn dileu credydau treth plant a gwaith, ac yna aethoch ati i wneud hynny. A byddai'n rhaid i mi ddweud, pan wyf yn mynd i gyfarfodydd i rai dros 50 oed, un o'r pethau y mae pobl yn ei ddweud wrthyf yw, 'Wnewch chi ddim mynd â'n tocynnau bws am ddim neu ein pensiwn am ddim, wnewch chi?' Ac, rwy'n dweud, 'Na wnawn wir. Ni fydd y Llywodraeth Lafur hon yn gwneud hynny, ond ni allaf fod yn hyderus ynglŷn ag unrhyw beth y bydd y blaid Geidwadol yn ei wneud', gan nad oes gennyf hyder a chred o ran ble'r ewch chi mewn gwirionedd.

Treating older people with dignity is absolutely fundamental, because we're all heading in that direction and we all want to treat older people as we would like ourselves to be treated when we are of that particular age in that situation—as someone over 60 and perhaps closer to certain others.

Mae trin pobl hŷn ag urddas yn gwbl hanfodol, gan ein bod i gyd yn anelu i'r cyfeiriad hwnnw, ac rydym i gyd yn awyddus i drin pobl hŷn fel yr hoffem gael ein trin ein hunain pan fyddwn yr oed hwnnw ac yn y sefyllfa honno—fel rhywun dros 60 oed ac efallai'n nes at oedrannau eraill.

But let me tell you what I think is the biggest and most fundamental challenge that is going to impact on the dignity and respect we're able to give to older people: it is going to be the spending review and the impact of the amount of money that is made available to local government for adult social care. Since the Tories have been in power, the actual real-terms cut in social care for adults, for older people, has been an 8 per cent reduction in real terms. Local authorities are now being told in England that they're to expect a 31 per cent cut in spending. If that happens, there will be very serious issues as to whether the dignity that we want for our older people and the sorts of services to enable them to stay in their homes is something that is actually going to be sustainable. I certainly hope that, on that side, there will be a very, very strong argument that we must resist and we must oppose and we must change the whole attitude towards the issue of public services and the amount of money that's made available to local authorities.

Ond gadewch i mi ddweud wrthych beth rwy'n ei feddwl yw'r her fwyaf a mwyaf sylfaenol sy'n mynd i effeithio ar yr urddas a'r parch y gallwn ei roi i bobl hŷn: yr adolygiad o wariant fydd hwnnw ac effaith y swm o arian sydd ar gael i lywodraeth leol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion. Ers i'r Toriaid ddod i rym, y toriad gwirioneddol mewn termau real i ofal cymdeithasol i oedolion, ar gyfer pobl hŷn, oedd gostyngiad o 8 y cant mewn termau real. Mae awdurdodau lleol bellach yn cael gwybod yn Lloegr, eu bod i ddisgwyl toriad o 31 y cant yn eu gwariant. Os bydd hynny'n digwydd, bydd cwestiynau difrifol iawn yn cael eu gofyn ynglŷn ag a yw'r urddas rydym ei eisiau ar gyfer ein pobl hŷn a'r mathau o wasanaethau i'w galluogi i aros yn eu cartrefi yn rhywbeth y gellir ei gynnal mewn gwirionedd. Rwy'n sicr yn gobeithio y bydd gan yr ochr honno ddadl eithriadol o gryf fod yn rhaid i ni wrthsefyll hyn a gwrthwynebu a newid yr holl agwedd tuag at fater gwasanaethau cyhoeddus a faint o arian sydd ar gael i awdurdodau lleol.

It raises just one final question. When we look at whether we can afford to look after our older people, do we really not think we should start the debate on whether the £100 billion for Trident is something we really can afford, when, in actual fact, we should be supporting our older people, the vulnerable in our society and those who need public and social services to have a decent standard of living?

Mae'n arwain at un cwestiwn olaf. Pan fyddwn yn ystyried a allwn fforddio gofalu am ein pobl hŷn, a ydym ni wir yn meddwl na ddylem ddechrau'r ddadl ynglŷn ag a yw £100 biliwn ar gyfer Trident yn rhywbeth y gallwn ei fforddio, pan ddylem fod yn cefnogi ein pobl hŷn, mewn gwirionedd, y bobl agored i niwed yn ein cymdeithas a'r rhai sydd angen gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cael safon byw weddus?

16:44

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

In our debate last week on apprenticeships, you heard me quote from an exchange between our leader and the First Minister:

Yn ein dadl yr wythnos diwethaf ar brentisiaethau, fe glywoch chi fi'n dyfynnu o sgwrs rhwng ein harweinydd a'r Prif Weinidog:

'Your policy seems to be ageist, First Minister, in that the older you get in Wales, the less chance you have to educate yourself and retrain yourself'.

'Mae'n ymddangos bod eich polisi chi'n gwahaniaethu ar sail oedran, Brif Weinidog, oherwydd y hynaf yr ydych chi yng Nghymru, y lleiaf yw'r cyfle sydd gennych i addysgu eich hun ac ailhyfforddi eich hun'.

This is at the heart of today's debate.

Dyma sydd wrth wraidd y ddadl heddiw.

Older people make a huge economic and social contribution to communities across Wales, through volunteering, caring, childcare and paying taxes. The importance of this contribution to many aspects of society in Wales cannot be underestimated.

Mae pobl hŷn yn gwneud cyfraniad economaidd a chymdeithasol enfawr i gymunedau ledled Cymru, drwy wirfoddoli, gofalu, gofal plant a thalu trethi. Ni ellir tanbrisio pwysigrwydd y cyfraniad hwn i sawl agwedd ar y gymdeithas yng Nghymru.

Employment for older people is an issue that has received little attention for far too long and more must be done to ensure that older people have the opportunities and the skills to address projected gaps in the labour market in Wales in the years ahead. As we all know, people are living longer and will have to retire later, meaning work is now a necessity, not a choice for the majority in this age group. For such a crucial policy area, the lack of information is not acceptable. We cannot continue to rely on anecdotal evidence to plan the approach to tackling this issue.

Mae cyflogaeth ar gyfer pobl hŷn yn fater nad yw wedi cael fawr o sylw ers gormod o amser ac mae'n rhaid gwneud mwy i sicrhau bod pobl hŷn yn cael y cyfleoedd a'r sgiliau i allu mynd i'r afael â'r bylchau a ragwelir yn y farchnad lafur yng Nghymru yn y blynyddoedd i ddod. Fel y mae pawb ohonom yn gwybod, mae pobl yn byw'n hirach a bydd yn rhaid iddynt ymddeol yn hwyrach, sy'n golygu bod gwaith yn anghenraid yn awr, nid yn ddewis i'r mwyafrif yn y grŵp oed hwn. Ar gyfer maes polisi hollbwysig o'r fath, nid yw'r diffyg gwybodaeth yn dderbyniol. Ni allwn barhau i ddibynnu ar dystiolaeth anecdotaidd ar gyfer cynllunio'r dull o fynd i'r afael â'r mater hwn.

The focus on reducing youth unemployment has meant that training and apprenticeship opportunities have been priorities for those under 24. While this focus is needed and relevant, the needs of older jobseekers should be identified in order to be better addressed.

Mae'r ffocws ar leihau diweithdra ymysg pobl ifanc wedi golygu bod cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaeth wedi bod yn flaenoriaethau ar gyfer rhai o dan 24 oed. Er bod angen y ffocws hwn ac er ei fod yn berthnasol, dylid nodi anghenion ceiswyr gwaith hŷn i allu rhoi sylw gwell iddynt.

There is little support for older people in Wales to be helped to find sustainable employment. This lack of support from the Welsh Government only stands to reinforce detrimental stereotypes about older people and their contribution in the workplace. Sixteen per cent of the referrals from Wales to the UK Government's Work Programme were for those aged 50 years and over, but only 9 per cent received a successful outcome. Self-employment is increasing amongst the age group, having increased by more than 20 per cent in the last five years, which reveals the willingness of older people to re-enter the workplace.

Nid oes fawr o gymorth i bobl hŷn yng Nghymru i ddod o hyd i gyflogaeth gynaliadwy. Mae'r diffyg cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru yn atgyfnerthu stereoteipiau niweidiol am bobl hŷn a'u cyfraniad yn y gweithle. Roedd 16 y cant o'r atgyfeiriadau o Gymru i Raglen Waith Llywodraeth y DU ar gyfer pobl 50 oed a throsodd, ond 9 y cant yn unig a gafodd ganlyniad llwyddiannus. Mae hunangyflogaeth ar gynnydd ymysg y grŵp oedran hwn, ar ôl codi mwy na 20 y cant dros y pum mlynedd diwethaf, sy'n dangos parodrwydd pobl hŷn i ddychwelyd i'r gweithle.

Older people have unique barriers that make it increasingly challenging to re-enter the workplace. Without support—[Inaudible.]—skills and contribution are rendered invaluable by the Welsh Government. The lack of opportunity and access to support it is an equality issue that needs to be addressed as a matter of urgency. Older people received little support and attention to re-enter the labour market. The different barriers faced by men and women in their different experience of the workplace should be considered in the development of any support to help people over 50 into employment, and the Welsh Government could complete separate impact assessments for men and women aged 50 and over for all their skills and training.

Mae pobl hŷn yn wynebu rhwystrau unigryw sy'n ei gwneud yn gynyddol heriol i ddychwelyd i'r gweithle. Heb gymorth—[Anghlywadwy.]—caiff sgiliau a chyfraniad eu gwneud yn ddiwerth gan Lywodraeth Cymru. Mae diffyg cyfle, a mynediad ato, yn fater cydraddoldeb sy'n galw am sylw ar frys. Ychydig iawn o gymorth a sylw a gafodd pobl hŷn ar gyfer ailymuno â'r farchnad lafur. Dylid ystyried y rhwystrau gwahanol a wynebir gan ddynion a merched yn eu profiad gwahanol o'r gweithle wrth ddatblygu unrhyw gefnogaeth i helpu pobl dros 50 oed i gael gwaith, a gallai Llywodraeth Cymru gwblhau asesiadau effaith ar wahân ar gyfer dynion a menywod 50 oed a throsodd ar gyfer eu holl sgiliau a hyfforddiant.

The Welsh Conservative policy Journeys to Work would empower older people to access work-based learning placements and end the age cap that the Welsh Government put on skills and training. We would remove the 16 to 24 age cap that Jobs Growth Wales enforces and create equal opportunities for people of all ages. Through offering 12-month paid working placements with a three-month probation period, older people won't have to return to the classroom to build up their skills and find work; they'll be earning and learning at the same time. The work to challenge existing stereotypes about older people's contributions to the workplace—. And it will empower older people to extend their pension provision and reduce the risk that their financial situation will drastically change once they reach retirement.

Byddai polisi'r Ceidwadwyr Cymreig, Journeys to Work, yn galluogi pobl hŷn i gael mynediad at leoliadau dysgu seiliedig ar waith ac yn rhoi diwedd ar y cap oedran y mae Llywodraeth Cymru wedi'i osod ar sgiliau a hyfforddiant. Byddem yn cael gwared ar y cap oedran 16 i 24 y mae Twf Swyddi Cymru yn ei orfodi ac yn creu cyfleoedd cyfartal i bobl o bob oed. Drwy gynnig lleoliadau gwaith am dâl am 12 mis gyda chyfnod prawf o dri mis, ni fydd yn rhaid i bobl hŷn ddychwelyd i'r ystafell ddosbarth i ddatblygu eu sgiliau a dod o hyd i waith; byddant yn ennill ac yn dysgu ar yr un pryd. Y gwaith ar herio stereoteipiau sy'n bodoli eisoes am gyfraniadau pobl hŷn i'r gweithle—. A bydd yn grymuso pobl hŷn i ymestyn eu darpariaeth bensiwn ac yn lleihau'r risg y bydd eu sefyllfa ariannol yn newid yn sylweddol wrth iddynt ymddeol.

It's not just access to opportunities affecting older people in Wales. Currently, many older people are marginalised by a number of factors, including poverty, isolation, cultural stereotyping and physical barriers in communities. Age discrimination and unconscious bias remain widespread problems in the Welsh labour market, and more action is urgently needed to overcome them. Twenty-one per cent of those aged between the ages of 50 and 64 feel they've experienced discrimination in employment. Prime Cymru comments

Nid mynediad at gyfleoedd yn unig sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae llawer o bobl hŷn yn cael eu gwthio i'r cyrion gan nifer o ffactorau, gan gynnwys tlodi, unigedd, stereoteipio diwylliannol a rhwystrau corfforol mewn cymunedau. Mae gwahaniaethu ar sail oedran a rhagfarn anymwybodol yn parhau i fod yn broblemau cyffredin yn y farchnad lafur yng Nghymru, ac mae angen mwy o weithredu ar frys i'w goresgyn. Mae 21 y cant o'r rhai rhwng 50 a 64 oed yn teimlo eu bod wedi profi gwahaniaethu mewn cyflogaeth. Noda Prime Cymru

'Two-thirds of the people we work with are saying that they're being discriminated against because of age in the workforce. They are the ones that tend to be the first to be made redundant and the last to be re-employed.'

'Two-thirds of the people we work with are saying that they're being discriminated against because of age in the workforce. They are the ones that tend to be the first to be made redundant and the last to be re-employed.'

As stated by the older people's commissioner, people tell of

Fel y nododd y comisiynydd pobl hŷn, mae pobl yn sôn

'how they felt that they were pushed into leaving their jobs, and research that has been done which has shown that only 22% of older people who left their job did so willingly; the rest of the percentage felt that they were nudged or pushed out.'

'how they felt that they were pushed into leaving their jobs, and research that has been done which has shown that only 22% of older people who left their job did so willingly; the rest of the percentage felt that they were nudged or pushed out. '

With an ageing population, encouraging and enabling more people to work for longer will boost economic growth, both short term and longer term. Demographic changes, coupled with rising longevity and improved health, present major opportunities for employers to harness the benefits of taking on older staff. The Welsh Conservatives believe that Wales should aspire to be an age-friendly country, where older people can live socially, environmentally and culturally inclusive lives. This is vital at a time when the number of older people in Wales is growing, and we are, on average, expected to live longer. Ageing is not lost youth, but a new stage of opportunity and strength.

Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, bydd annog a galluogi mwy o bobl i weithio am gyfnod hirach yn hybu twf economaidd, yn y tymor byr a'r tymor hwy. Mae newidiadau demograffig, ynghyd â phobl yn byw'n hŷn ac yn iachach, yn cynnig cyfleoedd mawr i gyflogwyr fachu ar y manteision o gyflogi staff hŷn. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu y dylai Cymru anelu at fod yn wlad oed-gyfeillgar, lle y gall pobl hŷn fyw bywydau sy'n gynhwysol yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn ddiwylliannol. Mae hyn yn hanfodol ar adeg pan fo nifer y bobl hŷn yng Nghymru yn cynyddu, ac ar gyfartaledd, mae disgwyl i ni fyw'n hirach. Nid ieuenctid a gollwyd yw heneiddio, ond cyfnod newydd o gyfle a chryfder.

16:49

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Deputy Minister for Skills and Technology, Julie James.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, Julie James.

16:49 **Julie James** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Well, can I start by thanking Members for engaging in today's important debate? I would like to take the opportunity to reinforce my commitment to older people in Wales. Despite the misguided criticism directed by some Members towards our policies, the truth is that the Welsh Government is continuing to drive forward a range of actions from across ministerial portfolios to support older people in Wales. I am proud that we have led the way by launching the first strategy for older people in Wales. This was a groundbreaking achievement that has been widely recognised and acclaimed, including from the Institute of Public Policy Research, which noted:

Diolch, Lywydd. Wel, a gaf fi ddechrau drwy ddiolch i'r Aelodau am gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon heddiw? Hoffwn fanteisio ar y cyfle i atgyfnerthu fy ymrwymiad i bobl hŷn yng Nghymru. Er gwaethaf y feirniadaeth gyfeiliornus a gyfeiriwyd gan rai Aelodau tuag at ein polisïau, y gwir yw bod Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo amrywiaeth o gamau ar draws portffolios y Gweinidogion i gefnogi pobl hŷn yng Nghymru. Rwy'n falch ein bod wedi arwain y ffordd drwy lansio'r strategaeth gyntaf ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Roedd yn gyflawniad a dorrai dir newydd ac a gafodd ei gydnabod a'i ganmol yn eang, gan gynnwys gan y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus, a nododd:

'The Welsh approach seems to be the most coherent long term commitment to improving the position of older people of any administration in the UK in the last decade'.

'The Welsh approach seems to be the most coherent long term commitment to improving the position of older people of any administration in the UK in the last decade'.

Not only do we have a strategy that is widely recognised since its publication, but much has been done to improve the lives of older people.

Nid yn unig y mae gennym strategaeth sydd wedi cael cydnabyddiaeth eang ers ei chyhoeddi, ond mae llawer wedi'i wneud i wella bywydau pobl hŷn.

Phase 3 of the strategy was launched in May 2013, with wellbeing placed at the heart of its content. This next phase of our work focuses on ensuring that older people in Wales have the social, environmental and financial resources they need to deal with the challenges they face. We are continuing to respond to the work of the Commissioner for Older People in Wales. I am pleased that, in October last year, we were able to support the commissioner—

Lansiwyd cam 3 y strategaeth ym mis Mai 2013, a gosodai les yn ganolog yn ei gynnwys. Mae cam nesaf ein gwaith yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan bobl hŷn yng Nghymru yr adnoddau cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol sydd eu hangen arnynt i ymdopi â'r heriau sy'n eu hwynebu. Rydym yn parhau i ymateb i waith y Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru. Rwy'n falch ein bod, ym mis Hydref y llynedd, wedi gallu cynorthwyo'r comisiynydd—

*Nick Ramsay a gododd—*

*Nick Ramsay rose—*

16:50 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Ie.

16:50 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for giving way, Deputy Minister. I don't think we doubt that you have a strategy and that there are some very well-meaning goals in that, but are you confident that the objectives of that strategy are actually being delivered on the ground, because that's where our concerns lie?

Diolch i chi am ildio, Ddirprwy Weinidog. Nid wyf yn credu ein bod yn amau bod gennych strategaeth a bod yna nodau llawn bwriadau da iawn ynddi, ond a ydych yn hyderus fod amcanion y strategaeth yn cael eu cyflawni ar lawr gwlad mewn gwirionedd, oherwydd dyna yw ffocws ein pryder?

16:50 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think if the Member would let me get past the first two paragraphs of my speech, perhaps he'd find out.

Wel, pe bai'r Aelod yn gadael i mi fynd ymhellach na dau baragraff cyntaf fy araith, efallai y byddai'n cael gwybod.

Anyway, as I was saying, I'm pleased that, in October last year, we were able to support the commissioner to launch the Ageing Well in Wales programme. This is the first programme of its kind in the UK and was founded on partnership working across a range of national and local organisations from the public, private and third sector. We've also developed the infrastructure to deliver our policies, working alongside older people. For example, each local authority has an elected member champion for older people, a co-ordinator, and what are called 50 plus fora. This work is unique in Wales, and has been a major contributor to the success of our strategies.

Beth bynnag, fel roeddwn yn dweud, rwy'n falch ein bod, ym mis Hydref y llynedd, wedi gallu cynorthwyo'r comisiynydd i lansio'r rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru. Dyma'r rhaglen gyntaf o'i bath yn y DU ac fe'i sefydlwyd ar weithio mewn partneriaeth ar draws ystod o sefydliadau cenedlaethol a lleol o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Rydym hefyd wedi datblygu'r seilwaith ar gyfer cyflawni ein polisïau, gan weithio ochr yn ochr â phobl hŷn. Er enghraifft, mae gan bob awdurdod lleol hyrwyddwr pobl hŷn sy'n aelod etholedig, cydlynydd, a'r hyn a elwir yn fforymau 50+. Mae'r gwaith hwn yn unigryw yng Nghymru, ac mae wedi gwneud cyfraniad pwysig i lwyddiant ein strategaethau.

In total, our strategy for older people in Wales has received over £20 million in funding since its inception, and this has helped to support the infrastructure of the delivery at both national and local level. We've also introduced the intermediate care fund, which is making a difference to older people across Wales.

Yn ei chyfanrwydd, mae ein strategaeth ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru wedi derbyn dros £20 miliwn o gyllid ers ei sefydlu, ac mae hyn wedi helpu i gefnogi'r seilwaith ar gyfer cyflawni ar lefel genedlaethol a lleol. Rydym hefyd wedi cyflwyno'r gronfa gofal canolraddol, sy'n gwneud gwahaniaeth i bobl hŷn ledled Cymru.

In July 2014, the Deputy Minister for Social Services launched the declaration of rights for older people in Wales, which brings together existing rights that older people already have in law.

Ym mis Gorffennaf 2014, lansiodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol y datganiad o hawliau pobl hŷn yng Nghymru, sy'n dwyn ynghyd yr hawliau sydd eisoes gan bobl hŷn yn y gyfraith.

Amendment 3, put forward by the Member for Ceredigion, highlights an important point regarding the continuation of some of the critical work we are taking forward. The reality is that any reductions to local government funding flow from the cuts the UK Government is making and continues to make to the Assembly's funding. I must say at this point that I was astonished to hear Janet Finch-Saunders ask me why I was making these cuts. The answer, Janet, is extremely simple. It's because we have the misfortune, like everybody else in Wales, to live under the most appalling, heartless, ideologically driven Tory Government that this country has ever had the misfortune to live under. I can hardly believe that I had to answer that question from a Conservative Member. It is, really, like living in a George Orwell novel.

Mae gwelliant 3, a gyflwynwyd gan yr Aelod dros Geredigion, yn tynnu sylw at bwynt pwysig ynglŷn â pharhad peth o'r gwaith allweddol rydym yn ei ddatblygu. Y realiti yw bod unrhyw leihad i lif cyllid llywodraeth leol yn deillio o'r toriadau y mae Llywodraeth y DU yn eu gwneud ac yn parhau i'w gwneud i gyllid y Cynulliad. Mae'n rhaid i mi ddweud ar y pwynt hwn fy mod wedi cael syndod o glywed Janet Finch-Saunders yn gofyn i mi pam roeddwn yn gwneud y toriadau hyn. Mae'r ateb, Janet, yn hynod o syml. Oherwydd ein bod, fel pawb arall yng Nghymru, mor anffodus â byw o dan y Llywodraeth Doriaidd fwyaf dychrynllyd, dienaid, ac wedi'i gyrru gan ideoleg a welodd y wlad hon erioed. Prin y gallaf gredu fod rhaid i mi ateb y cwestiwn hwnnw gan yr Aelod Ceidwadol. Y mae fel byw mewn nofel gan George Orwell, yn wir.

The Minister for finance has announced an additional £10 million this year to support social care services delivered by local authorities, despite the appalling settlement that we have received. However, as we have made clear in this Chamber on numerous occasions, despite the constraints on the Welsh budget, prior to this year we have protected local government from the worst of the cuts. This is considerably better than what local government in England has experienced over the spending review, and as Mick Antoniw highlighted, unfortunately much worse is yet to come.

Mae'r Gweinidog cyllid wedi rhyddhau £10 miliwn ychwanegol eleni i gefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir gan awdurdodau lleol, er gwaethaf y setliad ofnadwy rydym wedi'i gael. Fodd bynnag, fel rydym wedi dweud yn glir yn y Siambr hon ar sawl achlysur, er gwaethaf y cyfyngiadau ar gyllideb Cymru, cyn eleni rydym wedi diogelu llywodraeth leol rhag y gwaethaf o'r toriadau. Mae hyn gryn dipyn yn well na'r hyn y mae llywodraeth leol yn Lloegr wedi'i brofi dros yr adolygiad o wariant, ac fel y nododd Mick Antoniw, mae llawer gwaeth i ddod eto yn anffodus.

Members will also be aware that the local government settlement provides for the flexibility for authorities to determine local spending priorities. Authorities have a range of tools at their disposal to help them manage future budgets. As I have highlighted already, we are doing all that we can to mitigate the impact on local authorities, and I would request that Members consider these issues with regard to amendment 3.

Bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol fod y setliad llywodraeth leol yn darparu hyblygrwydd i awdurdodau bennu blaenoriaethau gwario lleol. Mae gan Awdurdodau amrywiaeth o adnoddau ar gael iddynt i'w helpu i reoli cyllidebau yn y dyfodol. Fel y nodais eisoes, rydym yn gwneud popeth a allwn i leddfu'r effaith ar awdurdodau lleol, a byddwn yn gofyn i'r Aelodau ystyried y materion hyn mewn perthynas â gwelliant 3.

In my recent meeting with the older people's commissioner, I discussed some of the non-social care and health-related areas important to older people in Wales. Indeed, today's debate has focused heavily on how we can continue to support older people for the benefit of the Welsh economy. I would remind members yet again that our current skills policy is wide-ranging and focuses on key issues that are at the heart of the skills system, including the need to raise employer investment and engagement in skills, supported by a culture of co-investment, but is, unfortunately, undermined by the apprentice levy that the UK Government has announced, again without any concept of the devolution settlement.

Yn fy nghyfarfod diweddar gyda'r comisiynydd pobl hŷn, trafodais rai o'r meysydd nad ydynt yn gysylltiedig â gofal cymdeithasol ac iechyd sy'n bwysig i bobl hŷn yng Nghymru. Yn wir, mae'r ddadl heddiw wedi canolbwyntio'n gadarn ar sut y gallwn barhau i gefnogi pobl hŷn er budd economi Cymru. Hoffwn atgoffa'r aelodau unwaith eto fod ein polisi sgiliau presennol yn eang ac mae'n canolbwyntio ar faterion allweddol sy'n ganolog i'r system sgiliau, gan gynnwys yr angen i gynyddu ymgysylltiad a buddsoddiad cyflogwyr mewn sgiliau, wedi'i gynnal gan ddiwylliant o gydfuddsoddi, ond yn anffodus, tanseilir hyn gan yr ardoll prentisiaethau y mae Llywodraeth y DU wedi'i chyhoeddi, eto heb unrhyw amgyffred o'r setliad datganoli.

I'm also concerned at the interpretation of some of our policy commitments—deliberately being interpreted that way by a Tory Government determined to make divisive points where none exist. It is being deliberately introduced in order to turn people against each other. The perception that we are somehow ageist in seeking to prioritise the resource available for adult learning in the way that we have I think is a deliberate attack on what is actually a very clear policy, and I'll say it once more. Young people who are unemployed suffer the consequences for the rest of their lives. If the Members on the other side of the Chamber really do not understand that by now, then I simply do not know what else I can say to them.

Rwyf hefyd yn pryderu ynglŷn â'r modd y dehonglwyd rhai o'n hymrwymiadau polisi—gyda'r Llywodraeth Doriaidd yn fwriadol yn eu dehongli yn y ffordd honno am ei bod yn benderfynol o wneud pwyntiau cynhennus lle nad oes rhai'n bodoli. Mae'n cael ei gyflwyno'n fwriadol er mwyn troi pobl yn erbyn ei gilydd. Rwy'n credu bod y canfyddiad ein bod yn gwahaniaethu ar sail oed rywsut wrth geisio blaenoriaethu'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer dysgu oedolion yn y ffordd rydym wedi'i wneud yn ymosodiad bwriadol ar yr hyn sy'n bolisi clir iawn mewn gwirionedd, ac rwy'n ei ddweud unwaith eto. Mae pobl ifanc sy'n ddi-waith yn dioddef y canlyniadau am weddill eu bywydau. Os nad yw'r Aelodau ar yr ochr arall i'r Siambr yn deall hynny bellach, yna nid wyf yn gwybod beth arall y gallaf ei ddweud wrthynt.

16:54

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:55

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Gwnaf.

16:55

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you accept the very clear evidence that actually helping older people into employment generates greater opportunities for younger people in the economy and the workplace by creating more jobs in precisely those industries that are more likely to employ younger people?

A ydych yn derbyn y dystiolaeth glir iawn fod helpu pobl hŷn i gael gwaith yn creu mwy o gyfleoedd i bobl iau yn yr economi a'r gweithle drwy greu mwy o swyddi yn yr union ddiwydiannau sy'n fwy tebygol o gyflogi pobl iau?

16:55

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

But Darren Millar, the point that you make is fine, but you're setting the two groups against each other, and there's no need to do that. [Interruption.] Well, I think you very definitely are. [Interruption.] Well, I think you very definitely are.

Ond Darren Millar, o ran y pwynt a wnewch, popeth yn iawn, ond rydych yn gosod y ddau grŵp yn erbyn ei gilydd, ac nid oes angen gwneud hynny. [Torri ar draws.] Wel, rwy'n meddwl eich bod yn bendant iawn yn gwneud hynny. [Torri ar draws.] Wel, rwy'n meddwl eich bod yn bendant iawn yn gwneud hynny.

16:55

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can you just stop having a conversation across the Chamber?

A wnewch chi roi'r gorau i gael sgwrs ar draws y Siambr?

16:55 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

In recent years we have seen an increase in the participation rate in higher apprenticeships across all age groups. For those individuals aged 50 and above, participation has more than doubled. It is for this reason that we are prioritising all-age funding in support of higher apprenticeships. We believe this action will benefit older workers who are seeking to enhance their existing skills. It would also support those employers looking to develop the higher level technical and professional skills needed for future jobs.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld cynnydd yn y gyfradd sy'n dilyn prentisiaethau uwch ar draws pob grŵp oedran. Mae niferoedd yr unigolion 50 oed a throsodd sy'n cymryd rhan wedi mwy na dyblu. Dyma pam ein bod yn blaenoriaethu cyllid i gefnogi prentisiaethau uwch ar gyfer pobl o bob oed. Rydym yn credu y bydd y camau hyn o fudd i weithwyr hŷn sy'n ceisio gwella eu sgiliau presennol. Byddai hefyd yn cefnogi cyflogwyr sydd am ddatblygu'r sgiliau technegol a phroffesiynol lefel uwch sydd eu hangen ar gyfer swyddi yn y dyfodol.

I welcomed the recent report from the Enterprise and Business Committee on employment opportunities for people over 50, and attended the committee to give evidence on this hugely important topic. Although in certain areas I felt the committee had misjudged the direction of our skills policy, I accepted in principle the majority of their recommendations.

Rhoddais groeso i'r adroddiad diweddar gan y Pwyllgor Menter a Busnes ar gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl dros 50 oed, a mynychais gyfarfod o'r pwyllgor i roi tystiolaeth ar y pwnc hynod bwysig hwn. Er fy mod yn teimlo bod y pwyllgor wedi camgymryd ynghylch cyfeiriad ein polisi sgiliau mewn rhai meysydd, derbyniais y rhan fwyaf o'u hargymhellion mewn egwyddor.

The Member for North Wales and his amendment have highlighted one of my concerns in relation to the use of labour-market intelligence. It is true that the inactivity rate for people over 50 is three times that of 16 to 24-year-olds. However, across a longer time frame, economic activity amongst people aged 50 plus has reduced by 4.1 percentage points between June 2004 and June 2015, whereas there has been much slower change in inactivity rates for those in the 16 to 24 age group across the same period. Members should also appreciate that figures for economic inactivity for that age group include people who are retired, the majority of which are obviously in the over-50 age category.

Mae'r Aelod dros Ogledd Cymru a'i welliant wedi amlygu un o fy mhryderon ynghylch y defnydd o wybodaeth y farchnad lafur. Mae'n wir fod y gyfradd anweithgarwch ar gyfer pobl dros 50 oed dair gwaith yr hyn ydyw ymhlith rhai rhwng 16 a 24 oed. Fodd bynnag, dros gyfnod hwy o amser, mae lefelau gweithgarwch economaidd ymhlith pobl 50 oed a throsodd wedi gostwng 4.1 pwynt canran rhwng mis Mehefin 2004 a mis Mehefin 2015, ond mae cyfraddau anweithgarwch wedi newid yn llawer arafach ymhlith rhai yn y grŵp oedran 16 i 24 oed dros yr un cyfnod. Dylai aelodau ddeall hefyd fod y ffigurau ar anweithgarwch economaidd yn y grŵp oedran hwn yn cynnwys pobl sydd wedi ymddeol, ac mae'n amlwg y bydd y mwyafrif o'r rhain yn y categori 50 oed a throsodd.

If we look, however, at the rate of unemployment, the story is very different. The latest data show that the unemployment rate is over five times higher for 16 to 24-year-olds than for those aged over 50. Members' research very helpfully sent out, just this morning, a series of statistics that highlight that point. Let me be clear once again: I'm not seeking to absolve support for older people in presenting these figures; I'm simply presenting a balanced view in order to fully consider the wider policy issues. It is for this reason I cannot support the amendment from Aled Roberts.

Fodd bynnag, os edrychwn ar y gyfradd ddiweithdra, mae'r stori'n wahanol iawn. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod y gyfradd ddiweithdra dros bum gwaith yn uwch ymhlith rhai rhwng 16 a 24 oed na'r hyn ydyw ymhlith rhai dros 50 oed. Y bore yma, dosbarthodd gwasanaeth ymchwil yr Aelodau gyfres ddefnyddiol iawn o ystadegau sy'n tynnu sylw at y pwynt hwnnw. Gadewch i mi fod yn glir unwaith eto: nid wyf yn ceisio ymesgusodi rhag rhoi cymorth i bobl hŷn drwy gyflwyno'r ffigyrau hyn; cyflwyno barn gytbwys a wnaf er mwyn ystyried yn llawn y materion polisi ehangach. Am y rheswm hwn ni allaf gefnogi'r gwelliant gan Aled Roberts.

Once again I will say that I am proud of what has been achieved through programmes like Jobs Growth Wales. I can understand why the Welsh Conservatives want to capitalise on its success by supporting other age groups. However, taking economic inactivity figures at face value is not a rationale for developing new initiatives or extending existing programmes, and I've made this point to the older people's commissioner, who has accepted the point and is doing research.

Unwaith eto, rwyf am ddweud fy mod yn falch o'r hyn a gyflawnwyd drwy raglenni megis Twf Swyddi Cymru. Gallaf ddeall pam y mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn awyddus i fanteisio ar ei lwyddiant drwy gefnogi grwpiau oed eraill. Fodd bynnag, nid yw derbyn ffigurau moel ar gyfer anweithgarwch economaidd yn sail resymegol dros ddatblygu mentrau newydd neu ymestyn rhaglenni presennol, a nodais hyn wrth y comisiynydd pobl hŷn, sydd wedi derbyn y pwynt ac yn gwneud gwaith ymchwil.

In summary, the actions we are taking across a number of ministerial portfolios illustrate how older people in Wales deserve to be recognised for the incredible contribution they bring to their families and communities. It's clear we must work together to address the challenges of an ageing population, and I believe the policies being taken forward are providing the right foundation for this work to continue.

I grynhoi, mae'r camau gweithredu rydym yn eu cyflawni ar draws nifer o bortffolios gweinidogol yn dangos sut y mae pobl hŷn yng Nghymru yn haeddu cydnabyddiaeth am eu cyfraniad anhygoel i'w teuluoedd a'u cymunedau. Mae'n amlwg fod rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â heriau poblogaeth sy'n heneiddio, ac rwy'n credu bod y polisïau sy'n cael eu datblygu yn darparu'r sylfaen gywir er mwyn i'r gwaith hwn allu parhau.

16:58

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Nick Ramsay to reply to the debate.

Nick Ramsay i ymateb i'r ddadl.

16:58

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I think we've had a very interesting debate today. It was interesting listening to some of the Minister's comments there, and you may well think, Minister, that Members on this side of the Chamber are living in a George Orwell novel, but it seems to me that you yourself are living in a parallel universe. I don't think you responded to a debate that most of the Members in this Chamber thought we were having today, because I think we thought that this was a positive debate meant in a positive spirit, and there were many good contributions made by a number of Members.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n credu ein bod wedi cael dadl ddiddorol iawn heddiw. Roedd yn ddiddorol gwrando ar rai o sylwadau'r Gweinidog, ac efallai'n wir y byddwch yn meddwl, Weinidog, fod Aelodau ar yr ochr hon i'r Siambr yn byw mewn nofel George Orwell, ond mae'n ymddangos i mi eich bod chi eich hun yn byw mewn bydysawd cyfochrog. Nid wyf yn credu eich bod wedi ymateb i ddadl roedd y rhan fwyaf o'r Aelodau yn y Siambr hon yn credu ein bod yn ei chael heddiw, oherwydd rwy'n meddwl ein bod o'r farn fod hon yn ddadl gadarnhaol a gyflwynwyd mewn ysbryd cadarnhaol, a chafwyd llawer o gyfraniadau da gan nifer o'r Aelodau.

As Darren Millar said in opening, we need to value older people. It's that simple. There is a financial benefit: older people are worth around £1 billion to the Welsh economy per year. Older workers help to create more jobs. They don't push people out. There have been huge strides made in the way that older people are viewed and valued, but we have some way yet to go. And yet, this is not a question of turning our back on younger workers. We need to see younger and older workers as a whole, as a holistic whole. Aled Roberts, in a thoughtful contribution, spoke of the problems facing adult learning, and the way that the sector takes the hit when cuts are being made. I think you were basically just making a point of fact there: that is what happens. When you haven't got enough money for an education budget, then it's understandable that that section will take a hit.

Fel y dywedodd Darren Millar wrth agor, mae angen i ni werthfawrogi pobl hŷn. Mae mor syml â hynny. Mae yna fantais ariannol: mae pobl hŷn yn werth tua £1 biliwn i economi Cymru bob blwyddyn. Mae gweithwyr hŷn yn helpu i greu mwy o swyddi. Nid ydynt yn gwthio pobl allan. Gwnaed camau mawr yn y ffordd y caiff pobl hŷn eu hystyried a'u gwerthfawrogi, ond mae gennym dipyn o ffordd i fynd eto. Ac eto, nid mater o droi ein cefnau ar weithwyr iau yw hyn. Mae angen i ni weld gweithwyr iau a hŷn gyda'i gilydd, fel cyfanrwydd. Siaradodd Aled Roberts, yn ei gyfraniad ystyrlon, am y problemau sy'n wynebu addysg oedolion, a'r ergyd i'r sector pan wneir toriadau. Rwy'n meddwl mai nodi ffaith roeddech chi'n ei wneud yn y bôn: dyna sy'n digwydd. Pan nad oes gennych ddigon o arian ar gyfer y gyllideb addysg, yna mae'n ddealladwy y bydd yr elfen honno'n dioddef.

Older people shouldn't be seen as a kind of add-on. I think Lindsay Whittle made this point. Older people are a positive thing. Their contribution, whether it's paid or unpaid work—child minding et cetera—that contribution can be enormous, as Janet Finch-Saunders said in a contribution where you managed to link, Janet, this year's John Lewis Christmas advert with inter-generational programmes. I've not heard anyone describe those programmes like this before, but, yes, like you, I've attended intergenerational events in my constituency—very moving events, actually—where there was a very real connection between the generations in a way that you don't see at other events. I suppose that the cynic in me would look at the latest John Lewis advert and wonder whether sending that poor lonely man on the moon a telescope helped him as much as, perhaps, sending a capsule to collect him or even to have dropped him off some oxygen canisters—that might have helped a little bit more—but my other half doesn't agree with me on the advert, so I'd better stop there.

Ni ddylai pobl hŷn gael eu gweld fel rhyw fath o ychwanegiad. Rwy'n meddwl bod Lindsay Whittle wedi gwneud y pwynt hwn. Mae pobl hŷn yn elfennau cadarnhaol. Mae eu cyfraniad, boed yn waith am dâl neu ddi-dâl—gwarchod plant ac ati—gall y cyfraniad fod yn enfawr, fel y dywedodd Janet Finch-Saunders mewn cyfraniad lle y llwyddoch chi i gysylltu, Janet, hysbyseb Nadolig John Lewis a rhaglenni rhyng-genhedlaeth. Nid wyf wedi clywed neb yn disgrifio'r rhaglenni fel hyn o'r blaen, ond, ydw, fel chithau, rwyf wedi mynychu digwyddiadau rhyng-genhedlaeth yn fy etholaeth—digwyddiadau teimladwy iawn, mewn gwirionedd—lle roedd cysylltiad go iawn rhwng y cenedlaethau mewn ffordd nad ydych yn ei weld mewn digwyddiadau eraill. Mae'n debyg y byddai'r sinig ynof yn edrych ar yr hysbyseb John Lewis diweddaraf ac yn meddwl tybed a oedd anfon telesgop at y dyn bach unig ar y lleuad wedi'i helpu cymaint ag y byddai anfon capsiwl i'w gasglu efallai, neu ollwng tanciau ocsigen iddo—efallai y byddai hynny wedi helpu ychydig bach mwy—ond nid yw fy hanner arall yn rhannu fy marn ar yr hysbyseb, felly mae'n well i mi roi'r gorau iddi yn y fan honno.

Gwenda Thomas, well, you pointed out that the average age in this Chamber is 55. I hadn't worked it out, myself. I suddenly feel very young. Yes, older people do need to feel that they remain the most important aspect of their lives; that's essential to wellbeing. Activities such as volunteering, which was mentioned by many Members, are a very important means of boosting self-esteem. But, more than volunteering, what an extraordinary statistic that 70 per cent of older people, their start-ups in businesses are successful. Clearly, age does bring experience—that old adage—and there is something going right here that needs to be looked at again; perhaps it can be bottled, if possible.

Gwenda Thomas, wel, fe sylwoch fod yr oedran cyfartalog yn y Siambr hon yn 55. Nid oeddwn wedi'i gyfrif fy hun. Yn sydyn rwy'n teimlo'n ifanc iawn. Oes, mae angen i bobl hŷn deimlo mai hwy yw'r agwedd bwysicaf ar eu bywydau eu hunain; mae hynny'n allweddol i les. Mae gweithgareddau fel gwirfoddoli, a grybwyllodd nifer o Aelodau, yn fodd pwysig iawn o hybu hunan-barch. Ond yn fwy na gwirfoddoli, ystadegyn syfrdanol yw'r un sy'n nodi bod 70 y cant o fusnesau newydd a sefydlir gan bobl hŷn yn llwyddiannus. Yn amlwg, mae oed yn dod â phrofiad yn ei sgil—yr hen ddywediad hwnnw—ac mae rhywbeth yn mynd yn iawn yn y fan hon, rhywbeth sydd angen ei ystyried eto; efallai y gallwn ei botelu, os yn bosibl.

I very much liked the story by Janet Haworth about the grandma in Canada teaching prisoners literacy skills. Across the piece, wherever you look, there are older people with different skills who are able to pass on those skills, whatever their interests and intentions might be.

Roeddwn yn hoff iawn o'r stori gan Janet Haworth am y nain yng Nghanada sy'n dysgu sgiliau llythrennedd i garcharorion. Ym mhob man, ble bynnag yr edrychwch, mae yna bobl hŷn â gwahanol sgiliau sy'n gallu trosglwyddo'r sgiliau hynny, beth bynnag fo'u diddordebau a'u bwriadau.

Okay, well, Mick Antoniw; you never disappoint in your contributions, do you? You seem to think Welsh Conservative policy is to remove free prescriptions from pensioners. You painted a bleak picture. I don't know where that came from; I think you then modified your opinions after an intervention.

Iawn, wel, Mick Antoniw; nid ydych byth yn siomi yn eich cyfraniadau, ydych chi? Ymddengys eich bod yn meddwl mai polisi'r Ceidwadwyr Cymreig yw cael gwared ar bresgripsiynau am ddim i bensiynwyr. Fe baentioch chi ddarlun llwm. Nid wyf yn gwybod o ble y daeth hynny; rwy'n meddwl eich bod wedi addasu eich barn ar ôl ymyriad.

*Mick Antoniw a gododd—*

*Mick Antoniw rose—*

17:02 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Okay, you can explain.

Iawn, gallwch egluro.

17:02 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The actual statement came from Angela Burns late last week, I think.

Daeth y datganiad gan Angela Burns ddiwedd yr wythnos diwethaf, rwy'n meddwl.

17:02 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

No, I think, if you look at Welsh Conservative policy, you'll see that, whilst we want people like ourselves, who can afford it at the age that we are, to pay for prescriptions rather than have free prescriptions, we want older people not to pay, as they didn't before. That's never been our policy.

Na, os edrychwch ar bolisi'r Ceidwadwyr Cymreig, rwy'n meddwl y gwelwch, er ein bod am i bobl fel ni, sy'n gallu fforddio talu am bresgripsiynau yn ein hoed ni yn hytrach na chael presgripsiynau am ddim, rydym eisiau i bobl hŷn beidio â thalu, gan nad oeddent yn gwneud hynny o'r blaen. Ni fu hynny erioed yn bolisi gennym.

*Mick Antoniw a gododd—*

*Mick Antoniw rose—*

17:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Mick Antoniw.

Mick Antoniw.

17:02 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

You're trying to make a policy up that's not there. I've given way once. Maybe I shouldn't be surprised.

Rydych yn ceisio creu polisi nad yw yno. Rwyf wedi ildio unwaith. Efallai na ddylwn synnu.

Your contribution got even better; you managed to get Trident renewal into a debate on older people, which deserves some praise, I must say, for you, Mick. [Laughter.] It did jar slightly, but what the heck, you know, it was a great end to your contribution. I suppose you could say that had we not had Polaris, not had Trident, and not had the nuclear deterrent at all, then we wouldn't be here having this debate today, because we probably would've been open to nuclear blackmail years ago and we would be living in a totalitarian state by now, but who knows? Who knows, perhaps that's what Jeremy Corbyn's Labour Party wants us all to live in? Perhaps that's what Mick Antoniw wants us to live in, as well. He's not standing up to intervene on that point; he's nodding his head.

Roedd eich cyfraniad yn gwella o hyd; fe lwyddoch i gael adnewyddu Trident i mewn i ddadl ar bobl hŷn, sy'n haeddu peth canmoliaeth, rhaid i mi ddweud, Mick. [Chwerthin.] Roedd yn merwino'r clustiau rywfaint, ond pa ots, wyddoch chi, roedd yn ddiwedd gwych i'ch cyfraniad. Mae'n debyg y gallech ddweud pe na baem wedi cael Polaris, na Trident, nac arfau niwclear ataliol o gwbl, yna ni fyddem yma'n cael y ddadl hon heddiw, gan y byddem, yn ôl pob tebyg, wedi bod yn agored i flacmel niwclear flynyddoedd yn ôl a byddem yn byw mewn gwladwriaeth dotalitaraidd bellach, ond pwy a ŵyr? Pwy a ŵyr, efallai mai mewn gwlad felly y mae Plaid Lafur Jeremy Corbyn eisiau i bawb ohonom fyw ynddi? Efallai mai mewn lle felly y mae Mick Antoniw am i ni fyw hefyd. Nid yw'n sefyll i ymyrryd ar y pwynt hwnnw; mae'n nodio'i ben.

*Mick Antoniw a gododd—*

*Mick Antoniw rose—*

17:03

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Oh, go on then. [Laughter.]

O, ewch ymlaen felly. [Chwerthin.]

17:03

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

There really isn't any time.

Nid oes amser o gwbl.

17:03

## Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

What would you rather: £100 billion on an independent nuclear deterrent that isn't independent and isn't a deterrent, or would you like to see well-fed, well-heated, well-clothed, wellbeing elderly people?

Beth fyddai'n well gennych: £100 biliwn ar arfau niwclear ataliol annibynnol nad yw'n annibynnol nac yn arf ataliol, neu a hoffech weld pobl oedrannus wedi'u bwydo'n dda, eu cynhesu'n dda, eu dilladu'n dda?

17:03

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I'd like us to talk about how we can improve lives for older people in Wales, but you don't seem to want to talk about that, but I'm sure that that's the problem.

Hoffwn i ni siarad ynglŷn â sut y gallwn wella bywydau pobl hŷn yng Nghymru, ond nid yw'n ymddangos eich bod eisiau siarad am hynny, ac rwy'n siwr mai dyna'r broblem.

Anyway, I shall draw to a close, Presiding Officer. We've had a good debate today. This debate was put forward in a positive attempt to try and move things on for older people in Wales. We've had a number of thoughtful contributions. This debate certainly isn't about pitching generation against generation; it's about taking the best that all generations have to offer and making them work together as one whole. I urge Members to support the motion.

Beth bynnag, fe dynnaf tua'r terfyn, Lywydd. Rydym wedi cael dadl dda heddiw. Cyflwynwyd y ddadl hon mewn ymdrech gadarnhaol i geisio symud pethau yn eu blaenau i bobl hŷn yng Nghymru. Rydym wedi cael nifer o gyfraniadau ystyrlon. Yn sicr, nid yw'r ddadl hon yn ymwneud â gosod un genhedlaeth yn erbyn y llall; mae'n ymwneud â chael y gorau sydd gan bob cenhedlaeth i'w gynnig a gwneud iddynt weithio gyda'i gilydd fel un cyfanrwydd. Anogaf yr Aelodau i gefnogi'r cynnig.

17:04

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] Object. I defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# 6. Dadl Ceidwadwyr Cymru: Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, a gwelliannau 2, 3 a 4 yn enw Aled Roberts. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol.*

# 6. Welsh Conservatives Debate: Armed Forces Veterans

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Jane Hutt, and amendments 2, 3 and 4 in the name of Aled Roberts. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected.*

17:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to item 6, which is the second Welsh Conservatives debate, on armed forces veterans, and I call on Mark Isherwood to move the motion. Mark Isherwood.

Symudwn yn awr at eitem 6, sef ail ddadl y Ceidwadwyr Cymreig, ar gyn-filwyr y lluoedd arfog, a galwaf ar Mark Isherwood i gynnig y cynnig. Mark Isherwood.

Cynnig NDM5871 Paul Davies

Motion NDM5871 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cofio ac yn anrhydeddu'r rhai sydd wedi aberthu eu hunain i sicrhau a diogelu ein rhyddid;

1. Remembers and honours those who have sacrificed themselves to secure and protect our freedom;

2. Yn talu teyrnged i'r rhai sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ac yn nodi'r rhwymedigaeth foesol sy'n ddyledus iddynt gan bobl ledled Cymru;

2. Pays tribute to those who have served in the Armed Forces and notes the moral obligation owed to them by people across Wales;

3. Yn credu y byddai sefydlu Comisiynydd y Lluoedd Arfog yng Nghymru yn sicrhau gwasanaethau a chanlyniadau gwell i gymuned y Lluoedd Arfog;

3. Believes that the establishment of an Armed Forces Commissioner for Wales would provide improved services and outcomes for the Armed Forces community;

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

4. Calls on the Welsh Government to:

a) sefydlu cerdyn cyn-filwyr, yn cynnig cyfres o fuddion i bersonél y gwasanaethau a chyn-filwyr i gydnabod eu gwasanaeth;

a) establish a veterans’ card, offering a series of benefits for service personnel and veterans in recognition of their service;

b) gweithredu asesiad o anghenion cyn-filwyr fel sail ar gyfer cyflenwi gwasanaethau; ac

b) implement a veterans needs assessment as a basis for service delivery; and

c) diogelu cyn-filwyr a anafwyd cyn mis Ebrill 2005 drwy sicrhau nad yw eu Pensiwn Anabledd Rhyfel yn cael ei gymryd oddi wrthynt pan fyddant yn cael gofal cymdeithasol.

c) protect veterans injured before April 2005 by ensuring that their War Disablement Pension is not taken from them when they access social care.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:04 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. This morning, at the eleventh hour of the eleventh day of the eleventh month, we remembered the sacrifice of those who served in the armed forces, and those in the civilian population, whose lives were lost or irreversibly changed by conflicts since 1914. Our motion today proposes that the National Assembly for Wales remembers and honours those who have sacrificed themselves to secure and protect our freedom, pays tribute to those who have served in the armed forces, and notes the moral obligation owed to them by people across Wales.

Diolch, Lywydd. Y bore yma, ar yr unfed awr ar ddeg o’r unfed diwrnod ar ddeg o’r unfed mis ar ddeg, rydym yn cofio aberth y rheini a wasanaethodd yn y lluoedd arfog, a’r rhai yn y boblogaeth sifil a gollodd eu bywydau neu a wynebodd newid di-droi’n-ôl yn sgil rhyfeloedd ers 1914. Mae ein cynnig heddiw yn argymell y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gofio ac yn anrhydeddu’r rhai a aberthodd eu bywydau i sicrhau a diogelu ein rhyddid, yn talu teyrnged i’r rhai sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, ac yn nodi’r rhwymedigaeth foesol sy’n ddyledus iddynt gan bobl ledled Cymru.

In Wales, there are currently estimated to be 5,000 regular personnel, 3,000 reservists and 220,000 veterans. The Scottish Government announced in January 2014 that it would be appointing a commissioner for veterans to work with charities, local authorities and health boards on veterans' issues to help shape future policy development. An armed forces commissioner for Wales is also needed, dedicated both to veterans and the wider armed forces community, to improve outcomes and promote the availability of support. They would engage with, listen to and act upon the experiences of veterans and the wider armed forces community in Wales, make strong recommendations for improvements to the Welsh Government and work to ensure those improvements are made, complementing the UK-wide position of armed forces ombudsman recently announced by the UK Government.

Yng Nghymru, amcangyfrifir ar hyn o bryd fod yna 5,000 o bersonél rheolaidd, 3,000 o filwyr wrth gefn a 220,000 o gyn-filwyr. Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban yn Ionawr 2014 y byddai'n penodi comisiynydd cyn-filwyr i weithio gydag elusennau, awdurdodau lleol a byrddau iechyd ar faterion cyn-filwyr i helpu i lywio datblygiad polisi yn y dyfodol. Mae angen comisiynydd lluoedd arfog ar Gymru hefyd, ar gyfer cyn-filwyr a chymuned ehangach y lluoedd arfog, er mwyn gwella canlyniadau a hyrwyddo cymorth sydd ar gael. Byddent yn ymgysylltu â, yn gwrando ar ac yn gweithredu mewn perthynas â phrofiadau cyn-filwyr a chymuned ehangach y lluoedd arfog yng Nghymru, yn gwneud argymhellion cryf ar gyfer gwelliannau i Lywodraeth Cymru ac yn gweithio i sicrhau bod y gwelliannau hynny'n cael eu cyflawni, gan ategu'r swydd ombwdsmon lluoedd arfog i'r DU gyfan a gyhoeddodd Llywodraeth y DU yn ddiweddar.

The Welsh Conservatives have long campaigned for the introduction of a veterans card, offering a series of benefits for service personnel and veterans. It would offer free bus travel, entry to council swimming pools and entry to Cadw heritage sites, and emphasise the priority NHS care that service personnel have been promised but too often have not enjoyed. Although we welcome the Welsh Government's defence discount card, it does not offer the same as our proposed veterans card and it would be regrettable if any party sought to confuse the two.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi ymgyrchu'n hir dros gyflwyno cerdyn i gyn-filwyr, a fyddai'n gynnig cyfres o fanteision i bersonél y lluoedd arfog a chyn-filwyr. Byddai'n cynnig teithiau bws am ddim, mynediad i byllau nofio cynghorau a mynediad i safleoedd treftadaeth Cadw, ac yn pwysleisio'r gofal GIG â blaenoriaeth a addawyd i bersonél y lluoedd arfog, ond yn rhy aml, nid ydynt yn ei gael. Er ein bod yn croesawu cerdyn disgownt amddiffyn Llywodraeth Cymru, nid yw'n cynnig yr un peth â'n cerdyn arfaethedig i gyn-filwyr a byddai'n anffodus pe bai rhywun yn ceisio peri dryswch rhwng y ddau.

A veterans' needs assessment is needed as the basis for service delivery by the Welsh Government. Currently, the Welsh Government's approach to addressing veterans' housing needs is poorly evidenced and disjointed. Responding to the statement made by the Minister for Public Services on armed forces and their families last week, I'll refer to my August visit to the Alabaré charity's homes for veterans north Wales project in Colwyn Bay. Their veterans' homes Wales initiative allows veterans to become a part of Alabaré's community support network. I also refer to my support for First Choice Housing Association's bid for Libor funding to support Wales homes for veterans. Recently, the television programme 'DIY SOS' saw derelict properties transformed into liveable homes for ex-service personnel, with adaptations to meet the needs of veterans and their families, and one property converted to a support centre, where the ex-service personnel can receive advice, therapy, training and employment support. This model merits attention in Wales. Although the £2 million provided by the Welsh Government to support housing for armed forces personnel was welcomed, we need a joined-up approach to veterans' housing across the different sectors in Wales. Concern has also been expressed to me that it was unlikely that the properties funded by the Welsh Government would necessarily be earmarked for ex-forces personnel or even targeted at them.

Mae angen asesiad o anghenion cyn-filwyr yn sylfaen ar gyfer darparu gwasanaethau gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, nid oes digon o dystiolaeth yn sail i ddull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael ag anghenion tai cyn-filwyr, ac mae'r gwaith yn ddigyswllt. Wrth ymateb i'r datganiad a wnaed gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y lluoedd arfog a'u teuluoedd yr wythnos diwethaf, cyfeiriaf at fy ymweliad ym mis Awst â chartrefi elusen Alabaré ar gyfer prosiect cyn-filwyr gogledd Cymru ym Mae Colwyn. Mae eu menter cartrefi i gyn-filwyr yng Nghymru yn caniatáu i gyn-filwyr ddod yn rhan o rwydwaith cymorth cymunedol Alabaré. Cyfeiriaf hefyd at fy nghefnogaeth i gais First Choice Housing Association am gyllid Libor i gefnogi cartrefi i gyn-filwyr Cymru. Yn ddiweddar, roedd y rhaglen deledu 'DIY SOS' yn trawsnewid eiddo digyfannedd yn gartrefi y gellid byw ynddynt i gyn-filwyr, gydag addasiadau i ateb anghenion cyn-filwyr a'u teuluoedd, ac addaswyd un o'r adeiladau yn ganolfan gymorth, lle y gall y cyn-filwr ofyn am gyngor, therapi, hyfforddiant a chymorth cyflogaeth. Mae'r model yn haeddu sylw yng Nghymru. Er bod croeso i'r £2 filiwn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi tai ar gyfer personél y lluoedd arfog, mae angen dull cydgysylltiedig o weithredu ar fater tai i gyn-filwyr ar draws y gwahanol sectorau yng Nghymru. Mynegwyd pryder wrthyf hefyd ei bod yn annhebygol y byddai'r eiddo a ariennir gan Lywodraeth Cymru o reidrwydd yn cael ei glustnodi ar gyfer cyn-filwyr neu hyd yn oed yn cael eu targedu atynt.

Amongst combat veterans, there's a common pattern of complex post-traumatic stress disorder, with attempted symptom suppression through alcohol or drug abuse, a downward spiral of employment difficulties, relationship problems, confrontation with the law, and even suicide. There is a clear and well-evidenced need for a range of provision, including residential respite and treatment for complex needs. A one-size-fits-all approach can never work for veterans needing person-centred treatment.

Ymysg cyn-filwyr rhyfel, ceir patrwm cyffredin o anhwylder straen wedi trawma cymhleth, gydag ymdrech i leddfu'r symptomau drwy gamddefnyddio alcohol neu gyffuriau, llethr llithrig o anawsterau cyflogaeth, problemau perthynas, gwrthdaro â'r gyfraith, a hyd yn oed hunanladdiad. Ceir tystiolaeth glir fod angen ystod o ddarpariaethau, gan gynnwys gofal seibiant preswyl a thriniaeth ar gyfer anghenion cymhleth. Ni all agwedd 'un maint addas i bawb' byth weithio i gyn-filwyr sydd angen triniaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

We welcome amendment 4. Having spoken at the 2013 Wrexham launch of Change Step, a peer mentoring and advice service for military veterans in north Wales, led by drug and alcohol charity CAIS, which now extends across Wales via DACW, Drug and Alcohol Charities Wales, I attended the 19 October 2015 Cardiff event celebrating Change Step and Listen In, supporting families and friends of veterans and promoting recovery from problems associated with military service, at which Darren Millar spoke, as chair of the cross-party group on armed forces and cadets. This highlights the key role being played by the third sector and the need for joined-up veterans' services across the sectors. These projects, funded from the UK Government's armed forces covenant Libor fund, recognise the commitment of the UK nations not only to members of the armed forces, but also their families.

Rydym yn croesawu gwelliant 4. Ar ôl siarad yn lansiad Newid Cam yn Wrecsam yn 2013, sef gwasanaeth mentora a chyngor gan gymheiriaid i gyn-filwyr yng ngogledd Cymru, dan arweiniad yr elusen gyffuriau ac alcohol CAIS, sydd bellach yn ymestyn ar draws Cymru drwy DACW, Elusennau Cyffuriau ac Alcohol Cymru, mynychais y digwyddiad ar 19 Hydref 2015 yng Nghaerdydd yn dathlu Newid Cam a Gwrando, sy'n cefnogi teuluoedd a ffrindiau cyn-filwyr ac yn hybu adferiad yn sgil problemau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth milwrol, lle y siaradodd Darren Millar, fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar y lluoedd arfog a chadetiaid. Mae'r grŵp yn tynnu sylw at y rôl allweddol a chwaraeir gan y trydydd sector a'r angen am wasanaethau cydgysylltiedig i gyn-filwyr ar draws y sectorau. Mae'r prosiectau hyn, a gyllidwyd o gronfa cyfamod lluoedd arfog Libor Llywodraeth y DU, yn cydnabod ymroddiad gwledydd y DU, nid yn unig i aelodau o'r lluoedd arfog, ond hefyd i'w teuluoedd.

In April, the Welsh Government announced an additional £100,000 of recurrent funding for the Veterans' NHS Wales service to help improve access to mental health services and provide additional out-patient sessions. This followed calls on the Welsh Government from armed forces charities and opposition Members, including myself. However, concerns were raised by clinicians at the cross-party group on armed forces and reserves that the funding for the Veterans' NHS Wales service remains below the equivalent funding for Scotland or England. They further said that to undertake all the work needed, such as outreach work in Welsh prisons, work with female veterans, families of veterans, and serving personnel sick at home or going to be medically discharged to the NHS, the scheme actually needs £500,000 as an invest-to-save service.

Ym mis Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £100,000 ychwanegol o gyllid rheolaidd i wasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr i helpu i wella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a darparu sesiynau ychwanegol i gleifion allanol. Roedd hyn yn dilyn galw ar Lywodraeth Cymru gan elusennau'r lluoedd arfog ac Aelodau'r gwrthbleidiau, gan fy nghynnwys i. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon gan glinigwyr yn y grŵp trawsbleidiol ar y lluoedd arfog a milwyr wrth gefn fod y cyllid ar gyfer gwasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr yn parhau i fod yn llai na'r cyllid cyfatebol ar gyfer yr Alban neu Loegr. Er mwyn cyflawni'r holl waith sydd ei angen megis gwaith allgymorth yng ngharchardai Cymru, gwaith gyda chyn-filwyr benywaidd, teuluoedd cyn-filwyr, a phersonél sy'n gwasanaethu sydd gartref yn sâl neu'n mynd i gael eu rhyddhau'n feddygol i ofal y GIG, roeddent hefyd yn dweud bod angen £500,000 ar y cynllun mewn gwirionedd fel gwasanaeth buddsoddi i arbed.

When I submitted a written question to the Minister for Health and Social Services, asking how many veterans provided with therapies by NHS Wales committed suicide, I was told that no veterans receiving therapy through, instead, Veterans' NHS Wales, which is only part of NHS Wales, had committed suicide to the Welsh Government's knowledge. However, this summer I was informed by a member of the armed forces community that six serving and former Welsh service personnel had committed suicide so far this year. He'd attended the funerals of most of them. More recently, another former Welsh veteran told me he personally knew of five suicides over the last two years, and a charity in north Wales told me about the risk to another person they were supporting because NHS Wales were providing detoxification, but only on a revolving door basis because he wasn't being referred on to the therapies he needed. After the public services Minister told us last week that over 1, 000 veterans had been referred to Veterans' NHS Wales, I asked how many had completed treatment and how outcomes were being monitored. Although an estimated 10,000 ex-forces personnel in Wales suffer from complex military post-traumatic stress disorder, being 4 per cent to 5 per cent of the ex-forces population in Wales, only 158 veterans were referred to the service in 2012-13; only 100 of them were treated over a 12-month period; only 24 service user feedback forms were completed by the 100 veterans seen; and only 39 veterans were discharged.

Pan gyflwynais gwestiwn ysgrifenedig i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn gofyn faint o gyn-filwyr roedd GIG Cymru wedi darparu therapïau ar eu cyfer a oedd wedi cyflawni hunanladdiad wedyn, dywedwyd wrthyf nad oedd unrhyw gyn-filwyr a oedd wedi cael therapi drwy wasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr, yn hytrach, sydd ond yn rhan o GIG Cymru, wedi cyflawni hunanladdiad yn ôl yr hyn a ddealla Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yn ystod yr haf cefais wybod gan aelod o gymuned y lluoedd arfog fod chwech o bersonél presennol y lluoedd arfog a chyn-filwyr yng Nghymru wedi cyflawni hunanladdiad hyd yn hyn eleni. Roedd wedi mynychu angladdau'r rhan fwyaf ohonynt. Yn fwy diweddar, dywedodd cyn-filwr arall yng Nghymru wrthyf ei fod ef yn bersonol yn gwybod am bum hunanladdiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a dywedodd elusen yng ngogledd Cymru wrthyf am y risg i berson arall y maent yn ei gynorthwyo am na châi ei atgyfeirio at y therapïau roedd eu hangen arno, oherwydd, er bod GIG Cymru yn darparu gwasanaeth dadwenwyno, gwneud hynny ar sail drws troi yn unig a wnant. Ar ôl i'r Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus ddweud wrthym yr wythnos diwethaf fod dros 1,000 o gyn-filwyr wedi'u hatgyfeirio at wasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr, gofynnais faint a oedd wedi cwblhau eu triniaeth a sut yr eid ati i fonitro canlyniadau. Er bod 10,000 amcangyfrifedig o gyn-filwyr y lluoedd arfog yng Nghymru yn dioddef o anhwylder straen wedi trawma milwrol cymhleth, sef 4 y cant i 5 y cant o boblogaeth y cyn-filwyr yng Nghymru, dim ond 158 o gyn-filwyr a atgyfeiriwyd at y gwasanaeth yn 2012-13; dim ond 100 ohonynt a gafodd driniaeth dros gyfnod o 12 mis; dim ond 24 o ffurflenni adborth defnyddwyr gwasanaeth a lenwyd gan y 100 o gyn-filwyr a welwyd; a dim ond 39 o gyn-filwyr a gafodd eu rhyddhau yn sgil cwblhau eu triniaeth.

Based upon evidence from veterans themselves, the Healthcare Inspectorate Wales report, 'Healthcare and the Armed Forces Community in Wales', recommended that the Welsh Government should consider the utility of establishing a form of residential facility within Wales. I remain concerned that the Kennedy report, commissioned by the Welsh Government and with terms of reference set by the Welsh Government, concluded that there was no evidence or strong support for this despite the strong evidence to the contrary.

Yn seiliedig ar dystiolaeth gan gyn-filwyr eu hunain, roedd adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, 'Gofal Iechyd a Chymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru', yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddioldeb sefydlu math o gyfleuster preswyl yng Nghymru. Rwy'n dal yn bryderus fod adroddiad Kennedy, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru gyda chylch gorchwyl a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi casglu nad oedd unrhyw dystiolaeth neu gefnogaeth gref i'r argymhelliad er gwaethaf y dystiolaeth gref i'r gwrthwyneb.

I welcomed the UK Government's support for the first recommendation in the Royal British Legion's 2015 manifesto. From 1 April 2015, all widows, widowers and civil partners of members of the armed forces will be allowed to keep their military pension for life, regardless of whether they decide to remarry or cohabit with a new partner. We also support the Royal British Legion's Insult to Injury campaign. Veterans who were injured in service on or before 5 April 2005 receive a war disablement pension and are known as 'war pensioners'. Should a war pensioner have social care needs, they will, in consequence of Welsh Government guidance, routinely find that their local authority takes all but the first £10 per week of their military compensation, rising to £25 per week next year to cover the costs of their social care. This is despite the fact that a veteran with a similar injury, but who was injured on or after 6 April 2005 and, therefore, receives compensation through the armed forces compensation scheme, is able to keep all their compensation payments. When I raised this again with the public services Minister last week, he said that UK Government Ministers had turned this down in England. In reality, the UK Government is currently giving this further consideration after discussions with the Royal British Legion and I urge both Governments to address this. As the Royal British Legion told me, this is a breach of the military covenant.

Rhoddais groeso i gefnogaeth Llywodraeth y DU i'r argymhelliad cyntaf ym maniffesto'r Lleng Brydeinig Frenhinol ar gyfer 2015. O 1 Ebrill 2015, mae gweddwon a phartneriaid sifil aelodau o'r lluoedd arfog yn cael cadw eu pensiwn milwrol am oes, pa un a ydynt yn penderfynu ailbriodi neu gyd-fyw â phartner newydd ai peidio. Rydym hefyd yn cefnogi ymgyrch 'Insult to Injury' y Lleng Brydeinig Frenhinol. Mae cyn-filwyr a anafwyd ar wasanaeth ar neu cyn 5 Ebrill 2005 yn cael pensiwn anabledd rhyfel ac fe'u gelwir yn 'bensiynwyr rhyfel'. Os oes gan bensiynwr rhyfel anghenion gofal cymdeithasol, o ganlyniad i ganllawiau Llywodraeth Cymru, byddant yn gweld fod eu hawdurdod lleol yn cymryd popeth ond y £10 yr wythnos cyntaf o'u hiawndal milwrol fel mater o drefn, gan godi i £25 yr wythnos y flwyddyn nesaf i dalu am eu gofal cymdeithasol. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod cyn-filwr a gafodd anaf tebyg, ond a gafodd ei anafu ar neu ar ôl 6 Ebrill 2005 ac sydd felly'n derbyn iawndal drwy gynllun iawndal y lluoedd arfog, yn cael cadw ei holl daliadau iawndal. Pan soniais am hyn eto wrth y Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus yr wythnos diwethaf, dywedodd fod Gweinidogion Llywodraeth y DU wedi gwrthod hyn yn Lloegr. Mewn gwirionedd, mae Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn rhoi ystyriaeth bellach i'r mater ar ôl trafodaethau gyda'r Lleng Brydeinig Frenhinol ac rwy'n annog y ddwy Lywodraeth i fynd i'r afael â hyn. Fel y dywedodd y Lleng Brydeinig Frenhinol wrthyf, mae hyn yn torri'r cyfamod milwrol.

Well, today is an important opportunity to reflect on the sacrifices made by so many during conflict. It also provides an opportunity for us all to look ahead and ensure that our armed forces community receives all possible support.

Wel, mae heddiw yn gyfle pwysig i fyfyrio ar yr aberth a wnaed gan gynifer mewn rhyfeloedd. Mae hefyd yn gyfle i bawb ohonom edrych ymlaen a sicrhau bod cymuned ein lluoedd arfog yn cael yr holl gymorth posibl.

17:14

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected four amendments to the motion. If amendment 1 is agreed, then amendments 2 and 3 will be deselected. So, I call on the Minister for Public Services to formally move amendment 1, tabled in the name of Jane Hutt.

Rwyf wedi dethol pedwar gwelliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol. Felly, galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt yn ffurfiol.

*Gwelliant 1—Jane Hutt*

*Amendment 1—Jane Hutt*

*Dileu pob dim ar ôl pwynt 2 a rhoi yn ei lle:*

*Delete all after point 2 and replace with:*

*3. Yn croesawu'r ffaith fod pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi penodi Hyrwyddwyr Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog;*

*3. Welcomes the fact that all local authorities in Wales have appointed Armed Forces Community Covenant Champions;*

*4. Yn croesawu llwyddiant y Cerdyn Braint Amddiffyn yng Nghymru;*

*4. Welcomes the success of the Defence Privilege Card in Wales;*

*5. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r pecyn cymorth ar gyfer y Lluoedd Arfog.*

*5. Welcomes the Welsh Government's commitment to the package of support for the Armed Forces.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

17:15

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Move.

Cynnig.

17:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. I call on Eluned Parrott to move amendments 2, 3 and 4, tabled in the name of Aled Roberts. Eluned Parrott.

Diolch. Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliannau 2, 3 a 4, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Eluned Parrott.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ym mhwynt 4, dileu isbwynt a) a rhoi yn ei le:*

*In point 4, delete sub-point a) and replace with:*

*rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun peilot ar gyfer cerdyn i gyn-filwyr i gynnig buddion i aelodau'r lluoedd arfog a chyn-filwyr i gydnabod eu gwasanaeth.*

*provide an update on a pilot scheme for a veterans' card to offer benefits for service personnel and veterans in recognition of their service.*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Ym mhwynt 4, cynnwys isbwynt newydd:*

*In point 4, add as new sub-point:*

*gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod cyn-filwyr yn derbyn iawndal priodol ar gyfer mesothelioma o ganlyniad i wasanaeth.*

*work with the UK Government to ensure that veterans receive proper compensation for mesothelioma due to service.*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu cynlluniau megis Newid Cam, sy'n cynnig cyngor a mentora gan gyfoedion i gyn-filwyr a'u teuluoedd, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid digonol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i gyn-filwyr i gynnal y gwasanaethau hanfodol hyn.*

*Welcomes schemes such as Change Step, which offer peer mentoring and advice for veterans and their families, and calls on the Welsh Government to ensure that there is sufficient funding for mental health services for veterans to sustain these vital services.*

*Cynigiwyd gwelliannau 2, 3 a 4.*

*Amendments 2, 3 and 4 moved.*

17:15 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Lywydd. I move amendments 2, 3 and 4, tabled in the name of Aled Roberts.

Diolch, Lywydd. Cynigiaf welliannau 2, 3 a 4, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I just want to put on record that we will be voting against the motion at first reading to enable the amendments to be heard today, but we'd like to thank the Welsh Conservatives for bringing this timely debate here held on Armistice Day.

Hoffwn gofnodi y byddwn yn pleidleisio yn erbyn y cynnig ar y darlleniad cyntaf er mwyn i ni allu clywed y gwelliannau heddiw, ond hoffem ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddadl amserol hon ar Ddiwrnod y Cadoediad.

This debate provides us with a chance, as the previous speaker has said, to acknowledge the immense contribution to our country made by serving members and veterans of the armed forces in Wales, and provides us with an opportunity to thank those very brave men and women.

Mae'r ddadl hon yn rhoi cyfle i ni, fel y dywedodd y siaradwr blaenorol, i gydnabod y cyfraniad enfawr a wnaeth aelodau sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr y lluoedd arfog yng Nghymru, ac mae'n rhoi cyfle i ni ddiolch i'r dynion a'r menywod dewr hynny.

Turning to issues within the motion, I'm sure there's much agreement about the desire to recognise and reward our armed forces personnel. I note that the Welsh Government amendment, for example, welcomes the success of the defence privilege card here in Wales. Whilst I do very much welcome the work that the Minister has done and the improvement that we've seen in take-up and the benefits available through that card, there are some issues remaining, hence the first of our amendments today.

Gan droi at faterion sy'n codi o fewn y cynnig, rwy'n siwr fod llawer o gytundeb ynglŷn â'r awydd i gydnabod a gwobrwyo ein lluoedd arfog. Sylwaf fod gwelliant Llywodraeth Cymru, er enghraifft, yn croesawu llwyddiant y cerdyn braint amddiffyn yma yng Nghymru. Er fy mod yn croesawu'n fawr iawn y gwaith y mae'r Gweinidog wedi ei wneud a'r gwelliant a welwyd yn y nifer a'r manteision sydd ar gael drwy'r cerdyn, mae yna rai materion yn aros, a dyna'r rheswm dros ein gwelliant cyntaf heddiw.

Some of the issues include, for example, that the card is a paid-for one, and must be renewed every five years. It's not a high cost, but it is a cost, and there is the principle of that to consider. There is a concern as well that, because of the need to renew on a regular basis, people could potentially lapse and lose services without realising it. Similarly, members in rural areas are likely to get fewer benefits than someone in a city, because the traders who offer discounts tend to be large chains even now, despite Welsh Government's attempts to draw more independent traders into the scheme.

Mae rhai o'r materion yn cynnwys, er enghraifft, y ffaith mai cerdyn wedi'i dalu amdano ydyw, ac mae'n rhaid ei adnewyddu bob pum mlynedd. Nid yw'n gost fawr, ac mae angen ystyried egwyddor hynny. Oherwydd yr angen i'w adnewyddu'n rheolaidd, mae yna bryder hefyd y gallai cerdyn ddod i ben yn ddiarwybod i'r sawl a'i pia, gan olygu y byddai'n colli gwasanaethau heb sylweddoli hynny. Yn yr un modd, mae aelodau mewn ardaloedd gwledig yn debygol o gael llai o fudd ohono na rhywun mewn dinas, gan mai'r cadwyni mawr yw'r masnachwyr sy'n cynnig gostyngiadau yn tueddu i fod hyd yn oed yn awr, er gwaethaf ymdrechion Llywodraeth Cymru i annog rhagor o fasnachwyr annibynnol i fod yn rhan o'r cynllun.

Previously, the Welsh Government had agreed to a Welsh Liberal Democrat proposal here in the Assembly to pilot a specific Welsh veterans card. I'd like to ask the Minister in his response today for an update on that undertaking, and what choices they are going to make to take that forward.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno o'r blaen ar gynnig gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yma yn y Cynulliad i dreialu cerdyn penodol ar gyfer cyn-filwyr Cymru. Hoffwn ofyn i'r Gweinidog yn ei ymateb heddiw am y diweddaraf ar y cynllun peilot, a pha benderfyniadau y maent am eu gwneud ar gyfer bwrw ymlaen â hynny.

Similarly, we need to ensure that armed forces personnel who suffer illness or injury in the line of duty are properly cared for, whether that be a physical or, indeed, a mental illness. I would say that this includes providing the necessary support to victims of mesothelioma. Many ex-service personnel were exposed to asbestos when working in the boiler rooms of naval ships, where the boilers were lagged with asbestos. Independent experts project that as many as 2,500 British naval veterans are likely to die as a result of mesothelioma before 2047. Veterans, though, are unable to sue the Government for injuries or illnesses sustained before 1987, and can instead only apply for a war disablement pension. This scheme cannot award large lump sum payments to those recently diagnosed with terminal illnesses and, of course, this means that those sufferers who, sadly, are likely to die quite quickly after their diagnosis are not able to enjoy the rest of their lives in the comfort that we would wish.

Yn yr un modd, mae angen i ni sicrhau bod personél y lluoedd arfog sy'n dioddef o salwch neu anaf yn rhinwedd eu dyletswyddau yn cael gofal priodol, boed yn salwch corfforol neu'n wir, yn salwch meddwl. Fe fyddwn yn dweud bod hyn yn cynnwys darparu'r cymorth angenrheidiol i ddioddefwyr mesothelioma. Daeth llawer o gyn-filwyr i gysylltiad ag asbestos wrth weithio mewn ystafelloedd boeleri ar longau'r llynges, lle y câi'r boeleri eu lapio mewn asbestos. Mae arbenigwyr annibynnol yn rhagweld y bydd cymaint â 2,500 o gyn-filwyr llynges Prydain yn debygol o farw o ganlyniad i mesothelioma cyn 2047. Er hynny, ni chaiff cyn-filwyr erlyn y Llywodraeth mewn perthynas ag anafiadau neu afiechydon a gafwyd cyn 1987, ac yn lle hynny gallant wneud cais am bensiwn anabledd rhyfel. Ni all y cynllun hwn ddyfarnu cyfandaliadau mawr i'r rhai sydd wedi cael diagnosis o salwch terfynol yn ddiweddar ac wrth gwrs, mae hyn yn golygu nad yw'r dioddefwyr hynny sydd, yn anffodus, yn debygol o farw yn eithaf cyflym ar ôl eu diagnosis, yn gallu mwynhau gweddill eu bywydau yn y cysur y byddem yn ei ddymuno.

According to figures from the British Legion, a 63-year-old civilian sufferer can receive around £180,000 in compensation under the Government's diffuse mesothelioma scheme, whereas a veteran of the same age can expect to receive as little as £32,000 if they have no spouse or partner to pass any compensation award onto after they have died. In reality, many veterans receive even less than that. I think we must join together in pressing the UK Government for justice for those individuals.

Yn ôl ffigurau gan y Lleng Brydeinig, gall dioddefwr sifil 63 oed gael oddeutu £180,000 o iawndal o dan gynllun mesothelioma ymledol y Llywodraeth, ond ni all cyn-filwr yr un oed ddisgwyl cael mwy na £32,000 os nad oes priod neu bartner ganddynt ar gyfer trosglwyddo unrhyw iawndal a ddyfarnwyd wedi iddynt farw. Mewn gwirionedd, mae llawer o gyn-filwyr yn cael llai na hynny hyd yn oed. Rwy'n credu bod yn rhaid i ni uno gyda'n gilydd i bwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau cyfiawnder i'r unigolion hyn.

Finally, I believe we must remember the needs of our armed forces and veterans when we are considering our approach to mental health. A 2010 study into mental health consequences of military deployment in Iraq and Afghanistan found, as the previous speaker mentioned, that 4 per cent reported a probable post-traumatic stress disorder, 19.7—. Yes, of course.

Yn olaf, rwy'n credu bod yn rhaid i ni gofio anghenion ein lluoedd arfog a'n cyn-filwyr pan ystyriwn ein hymagwedd tuag at iechyd meddwl. Gwelodd astudiaeth yn 2010 o ganlyniadau iechyd meddwl milwyr ar ddyletswydd yn Irac ac Affganistan, fel y soniodd y siaradwr blaenorol, fod 4 y cant yn dioddef o anhwylder straen wedi trawma yn ôl pob tebyg, 19.7—. Iawn, wrth gwrs.

17:19

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for giving way, Eluned. The problems you've just alluded to—mesothelioma in the services—have also affected many members of the merchant navy as well. I sometimes think that they're often forgotten in the discussion about how we look after our veterans.

Diolch i chi am ildio, Eluned. Mae'r problemau rydych chi newydd eu crybwyll—mesothelioma yn y lluoedd arfog—wedi effeithio ar lawer o aelodau o'r llynges fasnachol yn ogystal. Weithiau rwy'n credu eu bod yn aml yn cael eu hanghofio yn y drafodaeth ynglŷn â'r ffordd rydym yn gofalu am ein cyn-filwyr.

17:19

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you very much for that point. Clearly, here outside our building we have a memorial to those brave individuals who were part of the merchant navy during the war and those who have lost their lives making sure that our country was not barricaded as a result of that war. However, the specific responsibility here is one for, as I say, the UK Government, which I'd like to press.

Diolch yn fawr iawn am y pwynt hwnnw. Yn amlwg, y tu allan i'n hadeilad yma mae gennym gofeb i'r unigolion dewr a oedd yn rhan o'r llynges fasnachol yn ystod y rhyfel a'r rhai a gollodd eu bywydau yn gwneud yn siŵr na châi ein gwlad ei baricadu o ganlyniad i'r rhyfel. Fodd bynnag, cyfrifoldeb i Lywodraeth y DU yw hyn yn benodol, fel y dywedais, a hoffwn bwysleisio hynny.

But, in terms of mental health, as I say, whilst the overall incidence of mental ill health in service personnel as a whole appears to be slightly lower than in the Welsh population, at 19.7 per cent reporting common mental disorders, there are worrying spikes in data, for example, for those deployed to Iraq and Afghanistan and also for people who were reservists, rather than full members of the armed forces, and we need to take account of that in future provisions. There are positive initiatives, like Change Step, and, while this is hugely welcome, I do continue to be concerned that access to some therapies is problematic due to a shortage of expert clinicians. Once again, I would look forward to the Welsh Government's response to that particular point.

Ond o ran iechyd meddwl, fel rwy'n dweud, er bod nifer yr achosion cyffredinol o salwch meddwl ymysg personél y lluoedd arfog yn gyffredinol i'w weld ychydig yn is nag ymysg y boblogaeth yng Nghymru, gyda 19.7 y cant yn nodi anhwylderau meddwl cyffredin, testun pryder yw'r cynnydd siarp yn y data, er enghraifft, ymhlith rhai a leolwyd yn Irac ac Affganistan ac ymhlith pobl a oedd yn filwyr wrth gefn, yn hytrach nag aelodau llawn o'r lluoedd arfog, ac mae angen i ni ystyried hynny wrth ddarparu ar gyfer y dyfodol. Ceir mentrau cadarnhaol, fel Newid Cam, ac er bod hyn i'w groesawu'n fawr, rwy'n parhau i bryderu bod mynediad at rai therapïau yn broblem yn sgil prinder clinigwyr arbenigol. Unwaith eto, edrychaf ymlaen at glywed ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt hwnnw.

17:20

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It gives me great pleasure to take part in today's debate on the Welsh armed forces. Now, the first two points to our motion talk about remembering and paying tribute to our servicemen and servicewomen and the sacrifices that they have made for us. Of course, one way in which we can pay tribute to our servicemen and servicewomen is by protecting our war memorials for future generations to understand the sacrifices made. Members will know that this has long been a campaign of mine. I want to see a statutory duty placed on local authorities to preserve war memorials so that future generations can remember our soldiers and learn from previous conflicts. Indeed, yesterday, I was pleased to host an event in the Senedd with the Heritage Lottery Fund on preserving our heritage, where it was great to see how their grants are helping communities commemorate our servicemen and servicewomen.

Mae'n rhoi pleser mawr i mi gymryd rhan yn y ddadl heddiw ar y lluoedd arfog yng Nghymru. Nawr, mae dau bwynt cyntaf ein cynnig yn sôn am gofio a thalu teyrnged i'n milwyr a'r aberth y maent wedi'i wneud drosom. Wrth gwrs, un ffordd y gallwn dalu teyrnged i'n milwyr yw drwy ddiogelu ein cofebion rhyfel er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ddeall yr aberth a wnaed. Bydd yr Aelodau'n gwybod fy mod wedi bod yn ymgyrchu dros hyn ers amser. Rwyf am weld dyletswydd statudol yn cael ei gosod ar awdurdodau lleol i gadw cofebion rhyfel er mwyn i genedlaethau'r dyfodol gofio ein milwyr a dysgu gwersi o ryfeloedd blaenorol. Yn wir, ddoe, roeddwn yn falch o gynnal digwyddiad yn y Senedd gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri ar warchod ein treftadaeth, lle roedd hi'n wych gweld sut y mae eu grantiau'n helpu cymunedau i goffáu ein milwyr.

Sadly, the rising cost of metals has meant war memorials have become a target for theft due to their scrap value. The War Memorials Trust estimates that one memorial is damaged for its metal every single week, and that is absolutely appalling. I'm sure Members are already aware of the state-of-the-art SmartWater signature that is visible only under ultraviolet light that can help the police to trace any that are stolen. Once applied, SmartWater is virtually impossible to remove and can withstand even long-term exposure to UV. Furthermore, a thief would also risk inadvertently spreading forensic evidence onto their clothes and any tools they are using by handling any materials that include a SmartWater signature. Now, this is one way of protecting war memorials that I hope the Welsh Government would be happy to promote, and perhaps the Minister would be kind enough to tell us what action the Welsh Government is taking to protect war memorials across Wales in his response to this debate.

Yn anffodus, mae cost gynyddol metelau wedi golygu bod cofebion rhyfel wedi dod yn darged i ladron oherwydd eu gwerth fel sgrap. Mae'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel yn amcangyfrif bod un gofeb yr wythnos yn cael ei difrodi am ei metel, ac mae hynny'n hollol warthus. Rwy'n siŵr fod yr Aelodau eisoes yn ymwybodol o lofnod arloesol SmartWater sy'n weladwy o dan olau uwchfioled yn unig, a all helpu'r heddlu i ddod o hyd i rai sy'n cael eu dwyn. Ar ôl gosod SmartWater mae bron yn amhosibl cael gwared arno a gall wrthsefyll cysylltiad hirdymor ag UV hyd yn oed. Yn ogystal â hynny, byddai lleidr hefyd yn wynebu risg o ledaenu tystiolaeth fforensig yn anfwriadol ar ei ddillad ac unrhyw offer a ddefnyddia drwy drin a thrafod unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys llofnod SmartWater. Nawr, dyma un ffordd o ddiogelu cofebion rhyfel y byddwn yn gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru yn hapus i'w hyrwyddo, ac efallai y byddai'r Gweinidog yn ddigon caredig i ddweud wrthym pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu cofebion rhyfel ledled Cymru yn ei ymateb i ddadl hon.

Now, the role of the armed forces in our local communities is something that I hope governments at all levels and local communities will continue to support. In my own constituency, I'm delighted that the proposed closure of Cawdor barracks at Brawdy, the Pembrokeshire home of the 14th Signal Regiment, has been dropped, and I'm sure that I speak for many people in the local area when I say that the soldiers and their families are an important part of our local community and are a huge support to our local economy. So, it's great to know that they will continue to be based in Pembrokeshire for the foreseeable future.

Nawr, mae rôl y lluoedd arfog yn ein cymunedau lleol yn rhywbeth rwy'n gobeithio y bydd llywodraethau ar bob lefel a chymunedau lleol yn parhau i'w chefnogi. Yn fy etholaeth fy hun, rwy'n falch iawn fod y cynnig i gau barics Cawdor ym Mreudeth, cartref 14eg Catrawd y Signalwyr yn Sir Benfro, wedi cael ei wrthod, ac rwy'n siŵr fy mod yn siarad dros lawer o bobl yn yr ardal leol wrth ddweud bod y milwyr a'u teuluoedd yn rhan bwysig o'n cymuned leol ac yn gymorth mawr i'n heconomi leol. Felly, mae'n wych gwybod y byddant yn parhau i fod wedi'u lleoli yn Sir Benfro yn y dyfodol rhagweladwy.

It's important that our armed forces and their families are fully integrated into our local communities, given that they share the same public services and community facilities, and perhaps the Minister will commit this afternoon to exploring the economic impact of our armed forces in Wales, and look at ways in which we can promote community cohesion with local people. I'm delighted to say there is some great work going on across Wales. The Minister may be aware of the VC Gallery in Haverfordwest, run by Barry John, who was a serving member of the Royal Welsh regiment for 24 years. The VC Gallery—'VC' meaning veterans and community—is a wonderful example of a small, independent charity bringing together veterans and the community through art, as well as helping veterans who are struggling to adapt to civilian life. This is the kind of activity that the Welsh Government needs to identify, support and roll out across Wales.

Mae'n bwysig bod ein lluoedd arfog a'u teuluoedd wedi'u hintegreiddio'n llawn yn ein cymunedau lleol, o ystyried eu bod yn rhannu'r un gwasanaethau cyhoeddus a chyfleusterau cymunedol, ac efallai y bydd y Gweinidog yn ymrwymo y prynhawn yma i edrych ar effaith economaidd ein lluoedd arfog yng Nghymru, ac i edrych ar ffyrdd y gallwn hyrwyddo cydlyniant cymunedol gyda phobl leol. Pleser mawr yw dweud bod gwaith gwych yn digwydd ledled Cymru. Efallai fod y Gweinidog yn ymwybodol o Oriel VC yn Hwlffordd, dan arweiniad Barry John, a oedd yn aelod a wasanaethodd yng nghatrawd Frenhinol Cymru am 24 mlynedd. Mae'r Oriel VC—gyda 'VC 'yn golygu cyn-filwyr a chymunedau—yn enghraifft wych o elusen fach, annibynnol sy'n dod â chyn-filwyr a'r gymuned at ei gilydd drwy gelf, yn ogystal â helpu cyn-filwyr sy'n cael trafferth i ymaddasu i fywyd sifil. Dyma'r math o weithgaredd y mae angen i Lywodraeth Cymru ei nodi, ei gefnogi a'i gyflwyno ar draws Cymru.

I'm pleased to see that the Welsh Government is currently reviewing its package of support for armed forces personnel and veterans, and I'm sure there's an opportunity as part of that review to establish more information about our armed forces communities and the contributions that they make to our local economies.

Rwy'n falch o weld bod Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu ei phecyn cymorth ar gyfer personél y lluoedd arfog a chyn-filwyr, ac rwy'n siŵr fod cyfle yn rhan o'r adolygiad hwnnw i gael mwy o wybodaeth am ein cymunedau lluoedd arfog a'r cyfraniadau a wneir ganddynt i'n heconomïau lleol.

I appreciate that the Welsh Government is committed to providing high-quality services to the armed forces community, and that the expert group on the needs of the armed forces community in Wales continues to meet to discuss how our servicemen and servicewomen and veterans can be best supported. It's crucial that any plans or strategies to better support our armed forces community is delivered collaboratively with the third sector and the armed forces themselves, who are better placed to understand and advise on the challenges faced by the armed forces community.

Rwy'n sylweddoli bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel i gymuned y lluoedd arfog, a bod y grŵp arbenigol ar anghenion cymuned y lluoedd arfog yng Nghymru yn parhau i gyfarfod i drafod sut y gellid cefnogi ein milwyr a'n cyn-filwyr yn y ffordd orau. Mae'n rhaid cyflawni unrhyw gynlluniau neu strategaethau i gefnogi ein cymunedau lluoedd arfog yn well ar y cyd â'r trydydd sector a'r lluoedd arfog eu hunain, sydd mewn sefyllfa well i ddeall a chynghori ar yr heriau y mae cymuned y lluoedd arfog yn eu hwynebu.

As Members have already mentioned, for some servicemen and servicewomen, leaving the forces and returning to civilian life can be difficult and so it's incumbent on governments at all levels that this transition is made as smooth as possible. I understand from the expert group's recent minutes that the Royal British Legion is delivering awareness training on the needs of the armed forces community and the services provided by the Royal British Legion. However, the minutes note that it has yet to be provided to counties such as Caerphilly, Newport, Swansea, Pembrokeshire and Powys, and that arrangements for the delivery of training in Pembrokeshire and Swansea were proving to be more of a challenge. Therefore, I wonder if the Minister could tell us in his response what work the Welsh Government is doing with the British Legion to ensure that this training reaches all parts of Wales.

Fel y mae Aelodau eisoes wedi sôn, i rai milwyr, gall gadael y lluoedd arfog a dychwelyd i fywyd sifil fod yn anodd ac felly mae'n ddyletswydd ar lywodraethau ar bob lefel i sicrhau y cyflawnir y pontio mor esmwyth â phosibl. Deallaf o gofnodion diweddar y grŵp arbenigol fod y Lleng Brydeinig Frenhinol yn darparu hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ar anghenion cymuned y lluoedd arfog a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Lleng Brydeinig Frenhinol. Fodd bynnag, mae'r cofnodion yn nodi bod yr hyfforddiant heb ei darparu eto i siroedd fel Caerffili, Casnewydd, Abertawe, Sir Benfro a Phowys, a bod trefniadau ar gyfer darparu hyfforddiant yn Sir Benfro ac Abertawe yn fwy o her. Felly, tybed a all y Gweinidog ddweud wrthym yn ei ymateb pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'r Lleng Brydeinig i sicrhau bod yr hyfforddiant yn cyrraedd pob rhan o Gymru.

Therefore, in closing, Presiding Officer, our armed forces do an incredible job in protecting our people and it's only right that we protect them too. Robust support packages must be in place to help veterans return to civilian life. Local partnerships and engagement must be fostered and our armed forces heritage should be preserved. I therefore urge Members to support our motion.

Felly, wrth gloi, Lywydd, mae ein lluoedd arfog yn gwneud gwaith anhygoel yn amddiffyn ein pobl ac nid yw ond yn deg ein bod yn eu hamddiffyn hwythau hefyd. Rhaid sicrhau bod pecynnau cymorth cadarn yn eu lle i helpu cyn-filwyr i ddychwelyd at fywyd sifil. Rhaid meithrin partneriaethau ac ymgysylltiad lleol a dylid gwarchod treftadaeth ein lluoedd arfog. Felly, rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi ein cynnig.

17:25

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful for the opportunity to speak in this important debate today. I declare an interest as a member of the Royal British Legion and also as a patron of the Motivational Preparation College of Training, or MPCT, which is the parent organisation of the military preparation college for 16 to 19-year-olds. Of course, it is timely that we are having this debate at this time of year, on Armistice Day, in the year in which we commemorate the seventieth anniversary of both VE Day and VJ Day, the seventy-fifth anniversary of the Battle of Britain, and even the two-hundredth anniversary of the Battle of Waterloo—all among a number of other significant conflicts, of course. Nonetheless, it is important that we remember the fallen and support those in the armed forces community at all times of the year.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon heddiw. Rwy'n datgan buddiant fel aelod o'r Lleng Brydeinig Frenhinol a hefyd fel noddwr y Coleg Hyfforddi Paratoi Ysgogiadol, neu MPCT, sef rhiant-sefydliad y coleg paratoi milwrol ar gyfer rhai rhwng 16 a 19 oed. Wrth gwrs, mae'n amserol ein bod yn cael y ddadl hon ar yr adeg hon o'r flwyddyn, ar Ddiwrnod y Cadoediad, yn y flwyddyn rydym yn coffáu saith deg mlynedd ers Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop a Diwrnod Buddugoliaeth dros Japan, saith deg pum mlynedd ers Brwydr Prydain, a dau gan mlynedd ers Brwydr Waterloo hyd yn oed—a'r rhain i gyd ymhlith nifer o ryfeloedd arwyddocaol eraill, wrth gwrs. Serch hynny, mae'n bwysig ein bod yn cofio'r rhai a laddwyd a chefnogi cymuned y lluoedd arfog ar bob adeg o'r flwyddyn.

Now, my main area of interest here, as many Members will know, is that of employment and skills. Many of those who have served in the armed forces will have picked up skills, both technical and transferrable, that will be of great value to their employment in civilian life and we have to make use of this. It is also important, however, that we help ex-service personnel to retrain and acquire new skills once they have left the armed forces so that they can develop the necessary capabilities and qualifications for a new career in civilian life. This is particularly the case if they have offended, as many ex-service personnel may find it difficult to cope without the discipline, structure and in-built support network that the armed forces provided for them. Now, while voluntary organisations do a lot of good work here, I believe that there is a role for the Welsh Government too.

Nawr, fy mhrif ddiddordeb yma, fel y bydd llawer o'r Aelodau'n gwybod, yw cyflogaeth a sgiliau. Bydd llawer o'r rhai a wasanaethodd yn y lluoedd arfog wedi meithrin sgiliau, technegol a throsglwyddadwy, a fydd o werth mawr o ran eu cyflogaeth mewn bywyd sifil ac mae'n rhaid i ni wneud defnydd o hyn. Mae hefyd yn bwysig, fodd bynnag, ein bod yn helpu cyn-filwyr i ailhyfforddi a dysgu sgiliau newydd ar ôl iddynt adael y lluoedd arfog fel y gallant ddatblygu'r galluoedd a'r cymwysterau angenrheidiol ar gyfer dilyn gyrfa newydd mewn bywyd sifil. Mae hyn yn arbennig o wir os ydynt wedi troseddu, gan y gallai llawer o gyn-filwyr ei chael yn anodd ymdopi heb y ddisgyblaeth, y strwythur a'r rhwydwaith cymorth yn rhan o'r strwythur a ddarparai'r lluoedd arfog ar eu cyfer. Nawr, er bod mudiadau gwirfoddol yn gwneud llawer o waith da yma, rwy'n credu bod rôl i Lywodraeth Cymru hefyd.

As I stated earlier, I am a patron of the MPCT, and, while their main role is offering opportunities to young people through education and training, potentially preparing them for a career in the armed forces, they are also doing a lot of good work on the rehabilitation and resettlement of the ex-service and first-time offender community in prisons. I'm aware, Llywydd, that the organisation has been in contact with the Welsh Government to see how they can work together to bring about real improvements for these potentially vulnerable groups of people.

Fel y dywedais yn gynharach, rwy'n noddwr MPCT, ac er mai eu prif rôl yw cynnig cyfleoedd i bobl ifanc drwy addysg a hyfforddiant, gan eu paratoi o bosibl ar gyfer gyrfa yn y lluoedd arfog, maent hefyd yn gwneud llawer o waith da ar adsefydlu ac ail-leoli'r gymuned o droseddwyr tro cyntaf sy'n gyn-filwyr mewn carchardai. Rwy'n ymwybodol, Lywydd, fod y sefydliad wedi bod mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru i weld sut y gallant weithio gyda'i gilydd i sicrhau gwelliannau gwirioneddol i'r grwpiau hyn o bobl a allai fod yn agored i niwed.

Of course, while the armed forces and prisons are non-devolved matters, the education of prisoners and the health and welfare of veterans are devolved and we have a duty to do our best for our constituents.

Wrth gwrs, er bod y lluoedd arfog a charchardai yn faterion sydd heb eu datganoli, mae addysg carcharorion ac iechyd a lles cyn-filwyr wedi eu datganoli ac mae gennym ddyletswydd i wneud ein gorau dros ein hetholwyr.

So, in conclusion, Llywydd, I want to reiterate the importance of supporting our armed forces community in all aspects of their lives, but particularly the importance of ensuring that they have adequate access to education and training opportunities to help them readjust as best as possible to civilian life. This can be a difficult process, particularly if they have also offended in the past and need assistance and support in getting their lives back on track.

Felly, i gloi, Lywydd, rwyf am ailadrodd pwysigrwydd cefnogi cymuned y lluoedd arfog ym mhob agwedd ar eu bywydau, ond yn arbennig, pwysigrwydd sicrhau bod ganddynt fodd o fanteisio ar ddigon o gyfleoedd addysg a hyfforddiant i'w helpu i ymaddasu gystal ag y bo modd i fywyd sifil. Gall fod yn broses anodd, yn enwedig os ydynt wedi troseddu yn y gorffennol hefyd a byddant angen cymorth a chefnogaeth i roi eu bywydau yn ôl ar y trywydd iawn.

I welcome initiatives such as the Welsh Government's enhanced learning credit scheme for service leavers, which enables them to undertake higher level learning and gain qualifications in addition to those skills already gathered in the armed forces. Good partnership working between the Welsh Government, training providers, non-devolved bodies such as HM Prison Service and the Ministry of Defence, and other organisations will ensure that we do our best for our forces personnel.

Rwy'n croesawu mentrau fel cynllun credyd dysgu estynedig Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl sy'n gadael y lluoedd arfog, sy'n eu galluogi i ddysgu ar lefel uwch ac ennill cymwysterau ychwanegol at y sgiliau y maent wedi'u meithrin eisoes yn y lluoedd arfog. Bydd gweithio mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, darparwyr hyfforddiant, cyrff heb eu datganoli, megis y Gwasanaeth Carchardai a'r Weinyddiaeth Amddiffyn, a sefydliadau eraill yn sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau dros bersonél ein lluoedd arfog.

17:29 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Today is Armistice Day and it is, therefore, highly appropriate that we recognise the enormous debt we owe to those who are serving and have served in our armed forces on this day and all days.

Heddiw yw Diwrnod y Cadoediad ac felly, mae'n briodol iawn ein bod yn cydnabod y ddyled aruthrol sydd arnom i'r rhai sy'n gwasanaethu ac wedi gwasanaethu yn ein lluoedd arfog ar y diwrnod hwn a phob diwrnod.

Wales has a proud tradition of military service. There are nearly a 0.25 million armed forces veterans in Wales. These men and women have served their country with distinction, sometimes in the gravest of danger, and deserve the best help that can be provided when they leave the military and return to civilian life.

Mae gan Gymru draddodiad balch o wasanaeth milwrol. Ceir bron 0.25 miliwn o gyn-filwyr y lluoedd arfog yng Nghymru. Dynion a menywod yw'r rhain sydd wedi gwasanaethu eu gwlad yn anrhydeddus, weithiau gan wynebu'r perygl mwyaf, ac maent yn haeddu'r cymorth gorau y gellir ei ddarparu pan fyddant yn gadael y fyddin ac yn dychwelyd at fywyd sifil.

Leaving the military, often after a long period of service, presents former service personnel with many challenges. It often means having to relocate, move home, find new employment and undergo a change of lifestyle. Veterans can sometimes struggle to obtain information about the services available to them when returning to civilian life.

Mae gadael y fyddin, yn aml ar ôl cyfnod hir o wasanaeth, yn creu llawer o heriau i gyn-bersonél y lluoedd arfog. Mae'n aml yn golygu gorfod ail-leoli, symud cartref, dod o hyd i waith newydd a newid ffordd o fyw. Gall cyn-filwyr ei chael yn anodd weithiau i gael gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael wrth iddynt ddychwelyd at fywyd sifil.

This is why I support the establishment of an armed forces commissioner in Wales. The commissioner's role would be to promote the support available to veterans and those serving in the forces, thereby improving services and outcomes.

Dyna pam rwy'n cefnogi'r argymhelliad i sefydlu comisiynydd lluoedd arfog yng Nghymru. Rôl y comisiynydd fyddai hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i gyn-filwyr a'r rhai sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog, a thrwy hynny wella gwasanaethau a chanlyniadau.

17:30

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

17:30

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Gwnaf.

17:30

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wonder if the Member would agree with me that, as the armed forces are a reserved matter, it might be appropriate to lobby the UK Government to develop such a role for the whole of the UK.

Tybed a fyddai'r Aelod yn cytuno â mi, gan fod y lluoedd arfog yn fater a gadwyd yn ôl, gallai fod yn briodol lobïo Llywodraeth y DU i ddatblygu rôl o'r fath ar gyfer y DU gyfan.

17:30

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, basically, if you listen to me, Ms Parrott, we will come to this. The commissioner is needed to look after their interests.

Wel, yn y bôn, os gwrandewch arnaf, Ms Parrott, fe ddown at hyn. Mae angen y comisiynydd i ofalu am eu buddiannau.

This is vitally important in relation to the health and welfare of veterans. Health bodies need to be reminded of their obligation to offer priority treatment and care for veterans—those whose health problems result from their service, particularly in the field of mental health. Post-traumatic stress disorder is an anxiety disorder caused by experiencing stressful or distressing events in war and in action. Someone with PTSD will often relive the traumatic event through nightmares and flashbacks. They may experience feelings of isolation, irritability and guilt, in some cases leading to increased alcohol and drug misuse. The symptoms of mental health need to be recognised early, and greater support is required from the NHS in Wales.

Mae'n hanfodol bwysig o ran iechyd a lles cyn-filwyr. Mae angen atgoffa cyrff iechyd ynglŷn â'u rhwymedigaeth i gynnig triniaeth a gofal i gyn-filwyr—rhai y mae eu problemau iechyd yn deillio o'u gwasanaeth, yn enwedig ym maes iechyd meddwl. Mae anhwylder straen wedi trawma yn anhwylder pryder a achosir yn sgil profi digwyddiadau llawn straen neu drallodus mewn rhyfel ac wrth ymladd. Bydd rhywun sy'n dioddef o'r anhwylder yn aml yn ail-fyw'r digwyddiad trawmatig drwy hunllefau ac ôl-fflachiau. Efallai y byddant yn profi teimladau o unigedd, anniddigrwydd ac euogrwydd, gan arwain mewn rhai achosion at fwy o gamddefnyddio alcohol a chyffuriau. Mae angen adnabod symptomau anghenion iechyd meddwl yn gynnar, ac mae angen mwy o gefnogaeth gan y GIG yng Nghymru.

For many ex-military personnel, reintegrating with civilian life can be difficult. Too many veterans slip through the net of the welfare system. This can lead to homelessness and isolation, resulting in alcoholism, criminal activities or, in some cases, suicide. An armed forces commissioner would provide the first point of contract for veterans experiencing such problems and work with charities, local authorities and local boards to address these issues.

I lawer o gyn-filwyr, gall ailintegreiddio i fywyd sifil fod yn anodd. Mae gormod o gyn-filwyr yn llithro drwy rwyd y system les. Gall hyn arwain at ddigartrefedd ac unigrwydd, ac at alcoholiaeth, gweithgareddau troseddol neu mewn rhai achosion, hunanladdiad. Byddai comisiynydd lluoedd arfog yn darparu'r pwynt cyswllt cyntaf i gyn-filwyr sy'n dioddef problemau o'r fath ac yn gweithio gydag elusennau, awdurdodau lleol a byrddau lleol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

I would like to say a few words on the introduction of veteran cards. Under our proposals, such a card would offer a wide range of benefits, including free bus travel, free entry to council swimming pools and Cadw heritage sites. The Welsh Government stated in January 2014 that they would look into the value and viability of such a card. In March 2014, the Minister said she was committed to introducing such a card; however, no progress has been made since. This dithering by the Welsh Government is an insult to those brave servicemen and servicewomen to whom we owe so much. I believe that an armed forces card would reinforce the rights of veterans and help them reintegrate and play a full role in our society. I hope the Welsh Government will move speedily to introduce such a card as soon as possible.

Hoffwn ddweud ychydig eiriau ar gyflwyno cardiau i gyn-filwyr. O dan ein cynigion, byddai cerdyn o'r fath yn cynnig amrywiaeth eang o fudd-daliadau, gan gynnwys teithio ar fysiau am ddim, mynediad am ddim i byllau nofio cynghorau a safleoedd treftadaeth Cadw. Nododd Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2014 y byddent yn edrych ar werth a hyfywedd cerdyn o'r fath. Ym mis Mawrth 2014, dywedodd y Gweinidog ei bod yn ymrwymo i gyflwyno cerdyn o'r fath; fodd bynnag, nid oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud ers hynny. Mae llusgo traed o'r fath gan Lywodraeth Cymru yn sarhad ar y milwyr dewr rydym mor ddyledus iddynt. Rwy'n credu y byddai cerdyn i'r lluoedd arfog yn cryfhau hawliau cyn-filwyr ac yn eu helpu i ailintegreiddio a chwarae rhan lawn yn ein cymdeithas. Rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn symud yn gyflym i gyflwyno cerdyn o'r fath cyn gynted ag y bo modd.

Presiding Officer, I ask the National Assembly to support our motion today and commit to making Wales, in the words of Lloyd George, a land 'fit for heroes'. A final proposal that I would like to make to the Minister is: on one of the bank holidays in this part of the world, we should celebrate our Armed Forces Day and veteran days and let our country and our children know what they have done for us and how we have been living in the safest part of the world. Thank you.

Lywydd, gofynnaf i'r Cynulliad Cenedlaethol gefnogi ein cynnig heddiw ac ymrwymo i wneud Cymru, yng ngeiriau Lloyd George, yn wlad 'addas i arwyr'. Un cynnig terfynol yr hoffwn ei wneud i'r Gweinidog yw: ar un o'r gwyliau banc yn y rhan hon o'r byd, dylem ddathlu ein Diwrnod y Lluoedd Arfog a'n diwrnodau cyn-filwyr a gadael i'n gwlad a'n plant wybod beth y maent wedi'i wneud er ein mwyn a sut rydym wedi bod yn byw yn y rhan fwyaf diogel o'r byd. Diolch.

17:34

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n mawr obeithio y gallwn ni yn drawsbleidiol, y prynhawn yma, gytuno ei bod hi'n gyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, i sicrhau bod holl anghenion pobl sydd yn gadael y lluoedd arfog i ddychwelyd i'r gymdeithas 'civilian' yn cael eu cydnabod ac yn cael eu hateb. Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n gwneud y datganiad yma yn y Cynulliad a hefyd yn estyn y datganiad hwnnw i San Steffan ac i'r Llywodraeth yn y fan honno. A gaf i, wrth wneud hynny, gydnabod y gwaith a wnaeth Elfyn Llwyd dros 20 mlynedd fel Aelod Seneddol, yn codi'r materion hyn yn gyson yn San Steffan?

I greatly hope that, on a cross-party basis this afternoon, we can agree that it is a responsibility of the Welsh Government, in co-operation with the UK Government, to ensure that all the needs of people who leave the armed forces to return to civilian society are recognised and are met. I think that it is important that we make that statement in the Assembly and also extend that statement to Westminster and to the Government there. Can I, in doing so, acknowledge the work done by Elfyn Llwyd for 20 years, as Member of Parliament, raising these issues consistently in Westminster?

Mae Plaid Cymru yn anghytuno yn llwyr â'r syniad o sefydlu swydd arall o gomisiynydd i hyrwyddo'r materion yma. Mater i'r Llywodraeth yma yng Nghaerdydd ac yn San Steffan yw sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu hateb. Wrth gydnabod fod rhai pobl, wrth adael y lluoedd arfog, yn cael problemau i ailsefydlu eu hunain yn y gymdeithas ehangach, mae'n bwysig nad ydym ni'n creu darlun fod pob un sy'n gadael y lluoedd arfog yn faich ar gymdeithas. Nid yw hynny'n wir. Mae yna bobl yn gadael y lluoedd arfog gyda sgiliau. Un o'r pethau am y lluoedd arfog yw eu bod nhw'n cynnig prentisiaethau i bobl sy'n ymuno. Mae rhai ohonyn nhw'n ymuno heb unrhyw gymwysterau academaidd o'r ysgolion ac yn cael prentisiaethau arbennig o dda. Maen nhw'n gadael y lluoedd arfog â sgiliau arbennig. Maen nhw'n bobl sydd wedi byw bywyd disgybledig iawn, ac felly mae ganddynt sgiliau personol y maen nhw'n gallu eu cyflwyno i gymdeithas hefyd. Y peth pwysig yw ein bod ni'n manteisio ar y sgiliau yma ac yn cydnabod bod y bobl yma yn gallu cynnig cryn lawer i'n cymdeithas ni.

Plaid Cymru completely disagrees with the idea of establishing another commissioner to promote these issues. It is a matter for the Government here in Cardiff and in Westminster to ensure that these needs are met. In recognising that some people, in leaving the armed forces, do suffer problems to re-establish themselves in broader society, it is important that we don't give the impression that everyone who leaves the armed forces is a burden on society. That is not true. People leave the armed forces with skills. One of the things about the armed forces is that they offer apprenticeships to people who join up. Some of them join up without any academic qualifications from school and they receive excellent apprenticeships. They leave the armed forces with excellent skills. They are people who have lived very disciplined lives, and so they have excellent personal skills that they can also apply to society. It is important that we take advantage of those skills and recognise that those people can offer a great deal to our society.

Felly yn syml, gadewch inni gytuno mai cyfrifoldeb Llywodraeth yng Nghymru ac yn San Steffan yw ateb unrhyw anghenion sydd gan bobl sy'n gadael y lluoedd arfog i ymuno â'r gymdeithas ehangach. Ond gadewch inni hefyd ddathlu'r ffaith eu bod nhw yn cynnig i'n cymdeithas ehangach ni sgiliau arbennig iawn.

So, quite simply, let us agree that it is the responsibility of the Government in Wales and at Westminster to meet any needs that people may have when they leave the armed forces to join broader society. But let us also celebrate the fact that they do offer to our broader society some excellent skills.

Ni fyddwn ni'n cefnogi'r cynnig oherwydd ein bod ni'n anghytuno â'r alwad am gomisiynydd. Nid ydym ni cweit yn gallu clodfori Llywodraeth Lafur Cymru i'r graddau y maen nhw'n dymuno inni wneud yng ngwelliant 1, felly byddwn ni'n atal ein pleidlais ar y gwelliant hwnnw. Ond fe fyddwn ni'n cefnogi gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol.

We won't be supporting the motion because we disagree with the call for a commissioner. We can't quite praise the Welsh Labour Government to the extent that they want us to in amendment 1, therefore we will abstain in the vote on that amendment. However, we will be supporting the amendments of the Liberal Democrats.

17:37 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I feel very privileged to take part in this debate today that serves as a reminder to remember and honour our brave and selfless servicemen and servicewomen across Wales, past and present. It is only right that we do pay tribute to those who have sacrificed so much to secure and protect our country and our own freedoms. We must ensure that this is recognised in the improved provision of services and outcomes for our armed forces community.

Rwy'n teimlo'n freintiedig iawn i gymryd rhan yn y ddadl heddiw sy'n ein hatgoffa i gofio ac anrhydeddu ein milwyr dewr ac anhunanol ar draws Cymru, ddoe a heddiw. Nid yw ond yn iawn ein bod yn talu teyrnged i'r rhai sydd wedi aberthu cymaint i amddiffyn a diogelu ein gwlad a'n rhyddid ein hunain. Rhaid i ni sicrhau bod hyn yn cael ei gydnabod drwy ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau gwell i gymuned y lluoedd arfog.

There are 220,000 veterans and 8,000 regular and reservist personnel living in Wales. They make up a significant part of our local communities. Our proposals today recognise the vast and immense contribution that they make to Welsh society, have made previously, and still continue to do so today. The Welsh Conservatives are calling for an armed forces commissioner for Wales, as in Scotland, but dedicated to both veterans and the wider armed forces community in order to enable real engagement with communities, public services, charities, local authorities and our vital health boards, with the objective of improving outcomes and making recommendations to the Welsh Government.

Mae yna 220,000 o gyn-filwyr ac 8,000 o bersonél rheolaidd ac wrth gefn yn byw yng Nghymru. Maent yn rhan sylweddol o'n cymunedau lleol. Mae ein cynigion heddiw yn cydnabod y cyfraniad enfawr a helaeth y maent yn ei wneud i gymdeithas yng Nghymru, ac wedi'i wneud o'r blaen, ac yn parhau i wneud hynny heddiw. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn galw am gomisiynydd lluoedd arfog ar gyfer Cymru, fel yn yr Alban, ond ar gyfer cyn-filwyr a chymuned y lluoedd arfog ehangach fel ei gilydd er mwyn sicrhau ymgysylltiad go iawn gyda chymunedau, gwasanaethau cyhoeddus, elusennau, awdurdodau lleol a'n byrddau iechyd hanfodol, gyda'r nod o wella canlyniadau a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru.

I do acknowledge that local authorities have appointed armed forces community covenant champions, and this is to be applauded. However, eight out of ten people have never even heard of the armed forces covenant. Shockingly, veterans injured in service on or before 5 April 2015 have the majority of their compensation taken away from them when they do access social care. We believe that this is a breach of any covenant and has to change.

Rwy'n cydnabod bod awdurdodau lleol wedi penodi hyrwyddwyr cyfamod cymunedol y lluoedd arfog, ac mae hyn i'w ganmol. Fodd bynnag, nid yw wyth o bob deg o bobl wedi clywed am gyfamod y lluoedd arfog hyd yn oed. Mae'n frawychus fod cyn-filwyr a anafwyd ar wasanaeth ar neu cyn 5 Ebrill 2015 yn colli'r rhan fwyaf o'u hiawndal pan fyddant yn cael gofal cymdeithasol. Rydym yn credu bod hwn yn torri unrhyw gyfamod ac mae'n rhaid iddo newid.

The covenant needs to lead to tangible actions and outcomes. The Royal British Legion has called for practical and tangible policy changes to deliver outcomes in social housing, compensation payments, disabled facilities grants, and places for schoolchildren of military families. I was very pleased to see that, in England, there are now some local authorities that actually have reserved car parking spaces in certain areas, parks, supermarkets and out-of-town shopping developments for those who have previously served and are currently serving in the armed forces.

Mae angen i'r cyfamod arwain at gamau gweithredu a chanlyniadau diriaethol. Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol wedi galw am newidiadau polisi ymarferol a phendant i sicrhau canlyniadau ym maes tai cymdeithasol, taliadau iawndal, grantiau cyfleusterau i'r anabl, a lleoedd i blant ysgol o deuluoedd milwrol. Roeddwn yn falch iawn o weld bod rhai awdurdodau lleol yn Lloegr bellach wedi neilltuo mannau parcio ceir mewn lleoedd penodol, parciau, archfarchnadoedd a datblygiadau siopa ar gyrion y dref i rai sydd wedi gwasanaethu'n flaenorol neu sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd yn y lluoedd arfog.

A commissioner for Wales would represent the armed forces community in the same way that the older people's commissioner and children's commissioner represent their demographic groups, would raise awareness and understanding of these issues, as well as the support and services available to them. You can have support services in place, but not everybody knows how to navigate the very complex way around the systems. This awareness is vital across the board. Research shows 81 per cent of GPs know little or nothing about the rights of veterans to priority care. Furthering awareness, Welsh Conservatives have also long campaigned for the introduction of a veterans card, and this goes much further than the defence privilege card, to promote and enable participation in Welsh society. It would offer free bus travel, free entry to council swimming pools and free entry to Cadw heritage sites. It would emphasise the NHS priority care route available to those with service-related conditions. This, of course, touches on the point that Eluned mentioned about mental as well as physical health conditions. With approximately 4 per cent of veterans suffering from PTSD, that's around 10,000 here in Wales with a condition that can develop at any time after a traumatic event.

Byddai comisiynydd ar gyfer Cymru yn cynrychioli cymuned y lluoedd arfog yn yr un modd ag y mae'r comisiynydd pobl hŷn a'r comisiynydd plant yn cynrychioli eu grwpiau demograffig, byddai'n codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r materion hyn, yn ogystal â'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Gallwch gael gwasanaethau cymorth yn eu lle, ond nid yw pawb yn gwybod sut i ddod o hyd i'w ffordd drwy systemau sy'n gymhleth iawn. Mae ymwybyddiaeth o'r fath yn hanfodol ym mhob man. Mae ymchwil yn dangos nad yw 81 y cant o feddygon teulu yn gwybod fawr ddim, os o gwbl, am hawliau cyn-filwyr i ofal â blaenoriaeth. I hybu ymwybyddiaeth hefyd, mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi bod yn ymgyrchu'n hir dros gyflwyno cerdyn i gyn-filwyr, ac mae hwn yn mynd ymhellach o lawer na'r cerdyn braint amddiffyn, er mwyn hyrwyddo a galluogi cyfranogiad yn y gymdeithas yng Nghymru. Byddai'n cynnig teithiau bws am ddim, mynediad am ddim i byllau nofio cynghorau a mynediad am ddim i safleoedd treftadaeth Cadw. Byddai'n pwysleisio llwybr gofal â blaenoriaeth y GIG sydd ar gael i rai â chyflyrau sy'n gysylltiedig â'u gwasanaeth. Mae hyn, wrth gwrs, yn cyffwrdd ar y pwynt a grybwyllodd Eluned am gyflyrau iechyd meddwl yn ogystal chyflyrau iechyd corfforol. Gyda thua 4 y cant o gyn-filwyr yn dioddef o anhwylder straen wedi trawma, mae tua 10,000 o bobl yma yng Nghymru sydd â chyflwr a all ddatblygu ar unrhyw adeg yn dilyn digwyddiad trawmatig.

The Veterans' NHS Wales, a specialist mental health service for veterans, has seen 1,000 referrals since it was set up in 2010. Today we would like to call on the Welsh Government to ensure that tangible outcomes from this service are properly monitored and measured. How many referrals complete fully the treatment? What are the consequences of treatment? Welsh Government must also work to ensure that others suffering PTSD are not going under the radar. The cross-party group on armed forces and reserves has identified that funding for Veterans' NHS Wales remains well below that of England or Scotland, and the scheme requires an additional £500,000 to undertake all the work required.

Atgyfeiriwyd 1,000 o bobl at wasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr, gwasanaeth iechyd meddwl arbenigol i gyn-filwyr, ers ei sefydlu yn 2010. Heddiw, byddem yn hoffi galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod canlyniadau pendant o'r gwasanaeth hwn yn cael eu monitro a'u mesur yn gywir. Faint o'r bobl a atgyfeirir sy'n cwblhau triniaeth yn llawn? Beth yw canlyniadau triniaeth? Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithio hefyd i sicrhau nad yw pobl eraill sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma yn cael eu colli. Mae'r grŵp trawsbleidiol ar y lluoedd arfog a lluoedd wrth gefn wedi nodi bod cyllid ar gyfer gwasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr yn parhau i fod yn llawer is na'r hyn ydyw yn Lloegr neu'r Alban, ac mae'r cynllun angen £500,000 yn ychwanegol er mwyn gwneud yr holl waith angenrheidiol.

There must be outreach in Welsh prisons, specific outreach to female veterans, and support for families. Providing greater support for the families of service personnel and veterans can certainly help identify the symptoms of mental ill health earlier. Our veterans and armed forces personnel have given everything for us. It is time we fully recognised these sacrifices and repay what we can through dedicated support, service priority and Wales-wide benefits.

Rhaid sicrhau allgymorth mewn carchardai yng Nghymru, allgymorth penodol ar gyfer cyn-filwyr benywaidd, a chymorth i deuluoedd. Yn sicr, gall darparu mwy o gefnogaeth i deuluoedd y lluoedd arfog a chyn-filwyr helpu i nodi symptomau salwch meddwl yn gynharach. Mae ein cyn-filwyr a phersonél y lluoedd arfog wedi rhoi popeth i ni. Mae'n bryd i ni gydnabod eu haberth yn llawn ac ad-dalu'r hyn a allwn drwy gefnogaeth ymroddedig, blaenoriaethu gwasanaeth a manteision ledled Cymru.

17:42

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwyf yn benodol yn siarad ar gymal 1 o'r cynnig heddiw, ar bwysigrwydd y cofio. Rwy'n gwisgo pabi gwyn a phabi coch heddiw, ac rwy'n gwneud hynny i gydnabod y cam arwyddocaol a gymerwyd yn Aberystwyth ar Sul y Cofio eleni, lle gosodwyd torchau gwyn a choch ar y cyd. Ers 2004, mae Cyngor Tref Aberystwyth yn rhan o ddwy seremoni cofio; mae'r maer yn gosod torch goch yn seremoni'r Lleng Brydeinig ar Sul y Cofio, a hefyd mae'r cyngor tref yn gosod torch pabi wen mewn seremoni heddwch ar ddiwrnod gwahanol, sy'n cael ei drefnu gan rwydwaith heddwch Aberystwyth. Y llynedd, yn dilyn y seremoni pabi gwyn, fe ddifrodwyd y torchau gwyn mewn gweithred o fandaliaeth. Eleni, mewn gweithred o gyd-barch, cytunwyd rhwng y cyngor tref, y Lleng Brydeinig a'r rhwydwaith heddwch i gynnal un seremoni cofio lle gosodwyd torchau coch a gwyn ar y cyd ar y gofeb ar fore dydd Sul am 11 a.m.. Roedd yn wasanaeth urddasol, yn cynnwys pawb, ac yn cwmpasu'r amrywiaeth barn sydd gan wahanol bobl ar y weithred o gofio. Ond fe roedd pawb yn unedig wrth gofio'r golled aruthrol sy'n deillio o ryfela.

I am specifically speaking to clause 1 of today's motion on the importance of remembrance. I am wearing both a red and white poppy today, and I do that to acknowledge the significant step taken in Aberystwyth on Remembrance Sunday this year, where red and white wreaths were laid simultaneously. Since 2004, Aberystwyth Town Council has been part of two remembrance services; the mayor placing a red wreath in the British Legion ceremony on Remembrance Sunday, and the town council also placing a white poppy wreath on a different day in a different ceremony that is organised by the Aberystwyth peace network. Last year, following the white poppy ceremony, the white wreaths were damaged in an act of vandalism. This year, in an act of joint respect, the town council, the British Legion and the peace network decided to hold a single remembrance ceremony where red and white wreaths were laid simultaneously on the war memorial at 11 a.m. on Sunday morning. The ceremony included everybody and encompassed the variation of opinion that many people have on the act of remembrance. But everyone was united in remembering the huge losses that come about as a result of war.

Mae seremoni tref Aberystwyth, felly, yn cadarnhau bod y weithred o gofio yn eiddo i bawb. Beth bynnag yw barn unigolyn ar ryfela, ar filitariaeth, ar frenhiniaeth neu ar hunaniaeth a chenedlaetholdeb, nid ydym yn greaduriaid unffurf, unfarn. Rydym i gyd yn wleidyddion yma. Mae gennym i gyd amrywiol farn ar ryfeloedd y ganrif yma, ac ar ryfeloedd mawr y ganrif ddiwethaf. Rydym yn adlewyrchiad o'r amrywiol farn yn ein cymdeithas ni. Mae rhai pobl yn dewis gwisgo pabi coch, rhai un gwyn, rhai y ddau, a rhai dim un o gwbl. Mae rhai yn gwisgo eu pabi am fis a rhai yn gwisgo'r pabi am ddiwrnod yn unig. Ar Sul y Cofio, mae rhai pobl yn canu 'God Save the Queen', mae eraill yn canu 'Hen Wlad fy Nhadau', rhai yn canu'r ddwy anthem a rhai yn canu dim un anthem o gwbl. Mae rhai yn plygu'n isel wrth gofio a chyflwyno torch, ac mae rhai sydd ddim yn plygu cweit mor isel.

The ceremony in Aberystwyth confirms that the act of remembrance belongs to everyone. Whatever an individual's view may be on war, militarism, the monarchy or nationalism and identity, we are not uniform beings. We are all politicians here. We all have various opinions on the wars that have taken place this century, and the major wars of the last century. We are a reflection of the varying opinions in our society. Some people choose to wear a red poppy, some a white poppy, some both and some none at all. Some wear their poppy for a month, and some for just a day. On Remembrance Sunday, some people sing 'God Save the Queen', others sing 'Hen Wlad fy Nhadau', some sing both anthems and some sing none at all. Some bow deeply in remembrance and some don't bow quite as deeply.

Fe ddylem ymhyfrydu yn y ffaith bod pobl yn cofio colled rhyfel mewn ffyrdd gwahanol ac o bersbectif a chyda barn wahanol. Yr amrywiaeth yma yw cryfder ein cymdeithas ni, nid ei wendid na'i warth. Rwy'n falch iawn o gynrychioli tref Aberystwyth yn y Cynulliad yma bob dydd o'r wythnos, ond fe oeddwn yn arbennig o falch o gynrychioli tref Aberystwyth ddydd Sul y Cofio eleni.

We should take pride in the fact that people do commemorate war in different ways and from different perspectives and different opinions. This diversity is the strength of our society, not its weakness or its disgrace. I'm very pleased to represent the town of Aberystwyth in this Assembly every day of the week, but I was particularly proud to represent Aberystwyth on Remembrance Sunday this year.

17:44

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Minister for Public Services to speak on behalf of the Government—Leighton Andrews.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i siarad ar ran y Llywodraeth—Leighton Andrews.

17:45

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, 70 years ago, my father, like thousands of others—

Lywydd, 70 mlynedd yn ôl, roedd fy nhad, fel miloedd o rai eraill—

17:45

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I'm sorry, could we—[Inaudible.]

Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, a gawn ni—[Anghlywadwy.]

17:45

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'll start that again, Llywydd.

Fe ddechreuaf eto, Lywydd.

17:45

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, if you would.

Ie, os gwnewch chi.

17:45

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, 70 years ago, my father, like thousands of others, having landed the year before on the D-day beaches, was serving in Germany as part of the army of liberation; indeed, he didn't return to south Wales until 1946, again like thousands of others. We all have relatives who've served, and it is right that, today, we honour the memory of the fallen and also of our surviving veterans.

Lywydd, 70 mlynedd yn ôl, roedd fy nhad, fel miloedd o bobl eraill, ar ôl glanio y flwyddyn cynt ar draethau D-day, yn gwasanaethu yn yr Almaen fel rhan o fyddin y rhyddhau; yn wir, ni ddychwelodd i dde Cymru hyd 1946, eto fel miloedd o bobl eraill. Mae gennym i gyd berthnasau sydd wedi gwasanaethu, ac mae'n iawn ein bod ni, heddiw, yn anrhydeddu'r cof am y rhai a laddwyd, a'n cyn-filwyr sydd wedi goroesi hefyd.

Last week, in Plenary, I set out the Welsh Governments' support for the armed forces community in Wales. Good progress is being made across all areas of Wales in supporting our armed forces community, and I believe that if we continue to work collaboratively with our partners, sharing resources and best practice, we will build on this success.

Yr wythnos diwethaf, yn y Cyfarfod Llawn, nodais gefnogaeth Llywodraeth Cymru i gymuned y lluoedd arfog yng Nghymru. Gwneir cynnydd da ym mhob ardal o Gymru o ran cefnogi cymuned y lluoedd arfog, ac rwy'n credu, os parhawn i weithio gyda'n partneriaid gan rannu adnoddau ac arferion gorau, y byddwn yn adeiladu ar y llwyddiant hwn.

I welcome point 1 of the motion, which recognises the courage and bravery of those who've sacrificed their lives to secure and protect our freedom; they should never be forgotten. We will continue to commemorate those who made the ultimate sacrifice. Events have, of course, been taking place across Wales today in honour of those who have fought for their country. Cadw sites will be marking the occasion with free entry for the armed forces and veterans today.

Rwy'n croesawu pwynt 1 y cynnig, sy'n cydnabod dewrder y rhai a aberthodd eu bywydau i sicrhau a diogelu ein rhyddid; ni ddylent byth gael eu hanghofio. Byddwn yn parhau i goffáu'r rhai a wnaeth yr aberth eithaf. Mae digwyddiadau wedi'u cynnal ledled Cymru heddiw, wrth gwrs, i anrhydeddu'r rhai a ymladdodd dros eu gwlad. Bydd safleoedd Cadw yn nodi'r achlysur drwy gynnig mynediad am ddim i'r lluoedd arfog a chyn-filwyr heddiw.

The Welsh Government continues to commemorate the centenary of the first world war through its Cymru'n Cofio Wales Remembers: 1914-1918 programme. This year of course we mark the centenary of the first world war at the battle of Gallipoli. Next year, we will mark the centenary of the battle of the Somme, and, in particular, the battle of Mametz Wood; we will work with our partner organisations to ensure an appropriate national commemoration.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i goffáu canmlwyddiant y rhyfel byd cyntaf drwy ei rhaglen Cymru'n Cofio: 1914-1918. Eleni, wrth gwrs, rydym yn nodi canmlwyddiant brwydr Gallipoli yn y rhyfel byd cyntaf. Y flwyddyn nesaf, byddwn yn nodi canmlwyddiant brwydr y Somme, ac yn benodol, brwydr Mametz Wood; byddwn yn gweithio gyda'n sefydliadau partner i sicrhau coffâd cenedlaethol priodol.

I also support the second point in the motion. In taking forward our devolved commitments, the Welsh Government will continue to support the armed forces covenant. The package of support reflects our moral obligation to ensure that members of the armed forces and their families are not disadvantaged because of their life in the forces. We are working collaboratively with our partners to ensure the armed forces community receives the support it is entitled to and also to raise awareness of their needs.

Rwyf hefyd yn cefnogi'r ail bwynt yn y cynnig. Wrth fwrw ymlaen â'n hymrwymiadau datganoledig, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi cyfamod y lluoedd arfog. Mae'r pecyn cymorth yn adlewyrchu ein rhwymedigaeth foesol i sicrhau nad yw aelodau o'r lluoedd arfog a'u teuluoedd dan anfantais oherwydd eu bywydau yn y lluoedd arfog. Rydym yn cydweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod cymuned y lluoedd arfog yn cael y cymorth y mae ganddi hawl iddo ac i godi ymwybyddiaeth o'u hanghenion.

But I oppose point 3 of the original motion regarding the establishment of an armed forces commissioner. Members of my expert group recently met the Scottish Veterans Commissioner and have reported back to me. We are considering the lessons learnt and the potential added value from the appointment of the Scottish Veterans Commissioner, but we are not yet persuaded that there is a case for such a commissioner in Wales.

Ond rwy'n gwrthwynebu pwynt 3 y cynnig gwreiddiol o ran sefydlu comisiynydd lluoedd arfog. Yn ddiweddar cyfarfu aelodau o fy ngrŵp arbenigol â Chomisiynydd Cyn-filwyr yr Alban ac maent wedi cyflwyno adroddiad i mi. Rydym yn ystyried y gwersi a ddysgwyd a gwerth ychwanegol posibl penodi Comisiynydd Cyn-filwyr yr Alban, ond nid ydym wedi ein hargyhoeddi eto fod yna achos dros gael comisiynydd o'r fath yng Nghymru.

We oppose sub-point 4(a) on a veterans card. My expert group considered options for a veterans identity card and concluded that the value of such a card would be limited. It was agreed, therefore, to publicise and promote the existing defence privilege card as the preferred option.

Rydym yn gwrthwynebu is-bwynt 4(a) ynglŷn â cherdyn i gyn-filwyr. Ystyriodd fy ngrŵp arbenigol opsiynau ar gyfer cael cerdyn adnabod i gyn-filwyr a daeth i'r casgliad y byddai gwerth cerdyn o'r fath yn gyfyngedig. Felly, cytunwyd i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cerdyn braint amddiffyn sy'n bodoli'n barod fel yr opsiwn gorau.

I also oppose point 4(b) of the original motion, as my expert group provides me with advice and expertise in relation to the needs of the armed forces community. It brings together people with detailed knowledge of issues that affect the service community to improve our understanding of their needs and develop ways in which to tailor services to meet those needs.

Rwyf hefyd yn gwrthwynebu pwynt 4(b) y cynnig gwreiddiol, gan fod fy ngrŵp arbenigol yn darparu cyngor ac arbenigedd i mi mewn perthynas ag anghenion cymuned y lluoedd arfog. Mae'n dod â phobl ynghyd sydd â gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r materion sy'n effeithio ar gymuned y lluoedd arfog er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'u hanghenion a datblygu ffyrdd o deilwra gwasanaethau i ateb yr anghenion hynny.

I agree with sub-point 4(c) of the motion. Members will be aware of the social care disregard campaign by the Royal British Legion. Currently, the first £10 a week of a war disablement pension is disregarded in the financial assessment. I am pleased to confirm that the Minister for Health and Social Services has today announced that from April 2016 a higher disregard of £25 a week will be introduced. Depending on the financial circumstances, it is the intention that the level of disregard will be increased further, incrementally, over the next Assembly term.

Rwy'n cytuno ag is-bwynt 4(c) y cynnig. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o ymgyrch y Lleng Brydeinig Frenhinol yn galw am ddiystyru gofal cymdeithasol. Ar hyn o bryd, nid yw'r asesiad ariannol ond yn diystyrru'r £10 cyntaf yr wythnos o bensiwn anabledd rhyfel. Rwy'n falch o gadarnhau bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyhoeddi heddiw y bydd swm uwch o £25 yr wythnos yn cael ei ddiystyru o fis Ebrill 2016. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau ariannol, y bwriad yw y bydd y lefel ddiystyru yn cael ei chodi eto, yn raddol, dros dymor nesaf y Cynulliad.

We have proposed an amendment welcoming the establishment of armed forces community covenant champions in each local authority. We have ensured that all 22 local authorities in Wales have signed a community covenant and that all local health boards in Wales have covenant champions in place—positive steps that confirm their commitment to the armed forces community. The champions meet biannually to share good practice and explore ways in which we can work collaboratively.

Rydym wedi cynnig gwelliant sy'n croesawu camau i sefydlu hyrwyddwyr cyfamod cymunedol y lluoedd arfog ym mhob awdurdod lleol. Rydym wedi sicrhau bod pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi llofnodi cyfamod cymunedol a bod gan bob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru hyrwyddwyr y cyfamod ar waith— camau cadarnhaol sy'n ategu eu hymrwymiad i gymuned y lluoedd arfog. Mae'r hyrwyddwyr yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i rannu arferion da ac i archwilio ffyrdd y gallwn weithio ar y cyd.

Our amendment on the defence privilege card recognises the success of this joint initiative with the Ministry of Defence. The card provides serving and ex-serving personnel and their families with discounts in retail and leisure. The campaign has been highly successful in Wales, with an increase of 61 per cent compared to 24 per cent in the rest of the UK, with over 15,000 members using the card in Wales.

Mae ein gwelliant ar y cerdyn braint amddiffyn yn cydnabod llwyddiant y fenter hon ar y cyd â'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'r cerdyn yn darparu gostyngiadau mewn siopau a chyfleusterau hamdden i bersonél sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr a'u teuluoedd. Mae'r ymgyrch wedi bod yn hynod lwyddiannus yng Nghymru, gyda chynnydd o 61 y cant o'i gymharu â 24 y cant yng ngweddill y DU, gyda thros 15,000 o aelodau'n defnyddio'r cerdyn yng Nghymru.

Finally, I come to our amendment on the refreshed package of support for the armed forces. We are reviewing our package of support to include a number of new and developing commitments, both within Welsh Government policy areas and partner organisations. I will be considering the reviewed package of support following the outcome of the comprehensive spending review. This will set out our continued commitment across ministerial portfolios. I want to thank 160 Brigade and others for their development of the signposting document for the package.

Yn olaf, dof at ein gwelliant ar y pecyn newydd o gymorth i'r lluoedd arfog. Rydym yn adolygu ein pecyn cymorth i gynnwys nifer o ymrwymiadau newydd a rhai sydd yn y broses o gael eu datblygu, o fewn meysydd polisi Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner. Byddaf yn ystyried y pecyn cymorth a adolygwyd yn dilyn canlyniad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Bydd hwn yn nodi ein hymrwymiad parhaus ar draws portffolios y Gweinidogion. Hoffwn ddiolch i Frigâd 160 ac eraill am eu gwaith yn datblygu'r ddogfen gyfeirio ar gyfer y pecyn.

We oppose the first Liberal Democrat amendment on a veterans card, which I've already referred to. We can, however, support their second amendment, and will work with the UK Government to ensure veterans receive proper compensation for mesothelioma. We also support the Welsh Liberal Democrats' amendment concerning Change Step and mental health service funding. Peer-mentoring advice and support such as this can be invaluable, and the Welsh Government is currently in the process of establishing a new peer-mentoring programme. We can be proud of Veterans' NHS Wales, as it is the only service of its kind in the UK.

Gwrthwynebwn welliant cyntaf y Democratiaid Rhyddfrydol ar gerdyn i gyn-filwyr, fel y dywedais eisoes. Fodd bynnag, gallwn gefnogi eu hail welliant, a byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod cyn-filwyr yn cael iawndal mesothelioma priodol. Rydym hefyd yn cefnogi gwelliant Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar Newid Cam a chyllid i'r gwasanaeth iechyd meddwl. Gall cyngor mentora gan gymheiriaid o'r math hwn fod yn amhrisiadwy, ac mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn y broses o sefydlu rhaglen newydd o fentora gan gymheiriaid. Gallwn fod yn falch o wasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr, gan mai dyma'r unig wasanaeth o'i fath yn y DU.

Llywydd, we will continue to work collaboratively with our partners and across ministerial portfolios to support and provide services that meet the needs of the armed forces community in Wales.

Lywydd, byddwn yn parhau i gydweithio gyda'n partneriaid ac ar draws portffolios y Gweinidogion i gefnogi a darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion cymuned y lluoedd arfog yng Nghymru.

17:51

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Darren Millar to reply to the debate.

Galwaf ar Darren Millar i ymateb i'r ddadl.

17:51

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I'm very pleased to be wrapping this debate up today. I think that all of the contributions, even though there have been some disagreements, have been very thoughtful contributions and it's entirely appropriate that we're having this debate, of course, on this Armistice Day. The Minister and others have noted a number of important anniversaries this year, and I think that we do a great disservice to people unless we take the opportunity to reflect on those in this Assembly Chamber on an annual basis, and I was hugely impressed by the number of people who turned up to the event today at 11 o'clock here in the Senedd.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n falch iawn o gael cloi'r ddadl hon heddiw. Credaf fod pob un o'r cyfraniadau, er y bu peth anghytuno, wedi bod yn ystyriol iawn ac mae'n gwbl briodol ein bod yn cael y ddadl hon, wrth gwrs, ar Ddiwrnod y Cadoediad. Mae'r Gweinidog ac eraill wedi nodi nifer o ddyddiadau pwysig eleni, ac rwy'n meddwl y byddem yn gwneud cam mawr â phobl oni bai ein bod yn manteisio ar y cyfle i fyfyrio ar y rhain yn Siambr y Cynulliad yn flynyddol, ac roeddwn yn falch iawn o weld cymaint o bobl a ddaeth i'r digwyddiad heddiw am 11 o'r gloch yma yn y Senedd.

I have to say that, on all sides of the Chamber, I think there's been lots of agreement here, and I want to focus on the agreement, if I can, first of all. I think we have come on leaps and bounds as a nation in terms of the support that we offer to the armed forces here in Wales. We have some excellent joint working between Government here in Cardiff bay and local government, and, indeed, the third sector, which has helped to deliver on that—and it's been marvellous to hear so many references to organisations such as the Royal British Legion, CAIS, which is operating the Change Step and Listen In programmes, to the Defence Medical Welfare Service, to SSAFA and to many other organisations that are out there providing support to the armed forces family in a terrific way—and, of course, to Alabaré, which is promoting supported housing and providing supported housing to veterans across Wales. I think it's wonderful that we have that success, which we can build on with further success in the future.

Mae'n rhaid i mi ddweud, ar bob ochr i'r Siambr, rwy'n meddwl bod yna lawer o gytundeb wedi bod, ac rwyf am ganolbwyntio ar y cytundeb yn gyntaf oll, os caf. Rwy'n meddwl ein bod wedi datblygu o nerth i nerth fel cenedl o ran y cymorth a gynigiwn i'r lluoedd arfog yma yng Nghymru. Mae gennym gydweithio ardderchog rhwng y Llywodraeth yma ym mae Caerdydd a llywodraeth leol, ac yn wir, y trydydd sector, sydd wedi helpu i gyflawni hynny—ac mae wedi bod yn wych clywed cymaint o gyfeiriadau at sefydliadau fel y Lleng Brydeinig Frenhinol, CAIS, sy'n gweithredu rhaglenni Newid Cam a Gwrando, Gwasanaeth Lles Amddiffyn Meddygol, Cymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd a llawer o sefydliadau eraill sy'n darparu cefnogaeth i deuluoedd y lluoedd arfog mewn ffordd ardderchog—ac wrth gwrs, Alabaré, sy'n hyrwyddo tai â chymorth ac yn darparu tai â chymorth i gyn-filwyr ar draws Cymru. Rwy'n credu bod y llwyddiant hwnnw'n wych, a gallwn adeiladu arno gyda llwyddiant pellach yn y dyfodol.

We, of course, also have seen the establishment here in Wales of the Veterans' NHS Wales service, something that has been supported on all sides of the Chamber, and it's been terrific to see that service up and running now, and also that it's passed that important milestone of engaging with over 1,000 veterans to date in terms of the services that have been provided. It's also been very good, of course, to note that there has been a greater focus, as Jeff Cuthbert has suggested, on needing to engage with veterans in the criminal justice system as a result of the devolved powers that we have in the fields of education and health, and needing to step up that in order that we can support those people who need extra support with rehabilitation because of their service history. I was also pleased that Rhodri Glyn Thomas, of course, made specific reference to the fact that not everybody leaves the services with problems. Many people leave with a wealth of experience and knowledge that they can then apply to the benefit of wider society, either in the workplace or in other ways.

Wrth gwrs, rydym hefyd wedi gweld sefydlu gwasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr yma yng Nghymru, ac mae'n rhywbeth a gefnogwyd ar bob ochr i'r Siambr, ac mae wedi bod yn wych gweld y gwasanaeth ar waith erbyn hyn, a'i fod hefyd wedi pasio carreg filltir bwysig o fod wedi ymwneud â thros 1,000 o gyn-filwyr hyd yma o ran y gwasanaethau a ddarparwyd. Mae hefyd wedi bod yn dda iawn nodi, wrth gwrs, y bu mwy o ffocws, fel y mae Jeff Cuthbert wedi awgrymu, ar yr angen i ymgysylltu â chyn-filwyr yn y system cyfiawnder troseddol yn sgil y pwerau datganoledig sydd gennym ym meysydd addysg ac iechyd, a'r angen i gynyddu'r gweithgarwch hwnnw, er mwyn i ni allu cefnogi'r bobl sydd angen cymorth ychwanegol gydag adsefydlu oherwydd eu hanes yn gwasanaethu gyda'r lluoedd arfog. Roeddwn hefyd yn falch fod Rhodri Glyn Thomas, wrth gwrs, wedi cyfeirio'n benodol at y ffaith nad oes problemau gan bawb sy'n gadael y lluoedd arfog. Mae llawer o bobl yn gadael gyda chyfoeth o brofiad a gwybodaeth y gallant eu defnyddio wedyn er budd y gymdeithas ehangach, naill ai yn y gweithle neu mewn ffyrdd eraill.

But there were, of course, some disagreements also on some sides of the Chamber. You heard lots of references from the Conservative benches to our proposals for a dedicated armed forces card, which goes much further than the commitment that the Welsh Government has to the defence privilege card scheme that operates, of course, on a UK-wide basis. We think that the establishment of a specific armed forces card scheme here in Wales would go another further step to rewarding and recognising the service of people to our nation in a very small way, but an important way, which says that Wales pays an even greater debt to those individuals who have given so much for our country. I would urge the Minister just to reconsider what he said. We welcome some of the news in terms of the opening up of Cadw sites for free today, but why shouldn't they be free all year round, frankly? Why shouldn't people be able to access some of these privileges—in terms of free bus transport for the armed forces community, too? Why shouldn't there be a greater recognition within the health service also to uphold that commitment to priority treatment for service-related injuries?

Ond wrth gwrs, cafwyd peth anghytuno hefyd mewn rhai rhannau o'r Siambr. Fe glywoch lawer o gyfeiriadau o feinciau'r Ceidwadwyr at ein cynigion ar gyfer cerdyn lluoedd arfog penodol, sy'n mynd yn llawer pellach na'r ymrwymiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i'r cynllun cerdyn braint amddiffyn sy'n gweithredu ar sail y DU gyfan wrth gwrs. Rydym yn credu y byddai sefydlu cynllun cerdyn lluoedd arfog penodol yma yng Nghymru yn mynd gam ymhellach eto i wobrwyo a chydnabod gwasanaeth pobl i'n cenedl mewn ffordd fach iawn, ond mewn ffordd bwysig, sy'n dweud bod Cymru yn talu dyled hyd yn oed yn fwy i'r unigolion sydd wedi rhoi cymaint dros ein gwlad. Byddwn yn annog y Gweinidog i ailystyried yr hyn a ddywedodd. Rydym yn croesawu peth o'r newyddion o ran agor safleoedd Cadw am ddim heddiw, ond pam na ddylent fod yn rhad ac am ddim drwy gydol y flwyddyn, a dweud y gwir? Pam na ddylai pobl allu gwneud defnydd o rai o'r breintiau hyn—o ran teithiau bws am ddim i gymuned y lluoedd arfog hefyd? Pam na ddylai fod mwy o gydnabyddiaeth yn y gwasanaeth iechyd hefyd i gynnal yr ymrwymiad hwnnw i flaenoriaethu triniaeth ar gyfer anafiadau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth yn y lluoedd arfog?

There's also been some disagreement on whether there's a need for an armed forces commissioner for Wales, and I listened to Eluned Parrott's comments and the comments of Rhodri Glyn Thomas on this. But let's not forget, the veterans commissioner model in Scotland does appear to be paying some dividends there in terms of bringing together a greater focus across Government and across the public sector on the support in those devolved areas that can be provided to the veteran community. We want to see that sort of focus, and we believe that a commissioner can bring that focus if there's that independent role that they can play. So, let's not throw the baby out with the bath water. I was pleased to hear that the Minister's actually having a look at the model in Scotland, seeing whether something can be extended in Wales, and I look forward to hearing more on that in the future.

Hefyd, cafwyd rhywfaint o anghytundeb ynghylch yr angen am gomisiynydd lluoedd arfog i Gymru, a gwrandewais ar sylwadau Eluned Parrott a Rhodri Glyn Thomas ar hyn. Ond gadewch i ni beidio ag anghofio, mae model y comisiynydd cyn-filwyr yn yr Alban i'w weld yn talu am ei le yno o ran sicrhau ffocws gwell ar draws y Llywodraeth ac ar draws y sector cyhoeddus ar y cymorth yn y meysydd datganoledig y gellir ei ddarparu i gymuned y cyn-filwyr. Rydym am weld y math hwnnw o ffocws, ac rydym yn credu y gall comisiynydd ei sicrhau os oes yna rôl annibynnol y gallant ei chwarae. Felly, peidiwch â gadael i ni luchio'r babi gyda'r dŵr. Roeddwn yn falch o glywed bod y Gweinidog wedi cael golwg ar y model yn yr Alban mewn gwirionedd, i weld a ellid ei ymestyn yma yng Nghymru, ac edrychaf ymlaen at glywed mwy am hynny yn y dyfodol.

Time doesn’t permit me to make reference to the war memorial points that were raised earlier on in the debate in terms of the Aberystwyth situation and the desecration of some war memorials. But I will say this: where we agree, I think we need to continue to build on the success that we’ve seen here in Wales. I do hope that Members will reflect on these two important steps: the establishment of a commissioner role and the armed forces card as something that we can do that puts us in the lead, as it were, across the UK on these issues. Thank you very much indeed.

Nid yw amser yn caniatáu i mi gyfeirio at y pwyntiau ar y cofebion rhyfel a wnaed yn gynharach yn y ddadl o ran sefyllfa Aberystwyth a difrodi cofebion rhyfel. Ond fe ddywedaf hyn: lle rydym yn cytuno, rwy’n credu bod angen i ni barhau i adeiladu ar y llwyddiant a welsom yma yng Nghymru. Rwy’n gobeithio y bydd yr Aelodau’n ystyried y ddau gam pwysig hwn, sefydlu rôl comisiynydd a cherdyn y lluoedd arfog, fel pethau y gallwn eu gwneud sy’n ein rhoi ar y blaen, fel petai, ar draws y DU ar y materion hyn. Diolch yn fawr iawn yn wir.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i’r Gadair.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair.*

17:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection]. I defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad]. Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# 7. Dadl Plaid Cymru: Costau Gofal Plant

*Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts.*

# 4. Plaid Cymru Debate: Childcare Costs

*The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts.*

17:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Item 7 is the Plaid Cymru debate on childcare costs and I call on Simon Thomas to move the motion.

Eitem 7 yw dadl Plaid Cymru ar gostau gofal plant a galwaf ar Simon Thomas i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5870 Elin Jones

Motion NDM5870 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod costau gofal plant yng Nghymru ymhlith y drutaf yn y byd datblygedig;

1. Notes that childcare costs in Wales are amongst the most expensive in the developed world;

2. Yn nodi bod teuluoedd yng Nghymru yn cael llai o ofal plant am ddim na'u cymheiriaid yn Lloegr a'r Alban;

2. Notes that families in Wales receive less free childcare than their counterparts in England and Scotland;

3. Yn cydnabod pwysigrwydd addysg gynnar i godi cyrhaeddiad disgyblion difreintiedig;

3. Recognises the importance of early education to raising the attainment of disadvantaged pupils;

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnig darpariaeth gyson o ofal plant am ddim ac addysg gynnar ledled Cymru.

4. Calls upon the Welsh Government to provide a consistent amount of free childcare and early education throughout Wales.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:57

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. We’ve just had a very sober and thought-provoking debate and I hope that this debate will continue in that vein as we turn now to look at how we can support our youngest citizens in early childhood education and care.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rydym newydd gael dadl sobr a meddylgar iawn ac rwy’n gobeithio y bydd y ddadl hon yn parhau yn yr un ysbryd wrth i ni droi yn awr i edrych ar sut y gallwn gefnogi ein dinasyddion ieuengaf mewn addysg a gofal blynyddoedd cynnar i blant.

Plaid Cymru, in bringing this debate, is working very much from the principle that children should have the best possible start in life, and that all children in Wales have the right to the highest quality of early childhood education and care, no matter what their needs or the family's background, financial position or, indeed, what their location may be. In this regard, although the Welsh Government has done much to improve the situation, the provision is patchy, particularly as regards location. Given the evidence of the importance of early education in affecting outcomes also and in bridging the educational attainment gap for children from more deprived communities, there's clearly a place for leadership from the Government in setting standards and ensuring provision. But we also believe that this should be a mixed provision, particularly when we deal with a mix of education and care, and that many voluntary providers, private providers themselves, practitioners and parents of children, can all contribute to this mix. But what's important is that we have uniform standards. In that regard, of course, there is a bit of a conflict at the moment in Wales, and we will be talking very much in this debate about early years education and childcare being one, coherent package, as the child doesn't recognise the difference between education and care when they're three or four, or that age. However, the Government and, indeed, ourselves as an Assembly in the way we scrutinise these policies do differentiate between care and education and that reflects in the different regulatory and inspection regimes that pertain. One of our points in this debate is to bring this together in a more coherent way.

Wrth gyflwyno'r ddadl hon, mae Plaid Cymru yn gweithio i raddau helaeth iawn o'r egwyddor y dylai plant gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd, a bod gan bob plentyn yng Nghymru yr hawl i addysg a gofal blynyddoedd cynnar o'r ansawdd uchaf, ni waeth beth yw eu hangen neu gefndir y teulu, sefyllfa ariannol y teulu neu'n wir, eu lleoliad. Yn hyn o beth, er bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer i wella'r sefyllfa, mae'r ddarpariaeth yn dameidiog, yn enwedig o ran lleoliad. O ystyried y dystiolaeth am bwysigrwydd addysg gynnar yn effeithio ar ganlyniadau hefyd ac yn pontio'r bwlch cyrhaeddiad addysgol ar gyfer plant o gymunedau mwy difreintiedig, mae'n amlwg fod lle i'r Llywodraeth ddangos arweiniad wrth osod safonau a sicrhau darpariaeth. Ond rydym hefyd yn credu y dylai hon fod yn ddarpariaeth gymysg, yn enwedig pan fyddwn yn ymdrin â chymysgedd o addysg a gofal, ac y gall llawer o ddarparwyr gwirfoddol, darparwyr preifat eu hunain, addysgwyr a rhieni plant gyfrannu at y cymysgedd hwn. Ond yr hyn sy'n bwysig yw bod gennym safonau unffurf. Yn hynny o beth, wrth gwrs, mae yna dipyn o wrthdaro ar hyn o bryd yng Nghymru, a byddwn yn siarad cryn dipyn yn y ddadl hon am addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant fel un pecyn cydlynol, gan nad yw'r plentyn yn adnabod y gwahaniaeth rhwng addysg a gofal pan fyddant yn dair neu'n bedair oed, neu oedran tebyg. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth ac yn wir, ni ein hunain fel Cynulliad yn y ffordd rydym yn craffu ar y polisïau hyn, yn gwahaniaethu rhwng gofal ac addysg, ac mae hynny i'w weld yn y gwahanol weithdrefnau rheoleiddio ac arolygu perthnasol. Un o'n pwyntiau yn y ddadl hon yw dod â hyn at ei gilydd mewn ffordd fwy cydlynol.

Currently, a three-year old in Wales will be most likely receiving an entitlement of, at minimum, 10 hours per week of early years' education, which will be usually part-time in a school nursery class. But if their main carer, who's most commonly still the mother, works full-time or part-time, they might be cared for in addition to these 10 hours by a child minder for the rest of the day and, of course, during school holidays. Firstly, it's not ideal that a child changes settings during the day and I think those of us who've had young children in these settings will know the disturbance that can happen when you take a child from a child minder to school and vice versa.

Ar hyn o bryd, yn ôl pob tebyg bydd plentyn tair oed yng Nghymru â hawl i o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg y blynyddoedd cynnar, a bydd hyn yn digwydd ar sail ran-amser mewn dosbarth meithrin mewn ysgol fel arfer. Ond os yw eu prif ofalwr, sef y fam yn fwyaf arferol o hyd, yn gweithio amser llawn neu'n rhan-amser, efallai y byddant yn derbyn gofal, yn ychwanegol at y 10 awr hon, gan warchodwr plant am weddill y dydd ac wrth gwrs, yn ystod gwyliau ysgol. Yn gyntaf, nid yw'n ddelfrydol fod plentyn yn newid lleoliadau yn ystod y dydd ac rwy'n meddwl y bydd rhai ohonom sydd wedi cael plant ifanc yn y lleoliadau hyn yn gwybod am yr aflonyddwch a all ddigwydd pan fyddwch yn mynd â phlentyn o ofal gwarchodwr plant i'r ysgol ac fel arall.

Secondly, within the current system, it's assumed, as I said, that the school is providing the education, while the child minder or a nursery setting is providing mainly care, yet that distinction is not visible to the child and, indeed, I think is rather undermining of what we want to achieve in early years intervention. So, all within the sector, I think, would agree that we want quality in our early years settings and that children cannot learn without being cared for and cannot really be cared for without being introduced, at least, to learning. With education and care subject to the different quality standards, as I said, different child-adult ratios and with different qualifications pertaining, there is a need to have a more uniform approach in the early years.

Yn ail, yn y system bresennol, rhagdybir, fel y dywedais, fod yr ysgol yn darparu addysg, a'r gwarchodwr plant neu'r lleoliad meithrin yn darparu gofal yn bennaf, ac eto nid yw'r gwahaniaeth hwn yn weladwy i'r plentyn ac yn wir, rwy'n meddwl ei fod yn tanseilio ychydig ar yr hyn rydym am ei gyflawni drwy ymyrryd yn y blynyddoedd cynnar. Felly, byddai pawb yn y sector, rwy'n meddwl, yn cytuno ein bod am weld ansawdd yn ein lleoliadau blynyddoedd cynnar ac na all plant ddysgu heb gael gofal ac ni allant gael gofal mewn gwirionedd heb gael eu cyflwyno i ddysgu o leiaf. Gydag addysg a gofal yn ddarostyngedig i wahanol safonau ansawdd, fel y dywedais, a gwahanol gymarebau plant-oedolion a chymwysterau gwahanol ynghlwm wrth y naill a'r llall, mae angen cael dull mwy unffurf o weithredu yn y blynyddoedd cynnar.

So, the challenge is to build structures that do not divide early education and childcare. An effective early years system should aim to care for and educate children from birth, and many countries and practitioners around the world have fought long and hard to remove that distinction. We saw in the recent Save the Children report 'Ready to Read' just how important it is that we have our young children school-ready and ready to read, and that is the job not just of 10 hours' nursery education, but of the whole childcare sector.

Felly, yr her yw adeiladu strwythurau nad ydynt yn rhannu addysg gynnar a gofal plant. Dylai system blynyddoedd cynnar effeithiol anelu at ofalu am blant a'u haddysgu o'r adeg y cânt eu geni, ac mae llawer o wledydd ac addysgwyr ledled y byd wedi ymladd yn hir ac yn galed i gael gwared ar y gwahaniaeth. Gwelsom yn adroddiad Achub y Plant, 'Parod i Ddarllen', yn ddiweddar pa mor bwysig yw sicrhau bod ein plant ifanc yn barod ar gyfer yr ysgol ac yn barod i ddarllen, ac mae'n waith, nid yn unig ar gyfer 10 awr o addysg feithrin, ond i'r sector gofal plant cyfan.

If you add into this that parents in Wales already face some of the highest childcare costs in the developed world, a little cheaper—or less expensive, I should say—than England, but nevertheless, on the whole in the UK, we have high childcare costs, and also we lag behind the provision of entitlement that is now being offered in both England and Scotland, as England moves to 30 hours per week for working families from 2017, and Scotland already delivers considerably more than we do, and, if you factor in the fact that we lag behind on the educational attainment of disadvantaged children, then it is clear that this is an area that demands investment and demands further consideration.

Os ychwanegwch at hyn y ffaith fod rhieni yng Nghymru eisoes yn wynebu rhai o'r costau gofal plant uchaf yn y byd datblygedig, ychydig yn rhatach—neu'n llai drud, dylwn ddweud—na Lloegr, ond serch hynny, ar y cyfan yn y DU, mae ein costau gofal plant yn uchel, a hefyd ein bod yn llusgo ar ôl o ran darparu'r hawl sydd bellach yn cael ei chynnig yn Lloegr a'r Alban, wrth i Loegr symud at 30 awr yr wythnos i deuluoedd sy'n gweithio o 2017 ymlaen, a'r Alban, sydd eisoes yn darparu llawer mwy na ni, ac os ydych yn cynnwys y ffaith ein bod yn llusgo ar ôl o ran cyrhaeddiad addysgol plant difreintiedig, yna mae'n amlwg fod hwn yn faes sy'n mynnu buddsoddiad ac ystyriaeth bellach.

Now, at the centre of any provision for good-quality early years education and childcare must be a high-quality and well-trained workforce, and Plaid Cymru believes that, in order to achieve the coherence that we have set out, we need to understand that this workforce should be graduate-led in provision for three to five-year-olds, at least in terms of the educational standards that might be delivered, to be well qualified overall, with level three qualifications, for example, across different settings, and have a good gender balance. I think it's very important, when you look at the successful early years education that you see in Nordic countries, that as many men are involved in early years childcare and education as women. At the moment, we have a very gendered workforce that, in this case, works and militates against some young boys in that setting. It's important to have men as childcare leaders as well and to give the profession that injection, if you like, of a better balance.

Nawr, yn ganolog i unrhyw ddarpariaeth addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant o ansawdd da, rhaid cael gweithlu o ansawdd uchel ac wedi'i hyfforddi'n dda, ac er mwyn cyflawni'r cydlyniad a nodwyd gennym, mae Plaid Cymru yn credu bod angen i ni ddeall y dylai'r gweithlu gael ei arwain gan raddedigion ar gyfer y ddarpariaeth i blant tair i bump oed, o leiaf o ran y safonau addysgol y gellid eu cyflawni, dylai fod yn gymwys iawn yn gyffredinol, gyda chymwysterau lefel tri, er enghraifft, ar draws gwahanol leoliadau, a dylai fod cydbwysedd da rhwng y rhywiau. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn, pan edrychwch ar yr addysg blynyddoedd cynnar lwyddiannus yn y gwledydd Nordig, fod cymaint o ddynion ag o fenywod yn ymwneud â gofal ac addysg blynyddoedd cynnar i blant. Ar hyn o bryd, mae gennym weithlu sy'n cynnwys llawer iawn mwy o fenywod na dynion ac sydd, yn yr achos hwn, yn gweithio ac yn milwrio yn erbyn rhai bechgyn ifanc yn y lleoliadau hyn. Mae'n bwysig cael dynion yn arweinwyr gofal plant hefyd, ac i roi chwistrelliad o gydbwysedd gwell, os mynnwch, i'r proffesiwn.

Now, the challenge in Wales is to recongise that these services really can work to help lift children out of poverty and to invest long term in them. We want to enable parents to become economically active—we know that it's hugely beneficial to our economy—and we also want to tackle child poverty, which is the immediate short-term need in Wales. Those are the two sides of the same coin, and that is why a more coherent approach is necessary—addressing the inflexibility of the current free early education offer, increasing the supply and sustainability of other early years education and childcare services, and extending and simplifying funding mechanisms should be part of the way we take this forward.

Nawr, yr her yng Nghymru yw cydnabod y gall y gwasanaethau hyn weithio o ddifrif i helpu i dynnu plant o dlodi ac i fuddsoddi'n hirdymor ynddynt. Rydym am alluogi rhieni i ddod yn economaidd weithgar—gwyddom fod hynny'n hynod fuddiol i'n heconomi—ac rydym hefyd yn awyddus i drechu tlodi plant, sef yr angen tymor byr uniongyrchol yng Nghymru. Dyna ddwy ochr i'r un geiniog, a dyna pam y mae angen dull mwy cydlynol o weithredu—a dylai mynd i'r afael ag anhyblygrwydd y cynnig addysg gynnar am ddim ar hyn o bryd, cynyddu cyflenwad a chynaliadwyedd gwasanaethau addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant eraill, ac ymestyn a symleiddio mecanweithiau cyllido fod yn rhan o'r ffordd rydym yn bwrw ymlaen â hyn.

Now, Plaid Cymru has proposed that we therefore look to increase the amount of early years education received by three-year-olds immediately from 10 to 15 hours in the next Assembly term. This is something that we believe can be done within the current workforce, within the current skills match, and within the current financial situation as well, although of course there is some additional cost involved. But, that only brings us up to the same level as what will be provided in England and Scotland. We want, in Plaid Cymru, to move from being behind the game as regards early years education and childcare, to leading, and that means that we have a much more ambitious proposal to take early years education entitlement for every child from three within 10 years. It will take 10 years, both in terms of the investment that is needed but, just as importantly, in terms of the skills and training and attracting new people into this, important work will be needed.

Nawr, mae Plaid Cymru wedi cynnig ein bod, felly, yn ystyried cynyddu'r addysg blynyddoedd cynnar y mae plant tair oed yn ei gael ar unwaith o 10 i 15 awr yn ystod tymor nesaf y Cynulliad. Mae hyn yn rhywbeth y credwn y gellir ei wneud o fewn y gweithlu presennol, o fewn y sgiliau sydd gan y gweithlu ar hyn o bryd, ac o fewn y sefyllfa ariannol bresennol, yn ogystal, er bod rhywfaint o gost ychwanegol ynghlwm wrth hyn wrth gwrs. Ond ni wnaiff hynny ond ein codi i'r un lefel â'r hyn a ddarperir yn Lloegr a'r Alban. Rydym ni ym Mhlaid Cymru am symud o lusgo ar ôl ym maes addysg a gofal blynyddoedd cynnar i blant, i arwain, ac mae hynny'n golygu bod gennym gynnig llawer mwy uchelgeisiol i gyflwyno hawl i addysg blynyddoedd cynnar i bob plentyn o dair oed ymlaen o fewn 10 mlynedd. Bydd yn cymryd 10 mlynedd, o ran y buddsoddiad sydd ei angen ond yr un mor bwysig, o ran y sgiliau a'r hyfforddiant, a denu pobl newydd at hyn, bydd angen gwneud gwaith pwysig.

If we do this, then we could find that we not only increase our economy—the Institute for Public Policy Research has estimated that a 5 per cent increase in maternal employment can bring £750 million a year directly to the economy at a UK level—but we'd also find that we have a system in Wales that will match that of James Heckman's groundbreaking work, which concluded very clearly that if society intervenes early enough, it can raise cognitive and socioemotional abilities and the health of disadvantaged children. So, there's a win-win here, in boosting our economy, making childcare more accessible for parents who want to return to work and dealing with an education attainment gap.

Os gwnawn hyn, yna gallem weld nid yn unig ein bod yn ehangu ein heconomi—mae'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus wedi amcangyfrif y gall cynnydd o 5 y cant yng nghyfradd cyflogaeth mamau ddod â £750 miliwn y flwyddyn yn uniongyrchol i'r economi ar lefel y DU—ond byddem hefyd yn gweld bod gennym system yng Nghymru a fydd yn gyson â gwaith arloesol James Heckman, a ddaeth i'r casgliad clir iawn, os yw cymdeithas yn ymyrryd yn ddigon cynnar, y gall wella galluoedd gwybyddol a chymdeithasol-emosiynol ac iechyd plant difreintiedig. Felly, mae pawb ar eu hennill yma, drwy'r hwb i'n heconomi, gwneud gofal plant yn fwy hygyrch i rieni sydd am ddychwelyd i'r gwaith a mynd i'r afael â bwlch cyrhaeddiad addysgol.

At the moment, the cost and availability of childcare and early years education in Wales vary from local authority to local authority. There is bare sufficiency in most local authorities, with the childcare entitlement found to be insufficient in something like 80 per cent of our local authorities, and more and more poor families being excluded from the jobs market by the cost of childcare. It is something that the ill-thought-out cuts to tax credits can only make much worse. So, our proposals will save families in Wales up to £100 a week, on average, on childcare costs, but, more importantly, will provide all families with young children with the same support and put extra money in the pockets of parents of young children to break child poverty, but be an investment for the long term as well, to raise educational standards, open up opportunities for all and provide a more secure start in life to every young child.

Ar hyn o bryd, mae cost ac argaeledd gofal ac addysg blynyddoedd cynnar i blant yng Nghymru yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall. Prin fod darpariaeth y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ddigonol, gyda'r hawl i ofal plant yn annigonol mewn rhywbeth fel 80 y cant o'n hawdurdodau lleol, ac mae cost gofal plant yn eithrio mwy a mwy o deuluoedd tlawd o'r farchnad swyddi. Mae'n rhywbeth y gallai'r toriadau difeddwl i gredydau treth ei wneud yn llawer gwaeth. Felly, bydd ein cynigion yn arbed hyd at £100 yr wythnos, ar gyfartaledd, ar gostau gofal plant i deuluoedd yng Nghymru, ond yn bwysicach, bydd yn darparu'r un gefnogaeth i bob teulu sydd â phlant ifanc ac yn rhoi arian ychwanegol ym mhocedi rhieni plant ifanc er mwyn cael gwared ar dlodi plant, ond bydd yn fuddsoddiad ar gyfer y tymor hir yn ogystal, o ran codi safonau addysgol, creu cyfleoedd i bawb a darparu dechrau mwy sicr mewn bywyd i bob plentyn ifanc.

18:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the amendment to the motion, and I call on Aled Roberts to move amendment 1, tabled in his name.

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn ei enw ef.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r cyllid a gafodd ei sicrhau yn y cytundeb ar gyllideb 2014 gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru a Llywodraeth Cymru i ddarparu £0.4 miliwn dros ddwy flynedd i weithredu astudiaeth ddichonoldeb a chynllun peilot gofal plant ar gyfer myfyrwyr mewn addysg bellach.*

*Welcomes the funding secured in the 2014 budget deal between the Welsh Liberal Democrats and the Welsh Government for £0.4 million over two years to implement a feasibility study and pilot childcare scheme for students in further education.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

18:06

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn o'r cyfle i gymryd rhan yn y ddadl yma'r prynhawn yma, ac rwy'n cynnig gwelliant 1 yn ffurfiol ar ran fy ngrŵp i. Rwyf hefyd yn diolch i Blaid Cymru. Rwy'n meddwl bod yna faterion pwysig iawn—mae'r cynnig ei hun, wrth gwrs, yn cydnabod yr anawsterau sydd yn wynebu nifer fawr o deuluoedd sydd yn chwilio am ofal plant fforddiadwy o ansawdd da ar hyn o bryd, mater sydd wedi cael ei grybwyll nifer o weithiau yma yn y Senedd. Er hynny, rwy'n meddwl bod yn rhaid inni fod yn ofalus iawn nad ydym ni'n cymysgu gofal plant efo addysg gynnar, sydd yn wahanol. Mae Simon Thomas wedi cydnabod bod y fframwaith rheoleiddio yn wahanol, ond rwy'n meddwl bod pwrpas y gofal a'r addysg yn wahanol iawn hefyd.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm very pleased to have an opportunity to participate in this debate today, and I formally move amendment 1 on behalf of my group. I also thank Plaid Cymru as I think that there are important issues contained here—the motion itself, of course, recognises the difficulties that many families seeking affordable high-quality childcare face, an issue that has been mentioned many times here in the Senedd. However, I do think that we have to be very careful that we don't confuse childcare with early years education, which are different. Simon Thomas has already recognised that the regulatory framework is different, but I think that the purpose of childcare and early years education is also very different.

Rydym ni'n falch iawn fel grŵp ein bod ni wedi defnyddio'r trafodaethau roeddem ni wedi eu cynnal efo'r Blaid Lafur—efo'r Llywodraeth—yn ystod y gyllideb i wella nid yn unig y safbwynt neu gyllid ar gyfer plant o deuluoedd difreintiedig, ond hefyd wedi dod â grant amddifadedd disgyblion i rai dan bump oed, wedi cyflwyno cynllun teithio a chynllun Gofal i Ddysgu i fyfyrwyr addysg bellach sy'n rhieni.

We are very proud as a group that we used the budget negotiations that we had with the Labour Party—the Government—to not only make improvements to the funding available for children from disadvantaged backgrounds, but to introduce the pupil deprivation grant for under-fives, a travel scheme and the Care to Learn scheme for parents who are further education students.

Rwy'n gofyn y prynhawn yma a ydy'n bosib i'r Llywodraeth ymateb am yr arian a gafodd ei bennu, tua £50,000, ar gyfer astudiaeth yn edrych ymlaen at gynllun o ryw £350,000. Mi oedd y Gweinidog, rwy'n meddwl, ym mis Mehefin yn awgrymu bod yna ddatganiad i'w wneud yn ystod tymor yr hydref. Rwy'n gwybod bod yna dendro wedi cymryd lle o ran yr astudiaeth ond hwyrach y byddai'n bosib inni gael diweddariad, achos mae sefyllfa'r cronfeydd yma sydd ar gael yng Nghymru o ran myfyrwyr o fewn addysg bellach a'r rhai hynny sydd dros 19 oed yn dangos mai nifer fach o ran canran y ceisiadau sy'n cael eu gwneud gan fyfyrwyr sy'n rhieni, ond bod swm helaeth o'r arian sydd ar gael ar hyn o bryd yn cael ei wario ar ofal plant. Felly, mae yna wir broblem o fewn y gyfundrefn ar hyn o bryd.

I would ask this afternoon whether it would be possible for the Government to respond to the funding that was allocated—some £50,000—for a study related to a £350,000 scheme. I think the Minister, in June, suggested that there would be a statement made during the autumn term. I know that a tender process has taken place in terms of that study, but perhaps we could receive an update on that, because the position of the funds available in Wales in terms of FE students and those over 19 years of age demonstrates that only a small number of applications, in terms of the percentage, are made by students who are parents, but that the vast majority of the funding is spent on childcare. Therefore, there is a real problem within the system at present.

Yn anffodus, mae'n anodd iawn, wrth inni astudio beth yn union ydy'r sefyllfa, i ni weld beth ydy'r sefyllfa bellach, achos mae Llywodraeth Cymru, o beth rwy'n ei ddeall, yn dal i gasglu'r data ynglŷn â nifer y rhai sydd yn dibynnu ar y cronfeydd yma. Eto, nid yw'r data yn cael eu cyhoeddi. Mi oedd adroddiad Old Bell 3 yn ôl yn 2013 yn dweud bod angen gwell ffyrdd o wella cyllido gofal plant o fewn y gwahanol gronfeydd.

Unfortunately, it's very difficult, as we look at exactly what the situation is, for us to identify the problems, because the Welsh Government, as I understand it, still gathers the data on the numbers that are reliant on these funds, and yet the data aren't published. The Old Bell 3 report back in 2013 stated that we needed an improved method of funding childcare within these various funds.

A throi at y cynnig ei hun, rwy'n gobeithio y gwnaiff Plaid Cymru dderbyn ein bod ni'n mynd i bleidleisio yn erbyn y cynnig yn wreiddiol er mwyn i'r gwelliant gael ei gysidro. Ond rwy'n meddwl ein bod ni'n awyddus iawn i weld trafodaeth ar lefel genedlaethol yn cymryd lle. Er, roeddwn i'n gobeithio, hefyd, yn ystod y prynhawn, y buasai, hwyrach, dipyn bach mwy o gig o ran y gost sy'n wynebu'r Llywodraeth nesaf. Rwy'n credu'ch bod chi wedi rhoi opsiynau ymlaen yn ystod eich arolwg chi, yn dweud bod y gost yn mynd i fod rhwng £200 miliwn y flwyddyn a £101 miliwn y flwyddyn. Eto, mae'r datganiad sydd wedi cael ei wneud yn awgrymu bod yna gost o ryw £10 miliwn y flwyddyn. Felly, rwyf eisiau deall yn union sut mae'r gwahaniaethau hynny o ran y gwariant. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn, os ydym yn cael trafodaeth ynglŷn â'r ffordd ymlaen ar gyfer y Llywodraeth nesaf, ein bod yn deall yn union sut—

Turning to the motion itself, I hope that Plaid Cymru will accept that we are to oppose the motion so that we can also take a vote on the amendment. But I think that we are very eager to see a national debate take place. Though, I did hope that perhaps there would have been a little more detail in terms of the cost that the next Government would face as a result of these proposals. I think that you've put forward some options in your review, stating that the cost will be between £200 million per annum and £101 million per annum. Again, the statement that has been made suggests that the cost would be some £10 million per annum, So, I would like to understand how exactly that cost variation occurs. I think that it's very important that we do have a debate on the way forward for the next Government, so that we should understand—

*Simon Thomas a gododd—*

*Simon Thomas rose—*

18:10

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Iawn.

Fine.

18:10

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i'r Aelod. Rwy'n addo ateb y cwestiwn yna wrth gloi'r ddadl.

I thank the Member. I commit to answering that question as I respond to the debate.

18:10

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, felly. Ocê, fe wnaf i edrych ymlaen i weld os ydy hynny'n effeithio ar y ffordd rydym ni'n mynd i bleidleisio. Rwy'n siŵr na wnaiff o, ond rwy'n awyddus iawn i wneud yn siŵr bod y gwaith paratoi yma ar gyfer y ffordd rydym ni'n ariannu yn cymryd lle, wrth gofio, wrth gwrs, fod yna benderfyniadau anodd iawn i'w gwneud gan unrhyw Lywodraeth ynglŷn â'r arian sy'n cael ei wario rhwng y gwahanol adrannau. Ond rwy'n meddwl bod pawb erbyn hyn yn derbyn bod hyn yn bwysig iawn nid yn unig o ran budd y plant eu hunain, ond er mwyn creu sefyllfa lle mae rhieni ifanc yn gallu gweithio'n llawn amser neu'n rhan amser yn ôl eu dewis, ac eto ddim yn teimlo rhyw fath o euogrwydd am y sefyllfa y maen nhw'n gadael eu plant ynddi hi.

Thank you. Okay, I'll look forward to seeing whether that affects the way in which we vote. I'm sure it won't, but I'm very eager to ensure that this preparatory work for our funding methods does take place, bearing in mind, of course, that any Government will face very difficult decisions about the funding to be distributed between the various departments. But I do think that everyone now accepts that this is very important not only for the benefit of the children themselves, but so that we can enable young parents to work on either a full-time or part-time basis according to their own choice, without feeling some sort of guilt about the situation in which they leave their children.

18:11

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am gael cyfrannu yn y ddadl yma. Mae rhieni yn Lloegr a'r Alban yn cael mwy o ofal plant rhad—ystyr 'rhad' yn fanna ydy 'am ddim'—na rhieni yng Nghymru. Felly, mae teuluoedd yma yng Nghymru o dan anfantais gynyddol o gymharu â rhieni mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn hefyd, yn ei dro, yn anfanteisio economi Cymru oherwydd bod llawer o rieni'n methu â fforddio i fynd allan i weithio neu, wrth gwrs, mae'n rhaid iddyn nhw gymryd swyddi rhan-amser. Mi fyddai gostwng yr oed y mae plant yn dechrau yn yr ysgol i dair oed yn helpu rhieni i ddychwelyd i'r gwaith neu i weithio rhagor o oriau er mwyn codi lefelau incwm eu teuluoedd. Wrth gwrs, mi fyddai hynny hefyd, yn ei dro, o fudd sylweddol i'r economi.

Thank you for the opportunity to contribute to this debate. Parents in England and in Scotland receive more free childcare than parents in Wales. Therefore, families in Wales are increasingly disadvantaged as compared with parents in other parts of the United Kingdom. This, in turn, disadvantages the Welsh economy because many parents can't afford to go out to work or, of course, they have to take part-time employment. Reducing the age at which children start school to the age of three would assist parents to return to the workplace or to work more hours in order to enhance their family's income levels. Of course, that, in turn, would be of significant benefit to the economy.

Mae rhieni yng Nghymru hefyd yn gorfod talu costau gofal plant sydd gyda'r uchaf yn y byd datblygedig, fel yr oedd Simon Thomas yn ei ddweud, ac, i lawer o rieni plant ifanc, mae'n well cael un rhiant sy'n aros adref neu mewn swydd ran-amser achos bod hynny'n fwy buddiol yn ariannol na bod y ddau riant yn gweithio ac yn talu am ofal plant.

Parents in Wales also have to pay childcare costs that are among the highest in the developed world, as Simon Thomas said, and, for many parents of young children, it is better to have one parent who stays at home or is in part-time employment because that is more financially beneficial than having two working parents and paying for childcare.

Felly, mae peidio â chael y cyfle i weithio, neu orfod gweithio llai o oriau nag y bydden nhw'n dewis, yn gallu cadw teuluoedd mewn tlodi cymharol, felly. I nifer o deuluoedd gyda phlant ifanc, mamau yn hytrach na thadau sy'n tueddu i adael y farchnad lafur neu gymryd swyddi rhan-amser, neu weithio llai o oriau. Mae hyn yn arwain tuag at yr hyn sydd wedi cael ei alw'n gosb mamolaeth, gyda merched sydd wedi gadael y farchnad lafur neu sy'n tangyflogi ar ôl cael plant yn ennill llai na thadau a merched di-blant am flynyddoedd i ddod. Yn amlwg, mae hyn yn amharu ar yr ymdrechion i gau'r bwlch cyflogaeth rhwng dynion a merched a sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle.

Therefore, not having the opportunity to enter the workforce, or working fewer hours than they would choose, can keep families in relative poverty. For many families with young children, it's often the mothers rather than the fathers who tend to leave the labour market, take part-time employment or work fewer hours. This has led to what's been described as the pregnancy penalty, with women who have left the labour market or who are underemployed having had children earning less than fathers and women who don't have children for many years to come. Obviously, this has an impact on attempts to close the pay gap between men and women and to secure equality in the workplace.

Yn ôl adroddiad a gomisiynwyd gan Chwarae Teg fis Mawrth diwethaf, mi welwyd bod diffyg gofal plant hyblyg a fforddiadwy yn parhau i fod yn broblem i fenywod yng Nghymru. Ar draws y Deyrnas Unedig, mae merched yn fwy tebyg o fod yn gweithio mewn swyddi rhan-amser a chyflog isel. Yn ôl ffigurau mis Hydref 2014, roedd merched yn dal 77 y cant o'r holl swyddi rhan-amser. Mae gwaith ymchwil gan Chwarae Teg, a fuodd yn holi cyflogwyr, yn dangos bod diffyg gofal plant yn effeithio ar allu merched i weithio'n llawn amser, ac mae'r mwyafrif yn credu y byddai ymyrraeth y wladwriaeth yn y maes yma'n help i sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle. Felly, mae teuluoedd Cymru dan anfantais gynyddol o'u cymharu â rhieni mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.

According to a report commissioned by Chwarae Teg last March, it was demonstrated that the shortage of flexible and affordable childcare continues to be a problem for women in Wales. Across the UK, women are more likely to be working in part-time and low-paid jobs. According to October 2014 figures, women held 77 per cent of all part-time posts. Research by Chwarae Teg, which consulted employers, demonstrates that the shortage of childcare impacts on the ability of women to work full time, and many believe that state intervention in this area would help to ensure equality between the sexes in the workplace. Therefore, families in Wales are under an increasing disadvantage as compared with parents in other part of the United Kingdom.

Yn ôl adroddiad arall gan yr Institute for Public Policy Research, byddai cynyddu cyfranogiad mamau yn y farchnad lafur yn arwain at nifer o fanteision economaidd sylweddol gan y byddai hynny, wrth gwrs, yn cynyddu incwm o'r dreth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol ac, wrth gwrs, mi fyddai'n arwain hefyd at lai o fudd-daliadau'n cael eu talu. Mi fyddai cynnydd o 5 y cant yn y gyfran o famau sy'n gweithio llawn amser yn y Deyrnas Unedig yn cael effaith ariannol gadarnhaol iawn o ran y Trysorlys.

According to another report by the Institute for Public Policy Research, increasing the participation of mothers in the labour market would lead to a number of substantial economic benefits, because that, of course, would increase income from income tax and national insurance contributions, and, of course, it would also lead to fewer benefits having to be paid. An increase of 5 per cent in the percentage of mothers who work full time in the UK would have a very positive financial impact, of course, in terms of the Treasury.

Mae'r Llywodraeth yma, hyd yn hyn, wedi methu'r prawf addysg ac wedi methu â chynnig gwell dyfodol i deuluoedd a phlant Cymru. Y gwir yw bod llawer iawn o rieni ledled Cymru ddim yn gallu gweithio gymaint ag y buasent yn dymuno gwneud oherwydd cyfyngiadau gofal plant. Felly, mae'n bwysig ein bod ni'n rhoi'r cyfle i rieni weithio mwy.

This Government to date has failed the education test and has failed to offer a better future for families and children in Wales. The truth is that very many parents throughout Wales can't work as much as they would wish to work because of restrictions placed upon them by childcare issues. So, it's important that we give parents an opportunity to work more.

Mae gofal plant o safon uchel, ynghyd ag addysg blynyddoedd cynnar, yn gallu rhoi i blant y cychwyn da mewn bywyd sydd yn help iddyn nhw ddatblygu sgiliau, ac mae hefyd yn dwyn manteision cymdeithasol. Rwy'n gobeithio y bydd cynlluniau Plaid Cymru yn newyddion da i rieni, yn newyddion da i blant ac yn newyddion da i'r economi. Diolch yn fawr.

High-quality childcare, as well as early years education, can give children that good start in life that helps them to develop skills, and it also brings social benefits in its wake. I do hope that Plaid Cymru's proposals will be good news for parents, good news for children and good news for the economy. Thank you.

18:16 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you to Plaid for tabling this debate today. The motion is one that we would like to support and I hope that we will be able to. We will not, however, be supporting the Liberal Democrat amendment because it expresses support for a budget for which we did not vote. So, apologies, possibly, in advance to Plaid, because your motion presents the challenge to the Government fair and square, I think. It's just the 'tricksy' wording of the Lib Dem amendment that means that we will not be able to support the motion, if it is amended.

Diolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddadl hon heddiw. Mae'r cynnig yn un y byddem yn hoffi ei gefnogi, ac rwy'n gobeithio y gallwn. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol oherwydd ei fod yn mynegi cefnogaeth i gyllideb na phleidleisiom ni drosti. Felly, ymddiheuriadau, o bosibl, ymlaen llaw i Blaid Cymru, gan fod eich cynnig yn cyflwyno'r her i'r Llywodraeth yn deg a phriodol, rwy'n meddwl. Geiriad lletchwith gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol yn unig sy'n golygu na allwn gefnogi'r cynnig, os caiff ei ddiwygio.

I'm with Oxfam on this, I think. We need a wholescale review of childcare provision in Wales to understand what works and what doesn't. I absolutely take the points that Simon Thomas raised in his opening contribution about the crossover with education, so I won't restate the arguments on that.

Rwy'n sefyll gydag Oxfam ar hyn, rwy'n meddwl. Mae arnom angen adolygiad trylwyr o'r ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru i ddeall beth sy'n gweithio a beth nad yw'n gweithio. Rwy'n derbyn yn llwyr y pwyntiau a nododd Simon Thomas yn ei gyfraniad agoriadol ynglŷn â'r gorgyffwrdd gydag addysg, felly nid wyf am ailadrodd y dadleuon ar hynny.

I think the default response, however, to any such review just can't be another Government programme that is geographically exclusive. The Welsh Government has a perfectly credible point of view in choosing to target poorer families, but we know that Flying Start is not reaching all poorer families that could do with taxpayers' help to get childcare, at the same time as asking taxpayers to subsidise the choice of others, who may have alternatives open to them. I just don't like this geographical approach. It creates rights of access to childcare for some children, but not for others, and not just between children from different economic backgrounds, but between children with very similar backgrounds, where your right depends on nothing more scientific than a postcode.

Rwy'n meddwl, fodd bynnag, fod yn rhaid i'r ymateb awtomatig i unrhyw adolygiad o'r fath fod yn fwy na rhaglen arall ddaearyddol gyfyngol gan y Llywodraeth. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn dewis targedu teuluoedd tlotach yn berffaith gredadwy, ond gwyddom nad yw Dechrau'n Deg yn cyrraedd yr holl deuluoedd tlotach a allai fanteisio ar gymorth trethdalwyr i gael gofal plant, ar yr un pryd â gofyn i drethdalwyr roi cymhorthdal tuag at ddewis pobl eraill, y gallai fod ganddynt opsiynau eraill ar gael iddynt. Nid wyf yn hoffi'r dull daearyddol hwn. Mae'n creu hawliau i ofal plant ar gyfer rhai plant, ond nid i eraill, ac nid rhwng plant o gefndiroedd economaidd gwahanol yn unig, ond rhwng plant o gefndir tebyg iawn, lle y mae eich hawl yn dibynnu ar ddim sy'n fwy gwyddonol na chod post.

Despite very good intentions, the new policy on parents, childcare and employment doesn't really address his issue of geographic exclusion, although I think it is helpful to see the link between access to childcare and employment opportunities restated and recognised in this policy. What it also seems to recognise is that the two and a half hours of Flying Start childcare a day is not long enough to allow a parent to take a child to nursery, undertake meaningful work experience, education or training and then get back to collect the child. It suggests to me that while the two and a half hours may be very good for a child's development and helpful to parents in other ways, what it doesn't do is help that parent into employment, and it doesn't help that child return to a home where a parent is working.

Er y bwriadau da iawn, nid yw'r polisi newydd ar rieni, gofal plant a chyflogaeth yn mynd i'r afael ag allgáu daearyddol yn iawn, er fy mod yn credu ei bod yn ddefnyddiol gweld bod y cysylltiad rhwng mynediad at ofal plant a chyfleoedd cyflogaeth yn cael eu hailddatgan a'u cydnabod yn y polisi. Mae'n ymddangos hefyd ei fod yn cydnabod nad yw dwy awr a hanner o ofal plant Dechrau'n Deg y dydd yn ddigon hir i ganiatáu i riant fynd â phlentyn i feithrinfa, cyflawni profiad gwaith, addysg neu hyfforddiant ystyrlon, a mynd yn ôl wedyn i gasglu'r plentyn. Er y gallai'r ddwy awr a hanner fod yn dda iawn i ddatblygiad plentyn ac yn ddefnyddiol i rieni mewn ffyrdd eraill, mae'n ymddangos i mi mai'r hyn nad yw'n ei wneud yw helpu'r rhiant i gael gwaith, ac nid yw'n helpu'r plentyn i ddychwelyd i gartref lle y mae rhiant yn gweithio.

So, I'm genuinely curious, Minister, as to what thought was given to combining the childcare elements of the two programmes. Otherwise, it's not beyond foresight to imagine small children being shuttled around between settings in the middle of the day and not because of the choice of the parent, but because of the choice of Government.

Felly, rwy'n wirioneddol chwilfrydig, Weinidog, ynghylch pa ystyriaethau a roddwyd i gyfuno elfennau gofal plant y ddwy raglen. Fel arall, nid yw'n anodd dychmygu plant bach yn cael eu llusgo o gwmpas rhwng lleoliadau yng nghanol y dydd ac nid yn sgil dewis y rhiant, ond yn sgil dewis y Llywodraeth.

The new scheme doesn't deal either with the situation in rural areas, where, of course, the challenge of geography is completely different. I don't think there'd be many of you in the Chamber today who would think it a good idea to drive your child 30 miles to a nursery near where you work, or indeed to drive 10 miles to a nursery, before driving another 20 miles to work, wondering if you'll manage the 20 miles back in time before the nursery closes or before you incur additional charges.

Nid yw'r cynllun newydd yn mynd i'r afael chwaith â'r sefyllfa mewn ardaloedd gwledig, lle y mae'r her ddaearyddol yn hollol wahanol wrth gwrs. Nid wyf yn meddwl fod llawer ohonoch yn y Siambr heddiw a fyddai'n meddwl bod gyrru eich plentyn 30 milltir i feithrinfa yn agos i ble rydych yn gweithio yn syniad da, na gyrru 10 milltir i feithrinfa yn wir, cyn gyrru 20 milltir arall i'r gwaith, gan feddwl tybed a fyddwch yn llwyddo i deithio'r 20 milltir yn ôl mewn pryd cyn i'r feithrinfa gau neu cyn i chi wynebu costau ychwanegol.

As the former chair of a community nursery, I can tell you, Minister, that that is a genuine challenge. Sparse populations mean fewer communal settings and if there's a shortage of child minders in the community too, then on top of transport issues, you just don't have childcare, whether or not you can pay for it. These communities that I'm talking about may not be eligible for the £6.8 million of ESF funding that you found for your new programme, Minister, but they absolutely could benefit from the £4.1 million that you found from your own budget, which you're giving to families that are already benefiting from Flying Start, Families First and the pupil deprivation grant.

Fel cyn-gadeirydd meithrinfa gymunedol, gallaf ddweud wrthych, Weinidog, fod honno'n her go iawn. Mae poblogaethau gwasgaredig yn golygu llai o leoliadau cymunedol ac os oes prinder gwarchodwyr plant yn y gymuned hefyd, heb sôn am broblemau trafnidiaeth, ni allwch gael gofal plant, pa un a oes modd i chi dalu amdano ai peidio. Efallai na fydd y cymunedau rwy'n sôn amdanynt yn gymwys i gael y £6.8 miliwn o gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop y daethoch o hyd iddo ar gyfer eich rhaglen newydd, Weinidog, ond yn bendant, gallent elwa o'r £4.1 miliwn y daethoch o hyd iddo o'ch cyllideb eich hun, yr arian rydych yn ei roi i deuluoedd sydd eisoes yn elwa o Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a'r grant amddifadedd disgyblion.

I'd like to know about what practical help you can offer my constituents who, geographically, are ineligible for any of this help. Are you asking families to contribute to school breakfasts in the same way that they do to school lunches, for example, because school breakfast clubs, I think we all accept, are just as much about childcare as they are about nutrition? How else have you considered helping private and community nurseries, or any other community organisation for that matter, to provide affordable wraparound care outside of school time? How are you working with community councils, housing associations and families themselves, to find a co-produced way to overcome local barriers to accessible, affordable childcare? And what are you doing to remind councils like Swansea that education for three to four-year-olds should not be restricted to school settings? It was never intended to be. It favoured childcare settings, and it's a policy I remember because it is the policy that got me involved in childcare—I mean politics; perhaps that's the same thing as childcare—in the first place.

Hoffwn wybod pa gymorth ymarferol y gallwch ei gynnig i fy etholwyr nad ydynt yn gymwys yn ddaearyddol i gael dim o'r cymorth hwn. A ydych yn gofyn i deuluoedd gyfrannu at frecwastau ysgol yn yr un modd ag y maent yn ei wneud i gael cinio ysgol, er enghraifft, gan fy mod yn credu bod pawb ohonom yn derbyn bod clybiau brecwast ysgolion yn ymwneud lawn cymaint â gofal plant ag y maent yn ymwneud â maeth? Sut rydych chi wedi ystyried helpu meithrinfeydd preifat a chymunedol, neu unrhyw sefydliad cymunedol arall o ran hynny, i ddarparu gofal cofleidiol fforddiadwy y tu allan i oriau ysgol? Sut rydych chi'n gweithio gyda chynghorau cymuned, cymdeithasau tai a theuluoedd eu hunain i ddod o hyd i ffordd a gydgynhyrchwyd o oresgyn rhwystrau lleol i ofal plant hygyrch a fforddiadwy? A beth rydych chi'n ei wneud i atgoffa cynghorau fel Abertawe na ddylid cyfyngu addysg plant tair i bedair oed i leoliadau ysgol? Nid dyna oedd y bwriad o gwbl. Roedd yn ffafrio lleoliadau gofal plant, ac mae'n bolisi rwy'n ei gofio am mai dyna'r polisi a barodd i mi ymwneud â gofal plant—gwleidyddiaeth, hynny yw; efallai fod hynny yr un peth â gofal plant—yn y lle cyntaf.

Perhaps the hardest question of all, Minister, is how to respond to the challenge in the motion today that families in Wales receive less free childcare than the rest of the UK. My constituents on this occasion will not buy your answer of Tory cuts when they see families in England getting 30 hours of free childcare. Thank you.

Efallai mai'r cwestiwn anoddaf oll, Weinidog, yw sut y mae ymateb i'r her yn y cynnig heddiw fod teuluoedd yng Nghymru yn cael llai o ofal plant am ddim na gweddill y DU. Ni fydd fy etholwyr y tro hwn yn llyncu eich ateb ynghylch toriadau'r Toriaid pan fyddant yn gweld teuluoedd yn Lloegr yn cael 30 awr o ofal plant am ddim. Diolch.

18:21 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Childcare is an important part of public policy. It's one of the central issues any family in Wales now has to face, and the consequences of decisions made regarding childcare can impact on families both in the long and the short term, as well as having an impact on the children involved. In Wales, despite our serious and unanswered economic challenges, families want to work. They want to ensure they can provide the best for their children, and, often, they need childcare. Especially at a time when grandparents and other family members are working later in life, and when many people themselves are waiting until later in life to have children in the first place, childcare provision is no longer something that should be regarded as a luxury, but a necessary public policy commitment from any Government to make sure that there is an accessible and level playing field to guarantee that nobody is denied the chance to work for want of childcare. But the costs to families are staggering, particularly in Wales.

Mae gofal plant yn rhan bwysig o bolisi cyhoeddus. Mae'n un o'r materion canolog sy'n rhaid i unrhyw deulu yng Nghymru eu hwynebu bellach, a gall canlyniadau penderfyniadau a wneir ynghylch gofal plant effeithio ar deuluoedd yn y tymor hir a'r tymor byr, yn ogystal ag effeithio ar y plant dan sylw. Yng Nghymru, er gwaethaf ein heriau economaidd difrifol nas atebwyd, mae teuluoedd eisiau gweithio. Maent yn awyddus i sicrhau y gallant ddarparu'r gorau ar gyfer eu plant, ac yn aml, maent angen gofal plant. Yn enwedig ar adeg pan fo neiniau a theidiau ac aelodau eraill o'r teulu yn gweithio yn hwyrach mewn bywyd, a phan fo llawer o bobl yn aros tan yn hwyrach mewn bywyd i gael plant yn y lle cyntaf, ni ddylid ystyried mai moethusrwydd yw'r ddarpariaeth gofal plant bellach, ond ymrwymiad polisi cyhoeddus angenrheidiol gan unrhyw Lywodraeth i wneud yn siŵr fod yna system deg a hygyrch ar gyfer gwarantu nad oes neb yn cael ei amddifadu o gyfle i weithio oherwydd diffyg gofal plant. Ond mae'r costau i deuluoedd yn syfrdanol, yn enwedig yng Nghymru.

Last year, the Family and Childcare Trust found that, in Wales, we have a much higher cost than the rest of the UK. Part-time childcare costs for a family of two children, on average, now are more than the average mortgage payment every month. After-school clubs have increased in cost and at a time when costs elsewhere in the UK have fallen, and the cost for nurseries for two-year-olds and over has increased by 29 per cent.

Y llynedd, gwelodd yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant fod ein costau'n llawer uwch yng Nghymru na gweddill y DU. Ar gyfartaledd, mae costau gofal plant rhan-amser i deulu o ddau o blant yn awr yn fwy na'r taliad morgais misol cyfartalog. Mae costau clybiau ar ôl ysgol wedi cynyddu ar adeg pan fo costau mewn mannau eraill yn y DU yn is, ac mae cost meithrinfa i blant dwy oed a hŷn wedi codi 29 y cant.

I know people who have recently decided to scale back on work, taking a pay cut, because it's less of a financial hit than paying for childcare, and it's still overwhelmingly likely to be the woman who has to make that decision. Because of the scale of cuts, we have more of a need now to tackle these issues. The cost of childcare in one hit—. Imagine the hit against families, for example, when the British Government decides to pass the damaging tax credit changes they propose. Even with the changes due to take place with the minimum wage, this will only compensate on average for about a quarter of lost income from the changes to tax credits, with the average Welsh family, they say, losing out by over £1,000 a year.

Rwy'n adnabod pobl sydd wedi penderfynu'n ddiweddar i gwtogi oriau gwaith, gan gymryd toriad cyflog, am ei fod yn llai o ergyd ariannol na thalu am ofal plant, ac mae'n dal i fod yn llawer iawn mwy tebygol mai'r fenyw sy'n gorfod gwneud y penderfyniad hwnnw. Oherwydd maint y toriadau, mae mwy o angen i ni fynd i'r afael â'r materion hyn bellach. Mae cost gofal plant yn un ergyd—. Dychmygwch yr ergyd i deuluoedd, er enghraifft, pan fydd y Llywodraeth Brydeinig yn penderfynu pasio'r newidiadau niweidiol arfaethedig i gredyd treth. Hyd yn oed gyda'r newidiadau sydd i ddigwydd gyda'r isafswm cyflog, ni fydd hynny ar gyfartaledd yn gwneud iawn am fwy na chwarter yr incwm a gollir drwy'r newidiadau i gredydau treth, gyda'r teulu cyfartalog yng Nghymru, yn ôl y sôn, dros £1,000 y flwyddyn yn waeth ei fyd.

We need action as soon as possible. Plaid Cymru's policy is to increase the hours of free nursery for all three-year-olds in Wales to 15 hours a week. The cost will be in the region of £20 million over the next term. It's not an insurmountable figure and it is something that is unavoidable in my view. A policy to provide free nursery would save most parents about £100 a week and many others a lot more. One parent I spoke to recently told me that the costs for her two children, very young children, in full-time childcare were close on £100 a day. That is an unbelievable amount—£100 a day. Our ability as an Assembly to commit to reducing the cost would improve that person's life and that of the children. Over time, we need to work together to identify a way to increase nursery provision to full time for all three-year-olds. When we consider the major lack of existing public provision in Wales and the scaling back of the already limited provision we have, the question should become not 'How can we do this?', but 'How can we not do this?'

Mae angen gweithredu cyn gynted â phosibl. Polisi Plaid Cymru yw cynyddu oriau meithrin am ddim i bob plentyn tair oed yng Nghymru i 15 awr yr wythnos. Bydd y gost oddeutu £20 miliwn dros y tymor nesaf. Nid yw'n ffigur anorchfygol ac mae'n rhywbeth sy'n anochel yn fy marn i. Byddai polisi i ddarparu gofal meithrin am ddim yn arbed tua £100 yr wythnos i'r rhan fwyaf o rieni a llawer mwy na hynny i rai eraill. Dywedodd un rhiant y siaradais â hi'n ddiweddar fod y costau ar gyfer ei dau blentyn, plant ifanc iawn, sy'n cael gofal plant amser llawn yn agos at £100 y dydd. Mae hwnnw'n swm anghredadwy—£100 y dydd. Byddai ein gallu fel Cynulliad i ymrwymo i leihau'r gost yn gwella bywyd y ddynes honno a bywydau'r plant. Dros amser, mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i ddod o hyd i ffordd o gynyddu'r ddarpariaeth feithrin i fod yn ddarpariaeth amser llawn i bob plentyn tair oed. Pan ystyriwn y diffyg mawr yn y ddarpariaeth gyhoeddus ar hyn o bryd yng Nghymru a chwtogi'r ddarpariaeth gyfyngedig sydd gennym eisoes, dylai'r cwestiwn newid o 'Sut allwn ni wneud hyn?', i 'Sut y gallwn ni beidio â gwneud hyn?'

Finally, childcare is not just an issue for women or children; it's an issue for families and our economy if we want to seriously tackle the economic imbalances between men and women. If we want to make Wales a success and seriously begin to tackle the enormous economic disadvantage we have between ourselves and the rest of the UK, we have to remove the economic barriers that still exist. Recognising the burden of the cost of childcare and resolving to lower it is essential. Let us tell Welsh families that we support them and we want to give them a break. Please support this motion. Thank you.

Yn olaf, nid problem i fenywod neu blant yn unig yw gofal plant; mae'n broblem i deuluoedd a'n heconomi os ydym am fynd i'r afael o ddifrif â'r anghydbwysedd economaidd rhwng dynion a menywod. Os ydym am wneud Cymru yn llwyddiant a dechrau mynd ati o ddifrif i fynd i'r afael â'r anfantais economaidd enfawr sydd gennym o gymharu â gweddill y DU, mae'n rhaid i ni gael gwared ar y rhwystrau economaidd sy'n dal i fodoli. Mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod baich costau gofal plant ac yn addunedu i'w leihau. Gadewch i ni ddweud wrth deuluoedd Cymru ein bod yn eu cefnogi a'n bod am roi cyfle iddynt. Cefnogwch y cynnig hwn. Diolch.

18:25

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I want to focus my comments on the attainment gap, following Simon Thomas's remarks about being school-ready. The attainment gap for children in Wales living in poverty is hugely saddening. One in four Welsh children who grow up in poverty currently leave primary school unable to read. Now, this is a staggering statistic, and one that should have a much higher priority. This gap begins in the very early years. Statistics from the millennium cohort study for Wales, analysed by the 'Read On. Get On.' campaign, show that children who live in persistent poverty are twice as likely to score below average for language development at the age of five. A child with weak language skills at the age of five is much less likely to be a good reader at the age of 11 than a five-year-old with strong language skills. So, a solid foundation in early language skills is even more important for children growing up in poverty.

Rwyf am ganolbwyntio fy sylwadau ar y bwlch cyrhaeddiad, yn dilyn sylwadau Simon Thomas am fod yn barod ar gyfer yr ysgol. Mae'r bwlch cyrhaeddiad i blant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi yn hynod o drist. Mae un o bob pedwar plentyn yng Nghymru sy'n cael eu magu mewn tlodi ar hyn o bryd yn gadael yr ysgol gynradd yn methu â darllen. Nawr, mae hwn yn ystadegyn syfrdanol, ac yn un a ddylai gael blaenoriaeth lawer uwch. Mae'r bwlch yn dechrau yn ystod y blynyddoedd cynnar iawn. Dengys ystadegau o astudiaeth cohort y mileniwm yng Nghymru, a ddadansoddwyd gan yr ymgyrch 'Read On. Get On.' fod plant sy'n byw mewn tlodi cyson ddwywaith yn fwy tebygol o sgorio'n is na'r cyfartaledd o ran datblygiad ieithyddol yn bump oed. Mae plentyn sydd â sgiliau iaith gwan yn bump oed yn llawer llai tebygol o fod yn ddarllenydd da yn 11 oed na phlentyn pump oed sydd â sgiliau iaith cadarn. Felly, mae sylfaen gadarn mewn sgiliau iaith cynnar hyd yn oed yn bwysicach i blant sy'n cael eu magu mewn tlodi.

A child who has experienced poverty persistently and has below-average language skills scores 35 per cent less on reading tests at the age of seven, and 22 per cent less on comprehension tests at the age of 11 than a child who's never experienced poverty. So, children from the most disadvantaged backgrounds are almost twice as likely as their better-off peers to experience difficulties in language development by the time they start school. So, it's imperative that we intervene early to offer the educational support necessary to close that gap, or these children never catch up.

Mae plentyn sydd wedi profi tlodi cyson ac sydd â sgiliau iaith is na'r cyfartaledd yn sgorio 35 y cant yn is ar brofion darllen yn saith oed, a 22 y cant yn is ar brofion darllen a deall yn 11 oed na phlentyn nad yw erioed wedi cael profiad o fyw mewn tlodi. Felly, mae plant o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig bron ddwywaith yn fwy tebygol na'u cyfoedion mwy cefnog i brofi anawsterau gyda datblygiad iaith erbyn iddynt ddechrau yn yr ysgol. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn ymyrryd yn gynnar i gynnig y gefnogaeth addysgol angenrheidiol i gau'r bwlch hwnnw, neu ni fydd y plant hyn byth yn dal i fyny.

The research that underpins the 'Read On. Get On.' campaign clearly demonstrates that those early language skills and interaction skills are vitally important for developing literacy later on. Not that this is confined entirely to poor families, but childcare can be an important tool for addressing educational inequality. We know that the longer we wait to intervene, the further behind a child can fall. All children can benefit from high-quality early years intervention to help them develop strong language skills by the time they start school. It can have a particular impact on those children who face the biggest risk of falling behind. Perhaps the Minister will tell us what proportion of children starting school in Wales do not have the language skills needed to start to learn to read.

Mae'r ymchwil sy'n sail i'r ymgyrch 'Read On. Get On.' yn dangos yn glir fod sgiliau iaith cynnar a sgiliau rhyngweithio yn hanfodol bwysig ar gyfer datblygu llythrennedd yn nes ymlaen. Nid yw hyn wedi'i gyfyngu yn gyfan gwbl i deuluoedd tlawd, ond gall gofal plant fod yn arf pwysig ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb addysgol. Po fwyaf o amser y byddwn yn aros cyn ymyrryd, y pellaf ar ôl y gallai plentyn lithro. Gall pob plentyn elwa o ymyrraeth blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel i'w helpu i ddatblygu sgiliau iaith cadarn erbyn iddynt ddechrau yn yr ysgol. Gall effeithio'n arbennig ar y plant sy'n wynebu'r risg fwyaf o lithro ar ôl. Efallai y gall y Gweinidog ddweud wrthym pa gyfran o blant sy'n dechrau ysgol yng Nghymru heb y sgiliau iaith sydd eu hangen i ddechrau dysgu darllen.

Plaid Cymru's policy of lowering the school starting age to three will provide children with the best possible start in life. We must ensure that every child starts primary school with the verbal and social skills necessary to learn to read, and to go on to achieve. Early education settings provide a valuable space to work with children who are struggling to develop those language skills, and provide them with the skills they'll need to thrive throughout their education.

Bydd polisi Plaid Cymru i ostwng yr oed dechrau ysgol i dair oed yn rhoi'r dechrau gorau posibl i blant mewn bywyd. Rhaid i ni sicrhau bod pob plentyn yn dechrau'r ysgol gynradd yn meddu ar y sgiliau llafar a chymdeithasol angenrheidiol i ddysgu darllen, ac i fynd ymlaen i gyflawni. Mae lleoliadau addysg gynnar yn darparu man gwerthfawr ar gyfer gweithio gyda phlant sy'n cael trafferthion i ddatblygu sgiliau iaith o'r fath, a rhoi'r sgiliau angenrheidiol iddynt allu ffynnu drwy gydol eu haddysg.

The First Minister has already said that he supports the 'Read On. Get On.' campaign, but there must also be a real commitment to addressing the underlying cause of not being able to read. Every child in Wales, no matter what their background or where they live, should have the opportunity to reach their potential, and where we have persistently high child poverty levels, good-quality childcare available from the age of three could be a valuable tool for closing that persistent attainment gap. Nothing should be more important than the future of a nation's children, and their needs should be paramount.

Mae'r Prif Weinidog eisoes wedi dweud ei fod yn cefnogi ymgyrch 'Read On. Get On.' ond mae'n rhaid cael ymrwymiad gwirioneddol hefyd i fynd i'r afael â'r rheswm gwaelodol am fethu â darllen. Dylai pob plentyn yng Nghymru, ni waeth beth yw ei gefndir neu lle y mae'n byw, gael y cyfle i gyrraedd ei botensial, a lle y mae gennym lefelau tlodi plant sy'n uchel yn barhaus, gallai'r gofal o ansawdd da sydd ar gael i blant o dair oed fod yn offeryn gwerthfawr ar gyfer cau'r bwlch cyrhaeddiad parhaus. Ni ddylai unrhyw beth fod yn bwysicach na dyfodol plant y genedl, a dylai eu hanghenion fod o'r pwys mwyaf.

Just to close, Deputy Presiding Officer, I don't think I could speak in a debate about children this afternoon without marking this day as the day that the Republic of Ireland has become the twentieth European state to prohibit the hitting of children in absolutely all settings, in recognition of their human rights. I look forward today to the day that this institution elevates children—our children in Wales—to that level. [Applause.]

I gloi, Ddirprwy Lywydd, nid wyf yn meddwl y gallwn siarad mewn dadl am blant y prynhawn yma heb nodi mai heddiw yw'r diwrnod y daeth Gweriniaeth Iwerddon yn ugeinfed wladwriaeth Ewropeaidd i wahardd taro plant mewn unrhyw leoliad, i gydnabod eu hawliau dynol. Edrychaf ymlaen heddiw at y diwrnod y bydd y sefydliad hwn yn dyrchafu plant—ein plant yng Nghymru—i'r lefel honno. [Cymeradwyaeth.]

18:29

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think we allow former Presiding Officers to applaud, but no-one else. [Laughter.] I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty, Lesley Griffiths.

Rwy'n credu ein bod yn caniatáu i gyn-Lywyddion gymeradwyo, ond neb arall. [Chwerthin.] Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Lesley Griffiths.

18:30 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I thank Plaid Cymru for bringing the important issues of childcare and early education to the Chamber today. Early years education and targeted high-quality nursery provision for two-year-olds through Flying Start are important in a child's development, providing a strong foundation for education in later years and giving them the best possible start in life. Childcare is primarily concerned with improving family circumstances by enabling parents to seek and maintain employment. Early years education does play a role in helping parents to undertake paid work; however, it is not the most cost-effective way of increasing parental employment.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch i Blaid Cymru am ddod â materion pwysig gofal ac addysg gynnar plant i'r Siambr heddiw. Mae addysg blynyddoedd cynnar a darpariaeth feithrin o safon uchel wedi'i thargedu ar gyfer plant dwy oed drwy Dechrau'n Deg yn bwysig yn natblygiad plentyn, ac yn darparu sylfaen gref ar gyfer addysg yn ystod y blynyddoedd diweddarach ac yn rhoi'r dechrau gorau posibl iddynt mewn bywyd. Mae gofal plant yn ymwneud yn bennaf â gwella amgylchiadau teuluol drwy alluogi rhieni i ddod o hyd i waith a'i gadw. Mae addysg blynyddoedd cynnar yn chwarae rhan yn helpu rhieni i wneud gwaith am dâl; fodd bynnag, nid dyma'r ffordd fwyaf costeffeithiol o godi lefelau cyflogaeth ymhlith rhieni.

The focus of early education is to develop the child. Research indicates that there is very little benefit to the child of more than 20 hours of early education. We should not therefore confuse early years education and childcare, as other Members have commented upon.

Ffocws addysg gynnar yw datblygu'r plentyn. Mae ymchwil yn dangos mai ychydig iawn o fudd y byddai plentyn yn ei gael o fwy na 20 awr o addysg gynnar. Ni ddylem ddrysu felly rhwng addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant, fel y mae Aelodau eraill wedi gwneud sylwadau yn ei gylch.

There is a general consensus across this Assembly on the importance of childcare and early education. However, there are a number of reasons why we are unable to support this motion today. First and foremost, we cannot accept the demand in point 4 for a consistent amount of free childcare and early education throughout Wales. I make no apology for our decision to target Flying Start, which includes 12.5 hours' quality nursery provision for two-year-olds, on the 25 per cent of Wales's children living in the most disadvantaged communities. Point 4 would demand we either reduce the quality and quantity of childcare available for each child, quadruple the budget, or scrap Flying Start entirely. None of those options would be acceptable to me. In terms of three and four-year-olds also, the demand for consistency is misplaced. We believe that it is right that local authorities should have the power to exceed a nationally set minimum for formal education in the light of local circumstances.

Ceir consensws cyffredinol ar draws y Cynulliad hwn ynglŷn â phwysigrwydd gofal plant ac addysg gynnar. Fodd bynnag, mae yna nifer o resymau pam na allwn gefnogi'r cynnig hwn heddiw. Yn gyntaf oll, ni allwn dderbyn y galw ym mhwynt 4 am lefel gyson o ofal plant am ddim ac addysg gynnar ledled Cymru. Nid wyf yn ymddiheuro am ein penderfyniad i dargedu Dechrau'n Deg, sy'n cynnwys 12.5 awr o ddarpariaeth feithrin o safon i blant dwy oed, ar gyfer y 25 y cant o blant Cymru sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Byddai Pwynt 4 yn mynnu ein bod naill ai'n lleihau ansawdd a hyd y gofal plant sydd ar gael i bob plentyn, yn cynyddu'r gyllideb i bedair gwaith ei maint, neu'n cael gwared yn llwyr ar Dechrau'n Deg. Ni fyddai'r un o'r opsiynau hyn yn dderbyniol i mi. O ran plant tair a phedair oed hefyd, mae'r galw am gysondeb yn gyfeiliornus. Credwn ei bod yn iawn i awdurdodau lleol gael y grym i ragori ar leiafswm a osodwyd yn genedlaethol ar gyfer addysg ffurfiol yng ngoleuni amgylchiadau lleol.

The accuracy of point 1 of the motion is questionable. Affordability is a real problem for many parents who need access to childcare. Childcare is expensive; however, this is not unique to Wales. The 2015 childcare costs survey report by the Family and Childcare Trust shows Wales as having the cheapest average cost of childcare in Britain. So, while childcare costs might be higher than in some parts of the developed world, this report found that costs are lower in Wales than in England, as Simon Thomas alluded to, and Scotland.

Mae cywirdeb pwynt 1 y cynnig yn amheus. Mae fforddiadwyedd yn broblem go iawn i lawer o rieni sydd angen gofal plant. Mae gofal plant yn ddrud; fodd bynnag, nid yw hyn yn gyfyngedig i Gymru. Mae adroddiad yr arolwg o gostau gofal plant ar gyfer 2015 gan yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant yn dangos mai yng Nghymru y mae cost gyfartalog gofal plant ar ei isaf ym Mhrydain. Felly, er y gallai costau gofal plant fod yn uwch na mewn rhai rhannau o'r byd datblygedig, canfu'r adroddiad fod y costau'n is yng Nghymru nag yn Lloegr, fel y soniodd Simon Thomas, a'r Alban.

The cost of childcare can be high and have a disproportionate impact on those parents on low incomes seeking to enter into or return to paid work. To help these parents I recently launched the Parents, Childcare and Employment programme, known as PaCE. The programme, supported by the European social fund, targets out-of-work parents, providing free childcare support so they can participate in training or work experience.

Gall cost gofal plant fod yn uchel a gallant effeithio'n anghymesur ar rieni sydd ar incwm isel ac sy'n ceisio cael neu ddychwelyd i waith cyflogedig. Er mwyn helpu'r rhieni hyn, yn ddiweddar lansiais y rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, a elwir yn PaCE. Mae'r rhaglen, a gefnogir gan gronfa gymdeithasol Ewrop, yn targedu rhieni di-waith, gan ddarparu cymorth gofal plant am ddim er mwyn iddynt allu cymryd rhan mewn hyfforddiant neu brofiad gwaith.

Our commitment to early years education and childcare is clear. We currently offer 12.5 hours of high-quality childcare to those two-year-olds in greatest need as part of our Flying Start programme, as I've already said. This programme alone benefits 37,000 children across Wales, exceeding our own programme for government commitment of helping 36,000 children by 2016. Jocelyn Davies, when she spoke about children in poverty and then beginning school—I think the key element of the Flying Start programme is the speech and language component. It's so important that that is there to assist children who are in Flying Start for that very reason that Jocelyn spoke about so eloquently. Our three to four-year-olds benefit from a minimum of 10 hours of foundation phase early education. The focus of our early years programme is to aid child development, helping all children to the best possible start in life.

Mae ein hymrwymiad i addysg a gofal plant y blynyddoedd cynnar yn glir. Ar hyn o bryd rydym yn cynnig 12.5 awr o ofal plant o ansawdd uchel i'r plant dwy oed sydd â'r angen mwyaf yn rhan o'n rhaglen Dechrau'n Deg, fel y dywedais eisoes. Mae'r rhaglen hon ynddi ei hun o fudd i 37,000 o blant ledled Cymru, gan ragori ar ymrwymiad ein rhaglen lywodraethu ein hunain i helpu 36,000 o blant erbyn 2016. Siaradodd Jocelyn Davies am blant yn byw mewn tlodi, ac yna'n dechrau yn yr ysgol—credaf mai elfen allweddol y rhaglen Dechrau'n Deg yw'r elfen iaith a lleferydd. Mae mor bwysig ei gael er mwyn cynorthwyo plant Dechrau'n Deg am yr union reswm y soniodd Jocelyn amdano mor huawdl. Mae ein plant tair i bedair oed yn elwa o leiafswm o 10 awr o addysg gynnar cyfnod sylfaen. Ffocws ein rhaglen blynyddoedd cynnar yw cynorthwyo datblygiad plant, gan helpu pob plentyn i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

We're also supporting local authorities in Wales through our out-of-school childcare grant, which totals £2.3 million this financial year. This grant currently supports local authorities in addressing gaps in childcare by providing wraparound childcare and play during out-of-school hours and holiday periods. Our actions demonstrate that we recognise the importance of childcare and early years education and their particular importance in raising the attainment of disadvantaged pupils.

Rydym hefyd yn cefnogi awdurdodau lleol yng Nghymru drwy ein grant gofal plant y tu allan i'r ysgol, sef cyfanswm o £2.3 miliwn y flwyddyn ariannol hon. Mae'r grant hwn ar hyn o bryd yn cynorthwyo awdurdodau lleol i fynd i'r afael â bylchau mewn gofal plant drwy ddarparu gofal plant cofleidiol a chwarae y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod y gwyliau. Mae ein camau gweithredu yn dangos ein bod yn cydnabod pwysigrwydd gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar a'u pwysigrwydd arbennig ar gyfer gwella cyrhaeddiad disgyblion difreintiedig.

I'm pleased to confirm, as Aled Roberts raised in his contribution, that, as agreed in the 2014 budget, we are progressing with a feasibility study into childcare as a barrier for students wishing to study. So, we support the amendment tabled by the Liberal Democrats. Just to bring you up to date, a tendering exercise is currently under way to identify a suitable contractor to undertake that feasibility study. That study will determine what further support to young parents, to help them return to further education where childcare is a barrier, is needed. That will inform a proposed pilot. Just a couple of weeks ago, I attended, with Jane Hutt, Barry College in her constituency, where there was a fantastic example of a nursery that provides childcare provision not just for students—it was very well used by students who attend the college, but also used by other parents wishing to access childcare.

Rwy'n falch o gadarnhau, fel y crybwyllodd Aled Roberts yn ei gyfraniad, ein bod, fel y cytunwyd yn y gyllideb ar gyfer 2014, yn symud ymlaen gydag astudiaeth ddichonoldeb ar ofal plant fel rhwystr i fyfyrwyr sy'n dymuno astudio. Felly, rydym yn cefnogi'r gwelliant a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol. I chi gael gwybod beth sy'n digwydd ar hyn o bryd, mae ymarfer tendro ar y gweill yn awr i ddod o hyd i gontractwr addas i gyflawni'r astudiaeth ddichonoldeb. Bydd yr astudiaeth yn pennu pa gefnogaeth sydd ei hangen ar rieni ifanc, i'w helpu i ddychwelyd i addysg bellach lle y mae gofal plant yn rhwystr. Bydd yn llywio cynllun peilot arfaethedig. Ychydig o wythnosau yn ôl, gyda Jane Hutt, mynychais Goleg y Barri yn ei hetholaeth, lle roedd enghraifft wych o feithrinfa sy'n cynnig darpariaeth gofal plant nid yn unig i fyfyrwyr—câi ei defnyddio'n dda iawn gan fyfyrwyr sy'n mynychu'r coleg, ond roedd rhieni eraill a oedd eisiau gofal plant yn ei defnyddio hefyd.

18:35

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you taking an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

18:35

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Gwnaf.

18:35

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that. Just on the point that you're talking about with Aled Roberts there, your own PaCE plans are to introduce childcare support for 16 to 24-year-olds anyway. Can you tell me whether there'll be any duplication in the two projects you're talking about, because that's an obvious demographic for people attending further education college?

Diolch yn fawr i chi. Ar y pwynt rydych yn sôn amdano gydag Aled Roberts yno, eich cynlluniau chi ar gyfer PaCE yw cyflwyno cymorth gofal plant ar gyfer rhai rhwng 16 a 24 mlwydd oed beth bynnag. A allwch ddweud wrthyf a fydd yna unrhyw ddyblygu'n digwydd gyda'r ddau brosiect y soniwch amdanynt, oherwydd dyna un ddemograffeg amlwg i bobl sy'n mynychu coleg addysg bellach?

18:35 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I would be very keen to avoid any duplication, but, as I say, the tendering exercise is currently under way. I will make a written statement before the end of this term, as Aled Roberts asked, on progress in relation to that.

Byddwn yn awyddus iawn i osgoi unrhyw ddyblygu, ond fel y dywedais, mae'r ymarfer tendro ar y gweill ar hyn o bryd. Byddaf yn gwneud datganiad ysgrifenedig cyn diwedd y tymor hwn, ar gynnydd mewn perthynas â hynny fel y gofynnodd Aled Roberts.

I think we all agree that early years education and childcare are vitally important, and it's no secret that we are looking at options for increasing childcare, and we are committed to improving provision. I think we've got a proven practical record of doing just that, with programmes such as Flying Start. However, unlike Plaid Cymru, we're not going to rush out an uncosted scheme that may not be practical; it may be of doubtful value to families, and I look forward to Simon Thomas's comments wrapping up, in particular on the point that Aled Roberts made. I think it's really important that what we do is ensure that our proposals are geared to both the educational needs of children and the needs of parents for childcare to enable them to secure and maintain employment. We will ensure these are fully costed and offer a system that can be sustained in the long term.

Rwy'n credu bod pawb ohonom yn cytuno bod addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant yn hollbwysig, ac nid yw'n gyfrinach ein bod yn edrych ar opsiynau ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth gofal plant, ac rydym wedi ymrwymo i wella'r ddarpariaeth honno. Rwy'n credu bod gennym hanes ymarferol da o wneud hynny, gyda rhaglenni fel Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, yn wahanol i Blaid Cymru, nid ydym am ruthro i gyflwyno cynllun heb ei gostio na fydd yn ymarferol o bosibl; gallai fod amheuaeth ynghylch ei werth i deuluoedd, ac edrychaf ymlaen at sylwadau Simon Thomas wrth ddod â'r ddadl i ben, yn enwedig ar y pwynt a wnaeth Aled Roberts. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn mai'r hyn a wnawn yw sicrhau bod ein cynigion yn cael eu hanelu at anghenion addysgol plant ac angen rhieni i gael gofal plant i'w galluogi i gael gwaith a'i gadw. Byddwn yn sicrhau bod y rhain yn cael eu costio'n llawn ac yn cynnig system y gellir ei chynnal yn y tymor hir.

18:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on Simon Thomas to reply to the debate.

Galwaf ar Simon Thomas i ymateb i'r ddadl.

18:36 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n ddiolchgar i bawb wnaeth gyfrannu i'r ddadl, yn enwedig cyd-Aelodau Plaid Cymru, a oedd wedi rhoi'r darlun llawn, rwy'n gobeithio, o'r cynlluniau sydd gan Blaid Cymru yn y maes yma. Roeddwn braidd yn siomedig gydag ymateb y Gweinidog, a'r diffyg uchelgais a gweledigaeth oedd yna ar gyfer ymestyn y cynllun yma i bawb. Rwyf jest yn atgoffa'r Gweinidog, os caf, mai dyma un o'r prif ofynion gan y Sefydliad Bevan yn ogystal, sydd wedi dod ers i ni gyhoeddi'n cynlluniau ni, ond mae'n dal i fod yn wir. Maen nhw hefyd yn meddwl mai dyma un o'r prif ymyraethau y mae unrhyw Lywodraeth yn gallu'i wneud i dorri'r ddolen dlodi yng Nghymru a mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad yr oedd Jocelyn Davies wedi amlinellu mor glir a chroyw.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm grateful to everyone who contributed to the debate, especially my fellow Plaid Cymru Members who, hopefully, gave us a full picture of Plaid Cymru's proposals in this area. I was a little disappointed with the Minister's response, and the lack of ambition and vision that was there in terms of extending this scheme to everyone. I just want to remind the Minister, if I may, that this is one of the main demands by the Bevan Foundation, which has emerged since we published our proposals, but it remains the case. They, too, believe that this is one of the major interventions that any Government could put in place to break that link between poverty and pupil attainment and tackle the gap in attainment that Jocelyn Davies so clearly and concisely set out.

Mi wnaf droi ychydig fwy at y Gweinidog yn y man, ond os caf ateb ddau brif beth efallai sydd wedi dod o'r ddadl—roeddwn yn meddwl efallai y bydden nhw'n codi, ac rwy'n falch iawn o gael y cyfle i ymateb iddyn nhw. Yn gyntaf oll, rwyf eisiau ei wneud yn glir bod Plaid Cymru yn gofyn, ac yn pwyso, ac yn argymell ein bod ni'n torri lawr y gwahaniaeth rhwng gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar. Mae ambell i siaradwr, gan gynnwys y Gweinidog ei hunan, wedi dweud bod y ddau beth yn gwbl wahanol. Y pwynt rydym yn trio'i wneud yw bod angen uno, a dod â'r ddau yn llawer mwy at ei gilydd, a bod y buddiannau addysgiadol ac economaidd hynny yn dod pan ydych yn torri lawr y gwahaniaeth sylfaenol yna, yn hytrach na dweud bod hynny'n bwysig i'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn gweithio. Felly, un gwasanaeth gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar rydym ni yn ceisio'i wneud fan hyn, er fy mod yn derbyn bod rhwystrau y bydd eisiau mynd i'r afael â nhw.

I will turn to the Minister's comments in a few moments' time, but if I could just respond to two of the main issues that have perhaps emerged from the debate—I thought that perhaps these issues would be raised, and I'm very pleased to have the opportunity to respond to them. First of all, I want to make it clear that Plaid Cymru is asking, and pressing for, and recommending that we cut down the barriers between childcare and early years education. A few of the contributors, including the Minister herself, have said the two things are entirely different. The point we're trying to make is that the two things need to be merged and brought far closer together, and that there are educational and social benefits that emerge when you actually break down that basic distinction, rather than stating that it's important to how the Government works. So, we are seeking one childcare and early years education service here, although I do accept that there are certain barriers that will need to be removed.

Mae hynny yn dod â fi at yr ail bwynt ynglŷn â’r gost: i raddau, mae’r gost yn adlewyrchu’r ffaith ein bod yn symud o un broses i broses arall. Rydym yn ffyddiog bod y gost o fynd at 15 awr yr wythnos, fel dywedodd Lindsay Whittle, yn £20 miliwn, a bod modd darparu o’r gyllideb bresennol addysgiadol ar gyfer y pwrpas yna. Wedi’r cyfan, nid oedd gan y Gweinidog addysg bresennol £20 miliwn pan gyflwynodd Her Ysgolion Cymru, ond fe ffeindiodd e £20 miliwn yn y pendraw. Mae’r gost tymor hir o gyflwyno’r cynllun yma’n llawn, yn fy marn i, yn £100 miliwn. Ac, wrth gwrs, mae hynny’n gost bob blwyddyn. Nawr, ydy hwn yn gost rhesymol? Mae’n wir, pan wnaethom ymgynghori ar y polisi, roeddem yn edrych at gostau uwch o tua £150 miliwn. Mae’n wir hefyd fod Bevan wedi amcangyfrif, ar sail costau Lloegr, rhywbeth fel £180 miliwn. Ond costau Lloegr ydy’r rheini, ac, fel y mae’r Gweinidog newydd bwyntio mas, mae costau yng Nghymru yn wahanol. Ac, ar sail astudiaeth rydym ni wedi’i wneud o 13 awdurdod lleol, a’r costau go iawn mae nhw’n talu nawr, mewn costau heddiw, rydym yn ffyddiog bod modd symud at 30 awr yr wythnos am £100 miliwn. Felly, dyna’r buddsoddiad rydym yn fodlon ei wneud. Ac yn wahanol i’r llefarydd ar ran y Gweinidog addysg, Huw Lewis, a ddywedodd wrth ymateb i’r cwestiwn yma

That brings me to the second point on the cost: to a certain extent, the cost reflects the fact that we are moving from one process to another. We are confident that the cost of going to 15 hours a week, as Lindsay Whittle said, will be £20 million, and that that could be provided from the current education budget. After all, the current education Minister didn’t have £20 million when he introduced Schools Challenge Cymru, but he found that money in the end. The long-term cost of introducing this proposal in full, in my view, is £100 million. And, of course, that’s an annual cost. Is this a reasonable cost? Well, it’s true that, when we consulted on the policy, we were looking at higher costs of some £150 million. It’s also true that Bevan estimated, on the basis of the costs in England, a figure of around £180 million. But those are English costs, and, as the Minister has just pointed out, the costs in Wales are different. And, on the basis of the study that we carried out of 13 local authorities, and the real-term costs that they’re paying now, in today’s figures, we are confident that we can move towards 30 hours a week for £100 million. That’s the investment, therefore, that we are willing to make. That’s the investment, therefore, that we are willing to put in place, and unlike the spokesperson for the education Minister, Huw Lewis, who said in response to this question that

‘you decide your political priorities first, then work out the finance’,

‘you decide your political priorities first, then work out the finance’,

rydym yn hapus iawn i weithio mas y gyllideb ac wedyn i ddarparu’r flaenoriaeth. A dyna beth oedd yn siomedig wedyn yn ymateb y Gweinidog, sef nad oedd hi wedi cydio yn y cyfle, nid i gefnogi’r cynnig—nid yw’r cynnig yma nag acw—ond i sylweddoli bod yna gyfle fan hyn i weddnewid cymdeithas, i newid y ffordd rydym ni’n gwneud yr economi ac addysg. Er enghraifft, os yw’n cymryd pedair gwaith mwy na Dechrau’n Deg ym mhob rhan o Gymru, pam lai? Pam ddim cynnig hynny i bawb? Dyna beth mae Sefydliad Bevan yn argymell i chi ei wneud. Pam gwrthod gwneud hynny? Pam nad ydych chi yn gosod hynny fel nod a chwilio am yr adnoddau, fel mae’r Gweinidog addysg wedi awgrymu—chwilio am adnoddau yn sgîl hynny?

we’re happy to work out the figures and then to provide the priority. And that’s what was disappointing in the Minister’s response, that she didn’t take the opportunity, not to support the motion—the motion is neither here nor there—but to realise that there’s a real opportunity here to transform society, to change the way our economy and education systems work. For example, if it takes four times more than Flying Start in all parts of Wales, then why not? Why not make that provision available to all? That’s what the Bevan Foundation recommends you do. Why refuse to do that? Why don’t you set that as an objective and seek the resources, as the education Minister suggested, having set that objective?

Rydym ni hefyd o’r farn bod modd gwneud hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod mynd yn ôl i’r gwaith yn fforddiadwy i rieni. Nid oeddwn yn siŵr a oedd y Gweinidog yn dweud bod gofal plant, oherwydd ei fod ychydig bach yn rhatach yng Nghymru na Lloegr, felly yn fforddiadwy. Nid wyf yn meddwl ei fod yn fforddiadwy i nifer fawr o rieni, ac rwy’n meddwl bod angen i’r Llywodraeth ystyried hynny o ddifrif pan ydynt yn sôn am fynd i’r afael â phroblemau fel yr rhai oedd Alun Ffred yn sôn amdanynt—bod anghydbwysedd rhwng menywod a dynion yn y gweithlu ac yn y farchnad lafur.

We’re also of the opinion that this could be achieved in order to ensure that returning to work is affordable for parents. I wasn’t sure if the Minister was saying that childcare, because it’s a little cheaper in Wales than in England, is therefore affordable. I don’t think it’s affordable for very many parents, and I think that the Government needs to consider that in earnest when they talk of tackling issues such as those highlighted by Alun Ffred in terms of inequality between women and men in the workforce and in the labour market.

Rwy'n credu hefyd bod angen edrych ar beth ddywedodd Gordon Brown heddiw, a dweud y gwir. Rwy'n deall ei fod wedi gwneud araith i'r Child Poverty Action Group heddiw. Un o'r pethau y gwnaeth danlinellu fanna oedd chwalu rhai o'r 'myths' o gwmpas tlodi, bod tlodi yn rhywbeth a oedd yn perthyn i deuluoedd ar chwâl—teuluoedd mewn 'chaos', fel y maen nhw yn cael eu disgrifio. Roedd yn gwneud y pwynt mai'r grŵp mwyaf o bobl mewn tlodi oedd teuluoedd traddodiadol, lle'r oedd y tad yn gweithio a'r fam yn aros adref. Dyna'r grŵp mwyaf o bobl sydd yn derbyn credydau treth ar hyn o bryd, ond sy'n deuluoedd mewn tlodi. Dyma'r math o bolisi sy'n mynd i'r afael â'r grŵp yna o bobl, ac sy'n helpu'n uniongyrchol y teuluoedd hynny.

I also believe that we need to look at Gordon Brown's comments today. I understand that he made a speech to the Child Poverty Action Group today. One of the things that he highlighted there was the need to destroy some of the myths around poverty, that poverty was something that affected families that were in chaos, as they are described. He made the point that the largest group of people in poverty are traditional families, where the father works and the mother remains at home. That's the largest group of people that are receiving tax credits at the moment, but are families in poverty. This is the kind of policy that will tackle that group of people and will provide direct assistance to those families.

Rwyf innau hefyd eisiau cloi drwy gydnabod y cam mawr a wnaeth Gweriniaeth Iwerddon—mae Jocelyn Davies wedi dwyn y geiriau o fy ngenau, ond da iawn am yr holl waith mae hi wedi ei wneud, a nifer o Aelodau eraill fan hyn—i hyrwyddo'r ffaith bod y gosb gorfforol wedi cael ei diddymu a'i gwneud yn anghyfreithlon yng Ngweriniaeth Iwerddon. Rydym eisiau cydnabod hynny fel cam ymlaen i'n cyfeillion ni dros y môr Celtaidd, ac yn mawr obeithio y bydd hyn yn cael ei gyflwyno yng Nghymru. Ond gadewch iddo hefyd fod yn rhan o bolisi cynhwysfawr sy'n hyrwyddo hawliau plant, ac sydd hefyd yn hyrwyddo addysg a phob mantais yn y blynyddoedd cynnar i bob un plentyn yng Nghymru, lle bynnag y maen nhw'n byw.

I also want to conclude by recognising the major step taken in the Republic of Ireland—Jocelyn Davies took the words out of my mouth, but I congratulate her on all the work that she's done, along with other Members here—to promote the fact that physical punishment has been banned in the Republic of Ireland. We want to recognise that as a step forward taken by our colleagues over the Irish sea, and we very much hope that this will be introduced here in Wales. But let it also be part of a comprehensive policy that promotes the rights of children, and also promotes education and every advantage in the early years for all children in Wales, wherever they live.

18:43

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting time until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

18:43

# 8. Cyfnod Pleidleisio

# 8. Voting Time

Y

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. So, we'll vote first on the motion to approve the Assembly's Commission budget. I call for a vote on the motion tabled in my name. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 43. There voted against four. Therefore, the motion is agreed.

Mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes. Felly, pleidleisiwn yn gyntaf ar y cynnig i gymeradwyo cyllideb Comisiwn y Cynulliad. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn fy enw i. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 43 o blaid. Pleidleisiodd 4 yn erbyn. Felly, derbyniwyd y cynnig.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 43, Yn erbyn 4, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 43, Against 4, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5868](#)

[Result of the vote on motion NDM5868](#)

18:43

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We'll now vote on the first Welsh Conservatives debate on older people. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 10. There voted against 37. Therefore, the motion without amendment is not agreed, and we will now vote on the amendments.

Pleidleisiwn yn awr ar ddadl gyntaf y Ceidwadwyr Cymreig ar bobl hŷn. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na dderbynnir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 10 o blaid. Pleidleisiodd 37 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio, a phleidleisiwn yn awr ar y gwelliannau.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 10, Yn erbyn 37, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 10, Against 37, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5869](#)

[Result of the vote on motion NDM5869](#)

18:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 1 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 23. There voted against 24. Therefore, the amendment is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 23 o blaid. Pleidleisiodd 24 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 23, Yn erbyn 24, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 23, Against 24, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig welliant 1 i gynnig NDM5869](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5869](#)

18:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 2 tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 33. There voted against 14. Therefore, amendment 2 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2 a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 33 o blaid. Pleidleisiodd 14 yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 2.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 33, Yn erbyn 14, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 33, Against 14, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5869](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5869](#)

18:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 3 tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 47. There were no votes against. Therefore, amendment 3 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 47 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 3.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 47, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 47, Against 0, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5869](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5869](#)

18:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y’i diwygiwyd.

Cynnig NDM5869 fel y’i diwygiwyd:

Motion NDM5869 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gwerthfawrogi'r cyfraniad sylweddol y mae pobl hŷn yn ei wneud i fywyd cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru;

1. Values the significant contribution which older people make to social and economic life in Wales;

2. Yn gwrthod pob math o ragfarn tuag at bobl hŷn yng Nghymru;

2. Rejects all forms of ageism towards older people in Wales;

3. Yn cydnabod bod gan weithwyr iau a gweithwyr hŷn sy'n dymuno dychwelyd i'r gweithlu anghenion gwahanol o ran cymorth cyflogaeth ac y dylai rhaglenni cyflogaeth gael eu cynllunio yn unol â hynny.

3. Recognises that younger workers and older workers who wish to return to the workforce have different employment support needs and that employment programmes should be designed accordingly.

4. Yn gresynu y gall diffyg mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus rwystro pobl hŷn rhag cael mynediad at gyfleoedd cymdeithasol ac economaidd; a

4. Regrets that a lack of access to public transport can inhibit the ability of older people to access social and economic opportunities; and

5. Yn gresynu at y ffaith y gallai toriadau i gyllidebau awdurdodau lleol leihau'r lefel o wasanaethau sydd ar gael i helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol.

5. Regrets that cuts to local authority budgets may reduce the level of services available to help older people live independently.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl hŷn fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt gyfrannu at fywyd cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru.

6. Calls on the Welsh Government to review the support available for older people to maximise opportunities for them to contribute to social and economic life in Wales.

18:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 47. There were no votes against. Therefore the motion, as amended, is agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 47 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

*Derbyniwyd cynnig NDM5869 fel y'i diwygiwyd: O blaid 47, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion NDM5869 as amended agreed: For 47, Against 0, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5869 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5869 as amended](#)

18:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We'll now vote on the Welsh Conservatives debate on armed forces veterans. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 10. There voted against 37. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig ar gyn-filwyr y lluoedd arfog. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na dderbynnir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 10 o blaid. Pleidleisiodd 37 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 10, Yn erbyn 37, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 10, Against 37, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5871](#)

[Result of the vote on motion NDM5871](#)

18:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We will now vote on the amendments tabled to the motion. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. I call for a vote on amendment 1 tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 24. There voted against 14. There were 9 abstentions. Therefore, amendment 1 is agreed and amendments 2 and 3 are deselected.

Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol. Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 24 o blaid. Pleidleisiodd 14 yn erbyn. Roedd 9 yn ymatal. Felly, derbyniwyd gwelliant 1 a bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 14, Ymatal 9.*

*Amendment agreed: For 24, Against 14, Abstain 9.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5871](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5871](#)

*Cafodd gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol.*

*Amendments 2 and 3 deselected.*

18:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 4 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 46. There were no votes against. Therefore, amendment 4 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 46 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 4.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 46, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 46, Against 0, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5871](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5871](#)

18:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Cynnig NDM5871 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5871 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cofio ac yn anrhydeddu'r rhai sydd wedi aberthu eu hunain i sicrhau a diogelu ein rhyddid;

1. Remembers and honours those who have sacrificed themselves to secure and protect our freedom;

2. Yn talu teyrnged i'r rhai sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ac yn nodi'r rhwymedigaeth foesol sy'n ddyledus iddynt gan bobl ledled Cymru;

2. Pays tribute to those who have served in the Armed Forces and notes the moral obligation owed to them by people across Wales;

3. Yn croesawu'r ffaith fod pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi penodi Hyrwyddwyr Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog;

3. Welcomes the fact that all local authorities in Wales have appointed Armed Forces Community Covenant Champions;

4. Yn croesawu llwyddiant y Cerdyn Braint Amddiffyn yng Nghymru;

4. Welcomes the success of the Defence Privilege Card in Wales;

5. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r pecyn cymorth ar gyfer y Lluoedd Arfog.

5. Welcomes the Welsh Government's commitment to the package of support for the Armed Forces.

6. Yn croesawu cynlluniau megis Newid Cam, sy'n cynnig cyngor a mentora gan gyfoedion i gyn-filwyr a'u teuluoedd, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid digonol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i gyn-filwyr i gynnal y gwasanaethau hanfodol hyn.

6. Welcomes schemes such as Change Step, which offer peer mentoring and advice for veterans and their families, and calls on the Welsh Government to ensure that there is sufficient funding for mental health services for veterans to sustain these vital services.

18:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 10. There were 9 abstentions. Therefore, the motion as amended is agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 10 yn erbyn. Roedd 9 yn ymatal. Felly, derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

*Derbyniwyd cynnig NDM5871 fel y'i ddiwygiwyd: O blaid 27, Yn erbyn 10, Ymatal 9.*

*Motion NDM5871 as amended agreed: For 27, Against 10, Abstain 9.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5871 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5871 as amended

18:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We'll now vote on the Plaid Cymru debate on childcare costs. I call for a vote on the motion tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendment tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 19. There voted against 28. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar ddadl Plaid Cymru ar gostau gofal plant. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na dderbynnir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliant a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 19 o blaid. Pleidleisiodd 28 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 19, Yn erbyn 28, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 19, Against 28, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5870

Result of the vote on motion NDM5870

18:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will now vote on the amendment. I call for a vote on amendment 1 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 28. There voted against 9. There were 10 abstentions. Therefore amendment 1 is agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliant. Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 28 o blaid. Pleidleisiodd 9 yn erbyn. Roedd 10 yn ymatal. Felly, derbyniwyd gwelliant 1.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 9, Ymatal 10.*

*Amendment agreed: For 28, Against 9, Abstain 10.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5870

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5870

18:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Cynnig NDM5870 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5870 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod costau gofal plant yng Nghymru ymhlith y drutaf yn y byd datblygedig;

1. Notes that childcare costs in Wales are amongst the most expensive in the developed world;

2. Yn nodi bod teuluoedd yng Nghymru yn cael llai o ofal plant am ddim na'u cymheiriaid yn Lloegr a'r Alban;

2. Notes that families in Wales receive less free childcare than their counterparts in England and Scotland;

3. Yn cydnabod pwysigrwydd addysg gynnar i godi cyrhaeddiad disgyblion difreintiedig;

3. Recognises the importance of early education to raising the attainment of disadvantaged pupils;

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnig darpariaeth gyson o ofal plant am ddim ac addysg gynnar ledled Cymru.

4. Calls upon the Welsh Government to provide a consistent amount of free childcare and early education throughout Wales.

5. Yn croesawu'r cyllid a gafodd ei sicrhau yn y cytundeb ar gyllideb 2014 gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru a Llywodraeth Cymru i ddarparu £0.4 miliwn dros ddwy flynedd i weithredu astudiaeth ddichonoldeb a chynllun peilot gofal plant ar gyfer myfyrwyr mewn addysg bellach.

5. Welcomes the funding secured in the 2014 budget deal between the Welsh Liberal Democrats and the Welsh Government for £0.4 million over two years to implement a feasibility study and pilot childcare scheme for students in further education.

18:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 4. There voted against 24. There were 19 abstentions. Therefore, the motion as amended is not agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 4 o blaid. Pleidleisiodd 24 yn erbyn. Roedd 19 yn ymatal. Felly, gwrthodwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

*Gwrthodwyd cynnig NDM5870 fel y'i ddiwygiwyd: O blaid 4, Yn erbyn 24, Ymatal 19.*

*Motion NDM5870 as amended not agreed: For 4, Against 24, Abstain 19.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5870 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5870 as amended

18:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would ask those Members who are leaving the Chamber to do so quickly and quietly.

Gofynnaf i'r Aelodau sy'n gadael y Siambr i wneud hynny'n gyflym ac yn dawel.

## 9. Dadl Fer: Heintiau sy'n Cael eu Dal mewn Ysbytai: yr Heriau a'r Atebion

## 9. Short Debate: Hospital-acquired Infections: the Challenges and Solutions

*Daeth Sandy Mewies i'r Gadair.*

*Sandy Mewies took the Chair.*

18:48 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 9 is the short debate and I call on Altaf Hussain to speak on the topic he has chosen.

Eitem 9 yw'r ddadl fer a galwaf ar Altaf Hussain i siarad ar y pwnc y mae wedi ei ddewis.

18:49 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. First, I have agreed, and I would be delighted, for Kirsty Williams to speak as well.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Yn gyntaf, rwyf wedi cytuno, a byddwn yn falch iawn, i Kirsty Williams siarad hefyd.

I am grateful for the opportunity today to be addressing the Chamber in this short debate on the subject of hospital-acquired infections. The definition of a hospital-acquired infection is one that is diagnosed 48 hours or more after a patient is admitted to hospital. In other words, it is an infection picked up by the patient from a source within the hospital after they have been admitted, and not one carried in by the affected patient from the community.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i annerch y Siambr heddiw yn y ddadl fer hon ar destun heintiau a gafwyd yn yr ysbyty. Y diffiniad o haint a gafwyd yn yr ysbyty yw un y gwneir diagnosis ohono 48 awr neu fwy ar ôl i glaf gael ei dderbyn i'r ysbyty. Mewn geiriau eraill, mae'n haint y mae'r claf yn ei gael o ffynhonnell yn yr ysbyty ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty, ac nid un a gariwyd i mewn o'r gymuned gan y claf yr effeithiwyd arno.

There are immediate and pressing reasons why these infections should concern us. In 2014, 25 death certificates mentioned MRSA. In my view, that is 25 too many. Can you imagine if a death certificate mentioned faulty anaesthetic equipment or a broken syringe driver? Rightly, there would be scandal and public outcry. People would rightly demand answers, because these deaths should clearly have been preventable. The same holds true for the huge majority of hospital-acquired infections. Through relatively simple preventative measures, they are, by their nature, avoidable and it is vital that this message remains at the forefront in setting our priorities for healthcare and clinical best practice in Wales.

Mae rhesymau uniongyrchol a phwysig pam y dylai'r heintiau hyn beri pryder i ni. Yn 2014, roedd 25 o dystysgrifau marwolaeth yn crybwyll MRSA. Yn fy marn i, mae'n 25 yn ormod. A allwch chi ddychmygu pe bai tystysgrif marwolaeth yn crybwyll offer anesthetig diffygiol neu yrrwr chwistrell wedi torri? Yn gywir ddigon, byddai yna sgandal a phrotestio cyhoeddus. Byddai pobl yn iawn i fynnu atebion, oherwydd mae'n amlwg y dylai fod wedi bod modd o atal y marwolaethau hyn. Mae'r un peth yn wir am y mwyafrif helaeth o heintiau a gafwyd yn yr ysbyty. Drwy fesurau ataliol cymharol syml, oherwydd eu natur, mae modd eu hosgoi ac mae'n hanfodol bod y neges hon yn parhau i fod yn flaenllaw wrth i ni bennu ein blaenoriaethau ar gyfer arferion gorau ym maes gofal iechyd a meysydd clinigol yng Nghymru.

The issue of MRSA is one with which I had a great deal of involvement as a surgeon, in attempting to tackle it in a clinical setting, and one which should remain a priority within healthcare policy. It was, for me, all too familiar to treat a patient who should have been perfectly healthy on admission and discharge, that sadly deteriorated in the hospital due to this type of infection. A patient who should have been quickly operated on and turned around to resume a normal and healthy life in the community would all too frequently become a long-term admission, occupying a bed and tying up resources from both the NHS and, ultimately, social services upon eventual discharge. Bad for the health service and unacceptable for the patient, especially when the whole scenario could have been avoided. The average cost per patient per day of treating an MRSA case in hospital with antibiotics is over £220. So, clearly there is a compelling case for urgent action on the part of policy makers, lead clinicians and NHS managers.

Mae MRSA yn fater y bûm yn ymwneud cryn dipyn ag ef fel llawfeddyg, wrth geisio mynd i'r afael â'r haint mewn lleoliad clinigol, ac yn un a ddylai barhau'n flaenoriaeth mewn polisi gofal iechyd. I mi, profiad rhy gyfarwydd oedd trin claf a ddylai fod wedi bod yn berffaith iach wrth ei dderbyn i'r ysbyty ac wrth ei ryddhau, ond a ddirywiodd yn yr ysbyty yn anffodus oherwydd y math hwn o haint. Mae claf a ddylai fod wedi cael llawdriniaeth sydyn a'i wella i ailddechrau bywyd normal ac iach yn y gymuned yn llawer rhy aml yn dod yn glaf hirdymor, gan fynd â gwely a chlymu adnoddau'r GIG ac yn y pen draw, y gwasanaethau cymdeithasol pan gaiff y claf ei ryddhau yn y diwedd. Mae hyn yn gwneud drwg i'r gwasanaeth iechyd ac yn annerbyniol i'r claf, yn enwedig pan ellid bod wedi osgoi'r holl sefyllfa. Mae cost gyfartalog fesul claf am bob dydd o driniaeth ar gyfer MRSA yn yr ysbyty â gwrthfiotigau yn fwy na £220. Felly, yn amlwg ceir achos cryf dros weithredu ar frys gan y rhai sy'n llunio polisi, clinigwyr arweiniol a rheolwyr y GIG.

Let me continue by explaining a little more about MRSA. Most people have heard of the term but may not fully understand it. MRSA is also known as a superbug. Put as simply as possible, MRSA is a contagious bacterial infection that predominantly spreads through direct skin to skin contact with people, contact with lesions or by touching contaminated surfaces. MRSA can live for up to seven months on dust. It can live for up to eight weeks on a mop head, for up to nine weeks on a cotton towel, and for over six months on a blanket. It can live on the skin of an otherwise healthy individual with no symptoms indefinitely. People with active MRSA are more contagious, but even MRSA-carriers who are not infected can spread it to others, causing infections.

Gadewch i mi barhau drwy egluro ychydig mwy am MRSA. Mae'r rhan fwyaf o bobl wedi clywed am y term ond efallai na fyddant yn ei ddeall yn iawn. Gelwir MRSA yn arch-fyg hefyd. O'i roi mor syml â phosibl, haint bacteriol heintus yw MRSA sy'n lledaenu'n bennaf drwy gyswllt croen uniongyrchol â phobl, cyswllt â briwiau neu drwy gyffwrdd arwynebau wedi'u halogi. Gall MRSA fyw am hyd at saith mis ar lwch. Gall fyw am hyd at wyth wythnos ar ben mop, am hyd at naw wythnos ar liain cotwm, ac am dros chwe mis ar flanced. Gall fyw ar groen unigolyn a fyddai fel arall yn iach heb unrhyw symptomau am gyfnod amhenodol. Mae cludwyr MRSA actif yn fwy heintus, ond gall hyd yn oed cludwyr MRSA nad ydynt wedi'u heintio ei ledaenu i bobl eraill, gan achosi heintiau.

MRSA is endemic and epidemic in both hospitals and community settings, and is carried by around 2 per cent of the population, although most do not develop an infection. MRSA infections are common among people who have weak immune systems in hospitals, nursing homes and other healthcare settings. Infections can appear around wounds, including surgical wounds or invasive devices like catheters, implanted feeding tubes and implants. Carrying the MRSA bacteria does not always lead to disease. However, damage to skin or other injuries may allow MRSA to overcome the natural protective mechanisms of the body and lead to infection. The risk of developing clinical MRSA infection has been documented to be up to 30 per cent. The overall incidence of MRSA in hospitals is still increasing worldwide despite increased vigilance.

Mae MRSA yn endemig ac yn epidemig mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol, a chaiff ei gludo gan oddeutu 2 y cant o'r boblogaeth, er nad yw'r rhan fwyaf yn datblygu haint. Mae heintiau MRSA yn gyffredin ymhlith pobl sydd â systemau imiwnedd gwan mewn ysbytai, cartrefi nyrsio a lleoliadau gofal iechyd eraill. Gall heintiau ymddangos o amgylch clwyfau, gan gynnwys clwyfau llawfeddygol neu ddyfeisiau mewnlifol fel cathetrau, tiwbiau bwydo a fewnblannwyd a mewnblaniadau. Nid yw cario bacteria MRSA bob amser yn arwain at glefyd. Fodd bynnag, gall niwed i groen neu anafiadau eraill ganiatáu i MRSA oresgyn mecanweithiau amddiffynnol naturiol y corff ac arwain at haint. Nodwyd bod hyd at 30 y cant o risg o ddatblygu haint MRSA clinigol. Mae nifer yr achosion o MRSA mewn ysbytai yn gyffredinol yn dal i gynyddu ar draws y byd er gwaethaf y ffaith fod yna fwy o wyliadwriaeth.

Hospital or healthcare-acquired MRSA has huge implications regarding overall health and prognosis of the patient. Recently-admitted patients, dialysis patients, HIV-infected patients and the elderly remain particularly at risk. Clearly, MRSA can have major cost and outcome implications for patients, families, hospitals and communities. For the patients who contract MRSA in hospitals, the obvious implications include extended length of stay, loss of earnings, scarring, pain, anxiety and depression with related effects on families, and death. As far as the impact on our hospitals is concerned, the effects include increased workload, disruption to the ward routine, temporary ward closures, theatre cancellations, bed blocking and extended waiting lists.

Mae i MRSA a gafwyd yn yr ysbyty neu mewn gofal iechyd oblygiadau enfawr o ran iechyd a phrognosis y claf yn gyffredinol. Mae cleifion newydd eu derbyn i'r ysbyty, cleifion dialysis, cleifion HIV a'r henoed yn wynebu perygl arbennig. Yn amlwg, gall MRSA beri goblygiadau mawr o ran cost a chanlyniadau i gleifion, teuluoedd, ysbytai a chymunedau. I'r cleifion sy'n dal MRSA mewn ysbytai, mae'r goblygiadau amlwg yn cynnwys hyd arhosiad estynedig, colli enillion, creithio, poen, pryder ac iselder gydag effeithiau cysylltiedig ar deuluoedd, a marwolaeth. O ran yr effeithiau ar ein hysbytai, maent yn cynnwys cynnydd yn y baich gwaith, amharu ar y drefn y ward, cau wardiau dros dro, canslo triniaethau theatr, blocio gwlâu a rhestrau aros estynedig.

As you might imagine, the financial costs to both patients and organisations cannot be measured exactly. For infection control teams, MRSA can be the biggest and most formidable challenge as it remains a significant cause of hospital-acquired infection.

Fel y gallech ddychmygu, ni ellir mesur yr union gostau ariannol i gleifion a sefydliadau. I dimau rheoli heintiau, mae'n bosibl mai MRSA yw'r her fwyaf a mwyaf arswydus gan ei fod yn parhau i fod yn un o brif achosion heintiau a gafwyd yn yr ysbyty.

So, the effective prevention, management and control of MRSA infections and outbreaks remains vital. This calls for sustained and multi-faceted efforts from individuals, families, surgeons, physicians, infection control teams, epidemiologists, communities and, of course, government.

Felly, mae atal a rheoli heintiau MRSA a nifer yr achosion yn parhau i fod yn hanfodol. Mae'n galw am ymdrechion parhaus ac amlweddog gan unigolion, teuluoedd, llawfeddygon, meddygon, timau rheoli heintiau, epidemiolegwyr, cymunedau ac wrth gwrs, y llywodraeth.

Earlier on, I stressed that the key element to this discussion was that MRSA, in particular, should be relatively easy to prevent through simple and practical steps. So, what form should these take and what makes them so simple?

Yn gynharach, pwysleisiais mai'r elfen allweddol yn y drafodaeth hon oedd y dylai MRSA, yn arbennig, fod yn gymharol hawdd i'w atal drwy gamau syml ac ymarferol. Felly, beth yw'r camau a beth sy'n eu gwneud mor syml?

Quite literally, we have a fight on our hands. It starts with something as seemingly basic as hand washing. All healthcare workers should always clean their hands thoroughly, before and immediately after contact with any patients. If hand washing is impractical, alcohol gel use is an alternative and should always be available in every healthcare setting.

Yn llythrennol, mae gennym frwydr ar ein dwylo. Mae'n dechrau gyda rhywbeth mor ymddangosiadol sylfaenol â golchi dwylo. Dylai pob gweithiwr gofal iechyd lanhau eu dwylo'n drwyadl bob amser, cyn ac yn syth ar ôl dod i gysylltiad ag unrhyw gleifion. Os yw golchi dwylo yn anymarferol, mae defnyddio gel alcohol yn ddewis arall a dylai bob amser fod ar gael ym mhob lleoliad gofal iechyd.

The same standards should apply to all staff, as to all visitors—indeed, anyone having contact with any patient. All healthcare workers should immediately wash their hands, both before and after all contact with all patients. There must always be strict adherence to antiseptic measures during patient handling, and best practice to have a nominated person on ward to assess the MRSA status of every patient on admission.

Dylai'r un safonau fod yn berthnasol i bob aelod o staff, ac i bob ymwelydd—yn wir, i unrhyw un sy'n dod i gysylltiad ag unrhyw glaf. Dylai pob gweithiwr gofal iechyd olchi eu dwylo ar unwaith, cyn ac ar ôl pob cysylltiad â phob claf. Rhaid glynu'n gaeth at gamau gweithredu antiseptig wrth drin y claf, a'r arfer gorau yw cael person enwebedig ar ward i asesu statws MRSA pob claf wrth eu derbyn.

Infection rates may have decreased in Wales in the last few years, but complacency cannot be allowed to set in. Heath education, awareness and reinforcement for the public and professionals should be continuously maintained and evaluated. We need policy in place that ensures ongoing high standards.

Efallai fod cyfraddau heintiau wedi gostwng yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond ni allwn ganiatáu unrhyw hunanfodlonrwydd. Dylid cynnal a gwerthuso addysg iechyd, ymwybyddiaeth a'r modd yr atgyfnerthir negeseuon iechyd ar gyfer y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn barhaus. Mae arnom angen polisi ar waith sy'n sicrhau safonau uchel parhaus.

We must also remember that although the focus in our debate today is on the environment inside our hospitals, conditions outside of them also play a significant part when it comes to MRSA, and indeed many other hospital-acquired infections. It is statistically significant that the majority of MRSA cases that present occur in elderly females admitted from their homes as a result of trauma. In other words, we can infer that many of these cases present in patients who—although still living at home with varying degrees of independence—have become in some way frail and have very often been rushed into hospital following a fall. Typically, they are a lot more likely to arrive in the hospital as carriers of MRSA.

Rhaid i ni gofio hefyd, er bod ffocws ein dadl heddiw ar yr amgylchedd yn ein hysbytai, mae'r amodau ar y tu allan hefyd yn chwarae rhan bwysig mewn perthynas ag MRSA, a llawer o fathau eraill o heintiau a gafwyd yn yr ysbyty yn wir. Mae'n arwyddocaol yn ystadegol fod y rhan fwyaf o'r achosion o MRSA i'w gweld mewn menywod oedrannus sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty o'u cartrefi o ganlyniad i drawma. Mewn geiriau eraill, gallwn gasglu bod llawer o'r achosion hyn i'w gweld mewn cleifion sydd—er yn dal i fyw gartref gyda graddau amrywiol o annibyniaeth—wedi dod yn eiddil mewn rhyw ffordd ac yn aml iawn wedi cael eu rhuthro i'r ysbyty ar ôl cael codwm. Fel arfer, maent yn llawer mwy tebygol o gyrraedd yr ysbyty fel cludwyr MRSA.

We know that their prognosis and chance of returning to independent living arrangements are significantly reduced by picking up such an infection. But, what can we do? We need to review the housing conditions and environment that cases such as these typically present from. It is again a question of education. Unsuitable bathroom and toilet facilities at home, unmanageable stairs to climb, and often hidden difficulties undertaking personal hygiene tasks are things that a lot of older people might find difficult to talk about until a crisis occurs. Social service and primary care providers should be proactive in assessing the likely living conditions of people who might fall into this category.

Gwyddom fod eu prognosis a'u gobaith o ddychwelyd at drefniadau byw'n annibynnol yn lleihau'n sylweddol drwy ddal haint o'r fath. Ond beth y gallwn ei wneud? Mae angen i ni adolygu cyflwr y tai a'r amgylchedd y bydd achosion fel hyn yn dod ohonynt yn nodweddiadol. Unwaith eto, mae'n ymwneud ag addysg. Mae cyfleusterau ystafelloedd ymolchi a thoiledau anaddas yn y cartref, grisiau na ellir eu dringo, ac anawsterau cudd yn aml wrth gyflawni tasgau hylendid personol i gyd yn bethau y gallai llawer o bobl hŷn ei chael yn anodd siarad amdanynt hyd nes y bydd argyfwng yn digwydd. Dylai gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr gofal sylfaenol fod yn rhagweithiol wrth asesu amodau byw tebygol pobl a allai berthyn i'r categori hwn.

But we also need to look at what actually happens when these people are admitted into hospital. Knowing that the incidence of preoperative MRSA is significantly lower in cases of elective admission, we should consider segregating wards. Screening of elective admissions to hospitals for interventional and surgical procedures—particularly involving implants such as total hip replacements and total knee replacements—should be mandatory.

Ond mae angen i ni edrych hefyd ar yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd pan fo'r bobl hyn yn cael eu derbyn i'r ysbyty. Gan wybod bod nifer yr achosion o MRSA cyn llawdriniaeth yn sylweddol is yn achos cleifion sy'n cael eu derbyn i ysbyty i gael llawdriniaeth ddewisol, dylem ystyried gwahanu wardiau. Dylai fod yn orfodol sgrinio cleifion sy'n cael eu derbyn ar sail ddewisol i gael llawdriniaethau drwy'r croen—yn enwedig rhai sy'n cynnwys mewnblaniadau megis gosod cluniau a phen-gliniau cyfan newydd.

In an unpublished study by my own trauma and orthopaedic service during 2004 and 2005, it was noted that MRSA isolates in 60 per cent females and has an increased incidence between 56 and 95 years, with the maximum falling between 76 and 85 years. In our own series of studies on elective surgery, it transpired that we virtually eliminated MRSA infection in the study period by ensuring robust pre-admission screening with particular emphasis on the highest risk groups, appropriate local treatment and obtaining a series of three negative swabs from the patient just prior to admission for surgery. This shows that there are simple measures that, if adhered to properly, are likely to produce good outcomes in the fight against hospital-acquired infections. Community centres, nursing homes and community health centres should also be regularly monitored as part of a broader prevention strategy, and this should be co-ordinated with hospital-based infection control teams.

Mewn astudiaeth heb ei chyhoeddi gan fy ngwasanaeth trawma ac orthopedeg fy hun yn ystod 2004 a 2005, nodwyd mai menywod yw 60 y cant o'r achosion o MRSA, a gwelir mwy o achosion ymhlith pobl rhwng 56 a 95 oed, gyda'r mwyafrif rhwng 76 ac 85 oed. Yn ein cyfres ein hunain o astudiaethau ar lawdriniaeth ddewisol, daeth yn amlwg ein bod bron â bod wedi dileu haint MRSA yng nghyfnod yr astudiaeth drwy sicrhau sgrinio trylwyr cyn derbyn cleifion gyda phwyslais arbennig ar y grwpiau risg uchaf, triniaeth leol briodol a chael cyfres o dri swab negyddol gan y claf yn union cyn eu derbyn i gael llawdriniaeth. Mae hyn yn dangos bod camau syml yn debygol o gynhyrchu canlyniadau da, os glynir yn briodol atynt, yn y frwydr yn erbyn heintiau a gafwyd yn yr ysbyty. Dylid monitro canolfannau cymunedol, cartrefi nyrsio a chanolfannau iechyd cymunedol yn rheolaidd hefyd yn rhan o strategaeth atal ehangach, a dylid cydlynu hyn â thimau rheoli heintiau mewn ysbytai.

You may have noticed that a common theme today is the truism that prevention is better than cure. Common sense tells us this is correct, and you might not be surprised to learn that the argument extends to the use of antibiotics. We know that there's a problem with the over-prescription of these drugs in our NHS. We know that adequate time for consultations and improved access to GPs for re-evaluation should help, but we also need to look at why, in the twenty-first century, it can still remain unclear what treatment a patient is receiving at any one time. From my own experience, I have encountered wards where some patients have a change of antibiotic type every day, meaning that, in effect, these wards lack a proper antibiotic policy. In many cases, a subnormal dose may be given or a full course not completed, with treatment sheets inconsistent and difficult to read and interpret. There may also be problems in co-ordinating the correct treatment and dosage with pharmacy departments on patient discharge.

Efallai eich bod wedi sylwi ar thema gyffredin heddiw sef yr ystrydeb fod atal yn well na gwella. Mae synnwyr cyffredin yn dweud wrthym fod hyn yn wir, ac efallai na fyddwch yn synnu o glywed bod y ddadl yn ymestyn i gynnwys y defnydd o wrthfiotigau. Gwyddom fod problem gyda gorbresgripsiynu'r cyffuriau hyn yn ein GIG. Gwyddom y dylai rhoi digon o amser ar gyfer ymgynghoriadau a gwell mynediad at feddygon teulu ar gyfer ailwerthuso helpu'r sefyllfa, ond mae angen i ni edrych hefyd ar pam, yn yr unfed ganrif ar hugain, y gall barhau i fod yn aneglur pa driniaeth y mae claf yn ei derbyn ar unrhyw adeg. Yn fy mhrofiad fy hun, rwyf wedi gweld wardiau lle y mae rhai cleifion yn newid o un math o wrthfiotig bob dydd, sy'n golygu, i bob pwrpas, nad oes gan y wardiau hyn bolisi priodol ar wrthfiotigau. Mewn llawer o achosion, rhoddir dos isnormal neu ni chwblheir cwrs llawn, ac mae taflenni triniaeth yn anghyson ac yn anodd eu darllen a'u dehongli. Efallai hefyd y bydd problemau gyda chydgysylltu'r driniaeth a'r dos cywir gydag adrannau fferylliaeth wrth ryddhau cleifion.

This in itself is clearly a huge problem, but misuse of antibiotics in humans is only one part of a bigger problem. We must stop all inappropriate antibiotics, including rampant misuse in livestock. The interaction between humans, drugs and animals within the food chain is a complex one that presents many threats to human health, and this needs careful evaluation. It also tells us that the threat is not limited to MRSA, as further bacteria or viruses could develop a similar resistance in the future. This is not a fantasy from the realms of a Hollywood movie or science-fiction tale. Moreover, it is an issue that the World Health Organization is prioritizing as a major public health threat. In 2013—

Mae hyn ynddo'i hun yn amlwg yn broblem enfawr, ond rhan yn unig o broblem ehangach yw'r camddefnydd o wrthfiotigau mewn pobl. Mae'n rhaid rhoi'r gorau i bob defnydd amhriodol o wrthfiotigau, gan gynnwys y camddefnydd rhemp a wneir arno mewn da byw. Mae'r rhyngweithio rhwng bodau dynol, cyffuriau ac anifeiliaid yn y gadwyn fwyd yn gymhleth ac yn creu llawer o fygythiadau i iechyd pobl, ac mae angen gwerthuso gofalus ar hyn. Mae hefyd yn dweud wrthym nad yw'r bygythiad yn gyfyngedig i MRSA, gan y gallai bacteria neu firysau pellach ddatblygu ymwrthedd tebyg yn y dyfodol. Nid ffantasi o fyd ffilm Hollywood neu stori ffuglen wyddonol yw hyn. Ar ben hynny, mae'n fater y mae Sefydliad Iechyd y Byd yn ei flaenoriaethu fel bygythiad mawr i iechyd y cyhoedd. Yn 2013—

19:03

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could you begin to wind up, please?

A wnewch chi ddechrau dirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

19:03

## Altaf Hussain Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay.

Iawn.

19:03

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you.

Diolch.

19:03 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In 2013, there were nearly half a million new cases of multidrug-resistant tuberculosis. It is therefore very clear that, without proper anti-infective procedures, many standard medical treatments will fail or turn into very high-risk procedures. This, above all, is why prevention must always be seen as better than cure in treating MRSA. We must identify the risks and be pro-active in how we manage them in terms of hygiene and infection control. This applies to all hospital-acquired infections. The same basic principles of prevention are relevant to MRSA as they are to the notorious C. difficile, and indeed many other potentially lethal, drug-resistant infections.

Yn 2013, roedd bron hanner miliwn o achosion newydd o dwbercwlosis ag ymwrthedd amlgyffur. Felly, heb weithdrefnau gwrth-heintus priodol, mae'n glir iawn y bydd llawer o driniaethau meddygol safonol yn methu neu'n troi'n driniaethau risg uchel iawn. Yn anad dim, dyma pam y mae'n rhaid ystyried bod atal bob amser yn well na gwella wrth drin MRSA. Mae'n rhaid i ni nodi'r risgiau a bod yn rhagweithiol yn y ffordd rydym yn eu rheoli o ran hylendid a rheoli heintiau. Mae hyn yn berthnasol i'r holl heintiau a gafwyd yn yr ysbyty. Mae'r un egwyddorion sylfaenol ar gyfer atal MRSA yr un mor berthnasol i C. difficile y clywyd llawer amdano, ac yn wir i lawer o heintiau eraill a allai fod yn angheuol, ac sydd wedi magu ymwrthedd i gyffuriau.

We must kill the bugs, and save the antibiotics to save ourselves—aims that are not mutually—

Mae'n rhaid i ni ladd y bygiau, ac arbed y gwrthfiotigau er mwyn achub ein hunain—nodau nad ydynt yn annibynnol ar ei—

19:04 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you.

Diolch.

19:04 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—exclusive. Thank you.

[Yn parhau.]—gilydd. Diolch.

19:04 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I thank the Member for his kindness in allowing me to contribute? When my mother died in the Prince Philip Hospital in Llanelli a number of years ago, it was only on the opening of her death certificate that we realised that a hospital-acquired infection was one of the causes of her death. I'm very pleased to say that, since that time, we've seen a rapid decline in the number of C. difficile cases in our hospitals, and the Government is to be congratulated, as are health workers who have driven that fall. But we do know there is a close link between C. difficile infections and antibiotic regimes on wards. Very few people come into hospital with a C. difficile infection, but pick it up in hospital. I'd be grateful to hear from the Minister what he's doing to improve antibiotic prescribing and monitoring of that prescribing and those regimes in hospital wards, as a further tool to drive down C. difficile infection.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod am ei garedigrwydd yn caniatáu i mi gyfrannu? Pan fu farw fy mam yn Ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli nifer o flynyddoedd yn ôl, nid oeddem yn sylweddoli nes i ni agor ei thystysgrif marwolaeth mai haint a gafwyd yn yr ysbyty oedd un o'r pethau a achosodd ei marwolaeth. Ers hynny, rwy'n falch iawn o ddweud ein bod wedi gweld gostyngiad cyflym yn nifer yr achosion o C. difficile yn ein hysbytai, ac mae'r Llywodraeth i'w llongyfarch, gyda'r gweithwyr iechyd sydd wedi peri'r gostyngiad. Ond gwyddom fod cysylltiad agos rhwng heintiau C. difficile a gweithdrefnau rhoi gwrthfiotigau ar wardiau. Ychydig iawn o bobl a ddaw i mewn i'r ysbyty gyda haint C. difficile, ond maent yn ei ddal yn yr ysbyty. Byddwn yn ddiolchgar i gael clywed gan y Gweinidog beth y mae'n ei wneud i wella trefniadau presgripsiynu gwrthfiotigau a monitro presgripsiynu o'r fath a'r gweithdrefnau ar wardiau ysbytai, fel arf pellach i gyfyngu ar nifer yr achosion o haint C. difficile.

19:05 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister for Health to reply to the debate, Vaughan Gething.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd i ymateb i'r ddadl, Vaughan Gething.

19:05 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Chair. I'm very pleased to have the opportunity to update Members on the work of NHS Wales and the progress that is being made in tackling this important problem for healthcare services and, of course, for our citizens. The rise in healthcare-associated infections in recent years presents a significant challenge to health systems in Wales and elsewhere in the world, as outlined in Altaf Hussain's opening remarks. As well as the sometimes devastating impacts on often vulnerable, elderly patients and their families, the infections place an additional financial burden on health and social care systems. So, the prevention of healthcare infections is, therefore, a key imperative for any healthcare system and is particularly supported in Wales by the core prudent healthcare principle of 'Do no harm'.

Diolch, Gadeirydd. Rwy'n falch iawn o gael y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith GIG Cymru a'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar fynd i'r afael â'r broblem bwysig hon i wasanaethau gofal iechyd ac wrth gwrs, i'n dinasyddion. Mae'r cynnydd mewn heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y blynyddoedd diwethaf yn her sylweddol i systemau iechyd yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y byd, fel yr amlinellodd Altaf Hussain yn ei sylwadau agoriadol. Yn ogystal â'r effeithiau sydd weithiau'n ddinistriol ar gleifion oedrannus sy'n aml yn fregus, a'u teuluoedd, mae'r heintiau'n creu baich ariannol ychwanegol ar systemau iechyd a gofal cymdeithasol. Felly, mae atal heintiau gofal iechyd yn rheidrwydd allweddol i unrhyw system gofal iechyd a chefnogir hyn yn arbennig yng Nghymru gan yr egwyddor gofal iechyd darbodus craidd, 'Na wna niwed'.

We know that C. difficile is a particularly distressing illness that has received huge attention in Wales—and rightly so—and elsewhere. It can cause severe and sometimes fatal diarrhoea in the elderly and, at the very least, extends their time in hospital considerably. It's often precipitated by excess antibiotic use and can spread from patient to patient if proper infection control procedures are not followed—again, points made by both Kirsty Williams and Altaf Hussain. Again, I'm pleased to report that the rate of C. difficile in Wales has now more than halved over the last five years. So, we have evidence that the rate of improvement continues to increase, with health boards showing up to 50 per cent reductions in the last year alone, but we really cannot be complacent whilst these infections happen at all.

Gwyddom fod C. difficile yn salwch arbennig o drallodus a gafodd sylw aruthrol yng Nghymru—a hynny'n briodol—ac mewn mannau eraill. Gall achosi dolur rhydd difrifol ac angheuol weithiau yn yr henoed ac ar y gorau, mae'n ymestyn hyd eu harhosiad yn yr ysbyty yn sylweddol. Caiff ei brysuro'n aml gan orddefnydd o wrthfiotigau a gall ledaenu o glaf i glaf os na ddilynnir gweithdrefnau rheoli heintiau priodol—unwaith eto, pwyntiau a wnaed gan Kirsty Williams ac Altaf Hussain. Unwaith eto, rwy'n falch o nodi bod cyfraddau C. difficile yng Nghymru bellach wedi mwy na haneru dros y pum mlynedd diwethaf. Felly, mae gennym dystiolaeth fod y gyfradd welliant yn parhau i gynyddu, gyda byrddau iechyd yn dangos hyd at 50 y cant o ostyngiad yn y nifer o achosion dros y flwyddyn ddiwethaf yn unig, ond ni allwn fod yn hunanfodlon tra bo'r heintiau hyn yn digwydd o gwbl.

So, we take a zero-tolerance approach, which means that it is not accepted as a normal part of healthcare and that each case is a service failure that warrants investigation and improvement. I think it's important for Members to understand how this huge improvement has been delivered. It's required a cultural shift in attitudes to hand hygiene, as outlined by Altaf Hussain, throughout the whole NHS, with many clinical areas now entirely bare below the elbow to reduce the risk of infection transmission.

Felly, mae gennym ymagwedd dim goddefgarwch, sy'n golygu nad yw'n cael ei dderbyn fel rhan arferol o ofal iechyd, a bod pob achos yn fethiant ar ran y gwasanaeth sy'n galw am ei ymchwilio ac am welliant. Rwy'n credu ei bod yn bwysig i Aelodau ddeall sut y cyflawnwyd y gwelliant mawr hwn. Mae wedi galw am newid diwylliannol yn agweddau pobl at hylendid dwylo, fel yr amlinellodd Altaf Hussain, ledled y GIG cyfan, gyda llawer o fannau clinigol yn awr yn wag o dan lefel y penelin i leihau'r risg o drosglwyddo heintiau.

The Welsh Government has published a code of practice for infection prevention and control that sets out minimum requirements and standards that NHS organisations are expected to meet to ensure patients are cared for in an environment in which the risk of infection is kept as low as possible. We have an e-learning training module also for care home staff that has also been issued. We've set stretching population-based national expectations for the reduction in the major healthcare-acquired infections, which we will, of course, be updating.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cod ymarfer ar gyfer atal a rheoli heintiau sy'n nodi'r gofynion sylfaenol a'r safonau y disgwylir i sefydliadau GIG eu cyflawni er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal mewn amgylchedd lle y cedwir y risg o haint mor isel ag y bo modd. Hefyd, mae gennym fodiwl hyfforddiant e-ddysgu a gyhoeddwyd gennym ar gyfer staff cartrefi gofal. Rydym wedi gosod disgwyliadau cenedlaethol ymestynnol yn seiliedig ar boblogaeth ar gyfer sicrhau gostyngiad yn nifer yr achosion o'r prif heintiau a geir mewn lleoliadau gofal iechyd a byddwn yn ei ddiweddaru wrth gwrs.

Given that C. difficile often follows the use of antibiotics, new antimicrobial prescribing guidance for secondary care to reduce the risks associated with resistance are being adopted throughout Wales. We already have evidence of change that we need to see more of carried through. An encouraging story is also emerging on antibiotic prescribing in Wales. Welsh primary care prescribing data for the first quarter of this year showed a decrease of nearly 8 per cent in the number of antibiotics prescribed, compared with the first quarter in 2014-15. We're also seeing significant decreases in the prescribing of the three antibiotics associated with increased risks of C. difficile infection. But, as I said, there is always more to do, and it's an issue that regularly gets raised with health board chairs as they go through their appraisal and mid-year appraisal process.

O ystyried bod C. difficile yn aml yn dilyn y defnydd o wrthfiotigau, mae canllawiau newydd ar bresgripsiynu gwrthfiotigau ar gyfer gofal eilaidd er mwyn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ymwrthedd yn cael eu mabwysiadu ledled Cymru. Mae gennym eisoes dystiolaeth o'r newid sydd angen i ni weld rhagor ohono'n cael ei ddatblygu. Mae stori galonogol yn dod i'r amlwg hefyd ar bresgripsiynu gwrthfiotigau yng Nghymru. Dangosodd data presgripsiynu gofal sylfaenol yng Nghymru ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn hon ostyngiad o bron 8 y cant yn nifer y gwrthfiotigau a roddwyd ar bresgripsiwn, o gymharu â chwarter cyntaf 2014-15. Hefyd, gwelwn ostyngiad sylweddol yn lefelau presgripsiynu y tri gwrthfiotig sy'n gysylltiedig â risg gynyddol o haint C. difficile. Ond fel y dywedais, mae yna ragor i'w wneud bob amser, ac mae'n fater sy'n cael ei ddwyn i sylw cadeiryddion byrddau iechyd yn rheolaidd wrth iddynt fynd drwy eu proses arfarnu a gwerthuso canol blwyddyn.

Other work is also being progressed at pace with regard to other forms of healthcare-acquired infections. We've brought a national framework for aseptic procedures aimed at improving patient safety by reducing the risk of infection and introducing standardised procedure packs for the insertion and use of medical devices linked to healthcare-associated infections, such as intravenous and urinary catheters. Decontamination arrangements throughout Wales are subject to regular audit, with necessary action highlighted and overseen by chief executives further reducing any possibility of an infection transmission through healthcare procedures. On top of this, our decontamination improvement plan is shortly to be finalised. This will set out the ever-changing standards and requirements for the processing of medical devices.

Mae gwaith arall hefyd yn symud ymlaen yn gyflym ar fathau eraill o heintiau a gafwyd mewn lleoliadau gofal iechyd. Rydym wedi cyflwyno fframwaith cenedlaethol ar gyfer gweithdrefnau aseptig gyda'r nod o wella diogelwch cleifion drwy leihau'r risg o haint a chyflwyno pecynnau gweithdrefnau safonol ar gyfer mewnosod a defnyddio dyfeisiau meddygol sy'n gysylltiedig â heintiau gofal iechyd, megis cathetrau mewnwythiennol ac wrinol. Mae trefniadau dadheintio ledled Cymru yn destun archwilio rheolaidd, ac amlygir y camau sydd angen eu rhoi ar waith a'u goruchwylio gan brif weithredwyr gan leihau ymhellach unrhyw bosibilrwydd o drosglwyddo heintiau drwy weithdrefnau gofal iechyd. Ar ben hyn, mae ein cynllun ar gyfer gwella trefniadau dadheintio i'w gwblhau'n fuan. Bydd yn nodi'r safonau a'r gofynion sy'n newid yn gyson ar gyfer prosesu dyfeisiau meddygol.

I'd also like to update Members on the important related issue of antibiotic resistance. We know that this poses a huge future threat as there is increasing evidence of bacteria becoming more resistant to widely used antibiotics. We know also that many such prescriptions are unnecessary. Our anti-microbial resistance plan will be published shortly, and a public consultation will seek views about the number of actions it proposes related to optimising anti-microbial prescribing and usage, infection prevention and control, surveillance, education and research. There's something here for the whole profession as well as members of the public to do in helping us to achieve that, in particular public expectations of what they will get in a visit to a healthcare professional in primary or secondary care.

Hefyd, hoffwn roi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau ar fater cysylltiedig pwysig ymwrthedd gwrthfiotig. Gwyddom y bydd hyn yn fygythiad enfawr yn y dyfodol gan fod tystiolaeth gynyddol fod bacteria yn magu mwy o ymwrthedd i wrthfiotigau a ddefnyddir yn eang. Gwyddom hefyd fod llawer o bresgripsiynau o'r fath yn ddiangen. Cyhoeddir ein cynllun ar ymwrthedd gwrthfiotig cyn bo hir, a bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn gofyn barn ar y nifer o gamau gweithredu y mae'n eu hargymell mewn perthynas â sicrhau bod gwrthfiotigau'n cael eu presgripsiynu a'u defnyddio yn y ffordd orau posibl, atal a rheoli heintiau, gwyliadwriaeth, addysg ac ymchwil. Mae rhywbeth yma i'r proffesiwn cyfan yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd ei wneud i'n helpu i gyflawni hynny, yn enwedig disgwyliadau'r cyhoedd o'r hyn y byddant yn ei gael wrth ymweld â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mewn gofal sylfaenol neu eilaidd.

I hope this really will help to raise public awareness of the long-term dangers of seeking and providing antibiotics for so many minor ailments that will resolve rapidly without them. Each priority in the plan is intended to have a direct impact by limiting the development or spread of resistance. It includes refreshed actions against healthcare-associated infections and a group will be established to oversee the implementation of those actions.

Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn helpu'n fawr i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o beryglon hirdymor gofyn am, a darparu gwrthfiotigau at gymaint o fân anhwylderau a fyddai'n datrys yn gyflym hebddynt. Bwriedir i bob blaenoriaeth yn y cynllun gael effaith uniongyrchol drwy gyfyngu ar ddatblygiad neu ledaeniad ymwrthedd. Mae'n cynnwys camau gweithredu wedi'u diweddaru rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a sefydlir grŵp i oruchwylio'r modd y gweithredir y camau hynny.

So we have made progress, very real progress, that's benefitting patients here in Wales. There are significant challenges that still remain, and we could and should expect further progress. Apart from anything else, we know that it's possible to do more and achieve more within our NHS.

Felly, rydym wedi gwneud cynnydd, cynnydd real iawn, er budd cleifion yma yng Nghymru. Mae yna heriau sylweddol o hyd; gallwn a dylem ddisgwyl cynnydd pellach. Yn anad dim arall, gwyddom ei bod yn bosibl gwneud mwy a chyflawni mwy yn ein GIG.

Before finishing, I would like to give Members a heads-up that the snappily titled European Antibiotic Awareness Day is planned for next week on 18 November. As part of this, Welsh health boards and trusts will be encouraging NHS staff and the public to pledge to the antibiotic guardian campaign, alongside other campaigns throughout the UK. I of course will be personally signing the pledge, and I hope that other colleagues here will also find the time to do the same.

Cyn gorffen, hoffwn hysbysu'r Aelodau fod Diwrnod Ewropeaidd Ymwybyddiaeth o Wrthfiotigau, gyda'i enw bachog, wedi'i gynllunio ar gyfer yr wythnos nesaf ar 18 Tachwedd. Yn rhan o hyn, bydd byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd Cymru yn annog staff y GIG a'r cyhoedd i gefnogi'r ymgyrch gwarcheidwad gwrthfiotigau, ochr yn ochr ag ymgyrchoedd eraill ledled y DU. Byddaf yn llofnodi'r addewid yn bersonol, wrth gwrs, ac rwy'n gobeithio y bydd cyd-Aelodau eraill yma hefyd yn dod o hyd i'r amser i wneud yr un peth.

19:12 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. That brings today's proceedings to a close.

Diolch. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 19:12.*

*The meeting ended at 19:12.*